# CYNGOR SIR CEREDIGION

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **6 Chwefror 2024** |
| **Teitl:** | **Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael ynglŷn â Datganiadau Cyfrifon Cyngor Sir Ceredigion ac Awdurdod Harbwr Ceredigion 2022/2023.** |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | **Ystyried y Datganiadau Cyfrifon Cyngor Sir Ceredigion ac Awdurdod Harbwr Ceredigion ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023.** |
| **Er:** | **Gwybodaeth** |
| **Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:** | **Cynghorydd Gareth Davies**<br>**Gwasanaethau Cyllid a Chaffael** |

## 1. CYFLWYNIAD

Cafodd y Datganiad o'r Cyfrifon Awdurdod Harbwr Ceredigion ei baratoi i ateb gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014.

## 2. CYFRIFON

Amgaeir y Datganiadau Cyfrifon Cyngor Sir Ceredigion ac Awdurdod Harbwr Ceredigion ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023 i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ei ystyried.

| | | |
|---|---|---|
| | **Oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os na, esboniwch pam** | Na.<br>Mae'r adroddiad yn ofyniad statudol. |
| **Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:** | ***Crynodeb:*** | |
| | **Hirdymor:** | Amherthnasol |
| | **Cydweithio:** | Amherthnasol |
| | **Cynnwys:** | Amherthnasol |
| | **Atal:** | Amherthnasol |
| | **Integreiddio:** | Amherthnasol |
| **Argymhelliad / Argymhellion:** | **Gofynnir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ystyried y Datganiadau Cyfrifon a rhoi adroddiad i'r Cyngor ar 6 Cwefror 2024.** | |

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

# DATGANIAD
# O'R
# CYFRIFON

am y flwyddyn a oedd
yn diweddu ar
31ain Mawrth 2023
Archwiliwyd

**CYNNWYS**

| | Rhif y Dudalen |
|---|---|
| Adroddiad Naratif | 2 |
| Datganiad o'r Cyfrifoldebau o ran y Datganiad Cyfrifon | 8 |
| Adroddiad yr Archwilydd i Gyngor Sir Ceredigion | 9 |
| **DATGANIADAU ARIANNOL** | |
| Dadansoddiad Gwariant a Chyllido | 13 |
| Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant | 15 |
| Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn | 17 |
| Mantolen | 18 |
| Datganiad Llif Arian | 19 |
| Nodiadau i'r Datganiad Cyfrifon | 20 |
| Datganiad Llywodraethu Blynyddol | 89 |

# ADRODDIAD NARATIF

## *Ynglŷn â Chyngor Sir Ceredigion*

Mae Sir Ceredigion yn ardal sy'n ymestyn dros fwy nag 690 milltir sgwâr o olygfeydd ysblennydd, arfordir dramatig a chymunedau llawn bwrlwm. Yn ddaearyddol mae'r sir yn un o'r rhai mwyaf yng Nghymru gyda phoblogaeth o 71,500 yn ôl cyfrifiad 2021, wedi'i gwasgaru ar hyd a lled y sir a'r prif drefi sef Aberystwyth, Aberteifi, Llanbedr Pont Steffan, Llandysul, Aberaeron a Thregaron.

Mae Ceredigion yn darparu ar gyfer nifer o ddiwydiannau, e.e. amaethyddiaeth, twristiaeth, cwmnïau cynhyrchu bwyd, adwerthu, ymchwil gwyddonol a llawer o fusnesau cynhenid eraill sydd wedi'u lleoli ar draws y Sir. Mae addysg yn chwarae rôl fawr yng Ngheredigion gyda dwy Brifysgol, Coleg Addysg Bellach, 4 ysgol uwchradd, 3 ysgol canol a nifer o ysgolion cynradd.

Mae Cyngor Sir Ceredigion yn awdurdod unedol, a ffurfiwyd ar 1 Ebrill 1996 ac mae'n gyfrifol am ystod eang o wasanaethau a gweithgareddau. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu system "Gabinet" o weinyddu. Bydd y Cabinet cyflawni swyddogaethau Gweithrediaeth ar ran yr Awdurdod.

## *Llywodraethu*

Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol (ar dudalennau 89 i 127) yn amlinellu ymagwedd y Cyngor tuag at sicrhau ei fod yn cynnal system effeithiol o ran llywodraethu corfforaethol a rheolaeth fewnol. Cynhyrchir y datganiad yn dilyn adolygiad o drefniadau llywodraethu'r Cyngor ac mae'n cynnwys cynllun gweithredu i fynd i'r afael ag unrhyw faterion llywodraethu arwyddocaol a nodwyd.

## *Materion a risgiau sy'n effeithio ar y Cyngor*

Isod nodir risgiau corfforaethol y Cyngor, sgôr y risgiau a'u statws CMG [coch (13-25), melyn (6-12), gwyrdd (0-5)] ar ddechrau a diwedd y flwyddyn:

| Risgiau Corfforaethol | Dechrau'r flwyddyn | Diwedd y flwyddyn |
|---|---|---|
| Trefniadau Gwella a Rheoli Perfformiad Corfforaethol | 6/Melyn | - |
| Parhad Busnes ac Argyfyngau Sifil Posibl | 15/Coch | 12/Melyn |
| Cynllun Ariannol Tymor Canolig | 20/Coch | 20/Coch |
| Rhaglen Gydol Oed a Llesiant | 15/Coch | 15/Coch |
| Rheoli Gwybodaeth a Chydnerthedd Seiberddiogelwch | 8/Melyn | 20/Coch |
| Cefnogi Busnesau Bwyd Lleol, Cynnal Diogelwch | 16/Coch | 9/Melyn |
| Diogelu | 15/Coch | 15/Coch |
| COVID-19 | 12/Melyn | 9/Melyn |
| Newid Hinsawdd ac Erydu Arfordirol / Llifogydd | 25/Coch | 25/Coch |
| Clefyd Coed Ynn | 20/Coch | 20/Coch |
| Ffosffadau | 20/Coch | 20/Coch |
| Recriwtio a Chadw | - | 15/Coch |

- **Gwella Corfforaethol a Threfniadau Rheoli Perfformiad** – gyda sgôr risg barhaus o 6 wedi'i gostwng i risg gwasanaeth. Mae'r Cyngor wedi dod dros ei hunanasesiad cyntaf yn llwyddiannus ac mae wedi pennu amcanion llesiant newydd. Mae cynllunio busnes wedi'i ailsefydlu'n llwyddiannus ers Covid ac mae'r bwrdd perfformiad yn cyfarfod yn rheolaidd. Ar ben hynny, cafwyd adborth cadarnhaol ynglŷn â'r trefniadau perfformiad mewn cyfarfod â rheoleiddwyr yn fis Ionawr 2023.
- **Parhad Busnes ac Argyfyngau Sifil Posibl** – mae'r sgôr risg gyffredinol wedi gostwng i 12 gan fod prosesau a strwythurau wedi bod yn eu lle sydd yn ddibynadwy gyda digwyddiadau sylweddol. Mae cynlluniau wrth gefn a threfniadau busnes yn eu lle sy'n rhoi sicrwydd nad oes angen iddo fod ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol.
- **Rheoli Gwybodaeth a Chydnerthedd Seiberddiogelwch** – mae'r sgôr risg wedi cynyddu i 20. Roedd mesurau lliniaru blaenorol yn annigonol i atal risgiau rhag cynyddu. Felly, mae mesurau lliniaru newydd wedi eu rhoi mewn lle er mwyn lleihau'r risg.
- **Cefnogi Busnesau Bwyd Lleol, Cynnal Diogelwch** – mae'r sgôr risg gyffredinol wedi gostwng i 9 wrth i adnoddau diogelu'r cyhoedd gael eu dargyfeirio i glirio'r ôlgroniad ac mae camau lliniaru wedi bod yn llwyddiannus.
- **COVID-19** – mae'r sgôr risg gyffredinol wedi gostwng i 9 gan fod Covid-19 wedi'i isgyfeirio ar lefel genedlaethol.
- **Recriwtio a Chadw** – mae risg newydd wedi'i hychwanegu o ganlyniad i'r methiant i recriwtio mewn nifer o rolau proffesiynol er gwaethaf sawl ymgyrch; a mwy o ddefnydd o staff asiantaeth i gyflawni rolau allweddol â chymwysterau proffesiynol.
- Nid oes dim newidiadau i'r holl sgoriau risg eraill ond mae camau lliniaru wedi'u hadolygu.

## *Strategaeth Ariannol a Dyraniad Adnoddau*

Mae nifer o flynyddoedd heriol o'n blaenau ym maes llywodraeth leol gan fod cyllid cyhoeddus yn parhau i fod yn eithriadol o dynn. Mae hyn yn cael effaith uniongyrchol ar gyllidebau'r Cyngor. Felly, mae hwn yn gyfnod anodd o ran y gyllideb ac o ran darparu gwasanaethau, yn enwedig wrth i ganlyniadau pandemig COVID-19 ar gyllid cyhoeddus ddod yn gliriach. Mae COVID-19 wedi cyfrannu at yr argyfwng costau byw sy'n effeithio ar unigolion. Mae'r Cyngor yn parhau i brofi pwysau digynsail o ran chwyddiant.
Mae tystiolaeth o hyn eisoes o fewn y broses dendro (yn bennaf ar ochr cyfalaf) a chostau refeniw (yn benodol lle mae contractau yn gysylltiedig â chwyddiant). Nid yw codiadau cyflog wedi eu penderfynu eto ar gyfer 2023/24, gan fod bellach tipyn mwy o risg y bydd chwyddiant cyflogau yn fwy na lefelau a nodwyd ar hyn o bryd yn y gyllideb.

Mae strategaeth ariannol tymor canolig y Cyngor wedi'i hadnewyddu'n ddiweddar a bydd yn cael ei chymeradwyo yn ystod mis Medi 2023. Gellir gweld y fersiwn a gymeradwywyd yn 2022 yma.

http://www.ceredigion.gov.uk/eich-cyngor/strategaethau-cynllunio-a-pholisiau/cyllid/strategaeth-ariannol-tymor-canolig/

## *Perfformiad Ariannol - Refeniw*

Y sefyllfa refeniw derfynol yw bod y gyllideb yn dal i fod wedi ei mantoli ar y cyfan, gyda gorwariant bychan o £6k ar sail Cyllideb o £165.8m ar gyfer 2022/23. O ganlyniad bydd y Balansau Cyffredinol yn parhau ar £6.7m, sy’n cyfateb i 3.7% o Gyllideb 23/24 (dal o fewn yr ystod targed o rhwng 3% a 5%).

Mae’r Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd yn cael eu hadolygu’n rheolaidd ac yn cael eu gosod yn ôl y blaenoriaethau, yr ymrwymiadau a’r anghenion posib sy’n codi. Edrychwyd ar hyn ymhellach fel rhan o’r broses Alldro ac mae dadansoddiad llawn o’r Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd i’w weld yn Nodyn 1.8. At ei gilydd, ar ddiwedd y flwyddyn mae’r Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd (heb gynnwys y Balansau Cyffredinol) wedi lleihau o £53.9m i £48.8m (sef 27% o Gyllideb 2023/24). Roedd wastad disgwyl y byddai’r Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd yn mynd i fod ar eu hanterth ar 31/03/22 ac y byddent yn dechrau lleihau wedi hynny, ac y byddai hyn yn digwydd mewn ffordd ofalus ac o dan reolaeth.

Dyma’r materion allweddol sydd wedi cael sylw drwy'r sefyllfa Alldro:

- Neilltuo swm o £1.0m yn y gronfa Creu Cymunedau Iach a Gofalgar ar gyfer cyfnod pontio mewn perthynas â Chartref Gofal Hafan y Waun yn Aberystwyth.
- Mae dyfarniad cyflog cyffredinol y staff ar gyfer 23/24 yn parhau heb ei gwblhau ac mae'r cynnig a gyflwynwyd (sydd wedi'i wrthod gan yr Undebau), yn fwy na’r ddarpariaeth a wnaed yng Nghyllideb 23/24. Felly mae swm wrth gefn pellach wedi'i neilltuo ar gyfer yr elfen hon.
- Mae'r arian sydd ar gael – gan ddefnyddio derbynebau premiwm Treth y Cyngor – ar gyfer y cynllun Tai Cymunedol sydd newydd ei gymeradwyo bellach yn £1.8m ar 31/03/23.
- Mae'r Gronfa Hybu'r Economi, Cefnogi Busnesau a Galluogi Cyflogaeth wedi cynyddu ac yn £8.0m ar 31/03/23.

Mae perfformiad y gyllideb ar gyfer 2022/23 yn parhau i ddangos fod sefyllfa ariannol gyffredinol y Cyngor yn parhau'n gadarnhaol ac yn wydn ac yn cael ei reoli'n ofalus drwy gyfnod ariannol hynod o anodd o hyd. Mae mantolen y Cyngor yn parhau’n gadarn ond serch hynny mae’r rhagolygon yn heriol o hyd (gyda chwyddiant yn parhau yn uchel am fwy o amser nag y disgwyliai economegwyr).

Gellir crynhoi’r sefyllfa ar gyfer 22/23 fel a ganlyn, gydag amrywiad o £6k ar y llinell waelod:

| | **Cyllideb ddiweddaraf 2022/23 £'000** | **Union Wariant 2022/23 £'000** | **Tan/ (Gor) wariant £'000** |
|---|---|---|---|
| **<u>Cyllid</u>** | | | |
| Treth y Cyngor | **(46,424)** | (47,468) | *1,044* |
| Amrywiad o £700k ar gyfer gwarged Treth y Cyngor a gyllidebwyd yng Nghyllideb 22/23 | **-** | 700 | *(700)* |
| NNDR + RSG | **(119,419)** | (119,421) | 2 |
| **Cyfanswm Cyllid** | **(165,843)** | **(166,189)** | ***346*** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cyllideb Reoladwy** | | | |
| Cyllideb Reoladwy Graidd | **165,843** | 166,895 | *(1,052)* |
| Amrywiad o £700k ar gyfer gwarged Treth y Cyngor a gyllidebwyd yng Nghyllideb 22/23 | **-** | (700) | *700* |
| **Cyfanswm Perfformiad y Gyllideb Reoladwy** | **165,843** | **166,195** | ***(352)*** |
| **Sefyllfa Alldro Cyffredinol** | **-** | **6** | ***(6)*** |

Dangosir y sefyllfa derfynol gyffredinol hefyd yn y Dadansoddiad Gwariant a Chyllido ar dudalen 13.

## *Perfformiad Ariannol - Cyfalaf*

| | 2022/23 | 2021/22 |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| Cyllideb Gymeradwy | 35,278 | 22,661 |
| Cyllideb Wariadwy | 33,998 | 22,155 |
| Gwariant Gwirioneddol | 25,704 | 17,522 |
| | **8,294** | **4,633** |

**Cyllideb Gymeradwy** – yw cyfanswm cyllideb y Rhaglen Gyfalaf a gymeradwywyd gan y Cabinet/y Cyngor sy'n cynnwys llinell ar gyfer grantiau cyffredinol nad yw'n Gyllideb Wariadwy. Dyma fecanwaith ar gyfer ychwanegu cynlluniau grant cymeradwy ychwanegol yn ystod y flwyddyn.

**Cyllideb Wariadwy** – yw cyfanswm y cynlluniau cymeradwy o fewn y Rhaglen Gyfalaf nad yw'n cynnwys y llinell ar gyfer grantiau cyffredinol.

| Cyllid Gwariant Cyfalaf: | **2021/22** | **2021/22** |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| Cyllid Cyfalaf Cyffredinol | 4,289 | 1,992 |
| Benthyca â Chymorth | 2,128 | 673 |
| Cronfeydd Darparu'r Dechrau Gorau Mewn Bywyd a Galluogi Pobl o Bob Oed i Ddysgu | 526 | 0 |
| Derbyniadau Cyfalaf | 635 | 299 |
| Refeniw/Cyfraniadau Wrth Gefn - gan gynnwys Cyfalaf Corfforaethol Wrth Gefn | 456 | 127 |
| Arian i'w ad-dalu i LIC (Troi Tai'n Gartrefi a HILS) | 39 | 142 |
| Grantiau | 17,631 | 14,289 |
| | **25,704** | **17,522** |

## *Cronfa Bensiwn Wrth Gefn*

Mae'r Gronfa Bensiwn Wrth Gefn yn esmwytho'r gwahaniaethau amseru sy'n deillio o'r trefniadau gwahanol ar gyfer cyfrifyddu budd-daliadau ôl-gyflogaeth ac ar gyfer ariannu budd-daliadau yn unol â darpariaethau statudol. Mae balans y credyd ar y Gronfa Bensiwn Wrth Gefn o £45m yn dangos gwarged ar sail cyfrifyddu yn yr adnoddau y mae'r Cyngor wedi'u neilltuo i gwrdd â'r budd-daliadau a enillwyd gan weithwyr y gorffennol a'r presennol.

Bu gostyngiad sylweddol yng ngwerth presennol rhwymedigaethau budd-daliadau i £447m ar 31 Mawrth 2023 (£646m ar 31 Mawrth 2022). Mae hyn yn bennaf oherwydd cynnydd yng nghyfradd y disgownt a weithredwyd, sydd fel y pennir gan safonau cyfrifyddu yn gysylltiedig â bondiau corfforaethol sydd â gradd AA.

## *DATGANIADAU CYFRIFYDDU*

Paratowyd y Datganiad Cyfrifon i ddarparu gywbodaeth ar sefyllfa ariannol y Cyngor i etholwyr, trethdalwyr lleol, aelodau'r cyngor ac unrhyw bartïon eraill. Mae'r ddogfen yn rhoi crynodeb o sefyllfa ariannol gyffredinol ar 31 Mawrth 2023 ac yn cynnwys nifer o ddatganiadau cyfrifyddu, sy'n dangos ystod a graddfa gwasanaethau a gweithgareddau'r Cyngor, a hynny mewn termau ariannol. Mae gwahanol adrannau'r Cyngor wedi cydweithredu drwy gadw cofnodion ariannol digonol, rheoli eu cyllidebau a darparu dogfennau priodol. Paratowyd y ddogfen hon i ateb gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (ac fel y nodwyd ymhellach yn Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014) ac mae'n adlewyrchu'n llawn gofynion Cod Ymarfer Cyfrifyddu ar gyfer Awdurdodau yn y Deyrnas Unedig 2022/23 ar gyfer datganiadau cyfrifyddu.

## *DATGANIADAU ARIANNOL CRAIDD*

Mae'r Datganiad Cyfrifon yn cynnwys nifer o Ddatganiadau Cyfrifyddu ac mae'r nodiadau a ganlyn yn esbonio'u pwrpas.

*Dadansoddiad o Wariant ac Ariannu*

Mae'r Dadansoddiad o Wariant ac Ariannu'n dangos sut mae'r gwariant blynyddol yn cael ei ddefnyddio a'i ariannu gan Gynghorau gydag adnoddau (grantiau'r llywodraeth, treth y cyngor a threthi busnes), o'i gymharu â'r adnoddau hynny a ddefnyddir neu a enillir gan Gynghorau yn unol ag arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol. Mae hefyd yn dangos sut mae'r gwariant hwn yn cael ei ddyrannu i wahanol Wasanaethau'r Cyngor, er mwyn iddyn nhw allu gwneud penderfyniadau. Mae'r incwm a'r gwariant sy'n gysylltiedig ag arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol yn cael eu cyflwyno'n llawnach yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

*Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant*

Mae'r datganiad yn dangos cost cyfrifyddu yn ystod y flwyddyn o ddarparu gwasanaethau yn unol ag arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol, yn hytrach na'r swm sydd i'w ariannu o drethi. Mae cynghorau yn codi treth y cyngor er mwyn talu am wariant yn unol â rheoliadau; gall hyn fod yn wahanol i gost cyfrifyddu. Dangosir y sefyllfa drethi yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn.

*Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn*

Mae'r datganiad hwn yn dangos symudiadau yn ystod y flwyddyn parthed y gwahanol gronfeydd wrth gefn sydd gan y Cyngor, ac a ddadansoddir fel 'cronfeydd defnyddiadwy' (h.y. y rhai hynny y gellir eu defnyddio i gyllido gwariant neu ostwng treth y cyngor) a 'chronfeydd wrth gefn aneddfnyddiadwy'. Mae'r Gorged neu'r Diffyg ar y llinell Darparu Gwasanaethau yn dangos gwir gost economaidd darparu gwasanaethau'r Cyngor, dangosir mwy o fanylion yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Mae'r rhain yn wahanol i'r symiau statudol y mae'n ofynnol eu nodi ym Malans y Gronfa Gyffredinol at ddibenion y dreth gyngor. Mae'r Cynnydd/Lleihad cyn Trosglwyddiadau i'r llinell Cronfeydd wrth Gefn a Glustnodwyd yn dangos Balans y

Gronfa Gyffredinol statudol a’r Balans Cyfrif Refeniw Tai cyn unrhyw drosglwyddiadau dewisol i’r cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd neu ohonynt a wnaethpwyd gan y Cyngor.

*Y Fantolen*

Mae’r Fantolen yn dangos gwerth ar ddyddiad y Fantolen, yr asedau a’r ymrwymiadau a gydnabyddir gan y Cyngor. Caiff asedau net y Cyngor (asedau llai ymrwymiadau) eu cyfateb gan yr arian wrth gefn a gedwir gan y Cyngor. Adroddir ar gronfeydd wrth gefn mewn dau gategori. Y categori cyntaf o gronfeydd wrth gefn yw cronfeydd defnyddiadwy h.y. y cronfeydd hynny y gall y Cyngor eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau, yn amodol ar yr angen i gynnal lefel ddarbodus o arian wrth gefn ac unrhyw gyfyngiadau statudol ar eu defnydd (er enghraifft y Gronfa Wrth Gefn Derbynebau Cyfalaf Defnyddiadwy a ellir ond eu defnyddio i gyllido gwariant cyfalaf neu i ad-dalu dyled). Yr ail gategori o gronfeydd wrth gefn yw cronfeydd wrth gefn anefnyddiadwy, h.y. y rhai nad yw’r Cyngor yn medru eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau. Mae’r categori hwn o gronfeydd wrth gefn yn cynnwys cronfeydd sydd yn dal enillion a cholledion na wireddwyd (er enghraifft y Gronfa Wrth Gefn Ailbrisio), lle byddai symiau ond ar gael er mwyn darparu gwasanaethau os gwerthir yr asedau; a bod cronfeydd wrth gefn sydd â gwahaniaeth amseru fel y dangosir yn y llinell Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn ‘Addasiadau rhwng sail cyfrifyddu a sail cyllido o dan reoliadau’.

*Datganiad Llif Arian*

Mae’r Datganiad Llif Ariannol yn dangos y newidiadau mewn arian parod ac eitemau cyfwerth ag arian parod yn ystod y cyfnod adrodd. Mae’r datganiad yn dangos sut mae’r Cyngor yn cynhyrchu ac yn defnyddio arian ac eitemau cyfwerth ag arian parod drwy ddosbarthu llif arian fel gweithgareddau gweithredu, buddsoddi a chyllido gweithgareddau. Mae maint y llif arian net sydd yn deillio o weithgareddau gweithredol yn ddangosydd allweddol o faint o weithgareddau’r Cyngor sydd yn cael eu cyllido drwy drethi ac incwm grant neu gan y rhai sydd yn derbyn gwasanaethau a ddarparir gan y Cyngor. Mae gweithgareddau buddsoddi yn cynrychioli’r graddau y mae llif arian allan wedi eu gwneud o adnoddau a fwriedir i gyfrannu i gyflwyno gwasanaethau gan y Cyngor yn y dyfodol. Mae llif ariannol sydd yn deillio o weithgareddau ariannol yn ddefnyddiol wrth ddarogan hawliadau ar lif ariannol yn y dyfodol drwy ddarparwyr cyfalaf (h.y. benthyciadau) i’r Cyngor.

## *RHAGOR O WYBODAETH*

Mae gan bawb sydd â diddordeb hawl statudol i weld y Cyfrifon, yn ystod arolygiad cyhoeddus, cyn cwblhau’r archwiliad blynyddol. Os oes arnoch angen rhagor o wybodaeth neu esboniad ynglŷn â’r Cyfrifon, cysylltwch â:

**Cyllid a Chaffael**

**E-bost:** df.technicians@ceredigion.gov.uk

Cymraeg

Ysgrifennwch ataf yn Gymraeg neu Saesneg

Please write to me in Welsh or English

## DATGANIAD O'R CYFRIFOLDEBAU O RAN Y DATGANIAD CYFRIFON

### CYFRIFOLDEBAU'R CYNGOR

Mae'n ofynnol bod y Cyngor:

- yn gwneud trefniadau i weinyddu ei faterion ariannol yn briodol ac yn sicrhau bod un o'i swyddogion yn gyfrifol am weinyddu'r materion hynny. Yn y Cyngor hwn, y swyddog hwnnw yw'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael.

- yn rheoli ei faterion er mwyn sicrhau defnydd darbodus, effeithlon ac effeithiol o'i adnoddau a diogelu ei asedau.

- cymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon.

Cadeirydd y Cyngor 06 Chwefror 2024

### CYFRIFOLDEBAU'R SWYDDOG ARWEINIOL CORFFORAETHOL – CYLLID A CHAFFAEL

Mae'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael yn gyfrifol am baratoi Datganiad Cyfrifon y Cyngor yn unol â'r arferion priodol fel y'u nodir yn CIPFA/LASAAC *Cod Arferion ar Gyfrifyddu mewn Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig* ('y Cod').

Wrth baratoi'r Datganiad Cyfrifon hwn, mae'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael:

- wedi dewis polisïau cyfrifyddu addas a'u defnyddio mewn modd cyson;
- wedi gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon a oedd yn rhesymol ac yn ddarbodus;
- wedi cydymffurfio â'r Cod Ymarfer.

Mae'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael hefyd:

- wedi cadw cofnodion cyfrifyddu priodol a chyfredol;
- wedi cymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll ac unrhyw afreoleidd-dra arall.

Rwyf yn ardystio bod Datganiad y Cyfrifon yn cyflwyno darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol y Cyngor ar y dyddiad cyfrifyddu a'i incwm a'i wariant dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023.

Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael 06 Chwefror 2024

# ADRODDIAD YR ARCHWILYDD ANNIBYNNOL O ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU I AELODAU CYNGOR SIR CEREDIGION

## Barn ar ddatganiadau ariannol

Rwyf wedi archwilio datganiadau ariannol Cyngor Sir Ceredigion am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau ariannol Cyngor Sir Ceredigion yn cynnwys y Dadansoddiad Gwariant a Chyllid, y Datganiad Symud mewn Wrth Gefn, y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifeg sylweddol.

Mae'r fframwaith adrodd ariannol sydd wedi'i gymhwyso wrth baratoi yn gyfraith berthnasol a safonau cyfrifyddu rhyngwladol fel y'u dehonglir a'u haddasu gan y Cod Ymarfer ar Gyfrifeg Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2022-23.

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Sir Ceredigion ar 31 Mawrth 2023 ac o'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; a
- wedi eu paratoi'n briodol yn unol â gofynion deddfwriaethol a safonau cyfrifyddu rhyngwladol fel y'u dehonglir a'u haddasu gan y Cod Ymarfer ar Gyfrifeg Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2022-23.

## Sail y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISAs (DU)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol Endidau Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Disgrifir fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yng nghyfrifoldebau'r archwilydd dros archwilio adran datganiadau ariannol fy adroddiad.

Mae fy staff a minnau'n annibynnol ar y Cyngor yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio a gefais yn ddigonol ac yn briodol i roi sail i'm barn.

## Casgliadau'n ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod y defnydd o'r sail gyfredol o gyfrifo wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith rwyf wedi'i gyflawni, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol sy'n ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu gyda'i gilydd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r Cyngor i barhau i fabwysiadu sail gyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o 12 mis o leiaf o'r adeg y mae'r datganiadau ariannol wedi'u hawdurdodi i'w cyhoeddi.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol mewn perthynas â busnes gweithredol yn yr adrannau perthnasol o'r adroddiad hwn.

## Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad blynyddol ac eithrio'r datganiadau ariannol ac adroddiad fy archwilydd ar hynny. Y Swyddog Ariannol Cyfrifol sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall sydd yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, ac eithrio i'r

graddau a nodir fel arall yn benodol yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar hynny.

Fy nghyfrifoldeb i yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn sylweddol anghyson â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gafwyd yn ystod yr archwiliad, neu fel arall mae'n ymddangos ei bod wedi'i chamddatgan yn sylweddol. Os byddaf yn nodi anghysondebau materol o'r fath neu gamddatganiadau materol ymddangosiadol, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os byddaf i, yn seiliedig ar y gwaith rwyf wedi'i gyflawni, yn dod i'r casgliad bod camddatganiad materol o'r wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol i mi adrodd am y ffaith honno.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd yn hyn o beth.

**Barn ar faterion eraill**

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth a gynhwysir yn yr Adroddiad Naratif ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol yn cael eu paratoi ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r Adroddiad Naratif wedi'i baratoi yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifeg Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2022-23; ac
- mae'r wybodaeth a roddir yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol yn cael eu paratoi ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi'i baratoi yn unol â'r canllawiau.

**Materion yr wyf yn adrodd amdanynt drwy eithriad**

Yng ngoleuni gwybodaeth a dealltwriaeth y Cyngor a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi camddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Naratif na'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol, yr wyf yn eu hadrodd i chi, os, yn fy marn i:

- Nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad;
- Nid yw cofnodion cyfrifeg digonol wedi'u cadw, neu ni dderbyniwyd ffurflenni sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad gan ganghennau nad ymwelwyd â hwy gan fy nhîm; neu
- Nid yw'r datganiadau ariannol yn cytuno â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu.

**Cyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol am y datganiadau ariannol**

Fel yr esboniwyd yn llawnach yn y Datganiad Cyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad Cyfrifon a nodir ar dudalen 8, mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am:

- paratoi'r datganiad cyfrifon sy'n rhoi barn wir a theg ac yn cydymffurfio ag arferion priodol;
- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- rheolaethau mewnol fel y mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn penderfynu arnynt yn angenrheidiol er mwyn galluogi paratoi datganiadau cyfrifon sy'n rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad;
- asesu gallu'r Cyngor i barhau fel mater o drefn, datgelu fel y bo'n berthnasol, materion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio sail barhaus cyfrifyddu

oni bai bod y swyddog ariannol cyfrifol yn rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

**Cyfrifoldebau'r Archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol**

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn i. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAs (DU) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau godi o dwyll neu gamgymeriad ac fe'u hystyrir yn ddeunydd os gellid disgwyl yn rhesymol iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn achosion o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau. Rwy'n dylunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau yn cynnwys y canlynol:

- Holi rheolaeth, pennaeth archwilio mewnol y cyngor a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennau ategol sy'n ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau Cyngor Sir Ceredigion sy'n ymwneud â:
  - nodi, gwerthuso a chydymffurfio â deddfau a rheoliadau ac a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;
  - canfod ac ymateb i risgiau twyll ac a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, amheuaeth neu honedig; ac
  - y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau.
- ystyried fel tîm archwilio sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll. Fel rhan o'r drafodaeth hon, nodais botensial ar gyfer twyll wrth bostio cyfnodolion anarferol.
- cael dealltwriaeth o fframwaith awdurdod Cyngor Sir Ceredigion yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoliadol eraill y mae Cyngor Sir Ceredigion yn gweithredu ynddynt, gan ganolbwyntio ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Cyngor Sir Ceredigion.
- Cael dealltwriaeth o berthnasoedd parti cysylltiedig.

Yn ogystal â'r uchod, roedd fy gweithdrefnau i ymateb i risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu'r datganiadau ariannol a phrofion i ddogfennau ategol i asesu cydymffurfiaeth â deddfau a rheoliadau perthnasol a drafodwyd uchod;
- holi rheolwyr, y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a chynghorwyr cyfreithiol ynghylch ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a posibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a'r Cyngor; ac
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll trwy wrthdroi rheolaeth rheolaethau, profi priodoldeb cofnodion cyfnodolion ac addasiadau eraill; asesu a yw'r dyfarniadau a wnaed wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o ragfarn bosibl; a

gwerthuso rhesymeg busnes unrhyw drafodion sylweddol sy'n anarferol neu y tu allan i gwrs busnes arferol.

Fe wnes i hefyd gyfleu deddfau a rheoliadau a nodwyd yn berthnasol a risgiau posibl i dwyll i'r holl dîm archwilio a pharhau i fod yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Mae'r graddau y mae fy ngweithdrefnau'n gallu canfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn cael ei effeithio gan yr anhawster cynhenid wrth ganfod afreoleidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Cyngor Sir Ceredigion, a natur, amseriad a maint y gweithdrefnau archwilio a gyflawnir.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o adroddiad fy archwilydd.

**Cyfrifoldebau archwilydd eraill**

Rwy'n cyfathrebu â'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch cwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwilio sylweddol ymhlith materion eraill, gan gynnwys unrhyw ddiffygion sylweddol mewn rheolaeth fewnol a nodaf yn ystod fy archwiliad.

**Tystysgrif cwblhau archwiliad**

Rwy'n ardystio fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Cyngor Sir Ceredigion yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru
7 Chwefror 2024

1 Cwr y Ddinas
Tyndall Street
Caerdydd
CF10 4BZ

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi ardystio ac adrodd ar y cyfrifon hyn yn y ffurf y cawsant eu drafftio'n wreiddiol. Cyfieithiad o'r fersiwn Saesneg gwreiddiol yw'r fersiwn hwn. Cyngor Sir Ceredigion sydd yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad, nid yr Archwilydd Cyffredinol.

## DADANSODDIAD GWARIANT A CHYLLIDO 2022/2023

| 2022/23 | Alldro | Trosglwyddiadau (i)/o'r Cronfeydd a Glustnodwyd (Nodyn 1.8) | Gwariant Net a godir ar y Gronfa Gyffredinol | Addasiadau rhwng Sail Cyfrifyddu a Sail Cyllido (Nodyn 1.1 & 1.7) | Gwariant Net yn y Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant |
|---|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Ysgolion a Diwylliant | 50,595 | 3,536 | **54,131** | 10,109 | **64,240** |
| Porth Cymorth Cynnar | 4,258 | 0 | **4,258** | 3,345 | **7,603** |
| Cyllid a Chaffael | 17,608 | (695) | **16,913** | (3,750) | **13,163** |
| Gwasanaethau Democrataidd | 4,609 | 170 | **4,779** | 818 | **5,597** |
| Pobl a Threfniadaeth | 2,161 | 41 | **2,202** | 406 | **2,608** |
| Porth Cynnal | 30,252 | 1,286 | **31,538** | 1,041 | **32,579** |
| Porth Gofal | 13,327 | 284 | **13,611** | 3,532 | **17,143** |
| Polisi, Pherfformiad a Amddiffyn y Cyhoedd | 2,167 | (25) | **2,142** | 524 | **2,666** |
| Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol | 18,288 | 2,173 | **20,461** | 5,090 | **25,551** |
| Economi ac Adfywid | 3,752 | 461 | **4,213** | 3,106 | **7,319** |
| Cyswllt Cwsmeriaid | 6,144 | 28 | **6,172** | 1,121 | **7,293** |
| Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu | 1,599 | 125 | **1,724** | 207 | **1,931** |
| Grŵp Arweiniol | 7,253 | (1,648) | **5,605** | 524 | **6,129** |
| Ardollau, Premium Treth y Cyngor a Chronfeydd | 4,882 | (599) | **4,283** | (4,205) | **78** |
| **COST NET GWASANAETHAU** | **166,895** | **5,137** | **172,032** | **21,868** | **193,900** |
| **Incwm a Gwariant Arall** | **(166,889)** | **0** | **(166,889)** | **(8,281)** | **(175,170)** |
| **(Gorged) neu Ddiffyg** | **6** | **5,137** | **5,143** | **13,587** | **18,730** |
| **Balans Agoriadol Gronfa Gyffrinedol** | **(6,720)** | **(53,941)** | **(60,661)** | | |
| **(Gorged) neu Ddiffyg** | **6** | **5,137** | **5,143** | | |
| **Balans Terfynol Gronfa Gyffrinedol** | **(6,714)** | **(48,804)** | **(55,518)** | | |

## DADANSODDIAD GWARIANT A CHYLLIDO 2021/2022

| 2021/2022 | Alldro | Trosglwyddiadau (i)/o'r Cronfeydd a Glustnodwyd (Nodyn 1.8) | Gwariant Net a godir ar y Gronfa Gyffredinol | Addasiadau rhwng Sail Cyfrifyddu a Sail Cyllido (Nodyn 1.1 & 1.7) | Gwariant Net yn y Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant |
|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Ysgolion a Diwylliant | 48,508 | (2,486) | **46,022** | 9,374 | **55,396** |
| Porth Cymorth Cynnar | 3,719 | (125) | **3,594** | 174 | **3,768** |
| Cyllid a Chaffael | 20,004 | (1,996) | **18,008** | (4,972) | **13,036** |
| Gwasanaethau Democrataidd | 4,016 | 0 | **4,016** | 732 | **4,748** |
| Pobl a Threfniadaeth | 2,082 | 0 | **2,082** | 441 | **2,523** |
| Porth Cynnal | 23,632 | (750) | **22,882** | 816 | **23,698** |
| Porth Gofal | 11,595 | (524) | **11,071** | 2,383 | **13,454** |
| Polisi, Pherfformiad a Amddiffyn y Cyhoedd | 2,657 | 0 | **2,657** | 335 | **2,992** |
| Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol | 17,474 | (1,398) | **16,076** | 5,207 | **21,283** |
| Economi ac Adfywid | 3,189 | (59) | **3,130** | 2,810 | **5,940** |
| Cyswllt Cwsmeriaid | 5,705 | (75) | **5,630** | 1,019 | **6,649** |
| Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu | 1,527 | 0 | **1,527** | 195 | **1,722** |
| Grŵp Arweiniol | 5,801 | (4,922) | **879** | 960 | **1,839** |
| Ardollau, Premium Treth y Cyngor a Chronfeydd | 7,145 | (3,073) | **4,072** | (4,072) | **0** |
| **COST NET GWASANAETHAU** | **157,054** | **(15,408)** | **141,646** | **15,402** | **157,048** |
| **Incwm a Gwariant Arall** | **(157,722)** | **0** | **(157,722)** | **(5,944)** | **(163,666)** |
| **(Gorged) neu Ddiffyg** | **(668)** | **(15,408)** | **(16,076)** | **9,458** | **(6,618)** |
| **Balans Agoriadol Gronfa Gyffrinedol** | **(6,052)** | **(38,533)** | **(44,585)** | | |
| **(Gorged) neu Ddiffyg** | **(668)** | **(15,408)** | **(16,076)** | | |
| **Balans Terfynol Gronfa Gyffrinedol** | **(6,720)** | **(53,941)** | **(60,661)** | | |

## DATGANIAD CYNHWYSFAWR O INCWM A GWARIANT (IaG)

| | Nodyn | 2022/23<br>Gwar Gros<br>£'000 | Incwm Gros<br>£'000 | Gwar Net<br>£'000 |
|---|---|---|---|---|
| Ysgolion a Diwylliant | | 91,133 | (26,893) | 64,240 |
| Porth Cymorth Cynnar | | 13,727 | (6,124) | 7,603 |
| Cyllid a Chaffael | | 27,311 | (14,148) | 13,163 |
| Gwasanaethau Democrataidd | | 5,683 | (86) | 5,597 |
| Pobl a Threfniadaeth | | 3,721 | (1,113) | 2,608 |
| Porth Cynnal | | 46,844 | (14,265) | 32,579 |
| Porth Gofal | | 28,111 | (10,968) | 17,143 |
| Polisi, Pherfformiad a Amddiffyn y Cyhoedd | | 4,670 | (2,004) | 2,666 |
| Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol | | 32,513 | (6,962) | 25,551 |
| Economi ac Adfywid | | 14,097 | (6,778) | 7,319 |
| Cyswllt Cwsmeriaid | | 8,132 | (839) | 7,293 |
| Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu | | 1,984 | (53) | 1,931 |
| Grŵp Arweiniol | | 8,195 | (2,066) | 6,129 |
| Ardollau, Premium Treth y Cyngor a Chronfeydd | | 78 | 0 | 78 |
| **COST GWASANAETHAU** | | **286,199** | **(92,299)** | **193,900** |
| Gwariant gweithredol arall | 1.9 | 14,778 | 0 | 14,778 |
| Incwm a gwariant cyllido a buddsoddi | 1.10 | 7,263 | (2,354) | 4,909 |
| Incwm trethi a grantiau amhenodol | 1.11 | 0 | (194,857) | (194,857) |
| **(GORGED) NEU DDIFFYG DARPARU GWASANAETHAU** | | **308,240** | **(289,510)** | **18,730** |
| (Gorged) neu ddiffyg ar ailbrisio Asedau Sefydlog | 1.27 | | | (27,347) |
| Ail-fesur yr atebolrwydd (ased) o ran y buddiannau net a ddiffiniwyd | 1.37 | | | (203,614) |
| **INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR ARALL** | | | | **(230,961)** |
| **CYFANSWM INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR** | | | | **(212,231)** |

## DATGANIAD CYNHWYSFAWR O INCWM A GWARIANT (IaG)

| | | | 2021/22 | |
|---|---|---|---|---|
| | | Gwar Gros | Incwm Gros | Gwar Net |
| | Nodyn | £'000 | £'000 | £'000 |
| Ysgolion a Diwylliant | | 82,576 | (27,180) | 55,396 |
| Porth Cymorth Cynnar | | 9,992 | (6,224) | 3,768 |
| Cyllid a Chaffael | | 27,943 | (14,907) | 13,036 |
| Gwasanaethau Democrataidd | | 5,110 | (362) | 4,748 |
| Pobl a Threfniadaeth | | 3,657 | (1,134) | 2,523 |
| Porth Cynnal | | 38,588 | (14,890) | 23,698 |
| Porth Gofal | | 24,664 | (11,210) | 13,454 |
| Polisi, Pherfformiad a Amddiffyn y Cyhoedd | | 6,291 | (3,299) | 2,992 |
| Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol | | 30,291 | (9,008) | 21,283 |
| Economi ac Adfywid | | 9,436 | (3,496) | 5,940 |
| Cyswllt Cwsmeriaid | | 7,435 | (786) | 6,649 |
| Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu | | 1,782 | (60) | 1,722 |
| Grŵp Arweiniol | | 9,875 | (8,036) | 1,839 |
| **COST GWASANAETHAU** | | **257,640** | **(100,592)** | **157,048** |
| Gwariant gweithredol arall | 1.9 | 13,389 | 0 | 13,389 |
| Incwm a gwariant cyllido a buddsoddi | 1.10 | 8,830 | (794) | 8,036 |
| Incwm trethi a grantiau amhenodol | 1.11 | 0 | (185,091) | (185,091) |
| **(GORGED) NEU DDIFFYG DARPARU GWASANAETHAU** | | **279,859** | **(286,477)** | **(6,618)** |
| (Gorged) neu ddiffyg ar ailbrisio Asedau Sefydlog | 1.28 | | | (32,256) |
| Ail-fesur yr atebolrwydd (ased) o ran y buddiannau net a ddiffiniwyd | 1.38 | | | (38,833) |
| **INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR ARALL** | | | | **(71,089)** |
| **CYFANSWM INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR** | | | | **(77,707)** |

# DATGANIAD SYMUDIAD MEWN CRONFEYDD WRTH GEFN

| 2022/23 | Nodyn | Balans Cronfa Gyffredinol | Cronfeydd a Glustnodwyd | CYFANSWM | Cronfeydd Derbynebion Cyfalaf | Grantiau Cyfalaf Heb eu Cymhwyso | Cyfanswm Cronfeydd Defnyddiadwy | Cronfeydd Anefnyddiadwy | Cyfanswm Cronfeydd y Cyngor |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Balans ar 31/03/22** | | (6,720) | (53,941) | (60,661) | (6,564) | (5,289) | (72,514) | (158,176) | (230,690) |
| (Gorged) neu ddiffyg ar ddarparu gwasanaethau | | 18,730 | 0 | **18,730** | 0 | 0 | **18,730** | 0 | **18,730** |
| Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall | | 0 | 0 | **0** | 0 | 0 | **0** | (230,961) | **(230,961)** |
| **Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | | **18,730** | **0** | **18,730** | **0** | **0** | **18,730** | **(230,961)** | **(212,231)** |
| Addasiadau rhwng sail cyfrifyddu a sail cyllido o dan y rheoliadau | **1.7** | (13,587) | 0 | **(13,587)** | 323 | 1,788 | **(11,476)** | 11,476 | **0** |
| **(Cynnydd)/Gostyngiad cyn Trosglwyddiadau i Gronfeydd wrth Gefn a Glustnodwyd** | | **5,143** | **0** | **5,143** | **323** | **1,788** | **7,254** | **(219,485)** | **(212,231)** |
| Trosglwyddiadau i/(o) Gronfeydd wrth Gefn | **1.8** | (5,137) | 5,137 | **0** | 0 | 0 | **0** | 0 | **0** |
| **(Cynnydd)/Gostyngiad** | | **6** | **5,137** | **5,143** | **323** | **1,788** | **7,254** | **(219,485)** | **(212,231)** |
| **Balans ar 31/03/23** | | **(6,714)** | **(48,804)** | **(55,518)** | **(6,241)** | **(3,501)** | **(65,260)** | **(377,661)** | **(442,921)** |

| 2021/22 | Nodyn | Balans Cronfa Gyffredinol | Cronfeydd a Glustnodwyd | CYFANSWM | Cronfeydd Derbynebion Cyfalaf | Grantiau Cyfalaf Heb eu Cymhwyso | Cyfanswm Cronfeydd Defnyddiadwy | Cronfeydd Anefnyddiadwy | Cyfanswm Cronfeydd y Cyngor |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Balans ar 31/03/21** | | **(6,052)** | **(38,533)** | **(44,585)** | **(6,331)** | **(1,803)** | **(52,719)** | **(100,264)** | **(152,983)** |
| (Gorged) neu ddiffyg ar ddarparu gwasanaethau | | (6,618) | 0 | **(6,618)** | 0 | 0 | **(6,618)** | 0 | **(6,618)** |
| Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall | | 0 | 0 | **0** | 0 | 0 | **0** | (71,089) | **(71,089)** |
| **Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | | **(6,618)** | **0** | **(6,618)** | **0** | **0** | **(6,618)** | **(71,089)** | **(77,707)** |
| Addasiadau rhwng sail cyfrifyddu a sail cyllido o dan y rheoliadau | **1.7** | (9,458) | 0 | **(9,458)** | (233) | (3,486) | **(13,177)** | 13,177 | **0** |
| **(Cynnydd)/Gostyngiad cyn Trosglwyddiadau i Gronfeydd wrth Gefn a Glustnodwyd** | | **(16,076)** | **0** | **(16,076)** | **(233)** | **(3,486)** | **(19,795)** | **(57,912)** | **(77,707)** |
| Trosglwyddiadau i/(o) Gronfeydd wrth Gefn | **1.8** | 15,408 | (15,408) | **0** | 0 | 0 | **0** | 0 | **0** |
| **(Cynnydd)/Gostyngiad** | | **(668)** | **(15,408)** | **(16,076)** | **(233)** | **(3,486)** | **(19,795)** | **(57,912)** | **(77,707)** |
| **Balans ar 31/03/22** | | **(6,720)** | **(53,941)** | **(60,661)** | **(6,564)** | **(5,289)** | **(72,514)** | **(158,176)** | **(230,690)** |

**MANTOLEN**

| | Nodyn | £'000 | 31/03/23 £'000 | 31/03/22 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| **ASEDAU** | | | | |
| Eiddo, Offer a Chyfarpar | 1.13 | 308,702 | | 277,636 |
| Seilwaith | 1.13 | 138,885 | | 135,946 |
| Eiddo ar gyfer Buddsoddi | 1.14 | 18,948 | | 17,368 |
| Asedau Treftadaeth | 1.15 | 3,718 | | 3,522 |
| Dyledwyr Tymor Hir | 1.17 | 4,095 | | 3,961 |
| Asedau Tymor Hir Eraill | 1.37 | 45,020 | | 0 |
| **ASEDAU TYMOR HIR** | | | **519,368** | **438,433** |
| Buddsoddiadau Tymor Byr | 1.18 | 11,626 | | 18,006 |
| Asedau ar gyfer eu Gwerthu | | 470 | | 720 |
| Stocrestrau | | 878 | | 1,245 |
| Dyledwyr Tymor Byr | 1.21 | 36,191 | | 36,660 |
| Darpariaethau | | 42 | | 0 |
| Arian Parod a Chyfatebol | 1.22 | 25,244 | | 32,498 |
| **ASEDAU PRESENNOL** | | | **74,451** | **89,129** |
| **CYFANSWM ASEDAU** | | | **593,819** | **527,562** |
| **RHWYMEDIGAETHAU** | | | | |
| Benthyg Tymor Byr | 1.24 | (1,151) | | (7,818) |
| Credydwyr Tymor Byr | 1.23 | (35,013) | | (32,115) |
| Darpariaethau Tymor Byr | | (251) | | (240) |
| Cyfrif Cyfraniadau Stocrestr | | (367) | | (687) |
| **RHWYMEDIGAETHAU PRESENNOL** | | | **(36,782)** | **(40,860)** |
| Credydwyr Tymor Hir | | (931) | | (808) |
| Benthyg Tymor Hir | 1.24 | (106,903) | | (108,054) |
| Rhwymedigaethau Tymor Hir Eraill | 1.25 | (5,272) | | (145,029) |
| Derbynebion Grantiau Cyfalaf Ymlaen Llaw | | (1,010) | | (2,121) |
| **RHWYMEDIGAETHAU TYMOR HIR** | | | **(114,116)** | **(256,012)** |
| **CYFANSWM RHWYMEDIGAETHAU** | | | **(150,898)** | **(296,872)** |
| **ASEDAU NET** | | | **442,921** | **230,690** |
| Cronfeydd wrth Gefn Defnyddiadwy | 1.26 | (65,260) | | (72,514) |
| Cronfeydd wrth Gefn Anefnyddiadwy | 1.27 | (377,661) | | (158,176) |
| **CYFANSWM CRONFEYDD WRTH GEFN** | | | **(442,921)** | **(230,690)** |

## DATGANIAD LLIF ARIAN

| | Nodyn | | 2022/23 £'000 | Ailosodwyd 2021/22 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| **GWEITHGAREDDAU GWEITHREDU** | | | | |
| **Gorged/(Diffyg) net Darparu Gwasanaethau** | | | **(18,730)** | **6,618** |
| **Trafodion anariannol** | | | | |
| Dibrisiant a Lleihad | | | 13,234 | 9,928 |
| Grantiau Cyfalaf | | | (17,407) | (17,393) |
| Addasiadau Cronfa Bensiwn | | | 19,015 | 17,587 |
| | | | (3,888) | 16,740 |
| **Addasiadau i eitemau a nodir ar wahân o ran Llif Arian** | | | | |
| (Enill)/Colled o werthu Asedau Sefydlog | | | 243 | 44 |
| **Eitemau cronnus** | | | | |
| (Cynnydd)/gostyngiad mewn Stocrestrau | | | 47 | (150) |
| (Cynnydd)/gostyngiad mewn Dyledwyr | | | 39 | (2,828) |
| Cynnydd/(gostyngiad) mewn Credydwyr | | | 2,331 | 8,611 |
| **Mewnlif/(All-lif) Arian Net o Weithgareddau Gweithredu** | 1.28 | | **(1,228)** | **22,417** |
| **GWEITHGAREDDAU BUDDSODDI** | | | | |
| **All-lif Arian** | | | | |
| Prynu asedau sefydlog | | (21,142) | | (12,718) |
| Prynu buddsoddiadau byrdymor | | (46,500) | | (37,514) |
| Taliadau arian cyfalaf arall | | (491) | | (919) |
| | | | (68,133) | (51,151) |
| **Mewnlif Arian** | | | | |
| Gwerthu asedau sefydlog | | 209 | | 302 |
| Grantiau cyfalaf a dderbyniwyd | | 16,304 | | 14,518 |
| Enillion buddsoddiadau hirdymor | | 0 | | 0 |
| Enillion buddsoddiadau byrdymor | | 53,059 | | 23,528 |
| Derbyniadau arian cyfalaf eraill | | 531 | | 1,646 |
| | | | 70,103 | 39,994 |
| **Llif Arian Net o Weithgareddau Buddsoddi** | | | **1,970** | **(11,157)** |
| **GWEITHGAREDDAU ARIANNU** | | | | |
| **All-lif Arian** | | | | |
| Ad-dalu benthyciadau byrdymor a hirdymor | | (7,817) | | (1,083) |
| Taliadau ar gyfer gostwng rhwymedigaethau dyledus yn ymwneud a phrydlesau ariannol ac ar fantolenni contractau Mentrau Cyllid Preifat | | (178) | | (374) |
| | | | (7,995) | (1,457) |
| **Mewnlif Arian** | | | | |
| Benthyciadau newydd a godwyd | | | 0 | 0 |
| **Llif Arian Net o Weithgareddau Ariannu** | | | **(7,995)** | **(1,457)** |
| **CYNNYDD/(GOSTYNGIAD) MEWN ARIAN AC EITEMAU SYDD YN CYFATEB I ARIAN** | | | **(7,253)** | **9,803** |
| **Arian ac Eitemau sydd yn Cyfateb i Arian ar ddechrau'r flwyddyn** | | | **32,498** | **22,695** |
| **Arian ac Eitemau sydd yn Cyfateb i Arian ar ddiwedd y flwyddyn** | 1.22 | | **25,245** | **32,498** |

## NODIADAU I'R DATGANIAD CYFRIFON

### 1.1 NODYN I'R DADANSODDIAD O WARIANT AC ARIANNU

| 2022/23 | Addasiadau at Ddibenion Cyfalaf (Nodyn A) | Newid Net o ran Addasu Pensiynau (Nodyn B) | Gwahaniaethau Eraill (Nodyn C) | Cyfanswm Addasiadau |
|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Ysgolion a Diwylliant | 5,893 | 3,860 | 356 | 10,109 |
| Porth Cymorth Cynnar | 2,058 | 1,309 | (22) | 3,345 |
| Cyllid a Chaffael | 151 | 701 | (4,602) | (3,750) |
| Gwasanaethau Democrataidd | 4 | 822 | (8) | 818 |
| Pobl a Threfniadaeth | 0 | 431 | (25) | 406 |
| Porth Cynnal | 18 | 1,028 | (5) | 1,041 |
| Porth Gofal | 1,538 | 2,179 | (185) | 3,532 |
| Polisi, Pherfformiad a Amddiffyn y Cyhoedd | 8 | 630 | (114) | 524 |
| Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol | 3,196 | 1,864 | 30 | 5,090 |
| Economi ac Adfywid | 812 | 1,114 | 1,180 | 3,106 |
| Cyswllt Cwsmeriaid | 163 | 986 | (28) | 1,121 |
| Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu | 0 | 207 | 0 | 207 |
| Grŵp Arweiniol | 215 | 228 | 81 | 524 |
| Ardollau, Premium Treth y Cyngor a Chronfeydd | 0 | 0 | (4,205) | (4,205) |
| **COST GWASANAETHAU** | **14,056** | **15,359** | **(7,547)** | **21,868** |
| **Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall** | (18,606) | 3,656 | 6,669 | (8,281) |
| **Y gwahaniaeth rhwng y gwarged neu'r diffyg yn y Gronfa Gyffredinol gyda'r Cronfeydd a Glustnodwyd â'r gwarged neu'r diffyg yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwyswyr ar Ddarparu Gwasanaethau** | **(4,550)** | **19,015** | **(878)** | **13,587** |

**NODYN A – Addasiadau at Ddibenion Cyfalaf**
Mae'r golofn hon yn addasu ar gyfer dibrisiant, amhariad, enillion a cholledion yn sgil ailwerthuso, enillion a cholledion gwaredu asedau, grantiau cyfalaf a gwariant cyfalaf a ariannir gyda refeniw.

**NODYN B - Newid Net o ran Addasu Pensiynau**
Mae'r golofn hon yn dangos yr addasiadau sy'n ofynnol i gydymffurfio â Buddiannau Gweithwyr IAS19, sef yn benodol, disodli cyfraniadau pensiwn gweithwyr a wneir gan y Cyngor fel y caniateir yn statudol gyda'r costau gwasanaeth blaenorol a'r costau gwasanaeth presennol, fel y'u cyfrifir gan yr actiwari, gyda'r llog net ar yr atebolrwydd buddiannau a ddiffiniwyd yn cael ei gynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

**NODYN C - Gwahaniaethau Eraill**
Mae'r golofn hon yn cynnwys gwahaniaethau eraill rhwng symiau sydd wedi'u debydu/credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr â'r symiau sydd wedi'u talu/derbyn sydd i'w cydnabod yn statudol. Mae'r rhain yn cynnwys addasiadau i ail-alinio gwariant ac incwm yn unol â'r cod, ac addasiadau mewn perthynas â'r croniad o Absenoldebau Cronedig.

| **2021/22** | **Addasiadau at Ddibenion Cyfalaf (Nodyn A)** | **Newid Net o ran Addasu Pensiynau (Nodyn B)** | **Gwahaniaethau Eraill (Nodyn C)** | **Cyfanswm Addasiadau** |
|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Ysgolion a Diwylliant | 5,600 | 3,452 | 322 | 9,374 |
| Porth Cymorth Cynnar | (989) | 1,101 | 62 | 174 |
| Cyllid a Chaffael | 86 | 679 | (5,737) | (4,972) |
| Gwasanaethau Democrataidd | 11 | 704 | 17 | 732 |
| Pobl a Threfniadaeth | 0 | 412 | 29 | 441 |
| Porth Cynnal | (33) | 985 | (136) | 816 |
| Porth Gofal | 335 | 1,944 | 104 | 2,383 |
| Polisi, Pherfformiad a Amddiffyn y Cyhoedd | 8 | 859 | (532) | 335 |
| Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol | 3,466 | 1,701 | 40 | 5,207 |
| Economi ac Adfywid | 1,053 | 979 | 778 | 2,810 |
| Cyswllt Cwsmeriaid | 87 | 932 | 0 | 1,019 |
| Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu | 0 | 190 | 5 | 195 |
| Grŵp Arweiniol | 582 | 340 | 38 | 960 |
| Ardollau, Premium Treth y Cyngor a Chronfeydd | 0 | 0 | (4,072) | (4,072) |
| **COST GWASANAETHAU** | **10,206** | **14,278** | **(9,082)** | **15,402** |
| **Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall** | (18,043) | 3,309 | 8,790 | (5,944) |
| **Y gwahaniaeth rhwng y gwarged neu'r diffyg yn y Gronfa Gyffredinol gyda'r Cronfeydd a Glustnodwyd â'r gwarged neu'r diffyg yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwyswyr ar Ddarparu Gwasanaethau** | **(7,837)** | **17,587** | **(292)** | **9,458** |

## 1.2 POLISÏAU CYFRIFYDDU

### i. Egwyddorion Cyffredinol

Mae'r Datganiad Cyfrifon yn crynhoi trafodion y Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23 a'i sefyllfa ar ddiwedd blwyddyn 31[ain] o Fawrth 2023. Mae'n ofynnol i'r Cyngor baratoi Datganiad Cyfrifon blynyddol yn ôl y Cyfrifon a Rheoliadau Archwilio (Cymru) 2014, a'r Rheoliadau hynny sydd yn gofyn i'r cyfrifon gael eu paratoi yn unol ag arferion cyfrifyddu priodol. Mae'r arferion hyn yn bennaf yn cynnwys *Cod Ymarfer Cyfrifyddu*

*Awdurdodau Lleol y Deyrnas Unedig 2022/23*, a gefnogir gan y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS).

Mae'r cytundeb cyfrifyddu a fabwysiadwyd yn y Datganiad Cyfrifon yn bennaf gost hanesyddol, a gymhwyswyd drwy ailbrisio categorïau penodol o asedau anghyfredol ac offerynnau ariannol.

**ii. Croniadau o Incwm a Gwariant**

Caiff gweithgaredd ei chyfrifyddu yn y flwyddyn y mae'n digwydd, nid pan fo taliadau ariannol yn cael eu gwneud neu eu derbyn. Yn arbennig:

- Cydnabyddir refeniw o werthu nwyddau pan fydd y Cyngor yn trosglwyddo'r risgiau a buddiannau sylweddol perchnogaeth i'r prynwr ac mae'n debygol fod buddiannau economaidd neu bosibilrwydd y gwasanaeth sydd yn gysylltiedig â'r trafodion yn llifo i'r Cyngor.
- Cydnabyddir refeniw o ddarparu gwasanaethau pan gall y Cyngor fesur canran cwblhau'r trafodion yn ddibynadwy a'i bod yn debygol fod buddiannau neu wasanaeth posibl sydd yn gysylltieidg a'r weithred yn llifo i'r Cyngor.
- Cofnodir cyflenwadau fel gwariant lle defnyddir hwy – lle mae bwlch rhwng y dyddiad y derbynnir cyflenwadau a'u defnyddio, cânt eu cario fel stocrestr ar y Fantolen.
- Cofnodir treuliau yng nghyswllt gwasanaethau a dderbyniwyd (gan gynnwys gwasanaethau a ddarparwyd gan weithwyr) fel gwariant pan dderbynnir gwasanaethau yn hytrach na thaliadau.
- Mae llog a dderbynnir ar fuddsoddiadau ac sydd yn daladwy ar fenthyciadau yn cael ei gyfrifyddu fel incwm a gwariant ar sail graddfa llog effeithiol ar gyfer yr offeryn ariannol perthnasol yn hytrach na llifiadau arian sefydlog neu a benderfynwyd gan gontract.
- Lle cydnabuwyd refeniw a gwariant ond na dderbyniwyd ac na thalwyd arian parod, bydd dyledwr neu gredydwr am y swm perthnasol yn cael ei gofnodi yn y Fantolen. Lle nad yw dyledion yn cael eu setlo, mae balans y dyledwyr yn cael eu cynnwys a chodir tâl ar refeniw ar gyfer yr incwm na fydd efallai yn cael ei gasglu.

Yr unig eithriad i hyn yw rhai taliadau cyson lle codir nifer y taliadau bob blwyddyn yn erbyn y cyfrifon refeniw. Mae'r polisi hwn yn cael ei gymhwyso yn gyson bob blwyddyn ac nid yw'n cael effaith sylweddol ar Gyfrifon y flwyddyn.

**iii. Arian ac eitemau Cyfwerth ag Arian**

Cynrychiolir arian gan arian mewn llaw ac adneuon gan sefydliadau ariannol sydd yn ad-daladwy heb gosb ar rybudd o nid mwy na 24 awr. Eitemau cyfwerth ag arian yw buddsoddiadau sydd yn aeddfedu o fewn tri mis neu lai o ddyddiad eu cael ac y medrir eu newid yn hawdd i symiau y gwyddys amdanynt o arian gyda risg ansylweddol o newid mewn gwerth. Dangosir arian ac eitemau cyfwerth ag arian yn net o orddrafftiau banc.

**iv. Eitemau Eithriedig**

Pan fo eitemau o incwm a gwariant yn sylweddol, caiff eu natur a'u swm ei ddatgelu ar wahân, naill ai ar wyneb y Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant neu yn y nodiadau i'r cyfrifon, yn ddibynnol ar ba mor arwyddocaol yw'r eitemau i ddeall perfformiad ariannol y Cyngor. Bydd trafodion sy'n ymwneud â COVID-19 yn cael eu cynnwys yn nodiadau'r cyfrifon.

**v. Addasiadau'r Cyfnod Blaenorol, Newidiadau mewn Polisïau Cyfrifyddu ac Amcangyfrifon a Chamgymeriadau**

Gall addasiadau'r cyfnod blaenorol ddeillio o ganlyniad i newid mewn polisïau cyfrifyddu neu gywiro camgymeriad sylweddol. Cyfrifir newidiadau mewn amcangyfrifon cyfrifyddu yn y dyfodol, h.y. yn y blynyddoedd cyfredol ac yn y dyfodol a effeithir gan y newid ac nid yw'n golygu addasiad cyfnod blaenorol.

Caiff newidiadau i bolisïau cyfrifyddu eu gwneud ond pan fo hynny'n ofynnol gan arferion cyfrifyddu priodol neu fod y newid yn darparu gwybodaeth fwy dibynadwy neu berthnasol ynglŷn ag effaith y trafodion, digwyddiadau ac amodau eraill parthed sefyllfa ariannol y Cyngor neu berfformiad ariannol. Lle gwneir newid, caiff ei gymhwyso yn adolygol (oni nodir fel arall) drwy gymhwyso balansau agoriadol a symiau cymharol cyn y cyfnod blaenorol fel petai'r polisi newydd wedi ei gymhwyso.

Caiff camgymeriadau sylweddol a ddarganfyddir mewn ffigurau cyfnod blaenorol eu hunioni yn adolygol drwy newid balansau agoriadol a symiau cymharol am y cyfnod blaenorol.

**vi. Taliadau i Refeniw am Asedau Anghyfredol**

Caiff gwasanaethau a gwasanaethau cefnogi eu debydu â'r symiau er mwyn cofnodi cost dal asedau yn ystod y flwyddyn:

- dibrisio a briodolir i'r asedau a ddefnyddir gan y gwasanaeth perthnasol
- ailbrisio a cholledion diffygion ar asedau a ddefnyddir gan y gwasanaeth perthnasol lle nad oes enillion cronedig yn y Gronfa Ailbrisio y gellir dileu colledion yn ei erbyn

Nid yw'n ofynnol i'r Cyngor godi treth y cyngor er mwyn talu am ddibrisio, ailbrisio a cholledion neu amorteiddiadau. Fodd bynnag, mae angen gwneud darpariaeth flynyddol o'r refeniw er mwyn cyfrannu tuag at leihau benthyciad cyfan i gyfateb i swm a amcangyfrifir ar sail ddarbodus a benderfynir gan y Cyngor yn unol â chanllawiau statudol. Caiff dibrisio, ailbrisio a cholledion neu amorteiddiadau felly eu disodli gan leiafswm y ddarpariaeth refeniw yn y Balans Cronfa Gyffredinol, drwy gymhwyso trafodion gyda'r Cyfrif Addasu Cyfalaf (a gynhwysir yn y Cronfeydd Anefnyddiadwy) yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn ar gyfer y gwahaniaeth rhwng y ddau.

**vii. Buddiannau Gweithwyr**

**Buddiannau sydd yn Daladwy yn ystod Cyflogaeth**

Buddiannau gweithwyr tymor byr yw'r buddiannau hynny sydd i gael eu setlo o fewn 12 mis i ddiwedd y flwyddyn. Maent yn cynnwys y cyfryw fuddiannau megis cyflogau misol, cyflogau wythnosol, gwyliau gyda thâl a chyfnodau o salwch gyda thâl ar gyfer gweithwyr a gyflogir ar hyn o bryd ac a gydnabyddir fel treuliau i wasanaethau yn y flwyddyn y mae gweithwyr yn cynnal gwasanaeth i'r Cyngor. Gwneir croniad ar gyfer cost teilyngdod gwyliau a gwyliau hyblyg nad yw gweithwyr wedi eu cymryd cyn diwedd y flwyddyn ac y gall gweithwyr eu cario ymlaen i'r flwyddyn ariannol nesaf. Gwneir y croniad hwn ar raddfeydd cyflogau wythnosol a misol sydd yn gymwys yn y flwyddyn cyfrifyddu. Mae'r croniad hwn yn cael ei godi yn erbyn y Gorged neu Ddiffyg ar y Darparu Gwasanaethau, ond yna caiff ei roi drwy'r Symudiad yn y Datganiad Cronfeydd wrth Gefn fel bo buddiannau gwyliau yn cael eu codi ar refeniw yn y flwyddyn ariannol pan fydd yr absenoldeb gwyliau yn enilledig.

**Buddiannau Terfynu Swydd**

Buddiannau terfynu swydd yw'r symiau sydd yn daladwy o ganlyniad i benderfyniad gan y Cyngor i derfynu cyflogaeth gweithiwr cyn y dyddiad ymddeol arferol neu benderfyniad swyddog i dderbyn diswyddiad gwirfoddol. Codir y cyfryw symiau ar sail

croniadau i'r Gorged neu Ddiffyg ar y Darparu Gwasanaethau pan fo'r Cyngor wedi ymrwymo yn eglur i derfynu cyflogaeth swyddog, neu grŵp o swyddogion, neu wneud cynnig i annog diswyddiadau gwirfoddol.

**Buddiannau Ôl Gyflogaeth**

Mae gweithwyr y Cyngor yn aelodau o ddau gynllun pensiwn ar wahân:

- Y Cynllun Pensiwn Athrawon, a weinyddir gan Bensiynau Athrawon Capita ar ran Adran Addysg ar gyfer Llywodraeth San Steffan.
- Y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, a weinyddir gan Gyngor Sir Caerfyrddin (ac y cyfeirir ato fel Cronfa Bensiwn Dyfed).

Mae'r ddau gynllun yn darparu buddiannau pendant i aelodau (swm crynswth ar ymddeol a phensiwn), ac maent wedi eu hennill wrth weithio i'r Cyngor. Fodd bynnag, golyga trefniadau cynllun yr athrawon nad oes modd i'r Cyngor gael gwybod am atebolrwydd y buddion hyn. Felly, rhoddir cyfrif am y cynllun fel pe bai'n gynllun cyfraniadau diffiniedig - ni chydnabyddir atebolrwydd dros daliadau at y dyfodol yn y Fantolen. Codir ar linell Addysg a Phlant yn y Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant gyda chyfraniadau'r cyflogwr yn daladwy i Gynllun Pensiynau Athrawon yn ystod y flwyddyn.

<u>Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol</u>

Mae'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn cael ei gyfrif amdano fel cynllun buddion diffiniedig:

- Asedau/rhwymedigaethau a chostau gwasanaeth Cronfa Bensiwn Dyfed y gellir eu priodoli i'r Cyngor wedi'u cynnwys yn y fantolen ar sail actiwaraidd gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau. Y nod o dan y dull hwn yw codi treuliau ar gyfer buddion pob cyfranogwr o dan y gronfa fel y byddent yn cronni, gan ystyried cynnydd mewn digolledu a fformiwla dyrannu buddion y gronfa yn y dyfodol. Felly mae'r cyfanswm pensiwn y mae pob cyfranogwr yn disgwyl ei hawlio adeg ymddeol wedi'i rannu'n unedau, pob un wedi'i chysylltu â blwyddyn o wasanaeth wedi'i chredydu yn y gorffennol neu'r dyfodol.
- Yr ymrwymiad budd yw cyfanswm gwerth presennol buddion unigolion y gellir eu priodoli at ddibenion prisio ar y dyddiad mesur, a'r gost gwasanaeth yw cyfanswm gwerth presennol buddion yr unigolion y gellir eu priodoli i wasanaeth yn ystod y flwyddyn.
- Caiff rhwymedigaethau eu disgowntio hyd at eu gwerth yn ôl prisiau cyfredol, gan ddefnyddio cyfradd ddisgowntio o 4.8%.
- Mae asedau Cronfa Bensiwn Dyfed y gellir eu priodoli i'r Cyngor wedi'u cynnwys yn y fantolen yn ôl eu gwerth teg:
    - gwarantau heb eu dyfynnu - pris bidio cyfredol
    - gwarantau heb eu dyfynnu - amcangyfrif proffesiynol
    - gwarantau cyfun - pris bidio cyfredol
    - eiddo - gwerth y farchnad
- Caiff y newid yng nghost pensiynau net ei ddadansoddi yn ôl y cydrannau canlynol:
  - Cost y gwasanaeth gan gynnwys:
    - cost gyfredol y gwasanaeth - y cynnydd yn y rhwymedigaethau o ganlyniad i'r blynyddoedd o wasanaeth a enillwyd y flwyddyn hon - wedi'i dyrannu yn y Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant i wasanaethau y bu'r gweithwyr yn gweithio iddynt
    - cost flaenorol y gwasanaeth - y cynnydd yn y rhwymedigaethau sy'n codi o benderfyniadau'r flwyddyn gyfredol y mae eu heffaith yn cyfeirio at

flynyddoedd o wasanaeth a enillwyd mewn blynyddoedd blaenorol - wedi'i debydu i'r Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau yn y Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant fel rhan o'r Gwasanaeth Cyllid

- Ailfesuriadau gan gynnwys:
  - yr enillion disgwyliedig ar asedau - ac eithrio symiau wedi'u cynnwys yn y llog net ar y rhwymedigaeth budd diffiniedig net (ased) - wedi'u debydu i'r Gronfa Bensiwn Wrth Gefn fel Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall
  - enillion a cholledion actiwaraidd - newidiadau yn y rhwymedigaeth pensiynau net sy'n codi oherwydd nid yw pethau wedi digwydd yn unol â'r rhagdybiaethau a wnaed yn y prisiad actiwaraidd diwethaf neu oherwydd bod yr actiwariaid wedi diweddaru eu rhagdybiaethau - wedi'u debydu i'r Gronfa Bensiwn Wrth Gefn fel Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall
  - cyfraniadau a dalwyd i Gronfa Bensiwn Dyfed - arian a dalwyd fel cyfraniadau'r cyflogwr at y gronfa bensiwn i setlo rhwymedigaethau; ni chyfrifir y rhain fel treuliau.

Yng nghyswllt buddiannau ymddeoliad, mae darpariaethau statudol yn ei gwneud hi’n ofynnol i godi ar Falans y Gronfa Gyffredinol y symiau sydd yn daladwy gan y Cyngor i’r gronfa bensiwn neu yn uniongyrchol i bensiynwyr yn ystod y flwyddyn, nid y maint yr amcangyfrifir yn unol â’r safonau cyfrifyddu perthnasol. Yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn, mae hyn yn golygu bod dyraniadau i’r Gronfa Bensiwn ac ohoni er mwyn symud y debydau a’r credydau tybiannol ar gyfer buddiannau ymddeoliad a rhoi yn eu lle ddebydau ar gyfer yr arian a delir i’r gronfa bensiwn a phensiynwyr ac unrhyw gyfryw symiau taladwy ond nas talwyd ar ddiwedd y flwyddyn. Mae’r balans sydd yn deillio ar y Gronfa Bensiynau wrth Gefn felly yn mesur effaith y Gronfa Gyffredinol o’r gofyniad i gyfrif am fuddiannau ymddeoliad ar sail llif arian yn hytrach na buddiannau a enillir gan weithwyr.

<u>Buddion Dewisol</u>
Mae gan y Cyngor bwerau cyfyngedig i roi buddion ymddeoliad dewisol os yw staff yn ymddeol yn gynnar. Caiff pob rhwymedigaeth y tybir ei bod yn codi o ganlyniad i ddyfarniad a roddir i unrhyw aelod staff (gan gynnwys athrawon) ei gronni yn ystod y flwyddyn y penderfynwyd rhoi’r dyfarniad a rhoddir cyfrif amdano gan ddefnyddio’r un polisïau ag a ddefnyddir o ran y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

**viii. Digwyddiadau Ar Ôl Dyddiad y Fantolen**
Digwyddiadau ar ôl dyddiad y Fantolen yw’r digwyddiadau hynny, ffafriol ac anffafriol, sydd yn digwydd rhwng diwedd y cyfnod adrodd a’r dyddiad pan fydd y Datganiad Cyfrifon yn cael ei awdurdodi i’w gyhoeddi. Gellir nodi dau fath o ddigwyddiad:

- y rhai hynny sydd yn rhoi tystiolaeth o amodau a oedd yn bresennol ar ddiwedd y cyfnod adrodd – addasir y Datganiad Cyfrifon er mwyn adlewyrchu’r cyfryw ddigwyddiadau.
- y rhai hynny sydd yn ddangosol o amodau a oedd yn deillio ar ôl y cyfnod adrodd - nid yw’r Datganiad Cyfrifon yn cael ei addasu i adlewyrchu’r cyfryw ddigwyddiadau, ond lle byddai gan gategori o ddigwyddiadau effaith sylweddol, datgelir yn y nodiadau natur y digwyddiadau a’u heffaith ariannol amcangyfrifiedig.

Nid yw digwyddiadau sydd yn digwydd ar ôl dyddiad yr awdurdodi ar gyfer cyhoeddi yn cael ei adlewyrchu yn y Datganiad Cyfrifon.

**ix. Mesur Gwerth Teg**
Mae'r Cyngor yn mesur rhai o'i asedau anariannol megis asedau dros ben ac eiddo buddsoddi yn unol â'u gwerth teg ar bob dyddiad adrodd. Gwerth teg yw'r pris a fyddai'n cael ei sicrhau wrth werthu ased mewn trafodiad cyson rhwng cyfranogwyr y

farchnad ar y dyddiad mesur. Mae'r mesur gwerth teg yn cymryd bod y trafodiad i werthu'r ased yn cael ei gynnal naill ai:

- yn y brif farchnad ar gyfer yr ased
- yn absenoldeb prif farchnad, yn y farchnad fwyaf fanteisiol i'r ased (defnydd uchaf a gorau)

Mae'r Cyngor yn defnyddio technegau prisio sy'n briodol ar gyfer yr amgylchiadau ac y mae data digonol ar gael ar eu cyfer, gan fanteisio i'r eithaf ar y defnydd o fewnbynnau sylwadwy perthnasol, a lleihau'r defnydd o fewnbynnau ansylwadwy gymaint ag y bo modd.

Caiff mewnbynnau i'r technegau prisio mewn perthynas ag asedau neu rwymedigaethau y mesurir neu y datgelir gwerth teg yn y cyfrifon, eu categoreiddio o fewn yr hierarchaeth gwerth teg, fel a ganlyn:

- Lefel 1 – prisiau a ddyfynnwyd (heb eu haddasu) mewn marchnadoedd gweithredol ar gyfer asedau neu rwymedigaethau yr un fath y mae modd i'r Cyngor fanteisio arnynt ar y dyddiad mesur
- Lefel 2 – mewnbynnau ac eithrio prisiau a ddyfynnwyd sy'n cael eu cynnwys yn Lefel 1, y maent yn sylwadwy ar gyfer yr ased neu'r rhwymedigaeth, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol
- Lefel 3 – mewnbynnau ansylwadwy ar gyfer yr ased neu'r rhwymedigaeth

**x. Offerynnau Ariannol**

**Rhwymedigaethau Ariannol**

Caiff rhwymedigaethau ariannol eu cydnabod yn y Fantolen pan fo’r Cyngor yn barti i ddarpariaethau cytundebol offeryn ariannol a mesurir hwy i gychwyn yn ôl eu gwerth teg a’u cario yn ôl eu cost amorteiddiedig. Bydd y ffioedd blynyddol ar y llinell Gwariant ac Incwm Cyllido a Buddsoddi ar gyfer llog sydd yn daladwy yn seiliedig ar faint fydd gwerth y rhwymedigaeth, wedi ei luosogi â chyfradd y llog ar y pryd ar gyfer yr offeryn dan sylw. Y raddfa llog effeithiol yw’r raddfa sydd yn disgowntio taliadau arian parod amcangyfrifiedig yn y dyfodol dros oes yr offeryn i’r swm y cafodd ei gydnabod yn wreiddiol.

Ar gyfer y mwyafrif o fenthyciadau sydd gan y Cyngor, golyga hyn mai’r prifswm sy’n ddyledus ac sydd yn daladwy (a’r llog cronnus) a’r llog a godir ar y Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant yw’r swm sydd yn daladwy am y flwyddyn yn unol â’r cytundeb benthyg.

Caiff unrhyw enillion neu ddyledion sy’n deillio o dalu benthyciadau yn ôl yn gynnar eu credydu neu’u debydu i’r Gwariant ac Incwm Cyllido a Buddsoddi yn y Datganiad Cynhwysfawr Gwariant ac Incwm yn y flwyddyn y caiff y benthyciad ei dalu neu’i ail-brynu. Fodd bynnag, mewn achosion lle ail-brynir benthyciadau fel rhan o ailstrwythuro’r portffolio benthyciadau, sy’n golygu diwygio neu gyfnewid yr offerynnau cyfredol, caiff y premiwm neu’r disgownt naill ai ei dynnu allan o gost amorteiddiedig y benthyciad newydd neu ddiwygiedig neu ei ychwanegu ati. Caiff y gostyngiad i’r Datganiad Cynhwysfawr Gwariant ac Incwm ei estyn dros oes y benthyciad drwy addasu’r gyfradd llog sydd ar waith.

Mewn achosion lle y codir premiymau neu ostyngiadau yn y Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant, mae rheoliadau’n caniatáu i’r effaith ar Falans y Gronfa Gyffredinol gael ei ledu dros y blynyddoedd sydd i ddod. Pan geir premiymau neu ostyngiadau sy’n cwrdd yn ffurfiol ag ymarfer ailstrwythuro dyled, fe’u cyfrifir fel addasiad i’r swm sydd i’w gario o’r benthyciad neu fenthyciadau amnewid. Os nad ydyn nhw’n cwrdd â’r telerau hyn, cânt eu gwasgaru dros y cyfnod hiraf sy’n weddill ar y benthyciad amnewid,

neu gyfnod y benthyciad amnewid (premiymau) neu'r cyfnod sydd dros ben ar y benthyciad a amnewidiwyd hyd at uchafswm o ddeng mlynedd (gostyngiadau). Rheolir y camau i gysoni'r symiau a godwyd ar y Datganiad Cynhwysfawr Gwariant ac Incwm â'r ffioedd net sy'n ofynnol yn erbyn Balans y Gronfa Gyffredinol drwy drosglwyddo arian i'r Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol neu ohono yn y Datganiad o Symudiadau ar Gronfeydd Wrth Gefn.

Mae'r modd y caiff gwerth teg ei gyfrif yn seiliedig ar y gyfradd fenthyca gymeradwy newydd ar gyfer yr union offeryn ariannol oddi wrth fenthycwyr tebyg. Deliwyd yn yr un modd ag asedau ac unrhyw rwymedigaethau.

**Asedau Ariannol**

Dosberthir asedau ariannol yn seiliedig ar ddull dosbarthu a mesur sy'n adlewyrchu'r model busnes ar gyfer dal yr asedau ariannol a'u nodweddion llif arian. Mae tri phrif ddosbarth o asedau ariannol sy'n cael eu mesur:

- Cost wedi'i hamorteiddio
- Gwerth teg drwy elw neu golled; a
- Gwerth teg drwy incwm cynhwysfawr arall

Model busnes y Cyngor yw cynnal buddsoddiadau i gasglu llifau arian parod cytundebol. Felly dosberthir asedau ariannol fel cost wedi'i hamorteiddio, ac eithrio'r rhai nad yw eu taliadau cytundebol yn talu prif swm a llog yn unig (h.y. lle nad yw'r llifau arian parod ar ffurf offeryn dyled sylfaenol).

**Asedau Ariannol wedi'u mesur ar gost wedi'i hamorteiddio**

Caiff asedau ariannol wedi'u mesur ar gost wedi'i hamorteiddio eu cydnabod ar y Fantolen pan fo'r Cyngor yn barti i ddarpariaethau cytundebol offeryn ariannol a mesurir hwy yn ôl gwerth teg. Mesurir hwy wedyn yn ôl eu cost amorteiddiedig. Seilir credydau blynyddol i'r llinell Cyllido a Buddsoddi Incwm a Gwariant yn y Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant am y llog sydd yn dderbyniadwy ar faint fydd gwerth yr ased, wedi ei luosogi â chyfradd y llog ar y pryd ar gyfer yr offeryn dan sylw. O ran mwyafrif yr offerynnau ariannol a ddelir gan y Cyngor, golyga hyn taw'r swm a gyflwynir yn y Fantolen yw'r prifswm sy'n weddill ac sydd i'w dderbyn (a llog cronedig), a'r llog a delir i'r Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant yw'r swm a dderbynnir ar gyfer y flwyddyn yn y cytundeb benthyca.

Mae'r Cyngor yn cydnabod colledion credyd disgwyliedig ar ei asedau ariannol a ddelir ar gost wedi'i hamorteiddio. Mewn achosion lle nodir asedau fel rhai diffygiol yng ngoleuni sefyllfa sy'n codi o ddigwyddiad yn y gorffennol lle na chaiff taliadau eu gwneud o dan y contract, caiff yr ased ei ddibrisio a chodir taliad yn erbyn y llinell Cyllido a Buddsoddi Incwm a Gwariant yn y Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant.

Caiff unrhyw enillion a cholledion yn sgil gwaredu'r ased eu credydu neu eu debydu i'r llinell Cyllido a Buddsoddi Incwm a Gwariant yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

**xi. Grantiau a Chyfraniadau'r Llywodraeth**

Os telir drwy gyfrif, drwy randaliadau, neu ar ffurf ôl-daliadau, cydnabyddir grantiau'r llywodraeth a chyfraniadau trydydd parti (gan gynnwys rhoddion) fel dyladwy i'r Cyngor pan fo sicrwydd rhesymol bod:

- y Cyngor yn cydymffurfio a'r amodau sydd ynghlwm i'r taliadau, a'r
- grantiau neu'r cyfraniadau yn cael eu derbyn.

Ni chaiff symiau a gydnabyddir fel rhai sydd yn daladwy i'r Cyngor eu credydu i'r Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant hyd y bodlonir amodau sydd ynghlwm wrth y grant neu'r cyfraniad. Amodau yw'r gofynion sydd yn nodi y bydd buddiannau economaidd yn y dyfodol neu wasanaeth posibl a ymgorfforir yn yr ased a geir drwy ddefnyddio grant neu gyfraniad, i fod er lles y derbynnydd fel y nodir, neu fuddiannau economaidd yn y dyfodol neu wasanaeth bosibl i'w ddychwelyd i'r sawl sydd yn ei drosglwyddo.

Caiff arian a roddir ymlaen llaw ar ffurf grantiau a chyfraniadau a nas bodlonwyd yr amodau, eu cario yn y Fantolen fel credydwyr. Pan fodlonir amodau, credydir y grant neu'r cyfraniad i'r llinell gwasanaeth perthnasol (grantiau a chyfraniadau refeniw a briodolir) neu Drethiant ac Incwm Grant heb fod yn benodol (grantiau refeniw heb eu clustnodi a phob grant cyfalaf) yn y Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant.

Lle credydir grantiau cyfalaf i'r Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant, maent yn cael eu rifyrsio o'r Balans Cronfa Gyffredinol yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn. Lle bo grant heb ei ddefnyddio eto i gyllido gwariant cyfalaf, caiff ei roi yn y gronfa Grantiau Cyfalaf heb eu cymhwyso. Lle cafodd ei gymhwyso rhoddir yn y Cyfrif Addasiadau Cyfalaf. Caiff symiau yn y gronfa Grantiau Cyfalaf heb eu cymhwyso eu trosglwyddo i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf unwaith y cymhwyswyd hwy i gyllido gwariant cyfalaf.

**xii. Asedau Treftadaeth**

Mae'r Cyngor yn dal Asedau Treftadaeth yn bennaf i warchod eitemau oedd yn gyffredin yn yr ardal neu'n unigryw iddi, neu sy'n perthyn i ddigwyddiad hanesyddol arwyddocaol, neu berson sydd â chysylltiadau lleol. Fe'u cedwir mewn lleoliadau amrywiol ar draws y sir, ond mae'r rhan fwyaf i'w gweld ym mhrif Amgueddfa'r Coliseum yn Aberystwyth. Fe'u cedwir fel arfer yn unol â pholisïau cyfrifyddu Eiddo, Peiriannau ac Offer y Cyngor, ond caiff rhai rheolau eu llacio mewn perthynas ag asedau penodol am y rhesymau a ddisgrifir isod.

<u>Gwaith Celf</u>

Mae gan y Cyngor tua 190 o ddarnau o waith gelf cyfoes a hanesyddol, sydd wedi'u gwasgaru ar draws amgueddfeydd, swyddfeydd y cyngor a chanolfannau hamdden yng Ngheredigion. Nid yw'r rhan fwyaf ohonynt o unrhyw werth sylweddol, ac maent ymhell islaw'r gwerth de minimis o £10,000 fyddai'n eu gwneud yn gymwys i'w cynnwys ar gofrestr asedau'r Cyngor. Fodd bynnag, dynodwyd pedwar yn benodol fel rhai uwchlaw'r gwerth hwn gan Brisiwr Allanol â'r cymwysterau priodol ac maent wedi'u cynnwys yn y Fantolen ers 2011. Cawsant eu hailbrisio at ddibenion yswiriant ar werth y farchnad yn 2023 ac nid yw cyflwr yr eitemau wedi newid ers y prisiad hwn. Tybir bod gan y rhain oes amhenodol ac felly ystyrir na fyddai dibrisiant yn briodol.

<u>Regalia Dinesig</u>

Mae gan y Cyngor bedair cadwyn swyddogol ar gyfer swyddi'r Cadeirydd, yr Is-gadeirydd a'u cymheiriaid. Dim ond Cadwyn y Cadeirydd a ystyrir fel un sy'n werth mwy na'r lefel de minimis, yn seiliedig ar werth marchnad y metelau a ddefnyddiwyd i'w chreu. Felly mae wedi'i phrisio ac wedi'i chynnwys yn y Fantolen am y swm hwnnw. Ni fydd unrhyw dibrisiant am fod ganddi oes amhenodol, ond bydd yn cael ei hail-brisio o bryd i'w gilydd, yn seiliedig ar bris marchnad y metelau gwerthfawr.

<u>Safleoedd ac Adeiladau Hanesyddol</u>

Mae'r Cyngor yn berchen ar nifer o safleoedd ac adeiladau hanesyddol ar draws Ceredigion ac yn gyfrifol am eu cadw a'u harddangos, gan gynnwys dau gastell. Am nad oes unrhyw ffordd ddibynadwy o brisio eitemau o'r fath, oherwydd diffyg marchnad gyfoes, maent yn cael eu cynnwys yn y fantolen fel cost hanesyddol.

Arddangosion Amrywiol

Mae prif amgueddfa'r Cyngor yn Y Coliseum, Aberystwyth yn arddangos nifer fawr o eitemau. Fodd bynnag, oherwydd bod yr amcangyfrif o werth pob eitem unigol yn isel, ac oherwydd prinder marchnad gyfoes ar gyfer nifer o'r eitemau, mae'r Cyngor o'r farn y byddai costau prisio'r rhain yn uwch o lawer na gwerth proses o'r fath i ddefnyddwyr y cyfrifon, ac felly ni chynhaliwyd ymarfer o'r fath.

Yn ogystal, ceir 13 o eitemau mawr a/neu werthfawr yn yr amgueddfa, sydd wedi'u prisio at ddibenion yswiriant. Er bod y gwerthoedd unigol yn is na'r lefel de minimis o £10,000, mae cyfanswm eu gwerth yn sylweddol, felly maent wedi'u hychwanegu at y gofrestr a'r fantolen fel un eitem. Byddant yn cael eu trin yn yr un modd â'r gwaith celf ac ni fyddant yn cael eu dibrisio. Bydd unrhyw bryniant newydd sylweddol gan y Cyngor yn cael ei ychwanegu yn ôl cost, nes cynhelir y prisiad nesaf.

Safleoedd ac Adeiladau Amgueddfeydd

Mae prif Amgueddfa'r Cyngor yn y Coliseum yn Aberystwyth wedi'i hymestyn i eiddo gwag cyfagos. Mae gwariant ar y prosiect yn cael ei gyfalafu a'i ychwanegu at werth yr amgueddfa. Yn ogystal â'r prif amgueddfa yn Aberystwyth, mae gan y Cyngor nifer o amgueddfeydd llai ar draws y sir. Ystyriwyd a ddylid dal unrhyw rai o'r rhain fel Asedau Treftadaeth yn hytrach nag Eiddo, Peiriannau ac Offer. Penderfynwyd bod dwy ohonynt (gan gynnwys y Coliseum) yn cael eu dal am eu harwyddocâd hanesyddol eu hunain, yn ogystal â chael eu defnyddio i arddangos neu gadw eitemau hanesyddol. Maent felly wedi'u trosglwyddo i'r categori Asedau Treftadaeth ar y Fantolen, gan barhau ar eu prisiant blaenorol (Cost Amnewid Hanesyddol neu Ddibrisiant). Byddant yn cael eu dibrisio os ystyrir bod hynny'n briodol, gan ystyried amgylchiadau unigol yr adeilad dan sylw.

Asedau Treftadaeth Cyffredinol

Os bydd unrhyw dystiolaeth o amhariad, yna bydd y symiau i'w cario ar y fantolen yn cael eu hadolygu, er y disgwylir y bydd achosion o'r fath yn brin. Bydd unrhyw amhariad o'r fath yn cael ei drin mewn modd tebyg i amhariad asedau Eiddo, Peiriannau ac Offer. Os bydd unrhyw eitemau'n cael eu gwaredu, bydd angen cyfrif amdanynt yn yr un modd ag Eiddo, Peiriannau ac Offer, ond bydd yr enillion am eitemau a waredwyd yn cael eu nodi ar wahân yn y nodiadau. Ni chafwyd gwared ar unrhyw eitemau yn y cyfnod dan ystyriaeth ar gyfer y set hon o gyfrifon, ac ni ddisgwylir y bydd hynny'n beth cyffredin am fod y casgliad yn un gweddol sefydlog ei natur.

**xiii. Stocrestrau**

Caiff stocrestrau eu cynnwys yn y Fantolen yn ôl yr isaf o'r gost a'r gwerth sylweddoladwy net.

**xiv. Eiddo Buddsoddi**

Eiddo buddsoddi yw'r eiddo hynny a ddefnyddir yn unig i gael rhenti a/neu adbrisio cyfalaf. Nid yw'r diffiniad yn gywir os defnyddir yr eiddo mewn unrhyw ffordd i hwyluso cyflwyno gwasanaethau neu gynhyrchu nwyddau neu os cedwir ef ar gyfer ei werthu.

Caiff eiddo cyfalaf eu mesur yn gyntaf ar gost ac wedi hynny ar werth teg, yn seiliedig ar y swm y byddai ased yn cael ei gyfnewid rhwng partïon gwybodus. Ni ddibrisir eiddo ond ail-brisir hwy yn flynyddol yn unol ag amodau'r farchnad ar ddiwedd y flwyddyn. Caiff enillion a cholledion adbrisio eu rhoi yn llinell Cyllido a Buddsoddi Incwm a Gwariant yn y Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant. Mae'r un peth yn wir am enillion a cholledion wrth werthu.

Caiff rhenti a dderbynnir yng nghyswllt eiddo buddsoddi eu credydu i'r llinell Incwm Cyllido a Buddsoddi a bydd enilliad i'r Balans Cronfa Gyffredinol. Fodd bynnag, ni

chaniateir enillion a cholledion adbrisio a gwaredu drwy drefniadau statudol i gael effaith ar y Balans Cronfa Gyffredinol. Caiff yr enillion a'r colledion felly eu rifyrsio allan o'r Balans Cronfa Gyffredinol yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn a'i bostio i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf a (ar gyfer unrhyw werthiant mwy na £10,000) y Gronfa Derbynebion Cyfalaf.

**xv. Gweithrediadau a Reolir ar y Cyd ac Asedau a Reolir ar y Cyd**

Gweithrediadau a reolir ar y cyd yw gweithgareddau y mae'r Cyngor yn ymgymryd â nhw mewn cydweithrediad â mentrwyr eraill sy'n cynnwys defnyddio asedau ac adnoddau'r mentrwyr yn hytrach na sefydlu endid ar wahân. Mae'r Cyngor yn cydnabod ar ei Fantolen yr asedau y mae'n eu rheoli a'r rhwymedigaethau sy'n codi ac mae'n debydu ac yn credydu'r Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant gyda'r gwariant sy'n codi a chyfran yr incwm y mae'n ei ennill o weithgareddau'r gweithrediad.

Mae asedau a reolir ar y cyd yn eitemau o beiriannau, eiddo neu offer sy'n cael eu rheoli ar y cyd gan y Cyngor a mentrwyr eraill, gyda'r asedau'n cael eu defnyddio i sicrhau buddion i'r mentrwyr. Nid yw'r fenter ar y cyd yn cynnwys sefydlu endid ar wahân. Mae'r Cyngor dim ond yn rhoi cyfrif am ei gyfran ei hun o'r asedau a reolir ar y cyd, y rhwymedigaethau a'r treuliau sy'n codi ar ei ran ei hun neu ar y cyd ag eraill mewn perthynas â'i fudd yn y fenter ar y cyd, a'r incwm y mae'n ei ennill yn y fenter.

**xvi. Prydlesau**

Dosberthir prydlesau fel prydlesau cyllid lle bo telerau'r brydles yn trosglwyddo yn sylweddol pob risg a budd o ganlyniad i berchen yr eiddo, offer neu gyfarpar o'r prydleswr i'r prydlesai. Dosberthir pob prydles arall fel prydlesau gweithredol.

Lle bo prydles yn cynnwys tir ac adeiladau, ystyrir yr elfennau tir ac adeiladau ar wahân er mwyn eu dosbarthu.

Bydd trefniadau heb statws cyfreithiol prydles ond sydd yn cyfleu'r hawl i ddefnyddio ased am daliad yn cael eu cyfrifyddu o dan y polisi hwn lle bo cyflawni'r trefniant yn ddibynnol ar ddefnyddio asedau penodol.

**Y Cyngor fel Deiliad Prydles**

**Prydlesau Ariannol**

Mae eiddo, peiriannau ac offer a ddelir o dan brydlesau cyllid yn cael eu cydnabod ar y Fantolen ar ddechrau'r brydles ar ei werth teg, a fesurwyd ar ddechrau'r brydles (neu werth presennol y taliadau prydles lleiaf os ydynt yn is). Mae'r ased sy'n cael ei gydnabod yn cael ei gyfateb gan atebolrwydd am y rhwymedigaeth i dalu y deiliad prydles. Mae costau uniongyrchol cychwynnol y Cyngor yn cael eu hychwanegu at swm yr ased i'w gario. Mae premiymau a delir ar ddechrau prydles yn cael eu cymhwyso i ddibrisiant rhwymedigaeth y brydles. Mae rhenti wrth gefn yn cael eu codi fel treuliau yn y cyfnodau y maent wedi digwydd.

Mae taliadau prydles yn cael eu dosrannu rhwng:

- Tâl am gaffael diddordeb yn yr eiddo, offer neu gyfarpar – wedi'i gymhwyso i ddibrisio rhwymedigaeth y brydles.
- Tâl cyllid (i'w ddebydu i'r llinell Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr).

Cyfrifir am yr Eiddo, Offer a Chyfarpar sy'n cael eu cydnabod o dan brydlesau cyllid drwy ddefnyddio'r polisïau sy'n berthnasol yn gyffredinol i asedau o'r fath, yn amodol ar ddibrisiant yn cael ei godi dros gyfnod y brydles, os yw hyn yn fyrrach nag oes ddefnyddiol amcangyfrifedig yr ased (lle nad yw perchnogaeth yr ased yn trosglwyddo i'r Cyngor ar ddiwedd cyfnod y brydles).

Nid oes gofyn i'r Cyngor godi treth y cyngor i dalu am ddibrisiant neu ailbrisiant a cholledion oherwydd diffygion yn codi o asedau ar brydles. Yn lle hynny, gwneir cyfraniad blynyddol darbodus o'r cyfrifon refeniw tuag at y buddsoddiad cyfalaf tybiedig yn unol â gofynion statudol. Felly caiff dibrisiant ac ailbrisiant a cholledion oherwydd diffygion eu disodli gan gyfraniad refeniw ym Malans y Gronfa Gyffredinol drwy wneud trafodiad addasu o ran y Cyfrif Addasu Cyfalaf (sy'n gynwysedig yn y Cronfeydd Wrth Gefn na ellir eu Defnyddio) yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn am y gwahaniaeth rhwng y ddau.

**Prydlesau Gweithredu**

Mae rhenti a delir o dan brydlesau gweithredu yn cael eu talu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel traul o'r gwasanaethau sy'n elwa o ddefnydd yr eiddo, y peiriannau neu'r offer sydd ar brydles. Gwneir taliadau ar linell syth dros oes y brydles, hyd yn oed os nad yw hyn yn cyd-fynd â'r patrwm o daliadau (e.e. ceir cyfnod di-rent ar ddechrau'r brydles).

**Y Cyngor fel Prydlesydd**

**Prydlesau Cyllid**

Pan fydd y Cyngor yn rhoi prydles gyllid dros eiddo neu beiriant neu offer, mae'r ased perthnasol yn cael ei symud o'r Fantolen fel gwarediad. Ar ddechrau'r brydles, bydd swm yr ased i'w gario yn y Fantolen (boed yn Eiddo, Peiriannau ac Offer neu Asedau a Ddelir i'w Gwerthu) yn cael ei ddileu yn y llinell Gwariant Gweithredu Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o'r enillion neu'r colledion o waredu. Mae enillion, sy'n cynrychioli buddsoddiad net y Cyngor yn y brydles, yn cael eu credydu hefyd i'r un llinell yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o'r enillion neu'r colledion a wneir o waredu (h.y. eu netio yn erbyn llyfrwerth yr ased ar yr adeg y cafodd ei waredu), gan gael eu cydweddu ag ased prydles (dyledwr tymor hir) yn y Fantolen. Mae rhenti prydlesau sy'n dderbyniadwy yn cael eu dosrannu rhwng:

- tâl am gaffael diddordeb yn yr eiddo – wedi'i gymhwyso i ddibrisio'r dyledwr prydles (ynghyd ag unrhyw bremiymau a ddaw i law), a
- incwm cyllid (i'w gredydu i'r llinell Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr).

Ni chaniateir gan y statud i'r enillion a gredydir i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr wrth waredu, gynyddu Balans y Gronfa Gyffredinol ac mae'n ofynnol iddynt gael eu trin fel derbyniad cyfalaf. Lle mae premiwm wedi cael ei dderbyn, caiff hwn ei drosglwyddo o Falans y Gronfa Gyffredinol i Gronfa Wrth Gefn y Derbyniadau Cyfalaf yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn. Pan fydd y swm sy'n ddyledus mewn perthynas â'r ased prydles yn cael ei setlo drwy dalu rhenti yn y blynyddoedd ariannol yn y dyfodol, mae hwn yn cael ei drosglwyddo o Falans y Gronfa Gyffredinol i Gronfa Wrth Gefn y Derbyniadau Cyfalaf Gohiriedig yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn. Pan fydd y rhenti yn cael eu derbyn yn y dyfodol, bydd yr elfen ar gyfer y derbyniad cyfalaf ar gyfer cael gwared ar yr ased yn cael ei ddefnyddio i ddibrisio'r dyledwr prydles. Ar y pwynt hwn, mae'r derbyniadau cyfalaf gohiriedig yn cael eu trosglwyddo i Gronfa Wrth Gefn y Derbyniadau Cyfalaf.

O ddileu dyled y gwarediadau, ni chodir hynny ar dreth y cyngor, oherwydd darperir yn llawn ar gyfer cost asedau sefydlog dan drefniadau ar wahân ar gyfer cyllid cyfalaf. Caiff symiau eu neilltuo, felly, i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf (sy'n cynnwys y Cronfeydd Wrth Gefn na ellir eu Defnyddio) o Falans y Gronfa Gyffredinol yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn.

**Prydlesau Gweithredol**

Pan fydd y Cyngor yn caniatáu prydles weithredol dros eiddo neu beiriant neu offer, bydd yr ased yn cael ei gadw yn y Fantolen. Mae incwm rhent yn cael ei gredydu i'r llinell Gwariant Gweithredu Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Caiff credydau eu gwneud ar linell syth dros oes y brydles, hyd yn oed os nad yw hyn yn cyd-fynd â'r patrwm o daliadau (e.e. telir premiwm ar ddechrau'r brydles). Ychwanegir costau uniongyrchol cychwynnol am drafod a threfnu'r brydles at faint fydd gwerth yr ased perthnasol a'i godi fel traul dros gyfnod y brydles ar yr un sail ag incwm rhent. Pan fo cyfnod y les yn amhenodol, neu heb ei nodi, tybir mai 125 mlynedd fydd y cyfnod at ddibenion y Datganiad o Gyfrifon.

**xvii. Contractau Hirdymor**

Caiff symiau sy'n ddyledus o dan gontractau hirdymor eu codi ar refeniw pan ddônt yn daladwy o dan delerau'r contract.

**xviii. Darpariaeth Isafswm Refeniw**

Mae Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw (MRP) y Cyngor yn dilyn egwyddorion y canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru dan adran 21(A) Deddf Llywodraeth Leol 2003 trwy ddefnyddio un o'r dewisiadau a amlinellwyd yn y canllawiau.

Mae prif gyfran yr MRP yn parhau i fod yn gysylltiedig gyda'r rhwymedigaeth dyled hanesyddol a oedd yn bodoli cyn 2008 neu ar ôl 2008, lle y mae'n ymwneud â Benthyca â Chymorth a ariannir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Darparir ar gyfer y rhwymedigaeth MRP ar Ofyniad Cyllido Cyfalaf y Cyngor sy'n ymwneud gyda dyled cyn 2008 a Benthyca â Chymorth ar ôl 2008 a ariannwyd trwy system Grant Cynnal Refeniw (RSG) gan ddefnyddio Opsiwn 3 (Dull Oes Asedau) o ganllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru 2018 a gweithredu'r Dull Blwydd-dal gyda chyfradd llog o 4.2% (cyfradd fenthyca gyfartalog y benthyciadau sy'n ddyledus ar 01/04/21) dros gyfnod o 44 mlynedd yn dechrau ar Ebrill y 1af 2021. Mae'r cyfnod yn cynnwys y cyfnod o 50 mlynedd a ddewiswyd i gyd-fynd ag oesau cyfartalog Asedau'r Cyngor nad ydynt wedi'u hariannu'n benodol gan Fenthyca Digymorth ar ôl Ebrill y 1af 2008, wedi tynnu'r chwe blynedd a ddaeth i ben ers iddo gael ei weithredu'n wreiddiol ar Ebrill y 1af 2015. Gan fod Benthyca newydd pellach â Chymorth yn cael ei ddefnyddio yn y Rhaglen Gyfalaf, darperir hefyd ar gyfer rhwymedigaeth yr MRP ar bob cyfran newydd o fenthyca o'r fath gan ddefnyddio Opsiwn 3 o ganllawiau 2018 a gweithredu'r Dull Blwydd-dal. Darperir ar gyfer gwariant a ariannwyd gan Fenthyca Darbodus Digymorth gan ddefnyddio Opsiwn 3 (Dull Oes Asedau) o ganllawiau 2018 a gweithredu'r Dull Blwydd-dal gyda chyfradd llog o 3.68% (cyfartaledd pwysedig cyfradd llog y benthyca dan sylw) dros gyfnod o 38 mlynedd (cyfartaledd pwysedig oes sy'n weddill ar gyfer yr asedau perthnasol) yn dechrau ar Ebrill y 1af 2021. Gan fod Benthyca Darbodus Digymorth pellach yn cael ei ddefnyddio yn y Rhaglen Gyfalaf, bydd rhwymedigaeth yr MRP a adlewyrchir yn y Gofyniad Ariannu Cyfalaf hefyd yn cael ei chodi dros gyfnod sy'n gymesur â'r amcangyfrif o fywyd defnyddiol cyfartalog asedau gan ddefnyddio Opsiwn 3 a'r Dull Blwydd-dal.

Pennir y cyfnodau oes amcangyfrifedig yn unol â Chod Ymarfer Cyfrifo Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Cyn belled nad yw'r gwariant yn ymwneud â chreu ased, a'i fod o fath sy'n amodol ar gyfnodau oes amcangyfrifedig a gyfeirir atynt yn y cyfarwyddyd, bydd y Cyngor yn mabwysiadu'r cyfnodau hyn yn gyffredinol. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i bennu cyfnodau oes buddiol a Darpariaeth Isafswm Refeniw darbodus mewn amgylchiadau eithriadol pan na fyddai argymhellion y cyfarwyddyd yn briodol.

Mae’r Cyngor yn parhau â’r egwyddor o beidio â chodi Darpariaeth Isafswm Refeniw ar unrhyw fenthyciad (darbodus) digymorth dros dro. Ar hyn o bryd, dim ond cyllid ar gyfer Gwelliannau Tai ac Eiddo Gwag sydd i'w ad-dalu i Lywodraeth Cymru, sy'n cael ei drin yn y fath ffordd.
Gan nad yw rhai mathau o wariant cyfalaf y Cyngor yn gallu cael eu perthnasu i asedau unigol, asesir oesau asedau ar sail sy’n adlewyrchu’r cyfnod buddiol y rhagwelir y bydd yn deillio o’r gwariant. Hefyd, pa bynnag fath o wariant sydd dan sylw, caiff ei grwpio gyda’i gilydd mewn modd sy’n adlewyrchu prif elfen y gwariant a chaiff ei wahanu dim ond mewn achosion lle mae dwy brif elfen neu fwy ag oesau buddiol economaidd sy’n sylweddol wahanol.

Yn ôl y Cod, mae’r asedau a ddelir o dan gynlluniau Menter Cyllid Preifat a phrydlesau cyllid yn amodol ar y Ddarpariaeth Isafswm Refeniw yn yr un modd ag asedau a gafwyd gan ddefnyddio ffurfiau eraill o fenthyca. O dan reoliadau a chanllawiau statudol, gall y taliadau hyn gyfateb i ad-dalu’r rhwymedigaeth. Cafodd y cynnydd yn y Ddarpariaeth Isafswm Refeniw yn sgil ychwanegu asedau'r prydlesau cyllid, felly, eu talu ar yr un gyfradd â dibrisiant y rhwymedigaeth gyfatebol ar y fantolen fel na fydd effaith gyffredinol ar Falansau Cronfa Gyffredinol y Cyngor. Yn 2017/18 torrwyd cysylltiad â’r Ddarpariaeth Isafswm Refeniw oedd yn ddyledus ar gyfer asedau Menter Cyllid Preifat Ysgol Gyfun Penweddig, a oedd, yn hanesyddol, wedi’u trin yn debyg i asedau prydlesu cyllid ac yn lle hynny bydd yn cael ei ddibrisio dros weddill oes adeiladau Ysgol Gyfun Penweddig ar sail blwydd-dal yn lle hynny.

**xix. Gwasanaethau Cymorth a Gorbenion**
Mae’r Cyfrif Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn cael ei baratoi fesul Gwasanaeth, yn unol ag adroddiadau’r Cyngor yn ystod y flwyddyn. Fel y cyfryw, nid yw’r costau a ailgodir am wasanaethau cymorth a gorbenion yn cael eu cynnwys yn y Cyfrif Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

**xx. Eiddo, Peiriannau ac Offer**
Mae asedau y mae iddynt sylwedd ffisegol ac a gedwir i’w defnyddio i gynhyrchu neu gyflenwi nwyddau neu wasanaethau, neu at ddibenion gweinyddol ac y disgwylir iddynt gael eu defnyddio yn ystod mwy nag un flwyddyn ariannol, yn cael eu hystyried fel Eiddo, Peiriannau ac Offer.

Mae Ysgolion Gwirfoddol a Reolir yn cael eu cynnwys ar y Fantolen, tra bod Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir yn cael eu heithrio.

Os bydd gan unrhyw ran sylweddol o adeilad hyd oes sy’n sylweddol fyrrach na’r prif strwythur, a bod gwerth y rhan honno’n fwy na £10,000, yna fe’i hystyrir fel cydran i’w nodi ar wahân ar gofrestr asedau’r Cyngor. Caiff unrhyw gydrannau o’r fath a nodir o fewn y gwariant cyfalaf newydd eu prisio ar wahân pan gânt eu hychwanegu at y gofrestr asedau i ddechrau (neu pan gaiff yr ased ei drosglwyddo o Asedau sy’n cael eu Hadeiladu gydag adeiladau newydd).

<u>Cydnabyddiaeth</u> – Caiff gwariant ar gaffael, creu neu wella Eiddo, Peiriannau ac Offer ei gyfalafu ar sail croniadau, â’i fod yn bosib y bydd y buddiannau economaidd i’r dyfodol neu botensial gwasanaeth sy’n gysylltiedig â nhw yn llifo i'r Cyngord ac y gellir mesur cost yr eitem yn ddibynadwy. Defnyddiwyd rheol de-minimis ar gyfer cyfalaf – yn gyffredinol, ni chaiff gwariant cyfalaf â gwerth llai na £10,000 ei gynnwys o fewn gwariant cyfalaf. Mae gwariant sy'n cynnal, ond nad yw'n ychwanegu at botensial asedau i gyflenwi buddiannau economaidd i’r dyfodol neu botensial gwasanaeth (e.e. trwsio a chynnal a chadw) yn cael ei ychwanegu at asedau sefydlog yn y Fantolen, ond yn cael ei godi fel traul fel y mae’n digwydd. Mae'r cofnod wedyn yn cael ei wrthdroi

allan i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf i sicrhau nad oes unrhyw effaith ar Lefelau Treth y Cyngor.

Mesur – Caiff asedau eu mesur yn y lle cyntaf ar gost, yn cynnwys:

a) y pris pwrcasu
b) unrhyw gostau a briodolir i ddod ag ased i'r lleoliad a'r cyflwr sy'n angenrheidiol iddo fedru gweithredu yn y dull a fwriadwyd gan y rheolwyr
c) amcangyfrif cychwynnol o gostau datgymalu a symud yr eitem ac adfer y safle y lleolir ef arno

Nid yw'r Cyngor yn cyfalafu costau benthyca a achosir tra bod asedau'n cael eu hadeiladu.

Tybir bod cost asedau a gaffaelir heblaw drwy bryniant i fod eu gwerth teg, oni bai nad oes sylwedd masnachol i'r caffaeliad (h.y. ni fydd yn arwain at amrywiad yn llif arian y Cyngor). Yn yr achos olaf, pan y caffaelir ased drwy gyfnewid, cost y caffaeliad yw swm yr ased i'w gario a roddir i fyny gan y Cyngor.

Yna mae'r asedau'n cael eu cario i'r Fantolen gan ddefnyddio'r seiliau mesur canlynol:

- Cerbydau, Peiriannau Trwm, Celfi a chyfarpar – Cost Dibrisiant Hanesyddol
- Asedau sy'n cael eu hadeiladu ar hyn o bryd, Asedau Cymunedol a rhai Asedau Treftadaeth – Cost Hanesyddol
- Asedau sydd ar werth– Ffigwr isaf y swm a gariwyd a gwerth teg llai costau gwerthu
- Pob ased arall – Gwerth Teg, a bennir Gwerth yr Ased ar y Farchnad

Pan nad oes tystiolaeth seiliedig ar y farchnad o werth teg oherwydd natur arbenigol ased, defnyddir cost amnewidiol dibrisiedig fel amcangyfrif o werth teg.

Pan fo gan asedau, nad ydynt yn eiddo, oes ddefnyddiol fer neu werth isel (neu'r ddau), defnyddir sail cost hanesyddol dibrisiedig fel procsi ar gyfer gwerth teg.

Mae'r asedau a gaiff eu cynnwys ar y Fantolen yn ôl eu gwerth teg gan mwyaf yn cynnwys Tir ac Adeiladau Eraill. Rhannwyd y categori hwn yn bum is-gategori. Mae pob is-categori cyfan yn cael ei ailbrisio bob pum mlynedd. Dyma'r amserlen gyfredol o ran ailbrisio asedau:

| | |
|---|---|
| **2023/24** | Adeiladau Cyhoeddus (Canolfannau Hamdden, Cyfleusterau Cyhoeddus, Theatrau a Phyllau Nofio), Asedau Treftadaeth (pan gânt eu cadw ar werth teg) |
| **2024/25** | Adeiladau Addysgiadol (Ysgolion Cynradd, Uwchradd a Phob Oed, Clybiau Ieuenctid ac Unedau Cyfeirio) |
| **2025/26** | Swyddfeydd ac Adeiladau Gweithredol Eraill |
| **2026/27** | Adeiladau Gwasanaethau Cymdeithasol |
| **2027/28** | Asedau Tir Amrywiol a Meysydd Parcio |

Caiff Asedau sy'n weddill eu hystyried i'w hailbrisio yn seiliedig ar bryd y bydd pum mlynedd ers y prisiad diwethaf, felly bydd yn ddibynnol ar pa un o'r categorïau y bu iddynt trosglwyddo'r gwarged oddi wrtho.

Efallai y bydd ailbrisiadau eraill yn cael eu cyflawni rhwng yr ymchwiliadau a drefnwyd os bydd y Priswyr yn barnu bod gwerth yr ased berthnasol neu'r asedau perthnasol wedi newid yn sylweddol.

Mae cynnydd mewn ailbrisio'n cydweddu â chredydau i'r Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn i gydnabod enillion heb eu gwireddu. Yn eithriadol, gellir credydu enillion i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr pan fônt yn codi o wyrdroad colled a godwyd yn flaenorol i wasanaeth.

Pan ddynodir lleihad mewn gwerth, cyfrifir amdanynt trwy:

- Pan fo balans o enillion ailbrisiant i'r ased yn y Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn, dibrisir swm yr ased i'w gario yn erbyn y balans hwnnw (i fyny hyd at y swm o enillion cronnus)
- Pan nad oes balans yn y Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn neu falans annigonol, dibrisir swm yr ased i'w gario yn erbyn llinell(au) y gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Mae'r Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn yn cynnwys enillion ailbrisiant a gydnabyddir ers 1 Ebrill 2007 yn unig, dyddiad ei gweithredu'n ffurfiol. Mae'r enillion a gafwyd cyn y dyddiad hwnnw wedi eu cyfnerthu yn y Cyfrif Addasiad Cyfalaf.

<u>Diffygion</u> – Mae gwerth asedau'n cael eu hasesu ar ddiwedd pob blwyddyn am arwydd o amhariad ar werth. Pan fo arwyddion, ac amcangyfrifir bod gwahaniaethau posib yn berthnasol, yna amcangyfrifir swm adferadwy'r ased a, lle bo hwn yn llai na swm yr ased i'w gario, cydnabyddir colled amhariad ar gyfer y diffyg.

Pan ddynodir colledion amhariad, cyfrifir amdanynt trwy:

- Pan fo balans o enillion ailbrisiant i'r ased yn y Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn, dibrisir swm yr ased i'w gario yn erbyn y balans hwnnw (i fyny hyd at y swm o enillion cronnus)
- Pan nad oes balans yn y Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn neu falans annigonol, dibrisir swm yr ased i'w gario yn erbyn llinell(au) y gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Pan fo colled amhariad yn cael ei gwyrdroi'n dilyn hyn, credydir y gwyrdroad i'r llinell(au) gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, i fyny hyd at swm y golled wreiddiol, wedi ei addasu ar gyfer Dibrisiant y byddid wedi ei godi pe na fyddai'r golled wedi ei chydnabod.

<u>Dibrisiant</u>
Darperir ar gyfer dibrisiant yr holl asedau Eiddo, Peiriannau ac Offer trwy ddyraniad systematig o'u symiau dibrisio dros eu hoes ddefnyddiol. Gwneir eithriad ar gyfer asedau heb oes ddefnyddiol benodadwy gyfyngedig (h.y. tir rhydd-ddaliad, Asedau Treftadaeth ac Asedau Cymunedol) ac asedau nad ydynt eto ar gael i'w defnyddio (h.y. asedau sy'n cael eu hadeiladu).

Cyfrifir dibrisiant ar y seiliau canlynol:

- Adeiladau – Dyraniad llinell syth dros oes ddefnyddiol yr eiddo fel yr amcangyfrifir gan y prisiwr.
- Cerbydau, peiriannau ac offer – Dyraniad llinell syth o'r gost hanesyddol dros oes ddisgwyliedig yr ased. Rhoddir gwerth gweddilliol o 10% o bris pwrcasu cychwynnol i'r cerbydau er mwyn adlewyrchu eu gwerth ailwerthu posibl.
- Seilwaith – Dyraniad llinell syth o'r gost hanesyddol dros oes ddisgwyliedig yr ased sy'n weddill.

Caiff asedau sefydlog sy'n cael eu caffael neu'u gwerthu'u hychwanegu at y gofrestr asedau fel y maent ar y dyddiad prynu neu werthu yn y flwyddyn gyfrifyddu berthnasol

ac felly cânt eu dibrisio yn y modd arferol ar gyfer y flwyddyn o'r dyddiad hwnnw os ydynt mewn categori y gellir ei ddibrisio fel arfer.

Pan fydd gan eitem sy'n ased Eiddo, Peiriannau ac Offer gydrannau mawr sy'n costio symiau sylweddol (dros £10,000), ac sydd â hyd oes sy'n sylweddol wahanol i'r prif ased, mae'r cydrannau'n cael eu dibrisio ar wahân yn unol â'u hyd oes amcangyfrifol gwahanol.

Mae enillion ailbrisiant hefyd yn cael eu dibrisio, gyda swm sy'n cyfateb i'r gwahaniaeth rhwng gwerth presennol dibrisiant a godir ar asedau a'r dibrisiant a fyddai wedi ei godi yn seiliedig ar eu cost hanesyddol yn cael ei drosglwyddo bob blwyddyn o'r Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf.

Gwaredu – Pan ddaw'n debygol y bydd swm yr ased i'w gario yn cael ei adennill yn bennaf drwy werthiant yn hytrach na pharhau i'w ddefnyddio, caiff ei ailddosbarthu fel Ased a Ddelir i'w Gwerthu. Er mwyn i'r trosglwyddiad o'r categori hyn ddigwydd, mae'n rhaid i'r ased fodloni'r meini prawf canlynol:

- Rhaid iddo fod ar gael i'w werthu yn ei gyflwr presennol ac yn amodol ar delerau gwerthu arferol.
- Rhaid i'r penderfyniad i wneud y gwerthiant fod wedi cael ei wneud ar y lefel reoli briodol.
- Rhaid mynd ati i farchnata'r ased am bris priodol.
- Rhaid disgwyl i'r gwerthiant gael ei gwblhau o fewn blwyddyn.

Mae'r ased yn cael ei ailbrisio yn union cyn ei ailddosbarthu ac yna ei gario ar yr isaf o'r swm hwn a gwerth teg wedi tynnu'r costau gwerthu. Pan fo gostyngiad dilynol i werth teg wedi tynnu'r costau gwerthu, mae'r golled yn cael ei chofnodi ar y llinell Gwariant Gweithredol Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Dim ond hyd at swm unrhyw golledion a gydnabuwyd yn flaenorol yn y Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau, y cydnabyddir enillion mewn gwerth teg. Ni chodir dibrisiant ar Asedau a Ddelir i'w Gwerthu.

Os nad yw asedau bellach yn cwrdd â'r meini prawf i'w dosbarthu fel Asedau a Ddelir i'w Gwerthu, yna cânt eu hailddosbarthu'n ôl i asedau nad ydynt yn rhai cyfredol a'u prisio ar yr isaf o'u swm cario cyn iddynt gael eu dosbarthu fel rhai a ddelir i'w gwerthu; wedi'u haddasu ar gyfer dibrisiant, amorteiddiad neu ailbrisiadau a fyddai wedi cael eu cydnabod petaent heb gael eu dosbarthu fel rhai a Ddelir i'w Gwerthu, a'u swm adferadwy ar ddyddiad y penderfyniad i beidio â gwerthu.

Mae asedau nad ydynt mwyach yn cael eu defnyddio sy'n methu â bodloni'r holl feini prawf uchod neu y maent i'w gadael neu eu sgrapio fel arfer yn cael eu hailddosbarthu fel Gorged Asedau, oni bai nad yw'r Cyngor yn mynd ati i farchnata'r eiddo oherwydd ei fod yn aros i brisiau yn y farchnad godi, ac os felly efallai y gellid categoreiddio'r ased fel Eiddo Buddsoddi. Mae Gorged Asedau yn cael eu dibrisio yn y ffordd arferol, fodd bynnag, mae'r dibrisiant yn cael ei godi i gostau sydd heb gael eu dosbarthu ac nid gyfrif y gwasanaeth gwreiddiol gan nad yw'r ased mwyach yn cael ei ddefnyddio.

Pan gaiff ased ei waredu neu'i ddadgomisiynu, caiff swm yr ased i'w gario ar y Fantolen (p'un a yw'n Eiddo, Peiriannau ac Offer neu Asedau a Ddelir i'w Gwerthu) ei symud i linell Gwariant Gweithredol Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o'r enillion neu'r colledion o waredu. Caiff yr enillion a wneir o waredu eu credydu i'r un llinell yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr hefyd fel rhan o'r enillion neu'r colledion o waredu (h.y. wedi eu netio yn erbyn llyfrwerth yr ased ar yr adeg y cafodd ei waredu). Caiff unrhyw enillion/gynnydd yn sgil ailbrisio eu trosglwyddo o'r Graonfa Ailbrisio Wrth Gefn i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf.

Caiff symiau mwy na £10 mil eu hystyried yn dderbyniadau cyfalaf. Bydd angen credydu balans y derbyniadau i gronfa wrth gefn y Derbyniadau Cyfalaf, ac yna ni fydd modd eu defnyddio ond ar gyfer buddsoddiadau cyfalaf newydd neu eu neilltuo i leihau angen sylfaenol y Cyngor i fenthyca (gofyniad cyllid cyfalaf). Caiff derbyniadau eu neilltuo i'r Gronfa Wrth Gefn o Falans y Gronfa Gyffredinol yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn.

O ddileu dyled y gwarediadau, ni chodir hynny ar Dreth y Cyngor, oherwydd darperir yn llawn ar gyfer cost asedau sefydlog dan drefniadau ar wahân ar gyfer cyllid cyfalaf. Caiff symiau eu neilltuo i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf o Falans y Gronfa Gyffredinol yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn.

**xxi. Menter Cyllid Preifat a Chontractau Tebyg**

Mae Menter Cyllid Preifat a chontractau tebyg yn gytundebau i dderbyn gwasanaethau, lle mae'r cyfrifoldebau ar gyfer gwneud yr eiddo, y peiriannau a'r offer ar gael, sydd eu hangen i ddarparu'r gwasanaethau, yn trosglwyddo i gontractwr y Menter Cyllid Preifat. Gan fod y Cyngor yn cael ei ystyried i reoli'r gwasanaethau a ddarperir o dan ei gynlluniau Menter Cyllid Preifat, a gan y bydd perchnogaeth yr eiddo, y peiriannau a'r offer yn trosglwyddo i'r Cyngor ar ddiwedd y contractau am ddim tâl ychwanegol, mae'r Cyngor yn cario'r asedau a ddefnyddir o dan y contractau ar ei Mantolen fel rhan o'r Eiddo, Peiriannau a'r Offer.

Cafodd cydnabyddiaeth wreiddiol yr asedau hyn ar werth teg (yn seiliedig ar y gost o brynu'r eiddo, y peiriannau a'r offer) ei gydbwyso gan y gydnabyddiaeth o rwymedigaeth am symiau a oedd yn ddyledus i weithredwr y cynllun i dalu am y buddsoddiad cyfalaf. Ar gyfer cynllun Menter Cyllid Preifat Ysgol Gyfun Penweddig, dibrisiwyd y rhwymedigaeth gan gyfraniad cyfalaf cychwynnol o £12,027,000.

Mae asedau tymor hir a gydnabyddir ar y Fantolen yn cael eu hailbrisio a'u dibrisio yn yr un modd ag eiddo, peiriannau ac offer sy'n eiddo i'r Cyngor.

Mae'r symiau sy'n daladwy i weithredwyr y Menter Cyllid Preifat yn cael eu dadansoddi bob blwyddyn i bum elfen:

- gwerth teg y gwasanaethau a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn – wedi'i ddebydu i'r gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.
- cost cyllid – tâl llog o 4.5% ar rwymedigaeth y Fantolen sy'n ddyledus, wedi'i ddebydu i'r llinell Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.
- rhent amodol – cynnydd yn y swm sydd i'w dalu am yr eiddo sy'n codi yn ystod y contract, wedi'i ddebydu i'r llinell Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwriant Cynhwysfawr.
- talu tuag at rwymedigaeth – wedi'i gymhwyso at ddibrisio rhwymedigaeth y Fantolen tuag at weithredwr y Fenter Cyllid Preifat (mae'r proffil ar gyfer dibrisio yn cael ei gyfrifo gan ddefnyddio'r un egwyddorion ag ar gyfer prydles gyllid).
- Costau adnewyddu dros oes– caiff cyfran o'r symiau sy'n daladwy ei dynodi fel Gwelliant i'r diffyg sy'n cyfateb yn ased Ysgol Penweddig o dan Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar pan gaiff y gwaith sy'n ofynnol ei gwblhau yn y diwedd. Ni fydd yn cael effaith net ar y Fantolen

**xxii. Darpariaethau, Rhwymedigaethau Wrth Gefn ac Asedau Wrth Gefn**

**Darpariaethau**

Gwneir darpariaethau pan fo digwyddiad wedi cymryd lle sy'n rhoi rhwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol i'r Awdurdod sydd yn ôl pob tebyg angen setliad trwy

drosglwyddo buddiannau economaidd neu botensial gwasanaeth, ac y gellir gwneud amcangyfrif dibynadwy o faint y rhwymedigaeth. Efallai na fydd darpariaethau a gynhwysir yn y cyfrifon yn gallu cael eu gorfodi'n gyfreithiol ac efallai gallant ond gael eu casglu o set o ffeithiau mewn sefyllfa arbennig, felly nid yw eu cynnwys yn y cyfrifon yn golygu bod atebolrwydd wedi cael ei dderbyn.

Codir darpariaethau fel traul ar y llinell gwasanaeth briodol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn y flwyddyn y daw'r Cyngor yn ymwybodol o'r rhwymedigaeth, a chânt eu mesur yn ôl yr amcangyfrif gorau ar ddyddiad y Fantolen o'r gwariant sydd ei angen i setlo'r rhwymedigaeth, gan gymryd i ystyriaeth y risgiau ac ansicrwydd perthnasol.

Pan fydd taliadau'n cael eu gwneud yn y pen draw, maent yn cael eu codi i'r ddarpariaeth a'u cario yn y Fantolen. Caiff setliadau tybiedig eu hadolygu ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol – lle mae'n mynd yn llai na thebygol y bydd angen trosglwyddo buddion economaidd bellach (neu bydd setliad is na'r disgwyl yn cael ei wneud), mae'r ddarpariaeth yn cael ei gwrthdroi a'i chredydu yn ôl i'r gwasanaeth perthnasol. Mae rheoliadau yn darparu'r pŵer i wneud cofnod addasu ar gyfer darpariaethau penodol yng Nghost Net y Gwasanaethau a'r Fantolen.

Lle disgwylir i beth o'r taliad neu'r taliad cyfan sy'n ofynnol i setlo darpariaeth gael ei adennill o barti arall (e.e. o hawliad yswiriant), mae hyn ond yn cael ei gydnabod fel incwm ar gyfer y gwasanaeth perthnasol os yw hi bron yn sicr y bydd ad-daliad yn cael ei dderbyn os bydd y Cyngor yn setlo'r rhwymedigaeth.

**Rhwymedigaethau Amodol**
Mae rhwymedigaeth amodol yn codi pan fo digwyddiad wedi digwydd sy'n rhoi rhwymedigaeth bosibl i'r Cyngor, y mae ei bodolaeth ond yn cael ei gadarnhau gan y digwyddiad neu fel arall gan ddigwyddiadau ansicr yn y dyfodol nad ydynt yn gyfan gwbl o fewn rheolaeth y Cyngor. Mae rhwymedigaethau amodol hefyd yn codi mewn amgylchiadau lle fel arall byddai darpariaeth yn cael ei wneud ond naill ai nid yw'n debygol y bydd angen all-lif o adnoddau neu ni ellir mesur swm y rhwymedigaeth mewn modd dibynadwy.

Nid yw rhwymedigaethau amodol yn cael eu cydnabod yn y Fantolen, ond yn cael eu datgelu mewn nodyn i'r cyfrifon. Maent yn cynnwys sefyllfaoedd pan fydd achosion cyfreithiol a hawliadau eraill sy'n ymdrin ag ystod o faterion yn yr arfaeth. Maent yn ymwneud â materion cyfreithiol a ffeithiol anodd a chymhleth sy'n amodol ar lawer o ansicrwydd a chymhlethdodau, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i ffeithiau ac amgylchiadau pob achos penodol. Oherwydd yr ansicrwydd cynhenid mewn materion o'r fath, mae'n aml yn anodd rhagweld y canlyniad terfynol.

**Asedau Amodol**
Mae ased amodol yn codi pan fo digwyddiad wedi digwydd sy'n rhoi ased posibl i'r Cyngor y mae ei bodolaeth ond yn cael ei gadarnhau gan y digwyddiad neu fel arall gan ddigwyddiadau ansicr yn y dyfodol nad ydynt yn gyfan gwbl o fewn rheolaeth y Cyngor.

Nid yw asedau amodol yn cael eu cydnabod yn y Fantolen, ond yn cael eu datgelu mewn nodyn i'r cyfrifon lle mae'n debygol y bydd mewnlif o fuddion economaidd neu botensial gwasanaeth.

**xxiii. Cronfeydd Wrth Gefn**
Bydd y Cyngor yn neilltuo symiau penodol o arian mewn cronfeydd wrth gefn at ddibenion polisïau'r dyfodol neu ar gyfer digwyddiadau na ellir eu rhagweld. Caiff Cronfeydd Wrth Gefn eu creu drwy neilltuo symiau o Falans y Gronfa Gyffredinol yn y

Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn. Pan ariennir gwariant o gronfa wrth gefn, caiff yr arian ei godi i'r gwasanaeth priodol ar gyfer y flwyddyn honno yn erbyn Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth y Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Yna, caiff yr arian wrth gefn ei neilltuo yn ôl i Falans y Gronfa Gyffredinol yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn i sicrhau nad oes tâl net yn erbyn treth y cyngor am y gwariant hwn.

Cedwir rhai cronfeydd wrth gefn i reoli'r broses gyfrifyddu ar gyfer asedau sefydlog diriaethol, offerynnau ariannol, buddion ymddeoliad a chyflogai ac nad ydynt yn cynrychioli adnoddau defnyddiadwy i'r Cyngor – eglurir y cronfeydd wrth gefn hyn yn y polisïau perthnasol.

**xxiv. Gwariant Refeniw a Ariennir o Gyfalaf o dan Statud**
Cafodd gwariant a wnaed yn ystod y flwyddyn y gellir ei gyfalafu o dan ddarpariaethau statudol ond nad yw'n arwain at greu ased tymor hir ei godi fel gwariant i'r gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn ystod y flwyddyn. Lle y mae'r Cyngor wedi penderfynu talu cost y gwariant o'r adnoddau cyfalaf cyfredol neu drwy fenthyca; yna, mae trosglwyddiad yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd o Falans y Gronfa Gyffredinol i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf yn gwrthdroi'r symiau a godwyd i sicrhau nad oes unrhyw effaith ar lefel treth y cyngor.

**xxv. Treth Ar Werth (TAW)**
Cafodd y Cyfrifon eu paratoi gan hepgor TAW, i'r graddau y mae modd ei hadennill.

## 1.3 SAFONAU CYFRIFYDDU SYDD WEDI'U CYHOEDDI OND NAD YDYNT WEDI'U MABWYSIADU ETO

Mae'r Cod Ymarfer yn mynnu bod y Cyngor yn datgelu gwybodaeth yn ymwneud ag effaith newidiadau o ran cyfrifyddu, a fydd yn ofynnol gan safonau newydd sydd wedi'u cyhoeddi, ond nad ydynt wedi'u mabwysiadu eto.

Ar 31 Mawrth 2023 nid oes safonau perthnasol neu ddiwygiadau i safonau cyfredol sydd wedi'u cyhoeddi ond heb eu mabwysiadu eto gan y Cod a fydd yn cael unrhyw effaith yn y datganiadau ariannol. Fodd bynnag, darparwyd y canlynol er gwybodaeth:

Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) 16 - bydd lesoedd yn effeithio ar ddosbarthiad lesoedd gweithredol a chyllid ar gyfer lesddeiliaid a bydd gofyn i awdurdodau lleol gydnabod pob les ar eu mantolen fel asedau hawl i ddefnyddio gydag atebolrwydd les cyfatebol yn cynrychioli rhwymedigaeth y lesddeiliad i wneud taliadau les ar gyfer yr ased. Mai rhai esemptiadau ar gyfer lesoedd gwerth isel a thymor byr. Mae gweithredu Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol 16 ar gyfer llywodraeth leol wedi'i ohirio ymhellach gan CIPFA/LASAAC tan 1 Ebrill 2024.

## 1.4 BARN GRITIGOL MEWN CYMHWYSO POLISÏAU CYFRIFYDDU

Wrth gymhwyso'r polisïau cyfrifo a nodir, mae'n rhaid i'r Cyngor wneud rhai penderfyniadau am drafodion cymhleth neu'r rheiny sy'n ymwneud ag ansicrwydd am ddigwyddiadau yn y dyfodol. Y penderfyniadau hanfodol a wnaed yn y Datganiad o Gyfrifon yw:

**Lefelau ariannu yn y dyfodol**
Mae yna lefel uchel o ansicrwydd ynghylch lefelau ariannu yn y dyfodol ar gyfer llywodraeth leol gyda setliadau un flwyddyn yn unig yn parhau ar lefel San Steffan a Llywodraeth Cymru.

**Ysgolion Gwirfoddol a Reolir ac Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir**

Ni chaiff adeiladau Ysgolion Gwirfoddol a Reolir ac Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir eu cynnwys yn y Fantolen o hyd, oherwydd y cadarnhawyd nad ydynt yn asedau'r Cyngor.

**Cyd-bwyllgorau Corfforedig**

Newidiadau posibl i drefniadau llywodraethu yn y dyfodol yn sgil cyflwyno Cyd-bwyllgorau Corfforedig

## 1.5 RHAGDYBIAETHAU A WNEIR AM Y DYFODOL A FFYNONELLAU MAWR ERAILL O ANSICRWYDD AMCANGYFRIF

Mae’r Datganiad Cyfrifon yn cynnwys ffigyrau amcangyfrifiedig sydd wedi eu seilio ar ragdybiaethau a wnaed gan y Cyngor ynghylch y dyfodol neu sydd fel arall yn ansicr. Gwneir amcangyfrifon gan gymryd i ystyriaeth brofiad hanesyddol, tueddiadau presennol a ffactorau perthnasol eraill. Fodd bynnag, oherwydd na ellir pennu balansau gyda sicrwydd, gallai’r canlyniadau gwirioneddol fod yn sylweddol wahanol i’r rhagdybiaethau ac amcangyfrifon. Yr eitemau ar Fantolen y Cyngor ar 31 Mawrth 2023 lle ceir risg o addasiad mewn blynyddoedd ariannol dilynol yw:

**Ased/Rhwymedigaeth Pensiynau**

Mae amcangyfrif o’r ased/rhwymedigaeth net i dalu pensiynau’n dibynnu ar nifer o ddyfarniadau cymhleth sy’n ymwneud â’r gyfradd disgownt a ddefnyddir, cyfradd ddisgwyliedig chwyddiant prisiau, cyfradd ddisgwyliedig codiadau cyflog a phensiynau, cyfraddau marwolaeth a chyfradd cymudo pensiynau. Cyngor Sir Caerfyrddin yw’r Awdurdod Pensiynau arweiniol ac mae’n defnyddio cwmni o actiwariaid i sicrhau bod y Cyngor yn cael cyngor arbenigol ynghylch y rhagdybiaethau i’w defnyddio.

**Lwfans Amhariad**

Mae'n anodd amcangyfrif gyda sicrwydd lefel y lwfans amhariad sy'n ofynnol ar gyfer y gwahanol fathau o ddyled.

**Prisio Tir ac Adeiladau**

Mae unrhyw waith prisio a gyflawnwyd yn y blynyddoedd 2018/19 i 2021/22 wedi eu hadolygu ac mae rhai o’r prisiadau wedi’u newid o ganlyniad i gynnydd sylweddol mewn costau adeiladu neu oherwydd yr incwm a gynhyrchir gan yr ased.

## 1.6 GWARIANT AC INCWM WEDI'I DDADANSODDI YN ÔL EI NATUR

Mae gwariant ac incwm y Cyngor wedi'i ddadansoddi fel a ganlyn:

| | 2022/23 £'000 | 2021/22 £'000 |
|---|---|---|
| **Gwariant Rheoladwy** | | |
| Gweithwyr | 116,187 | 107,780 |
| Eiddo | 10,353 | 9,851 |
| Cludiant | 11,809 | 10,435 |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau | 130,104 | 120,245 |
| **Cyfanswm Gwariant** | **268,453** | **248,311** |
| **Incwm Rheoladwy** | | |
| Grantiau | (61,801) | (68,414) |
| Incwm Arall | (32,820) | (36,461) |
| Gwasanaethau Contract/Ysgolion | (1,800) | (1,790) |
| **Cyfanswm Incwm** | **(96,421)** | **(106,665)** |
| **Cyllideb cyn Cronfeydd Wrth Gefn** | **172,032** | **141,646** |
| Gwariant refeniw a gyllidir o gyfalaf dan statud | 1,216 | 1,082 |
| Addasiadau IAS19 *Buddiannau Gweithwyr* | 19,015 | 17,587 |
| Absenoldebau Cronedig | 26 | 547 |
| Dibrisiad, amorteiddio a diffygion | 13,234 | 9,928 |
| (Enillion)/Colledion o waredu asedau | 13 | (659) |
| Taliadau gwariant cyfalaf yn erbyn y Gronfa Gyffredinol | (981) | (127) |
| Addasiadau cyfrif cyfalaf eraill | (1,529) | (1,507) |
| Praeseptau | 10,561 | 9,976 |
| Treth ac Incwm Grant Amhenodol | (194,857) | (185,091) |
| **(Gorged) neu Ddiffyg Darparu Gwasanaethau** | **18,730** | **(6,618)** |

## 1.7 ADDASIADAU RHWNG SAIL GYFRIFYDDU A SAIL ARIANNU DAN Y RHEOLIADAU

Mae'r nodyn hwn yn manylu ar yr addasiadau a wneir yn y Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a gydnabyddir gan y Cyngor yn y flwyddyn yn unol ag arferion cyfrifyddu cywir i'r adnoddau y manylir arnynt gan ddarpariaethau statudol fel eu bod ar gael i'r Awdurdod i gwrdd â gwariant cyfalaf a refeniw i'r dyfodol.

| 2022/23 | Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Balans Gronfa Gyffredinol | Derbyniadau Cyfalaf Defnyddiadwy | Grantiau Cyfalaf heb Gymhwyso | Cronfeydd Wrth Gefn na ellir eu Defnyddio |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Addasiadau yn ymwneud â'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf:** | | | | |
| Gwyrdroi eitemau a ddebydwyd neu a gredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr: | | | | |
| Taliadau am ddibrisiant ac amhariad asedau nad ydynt yn gyfredol | 13,785 | 0 | 0 | (13,785) |
| Colledion/enillion Ailbrisio Eiddo, Peiriannau ac Offer | 1,113 | 0 | 0 | (1,113) |
| Symudiad yng ngwerth teg Eiddo Buddsoddi | (1,664) | 0 | 0 | 1,664 |
| Grantiau cyfalaf a chyfraniadau a ddefnyddiwyd | (14,675) | 0 | 0 | 14,675 |
| Gwariant refeniw a gyllidir o gyfalaf dan statud | 1,216 | 0 | 0 | (1,216) |
| Symiau asedau nad ydynt yn gyfredol a ddilëir ar waredu neu werthiant fel rhan o enilliad/colled ar waredu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | 452 | 0 | 0 | (452) |
| Ychwanegu eitemau sydd heb eu debydu na'u credydu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr: | | | | |
| Darpariaeth statudol ar gyfer ariannu buddsoddiad cyfalaf | (1,537) | 0 | 0 | 1,537 |
| Taliadau gwariant cyfalaf yn erbyn y Gronfa Gyffredinol | (981) | 0 | 0 | 981 |
| **Addasiadau yn ymwneud â'r Cyfrif Grantiau Cyfalaf heb eu Cymhwyso:** | | | | |
| Grantiau a chyfraniadau cyfalaf heb eu cymhwyso a gredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | (2,732) | 0 | 2,732 | 0 |
| Cymhwyso grantiau i gyllid cyfalaf wedi'u trosglwyddo i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf | 0 | 0 | (4,520) | 4,520 |
| **Addasiadau yn ymwneud â'r Cyfrif Derbyniadau Cyfalaf:** | | | | |
| Trosglwyddo arian o waredu asedau wedi eu credydu fel rhan o elw/colled wrth waredu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | (353) | 353 | 0 | 0 |
| Defnyddio'r Derbyniadau Cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf newydd | 0 | (672) | 0 | 672 |
| Cyfraniad o'r Gronfa Wrth Gefn y Derbyniadau Cyfalaf tuag at gostau gweinyddol gwaredu asedau nad ydynt yn gyfredol | 4 | (4) | 0 | 0 |
| Trosglwyddo o'r Gronfa Wrth Gefn y Derbyniadau Cyfalaf a Ohiriwyd ar adeg derbyn yr arian | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Addasiadau'n ymwneud â'r Derbyniadau Cyfalaf Gohiriedig wrth Gefn:** | | | | |
| Trosglwyddo o enillion gwerthiant gohiriedig wedi eu credydu fel rhan o'r elw/colled yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | (90) | 0 | 0 | 90 |
| **Addasiadau yn ymwneud â'r Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol:** | | | | |
| Swm lle mae'r costau ariannu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn wahanol i'r costau ariannu priodoladwy am y flwyddyn yn unol â'r gofynion statudol | 8 | 0 | 0 | (8) |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Addasiadau yn ymwneud â'r Gronfa Bensiwn:** | | | | |
| Gwrthdroi eitemau yn ymwneud â budd-dal ymddeol wedi eu debydu/credydu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | 28,713 | 0 | 0 | (28,713) |
| Cyfraniadau pensiwn y Cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sydd yn daladwy yn y flwyddyn | (9,698) | 0 | 0 | 9,698 |
| **Addasiadau yn ymwneud â'r Cyfrif Absenoldeb Cronedig:** | | | | |
| Gwahaniaeth rhwng taliadau swyddogion sydd wedi ei gynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail croniadau a'r taliadau swyddogion yn y flwyddyn yn unol â gofynion statudol | 26 | 0 | 0 | (26) |
| **Cyfanswm Addasiadau** | **13,587** | **(323)** | **(1,788)** | **(11,476)** |

**2021/22**

| | Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Balans Gronfa Gyffredinol** | **Derbyniadau Cyfalaf Defnyddiadwy** | **Grantiau Cyfalaf heb Gymhwyso** | **Cronfeydd Wrth Gefn na ellir eu Defnyddio** |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Addasiadau yn ymwneud â'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf:** | | | | |
| Gwyrdroi eitemau a ddebydwyd neu a gredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr: | | | | |
| Taliadau am ddibrisiant ac amhariad asedau nad ydynt yn gyfredol | 11,954 | 0 | 0 | (11,954) |
| Colledion Ailbrisio Eiddo, Peiriannau ac Offer | (2,008) | 0 | 0 | 2,008 |
| Symudiad yng ngwerth teg Eiddo Buddsoddi | (18) | 0 | 0 | 18 |
| Grantiau cyfalaf a chyfraniadau a ddefnyddiwyd | (12,722) | 0 | 0 | 12,722 |
| Gwariant refeniw a gyllidir o gyfalaf dan statud | 1,082 | 0 | 0 | (1,082) |
| Symiau asedau nad ydynt yn gyfredol a ddilëir ar waredu neu werthiant fel rhan o enilliad/colled ar waredu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | 347 | 0 | 0 | (347) |
| Ychwanegu eitemau sydd heb eu debydu na'u credydu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr: | | | | |
| Darpariaeth statudol ar gyfer ariannu buddsoddiad cyfalaf | (1,518) | 0 | 0 | 1,518 |
| Taliadau gwariant cyfalaf yn erbyn y Gronfa Gyffredinol | (127) | 0 | 0 | 127 |
| **Addasiadau yn ymwneud â'r Cyfrif Grantiau Cyfalaf heb eu Cymhwyso:** | | | | |
| Grantiau a chyfraniadau cyfalaf heb eu cymhwyso a gredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | (4,671) | 0 | 4,671 | 0 |
| Cymhwyso grantiau i gyllid cyfalaf wedi'u trosglwyddo i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf | 0 | 0 | (1,185) | 1,185 |
| **Addasiadau yn ymwneud â'r Cyfrif Derbyniadau Cyfalaf:** | | | | |
| Trosglwyddo arian o waredu asedau wedi eu credydu fel rhan o elw/colled wrth waredu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | (602) | 602 | 0 | 0 |
| Defnyddio'r Derbyniadau Cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf newydd | 0 | (369) | 0 | 369 |
| Cyfraniad o'r Gronfa Wrth Gefn y Derbyniadau Cyfalaf tuag at gostau gweinyddol gwaredu asedau nad ydynt yn gyfredol | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Trosglwyddo o'r Gronfa Wrth Gefn y Derbyniadau Cyfalaf a Ohiriwyd ar adeg derbyn yr arian | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Addasiadau'n ymwneud â'r Derbyniadau Cyfalaf Gohiriedig wrth Gefn:** | | | | |
| Trosglwyddo o enillion gwerthiant gohiriedig wedi eu credydu fel rhan o'r elw/colled yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | (404) | 0 | 0 | 404 |
| **Addasiadau yn ymwneud â'r Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol:** | | | | |
| Swm lle mae'r costau ariannu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn wahanol i'r costau ariannu priodoladwy am y flwyddyn yn unol â'r gofynion statudol | 11 | 0 | 0 | (11) |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Addasiadau yn ymwneud â'r Gronfa Bensiwn:** | | | | |
| Gwrthdroi eitemau yn ymwneud â budd-dal ymddeol wedi eu debydu/credydu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | 26,484 | 0 | 0 | (26,484) |
| uniongyrchol i bensiynwyr sydd yn daladwy yn y flwyddyn | (8,897) | 0 | 0 | 8,897 |
| **Addasiadau yn ymwneud â'r Cyfrif Absenoldeb Cronedig:** | | | | |
| Gwahaniaeth rhwng taliadau swyddogion sydd wedi ei gynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail croniadau a'r taliadau swyddogion yn y flwyddyn yn unol â gofynion statudol | 547 | 0 | 0 | (547) |
| **Cyfanswm Addasiadau** | **9,458** | **233** | **3,486** | **(13,177)** |

## 1.8 CRONFEYDD NEILLTUEDIG A BALANSAU YSGOLION DIRPRWYEDIG

Isod, ceir crynodeb o'r cronfeydd neilltuedig y mae'r Cyngor wedi'u sefydlu:

| | 31/03/21 Balans £'000 | Trosgl-wyddo i'r £'000 | Trosgl-wyddo o'r £'000 | 31/03/22 Balans £'000 | Trosgl-wyddo i'r £'000 | Trosgl-wyddo o'r £'000 | 31/03/23 Balans £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyllideb Dirprwyedig yr Ysgolion - Cynradd | 3,035 | 1,212 | (17) | 4,230 | 0 | (1,636) | 2,594 |
| Cyllideb Dirprwyedig yr Ysgolion - Uwchradd | 1,873 | 540 | (12) | 2,401 | 0 | (951) | 1,450 |
| Cyllideb Dirprwyedig yr Ysgolion - Ysgolion Pob Oed | 1,441 | 240 | 0 | 1,681 | 0 | (598) | 1,083 |
| **Cyllideb Dirprwyedig Ysgolion - Pob Ysgol** | **6,349** | **1,992** | **(29)** | **8,312** | **0** | **(3,185)** | **5,127** |
| Yswiriant- Cyflenwi Athrawon | 297 | 13 | (125) | 185 | 0 | (100) | 85 |
| | 396 | 100 | 0 | 496 | 274 | 0 | 770 |
| Gwasanaethau Ysgolion, Dysgu Gydol Oes a Diwylliant | | | | | | | |
| **Gwasanaethau Ysgolion, Dysgu Gydol Oes a Diwylliant** | **7,042** | **2,105** | **(154)** | **8,993** | **274** | **(3,285)** | **5,982** |
| Cyfalaf Corfforaethol | 3,225 | 2,971 | 0 | 6,196 | 0 | 0 | 6,196 |
| Addysg- Menter Cyllid Preifat Penweddig | 923 | 1,000 | (309) | 1,614 | 0 | 0 | 1,614 |
| Corfforaethol - Trefniadau ar y cyd | 8 | 0 | 0 | 8 | 0 | (8) | 0 |
| Cydraddoli Cyllid / Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor | 700 | 0 | 0 | 700 | 0 | 0 | 700 |
| Dileu Swyddi Corfforaethol | 1,062 | 0 | 0 | 1,062 | 0 | 0 | 1,062 |
| Yswiriant | 888 | 216 | 0 | 1,104 | 102 | 0 | 1,206 |
| Cynllun Costau Byw (Dewisol) | 0 | 487 | 0 | 487 | 0 | (487) | 0 |
| Cyllid- Cyffredinol | 250 | 0 | 0 | 250 | 230 | 0 | 480 |
| **Cyllid a Chaffael** | **7,056** | **4,674** | **(309)** | **11,421** | **332** | **(495)** | **11,258** |
| Gwasanaethau Democrataidd | 112 | 0 | 0 | 112 | 0 | 0 | 112 |
| Cronfa wrth gefn etholiad y Cyngor Sir | 200 | 0 | 0 | 200 | 0 | (165) | 35 |
| **Gwasanaethau Democrataidd** | **312** | **0** | **0** | **312** | **0** | **(165)** | **147** |
| **Pobl a Threfniadaeth** | **58** | **0** | **0** | **58** | **0** | **(41)** | **17** |
| Porth Cymorth Cynnar | 2 | 0 | 0 | 2 | 0 | 0 | 2 |
| Buddsoddiad Pyrth | 0 | 250 | 0 | 250 | 0 | 0 | 250 |
| Porth Gofal | 339 | 24 | 0 | 363 | 0 | (313) | 50 |
| **Model Gydol Oes y Pyrth** | **341** | **274** | **0** | **615** | **0** | **(313)** | **302** |
| **Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd** | **102** | **0** | **0** | **102** | **25** | **0** | **127** |
| Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol | 1,293 | 1,005 | 0 | 2,298 | 0 | (1,212) | 1,086 |
| Cynnal a chadw dros y gaeaf / Atgyweirio ar ôl stormydd | 277 | 0 | 0 | 277 | 0 | (122) | 155 |
| Diogelu'r Amgylchedd ac Amddifyn rhag Llifogydd | 177 | 0 | 0 | 177 | 0 | 0 | 177 |
| Gorfodi Parcio Sifil | 93 | 21 | (28) | 86 | 16 | 0 | 102 |
| **Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol** | **1,840** | **1,026** | **(28)** | **2,838** | **16** | **(1,334)** | **1,520** |
| Cynllun Datblygu Lleol | 248 | 0 | 0 | 248 | 0 | (15) | 233 |
| Economi ac Adfywio | 177 | 0 | 0 | 177 | 0 | (84) | 93 |
| Canolfan Bwyd Cymru (Horeb) | 217 | 0 | 0 | 217 | 0 | (19) | 198 |
| Y Fargen Dwf | 250 | 0 | 0 | 250 | 0 | (31) | 219 |
| Rhaglen Gwella Gwaith Trin Carthion | 543 | 0 | (91) | 452 | 0 | 0 | 452 |
| **Perfformiad ac Economi** | **1,435** | **0** | **(91)** | **1,344** | **0** | **(149)** | **1,195** |
| TGCh ac Buddsoddiad Digidol | 0 | 1,000 | 0 | 1,000 | 0 | 0 | 1,000 |
| Cyswllt Cwsmeriaid | 134 | 75 | 0 | 209 | 0 | (28) | 181 |
| **Cyswllt Cwsmeriaid** | **134** | **1,075** | **0** | **1,209** | **0** | **(28)** | **1,181** |
| **Cyfreithiol a Llywodraethu** | **125** | **0** | **0** | **125** | **0** | **(125)** | **0** |

| | 31/03/21 Balans £'000 | Trosgl-wyddo i'r £'000 | Trosgl-wyddo o'r £'000 | 31/03/22 Balans £'000 | Trosgl-wyddo i'r £'000 | Trosgl-wyddo o'r £'000 | 31/03/23 Balans £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Wrth gefn a Rheoli'r Gyllideb | 4,373 | 90 | 0 | 4,463 | 752 | (1,078) | 4,137 |
| Chost a Phwysau Chwyddiant | 0 | 1,435 | 0 | 1,435 | 600 | (713) | 1,322 |
| Cydraddoli Lleoliadau | 0 | 1,000 | 0 | 1,000 | 0 | (1,000) | 0 |
| Cynllun Tai Cymunedol (Premiwm Treth y Cyngor) | 648 | 472 | 0 | 1,120 | 677 | 0 | 1,797 |
| Eisteddfod Genedlaethol 2020 | 170 | 0 | 0 | 170 | 0 | (170) | 0 |
| Darparu'r dechrau gorau mewn bywyd a galluogi pobl o bob oed i ddysgu | 5,437 | 535 | (570) | 5,402 | 0 | (525) | 4,877 |
| Hybu'r Economi, Cefnogi Busnesau a Galluogi Cyflogaeth | 4,510 | 2,995 | (621) | 6,884 | 1,204 | (88) | 8,000 |
| Creu Cymunedau Gofalgar ac Iach | 500 | 1,000 | 0 | 1,500 | 1,000 | (198) | 2,302 |
| Creu Cymunedau Cynaliadwy a gwyrdd sydd wedi'u cysylltu'n dda â'i gilydd | 4,450 | 500 | 0 | 4,950 | 0 | (310) | 4,640 |
| **Grŵp Arweiniol** | **20,088** | **8,027** | **(1,191)** | **26,924** | **4,233** | **(4,082)** | **27,075** |
| **CYFANSWM CRONFEYDD NEILLTUEDIG** | **38,533** | **17,181** | **(1,773)** | **53,941** | **4,880** | **(10,017)** | **48,804** |

Cynyddodd y balans o ran Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn gan £5,137mil yn 2022/23 a £15,408mil yn 2021/22.

## NODIADAU YNGHYLCH Y CRONFEYDD WRTH GEFN A GLUSTNODWYD

### Cyllidebau Dirprwyedig Ysgolion

Mae'r cronfeydd wrth gefn hyn wedi'u clustnodi ac maent yn cynnwys y balansau unigol sydd gan bob ysgol gynradd, ysgol uwchradd ac ysgol gydol oed yng Ngheredigion.

### Cyfalaf Corfforaethol

Mae'r gronfa wrth gefn hon yn bodoli i ddarparu cyllid ar gyfer y Rhaglen Gyfalaf a bydd yn cael ei defnyddio i wneud cyfraniad refeniw i Raglenni Cyfalaf y presennol, yn ogystal â rhai'r dyfodol.

### Hapddigwyddiadau (gan gynnwys COVID-19)

Mae'r gronfa wrth gefn hon yn cynnwys arian sydd wedi ei roi o'r neilltu i gyfrannu at liniaru a rheoli peryglon ariannol COVID-19, yn ogystal â darparu cyllid un-tro neu gyllid graddedig sy'n ymwneud ag eitemau yr ymdrinnir â nhw yn gorfforaethol.

### Buddsoddi yn Nyfodol y Bobl

Mae'r gronfa wrth gefn hon wedi'i chreu i gynorthwyo yn y broses o gyflawni un o Flaenoriaethau Corfforaethol penodol y Cyngor. Mae'n cynnwys arian cyfatebol ar gyfer Rhaglen Gyfalaf Ysgolion yr 21ain Ganrif.

### Hybu'r Economi

Mae'r gronfa wrth gefn hon wedi'i chreu i gynorthwyo yn y broses o gyflawni un o Flaenoriaethau Corfforaethol y Cyngor. Mae'n cynnwys arian cyfatebol ar gyfer Strategaeth Economaidd y Cyngor.

### Hyrwyddo Cydnerthedd Amgylcheddol a Chymunedol

Mae'r gronfa wrth gefn hon wedi'i chreu i gynorthwyo yn y broses o gyflawni un o Flaenoriaethau Corfforaethol penodol y Cyngor. Mae'n cynnwys arian cyfatebol ar gyfer rhaglenni Cyfalaf Diogelu'r Arfordir.

### Cronfeydd Wrth Gefn Eraill

Mae'r cronfeydd wrth gefn eraill i gyd yn cael eu cadw gan y gwasanaethau priodol at y Diben neu'r Gwasanaeth penodol a enwir. Maent wedi'u sefydlu yn sgil arbedion neu

danwariant a gafwyd yn ystod blynyddoedd ariannol blaenorol ac maent yn bodoli i fodloni gwariant un-tro nad yw'n mynd i ddigwydd eto neu i gynorthwyo gwasanaethau i reoli eu cyllidebau mewn unrhyw flwyddyn ariannol benodol a hynny ar sail un-tro.

## 1.9 GWARIANT GWEITHREDOL ARALL

| | 2022/23 | 2021/22 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Praesept y Cynghorau Cymuned | 1,257 | 1,183 |
| Praesept Awdurdod Heddlu Dyfed Powys | 9,303 | 8,793 |
| Ardollau | 4,205 | 4,072 |
| Colledion/(Enillion) o waredu asedau nad ydynt yn gyfredol | 13 | (659) |
| **Cyfanswm** | **14,778** | **13,389** |

## 1.10 GWARIANT AC INCWM ARIANNU A BUDDSODDI

| | 2022/23 | 2021/22 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Llog taladwy a thaliadau eraill | 4,994 | 5,725 |
| Cost llog pensiynau ac enillion a ddisgwylir ar asedau pensiynau | 3,647 | 3,284 |
| Llog derbyniadwy ac incwm tebyg | (1,302) | (236) |
| (Gwarged)/diffyg ar y Gweithrediadau Masnachol | 49 | 128 |
| Incwm a Gwariant parthed Eiddo Buddsoddi | (815) | (847) |
| Newidiadau i werth teg Eiddo Buddsoddi | (1,664) | (18) |
| **Cyfanswm** | **4,909** | **8,036** |

## 1.11 TRETH AC INCWM GRANT AMHENODOL

| | 2022/23 | 2021/22 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Incwm Treth y Cyngor | 58,029 | 56,605 |
| Ardrethi Annomestig | 27,082 | 25,064 |
| Grantiau'r Llywodraeth heb eu clustnodi (RSG) | 92,339 | 86,029 |
| Grantiau a Chyfraniadau Cyfalaf | 17,407 | 17,393 |
| **Cyfanswm** | **194,857** | **185,091** |

**Y Dreth Gyngor**

Mae incwm y Dreth Gyngor yn dod o'r taliadau a godir yn ôl gwerth eiddo preswyl sydd wedi'u rhannu i ddeg band prisio ar sail eu gwerth amcangyfrifedig ar 1af Ebrill 2003. Cawsant eu prisio at y diben penodol hwn. Caiff y taliadau eu cyfrifo drwy gymryd swm yr incwm sydd ei angen ar Gyngor Sir Ceredigion, Cynghorau Tref a Chymuned ac Awdurdod Heddlu Dyfed Powys ar gyfer y flwyddyn i ddod a rhannu'r swm hwnnw â sylfaen y Dreth Gyngor.

Sylfaen y Dreth Gyngor yw cyfanswm yr eiddo ym mhob band wedi'i addasu gan gyfran i drosi'r nifer yn swm sy'n gyfwerth â Band D a'i addasu ar gyfer gostyngiadau 32,063.08 yn 2022/23 (31,911.26 yn 2021/22).

**Sylfaen Treth Gyngor Cyngor Sir Ceredigion 2022/23**

Sylfaen y Dreth (ar sail cyfradd gasglu o 97.5%)

| Band | Sylfaen y Dreth |
|---|---|
| A* | 2.30 |
| A | 982.47 |
| B | 3072.77 |
| C | 5708.29 |
| D | 6502.77 |
| E | 9491.04 |
| F | 4683.06 |
| G | 1414.98 |
| H | 159.90 |
| I | 45.50 |
| **Cyfanswm Sylfaen y Dreth** | **32,063.08** |

Dadansoddiad o enillion net Treth y Cyngor:

| | 2022/23 | 2021/22 |
|---|---|---|
| Treth y Cyngor a gasglwyd | 58,269 | 56,039 |
| LIC Hawliad Caledi | 0 | 106 |
| *Tynnu i ffwrdd:* | | |
| (Cynydd)/Gostwng darpariaeth am beidio â thalu | (240) | 460 |
| **Enillion net Treth y Cyngor** | **58,029** | **56,605** |

Gellir dadansoddi'r enillion net fel a ganlyn:

| | 2022/23 | 2021/22 |
|---|---|---|
| Cyngor Sir Ceredigion | 47,468 | 46,629 |
| Praesept Awdurdod Heddlu Dyfed Powys | 9,304 | 8,793 |
| Praesept ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned | 1,257 | 1,183 |
| | **58,029** | **56,605** |

**Ardrethi Annomestig Cenedlaethol**

Caiff yr Ardrethi Annomestig Cenedlaethol eu gweithredu ar sail genedlaethol. Mae Llywodraeth Cymru'n pennu swm yr ardreth, sef 53.5c yn 2022/23 (53.5c yn 2021/22), ac mae busnesau lleol yn talu ardrethi a gyfrifir drwy luosi'u gwerth ardrethol â'r swm hwnnw. Mae'r Cyngor yn gyfrifol am gasglu'r ardrethi sy'n ddyledus gan y trethdalwyr yn ei ardal, ond mae'n talu'r enillion i gronfa'r Ardrethi Annomestig Cenedlaethol a weinyddir gan Lywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru'n ailddosbarthu'r symiau sy'n daladwy i'r Awdurdodau Lleol ar sail swm penodol y pen o'r boblogaeth dros 18 oed.

Ar 31 Mawrth 2023 y gwerth ardrethol oedd £56,692,847 (£56,060,088 ar 31 Mawrth 2022).

## 1.12 INCWM GRANTIAU

| **Grantiau Refeniw –** A gredydir i'r Gwasanaethau: | **2022/23 £'000** | **Ailosodwyd 2021/22 £'000** |
|---|---|---|
| LIC - grantiau COVID | 808 | 7,667 |
| LIC - Cyllid Ôl-16 | 3,757 | 3,773 |
| LIC - Grant Gwella Ysgolion y Consortiwm Rhanbarthol | 3,722 | 2,701 |
| LIC - Grant Datblygu Disgyblion | 1,685 | 1,550 |
| LIC - Grant Addysg yr Awdurdod Lleol | 3,473 | 5,463 |
| LIC - E-Ysgol | 600 | 535 |
| LIC - Grant Plant a Chymunedau | 2,530 | 2,210 |
| LIC - Grant Cymorth Tai | 3,852 | 3,847 |
| LIC - Neb Heb Help | 592 | 0 |
| LIC - Grant Pwysau Cynaladwyedd | 1,030 | 1,145 |
| LIC - Cronfa Adfer Gofal Cymdeithasol | 0 | 1,388 |
| LIC - Grant Pwysau Gofal Cymdeithasol yr Awdurdod Lleol | 0 | 1,145 |
| LIC - Integreiddio Rhanbarthol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol | 1,742 | 0 |
| LIC - Rheoli Gwastraff Cynaliadwy | 522 | 732 |
| LIC - Grant Tocynnau Teithio Rhatach | 523 | 656 |
| LIC - Grant Gwasanaethau Bysiau Cyhoeddus | 948 | 740 |
| LIC - Grant Cynnal Gwasanaethau Bysiau | 763 | 763 |
| LIC - Cynnig Gofal Plant | 7,709 | 7,282 |
| LIC - Cyllid Darparu Mwy | 0 | 1,703 |
| Gofal Cymdeithasol Cymru - Rhaglen Datblygu Gweithlu | 1,020 | 1,004 |
| UE - Rhaglen Trosglwyddo Gwybodaeth ac Arloesi | 545 | 480 |
| DLUHC - Cronfa Adfywio Cymunedol | 2,258 | 100 |
| DLUHC - Cronfa Ffyniant Gyffredin | 522 | 0 |
| Swyddfa Gymraeg - Rhaglenni Ffoadur | 994 | 163 |
| AGPh - Cymhorthdal y Budd-dal Tai a Grantiau Gweinyddu Budd-dal Tai | 13,654 | 14,313 |
| Grantiau a Chyfraniadau Eraill y Llywodraeth | 8,552 | 9,053 |
| **Cyfanswm Grantiau Llywodraeth mewn Cost Net o Wasanaethau** | **61,801** | **68,413** |

Ailddatganwyd 2021/22 ar gyfer gwybodaeth ychwanegol am grantiau a ddatgelwyd yn 2022/23.

**Grantiau Cyfalaf a Chyfraniadau** – A Gredydir i'r Dreth ac Incwm Grant Amhennodd

| | 2022/23 | Ailosodwyd 2021/22 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| LlC - Grant Cyfalaf Cyffredinol | 1,995 | 5,136 |
| LlC - Gwelliannau'r Priffyrdd | 0 | 610 |
| LlC - Cronfa'r Rhwydwaith Trafnidiaeth Lleol | 1,711 | 842 |
| LlC - Gofal Plant | 41 | 1,548 |
| LlC - Ysgolion y 21ain Ganrif | 3,871 | 2,145 |
| LlC - Ysgolion - Gwaith Cyfalaf Ychwanegol | 1,140 | 1,188 |
| LlC - Prydau Ysgol am Ddim | 798 | 570 |
| LlC - Datblygu Tir ac Eiddo | 0 | 1,060 |
| LlC - Prosiect 'Mash' Aberteifi | 0 | 540 |
| LlC - Lleihau Maint Dosbarthiadau Babanod | 909 | 0 |
| LlC - Hyb Llanbedr Pont Steffan | 1,057 | 63 |
| Chwaraeon Cymru - Cais Cam 2 Chwaraeon Cymru | 538 | 0 |
| Llywodraeth y DU – Prosiectau Ffyniant Bro | 507 | 0 |
| Grantiau Eraill | 4,840 | 3,691 |
| | **17,407** | **17,393** |

Ailddatganwyd 2021/22 ar gyfer gwybodaeth ychwanegol am grantiau a ddatgelwyd yn 2022/23.

**Ariannu Cymorth Ychwanegol**

Yn ystod y flwyddyn, darparwyd amrywiaeth o gyllid cymorth ar gyfer nifer o wahanol ddibenion gan gynnwys taliadau COVID-19 parhaus, cynlluniau adsefydlu Wcráin a mesurau costau byw i gefnogi aelwydydd.

Mae'r Cyngor yn derbyn cyllid lle mae'n gweithredu fel pennaeth (gan weithredu ar ran ei hun) ond hefyd lle mae'n gweithredu fel asiant (gan weithredu fel cyfryngwr). Mae'r holl gyllid sy'n cael ei dderbynnir fel Pennaeth wedi'i gynnwys yn y Datganiad Cyfrifon, ond nid yw'r cyllid a dderbynnir fel asiant.

Crynhoir gwerth y ffrydiau cyllido ychwanegol a dderbynnir fel asiant yn y tablau canlynol:

**Asiantaethau yn ôl eu Natur**

| 2022/23 | Gwariant £000 | Incwm Llywodraeth Cymru £000 |
|---|---|---|
| Cynllun rhyddhad ardrethi - Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch | 2,738 | 2,738 |
| Cynllun Taliadau'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol | 2,390 | 2,390 |
| Grant Hunanynysu | 200 | 200 |
| Cynllun ychwanegu at y Tâl Salwch Statudol - Gofal Cymdeithasol | 49 | 49 |
| Cynllun Cymorth Tanwydd Gaeaf | 1,509 | 1,509 |
| Taliad Gofalwyr Di-dâl | 352 | 352 |
| Cymorth Costau Byw | 2,792 | 2,792 |
| Cynlluniau adsefydlu Wcráin | 157 | 157 |
| **Cyfanswm** | **10,187** | **10,187** |

| 2021/22 | Gwariant £000 | Incwm Llywodraeth Cymru £000 |
|---|---|---|
| Grantiau i Fusnesau | 2,066 | 2,066 |
| Cynllun rhyddhad ardrethi - Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch | 8,636 | 8,636 |
| Cynllun Taliadau'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol | 1,561 | 1,561 |
| Grant Hunanynysu | 886 | 886 |
| Cynllun ychwanegu at y Tâl Salwch Statudol - Gofal Cymdeithasol | 15 | 15 |
| Cynllun Digolledu ar ôl Llifogydd (COVID-19) | 576 | 576 |
| **Cyfanswm** | **13,740** | **13,740** |

# 1.13 EIDDO, PEIRIANNAU A CHYFARPAR

**Symudiadau yn 2022/23:**

| | Tir ac Adeiladau £'000 | Cerbydau, Peiriannau, Celfi a Chyfarpar £'000 | Asedau Cymunedol £'000 | Asedau sy'n weddill £'000 | Asedau caiff eu hadeiladu ar hyn o bryd (AUC) £'000 | Cyfanswm Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cost neu Brisiad** | | | | | | |
| **Ar 31 Mawrth 2022** | 261,755 | 23,695 | 1,470 | 3,363 | 2,320 | 292,603 |
| Ychwanegiadau | 8,175 | 1,872 | 1 | 3 | 5,661 | 15,712 |
| Cynnydd/(gostyngiadau) ailbrisio yn y Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn | 27,496 | 0 | 0 | (26) | 0 | 27,470 |
| Cynnydd/(gostyngiadau) ailbrisio yn y Gwarged/Diffyg o ran Darpariaeth Gwasanaethau | (9,393) | 0 | 0 | (135) | 0 | (9,528) |
| Dadgydnabod–gwaredu | 0 | (1,686) | 0 | (737) | 0 | (2,423) |
| Dadgydnabod–eraill | 0 | (132) | 0 | 0 | 0 | (132) |
| Ail-ddosbarthwyd asedau (i)/o cadwyd i'r gwerthu | 0 | (46) | 0 | 0 | 0 | (46) |
| Ail-ddosbarthwyd asedau o AUC | 1,586 | 0 | 0 | 0 | (1,586) | 0 |
| Symudiadau eraill | (948) | 756 | 0 | 664 | 0 | 472 |
| **Ar 31 Mawrth 2023** | **288,671** | **24,459** | **1,471** | **3,132** | **6,395** | **324,128** |
| **Croniad o ran y Dibrisio a Diffygion** | | | | | | |
| **Ar 31 Mawrth 2022** | (746) | (13,292) | 0 | (929) | 0 | (14,967) |
| Tâl dibrisio | (8,952) | (1,761) | 0 | (66) | 0 | (10,779) |
| Dibrisiad wedi ei osod yn erbyn Gwarged/Diffyg o ran Darpariaeth Gwasanaethau | 8,427 | 0 | 0 | 48 | 0 | 8,475 |
| (Colledion) diffygion/gwyrdroadau yn y Gronfa Wrth Gefn Ailbrisio | (317) | 0 | 0 | 0 | 0 | (317) |
| (Colledion) diffygion/gwyrdroadau o ran y Gwarged/Diffyg o ran Darpariaeth Gwasanaethau | 24 | 0 | 0 | 0 | (8) | 16 |
| Dadgydnabod–gwaredu | 0 | 1,371 | 0 | 658 | 0 | 2,029 |
| Dadgydnabod–eraill | 0 | 73 | 0 | 0 | 0 | 73 |
| Symudiadau eraill | (21) | 237 | 0 | (180) | 8 | 44 |
| **Ar 31 Mawrth 2023** | **(1,585)** | **(13,372)** | **0** | **(469)** | **0** | **(15,426)** |
| **Gwerth ar Bapur Net** | | | | | | |
| **Ar 31 Mawrth 2023** | **287,086** | **11,087** | **1,471** | **2,663** | **6,395** | **308,702** |
| **Ar 31 Mawrth 2022** | **261,009** | **10,403** | **1,470** | **2,434** | **2,320** | **277,636** |

| Symudiadau yn 2021/22: | Tir ac Adeiladau £'000 | Cerbydau, Peiriannau, Celfi a Chyfarpar £'000 | Asedau Cymunedol £'000 | Asedau sy'n weddill £'000 | Asedau caiff eu hadeiladu ar hyn o bryd (AUC) £'000 | Cyfanswm Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cost neu Brisiad** | | | | | | |
| **Ar 31 Mawrth 2021** | 237,131 | 24,641 | 1,469 | 4,006 | 1,325 | 268,572 |
| Ychwanegiadau | 5,840 | 963 | 2 | 0 | 1,941 | 8,746 |
| Cynnydd/(gostyngiadau) ailbrisio yn y Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn | 32,240 | 0 | 0 | 3 | 0 | 32,243 |
| Cynnydd/(gostyngiadau) ailbrisio yn y Gwarged/Diffyg o ran Darpariaeth Gwasanaethau | (13,778) | (10) | 0 | (13) | (63) | (13,864) |
| Dadgydnabod–gwaredu | (102) | (50) | 0 | (265) | 0 | (417) |
| Dadgydnabod–arall | (54) | (2,118) | 0 | (4) | 0 | (2,176) |
| Ail-ddosbarthwyd asedau (i)/o cadwyd i'r gwerthu | 0 | 0 | 0 | (500) | 0 | (500) |
| Ail-ddosbarthwyd asedau o AUC | 883 | 0 | 0 | 0 | (883) | 0 |
| Symudiadau eraill | (405) | 269 | (1) | 136 | 0 | (1) |
| **Ar 31 Mawrth 2022** | **261,755** | **23,695** | **1,470** | **3,363** | **2,320** | **292,603** |
| **Croniad o ran y Dibrisio a Diffygion** | | | | | | |
| **Ar 31 Mawrth 2021** | (8,843) | (13,796) | 0 | (899) | 0 | (23,538) |
| Tâl dibrisio | (7,196) | (1,724) | 0 | (79) | 0 | (8,999) |
| Dibrisiad wedi ei osod yn erbyn Gwarged/Diffyg o ran Darpariaeth Gwasanaethau | 14,417 | 10 | 0 | 29 | 0 | 14,456 |
| (Colledion) diffygion/gwyrdroadau yn y Gronfa Wrth Gefn Ailbrisio | (186) | (1) | 0 | 0 | 0 | (187) |
| (Colledion) diffygion/gwyrdroadau o ran y Gwarged/Diffyg o ran Darpariaeth Gwasanaethau | 1,043 | (5) | 0 | 0 | 0 | 1,038 |
| Dadgydnabod–gwaredu | 8 | 26 | 0 | 79 | 0 | 113 |
| Dadgydnabod–eraill | 12 | 2,118 | 0 | 4 | 0 | 2,134 |
| Symudiadau eraill | (1) | 80 | 0 | (63) | 0 | 16 |
| **Ar 31 Mawrth 2022** | **(746)** | **(13,292)** | **0** | **(929)** | **0** | **(14,967)** |
| **Gwerth ar Bapur Net** | | | | | | |
| **Ar 31 Mawrth 2022** | **261,009** | **10,403** | **1,470** | **2,434** | **2,320** | **277,636** |
| **Ar 31 Mawrth 2021** | **228,288** | **10,845** | **1,469** | **3,107** | **1,325** | **245,034** |

**Dibrisio**

Defnyddiwyd yr oes ddefnyddiol a chyfraddau dibrisio canlynol wrth gyfrif y dibrisiad:

Tir ac Adeiladau eraill – 1-99 mlynedd
Cerbydau, Peiriannau, Celfi a Chyfarpar – 1-20 mlynedd
Seilwaith – 10-99 mlynedd

Caiff asedau o dan Brydlesau Cyllid eu dibrisio ar sail llinell syth dros oes y brydles gyfredol nad yw wedi dod i ben.

**Ailbrisio**
Mae'r Cyngor yn cynnal rhaglen dreigl sy'n sicrhau y caiff holl Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar y bydd angen eu mesur ar werth teg yn cael eu hailbrisio o leiaf bob pum mlynedd ac ystyrir Eiddo Buddsoddi a Ffermydd y Sir yn flynyddol. Caiff yr holl waith pridio ei wneud yn fewnol gan briswyr y Cyngor sy'n Aelodau o Sefydliad Brenhinol Syrfewyr Siartredig. Yr asedau a ailbrisiwyd gan y Cyngor yn 2022/23 oedd Parciau Ceir ac Asedau Tir Amrywiol. O ran gweddill adeiladau'r Cyngor sy'n cael eu dal ar sail Cost Amnewid Dibrisiedig, cafodd eu prisiadau presennol eu huwchraddio gan fynegai sy'n seiliedig ar ffigyrau addas a gymerwyd o ddata'r Gwasanaeth Gwybodaeth am Gostau Adeiladu. Barnodd y priswyr fod y prisiadau ar gyfer gweddill y categorïau o asedau'n ddigon cywir fel nad oedd angen eu mynegeio ar hyn o bryd.

Gwneir prisiadau ar dir ac adeiladau yn unol â'r methodolegau ac y mae'r sail ar gyfer yr amcangyfrif wedi ei nodi yn safonau proffesiynol Sefydliad Brenhinol Syrfewyr Siartredig, y cyfeiriwyd ato fel y 'Llyfr Coch'. Mae prisiadau cerbydau, peiriannau a chyfarpar yn seiliedig ar brisiau cyfredol lle y mae marchnad ail law weithredol neu'r prisiau catalog diweddaraf wedi eu haddasu yn unol â chyflwr yr ased.

Nodir isod y rhagdybiaethau penodol a ddefnyddir wrth amcangyfrif gwerth teg:

- Mae cost hanesyddol yn rhesymol i'w ystyried ar gyfer gwerth teg
- Mae oes ased cerbydau, peiriannau a chyfarpar yn seiliedig ar y cyfnodau prydles a ddefnyddir gan y Cyngor ar gyfer cerbydau neu gyfarpar o fath penodol.
- Mae gwerth gweddillion ar gyfer asedau cerbydau, peiriannau a chyfarpar yn 10% o'r gost gychwynnol ar gyfer y cerbydau ac nid oes gwerth gweddilliol i unrhyw gyfarpar arall.

Mae'r datganiad canlynol yn nodi'r datblygiadau o ran rhaglen dreigl y Cyngor ar gyfer ailbrisio Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar:

| | Tir ac Adeiladau £'000 | Cerbydau, Peiriannau, Celfi ac Offer £'000 | Asedau Dros Ben £'000 |
|---|---|---|---|
| Ar gost hanesyddol: | 592 | 24,459 | 594 |
| Prisiad ar werth teg ar: | | | |
| 31 Mawrth 2023 | 246,430 | 0 | 2,538 |
| 31 Mawrth 2022 | 8,969 | 0 | 0 |
| 31 Mawrth 2021 | 14,697 | 0 | 0 |
| 31 Mawrth 2020 | 16,226 | 0 | 0 |
| 31 Mawrth 2019 | 1,757 | 0 | 0 |
| **CYFANSWM** | **288,671** | **24,459** | **3,132** |

**Concrit Awyredig Awtoclafiedig Cyfnerth (RAAC)**
Mae'r Cyngor wedi cynnal yr arolygiadau gofynnol o ran RAAC ac nid oes tystiolaeth o RAAC wedi'i ganfod.

**Asedau Seilwaith**
Yn unol â'r rhyddhad dros dro a gynigiwyd gan y diweddariad i'r Cod ar asedau seilwaith, nid yw'r nodyn hwn yn cynnwys datgelu cost gros a dibrisio cronedig ar gyfer asedau seilwaith oherwydd bod arferion adrodd hanesyddol a diffygion gwybodaeth

canlyniadol yn golygu na fyddai hyn yn dangos y sefyllfa o ran asedau yn gywir i ddefnyddwyr y datganiadau ariannol. Nid oes unrhyw effaith ar unrhyw un o'r datganiadau ariannol.

Mae'r awdurdod wedi penderfynu yn unol â Rheoliad 24L Cymru o Reoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifeg) (Cymru) 2003 (fel y'u diwygiwyd) mai'r symiau cario ymlaen sydd i'w dad-gydnabod o ran yr asedau seilwaith pan fo gwariant newydd yw dim.

Mae'r Cyngor wedi dewis peidio â datgelu'r wybodaeth hon gan fod yr arferion yr adroddwyd arnynt yn flaenorol a'r diffygion gwybodaeth canlyniadol yn golygu nad yw cost gros a dibrisio cronedig yn cael eu mesur yn gywir ac ni fyddai'n sail i ddefnyddwyr y datganiadau ariannol wneud penderfyniadau economaidd neu benderfyniadau eraill sy'n ymwneud ag asedau seilwaith.

Roedd Asedau Seilwaith gyda swm net o £138,885mil yn cael eu dal ar 31 Mawrth 2023 (£135,946mil ar 31 March 2022).

| | 2022/23 | 2021/22 |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| **Gwerth ar Bapur Net ar 1 Ebrill** | **135,946** | **133,860** |
| Ychwanegiadau | 5,835 | 4,920 |
| Dadgydnabod-gwaredu | 0 | 0 |
| Tâl dibrisio | (2,888) | (2,825) |
| Diffygion | (8) | (9) |
| **Balans ar ddiwedd y flwyddyn** | **138,885** | **135,946** |

## 1.14 EIDDO BUDDSODDI

Nid oes unrhyw gyfyngiadau ar allu’r Cyngor i wireddu gwerth ei eiddo buddsoddi ac nid oes cyfyngiadau ychwaith ar hawl y Cyngor i dderbyn yr incwm a derbyniadau wedi i’r eiddo gael ei waredu. Nid oes gan y Cyngor unrhyw oblygiadau contract i brynu, adeiladu na datblygu eiddo buddsoddi, nac ychwaith i’w hatgyweirio, cynnal a’u cadw na’u gwella.

Mae’r tabl canlynol yn crynhoi’r symudiadau yng ngwerth teg eiddo buddsoddi ar draws y flwyddyn:

| | 2022/23 | 2021/22 |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| Balans ar ddechrau'r flwyddyn | 17,368 | 16,912 |
| Ychwanegiadau: | | |
| Pryniannau | 0 | 370 |
| Gwariant dilynol | 387 | 68 |
| Enillion/(colledion) net o fuddsoddiadau gwerth | 1,664 | 18 |
| Trosglwyddiadau (i)/o Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar | (471) | 0 |
| **Balans ar ddiwedd y flwyddyn** | **18,948** | **17,368** |

## 1.15 ASEDAU TREFTADAETH

| Cost neu Brisiad | Tir ac Adeiladau Hanesyddol | Amguedd-feydd | Gwaith Celf | Regalia Dinesig | Eitemau ar ddangos mewn Amguedd-feydd | Cyfanswm Asedau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **1af Ebrill 2021** | **1,161** | **1,845** | **95** | **65** | **54** | **3,220** |
| Ychwanegiadau | 2 | 11 | 0 | 0 | 0 | **13** |
| Ailbrisiadau | 0 | 264 | 21 | 0 | 4 | **289** |
| **31ain Mawrth 2022** | **1,163** | **2,120** | **116** | **65** | **58** | **3,522** |
| **Cost neu Brisiad** | | | | | | |
| **1af Ebrill 2022** | **1,163** | **2,120** | **116** | **65** | **58** | **3,522** |
| Ychwanegiadau | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Ailbrisiadau | 0 | 197 | 0 | 0 | 0 | **197** |
| (Colledion) diffygion/ (Gwyrdroadau) yn y Gronfa Wrth Gefn | 0 | (1) | 0 | 0 | 0 | **(1)** |
| **31ain Mawrth 2023** | **1,163** | **2,316** | **116** | **65** | **58** | **3,718** |

Mae rhagor o wybodaeth ar Asedau Treftadaeth y Cyngor ar gael yn adran 1.1 o'r nodiadau i'r Datganiad Cyfrifon – rhan xii.

## 1.16 MESUR GWERTH TEG ASEDAU ANARIANNOL

### Hierarchaeth Gwerth Teg

| Categori / Is-Gategori | Lefel 1 | Lefel 2 | Lefel 3 | Gwerth Teg ar 31/03/2023 |
|---|---|---|---|---|
| Asedau a Ddelir i'w Gwerthu | 0 | 470 | 0 | 470 |
| Ystad Gorfforaethol | 0 | 11,403 | 0 | 11,403 |
| Eiddo Gwag | 0 | 582 | 0 | 582 |
| Eiddo Buddsoddi | 0 | 5,003 | 0 | 5,003 |
| Adeiladau ar Brydles | 0 | 177 | 0 | 177 |
| Adeiladau Eraill | 0 | 1,783 | 0 | 1,783 |
| Dros Ben | 0 | 2,643 | 20 | 2,663 |
| | **0** | **22,061** | **20** | **22,081** |

| Categori / Is-Gategori | Lefel 1 | Lefel 2 | Lefel 3 | Gwerth Teg ar 31/03/2022 |
|---|---|---|---|---|
| Asedau a Ddelir i'w Gwerthu | 0 | 720 | 0 | 720 |
| Ystad Gorfforaethol | 0 | 10,729 | 0 | 10,729 |
| Eiddo Gwag | 0 | 542 | 0 | 542 |
| Eiddo Buddsoddi | 0 | 4,200 | 0 | 4,200 |
| Adeiladau ar Brydles | 0 | 177 | 0 | 177 |
| Adeiladau Eraill | 0 | 1,720 | 0 | 1,720 |
| Dros Ben | 0 | 2,364 | 70 | 2,434 |
| | **0** | **20,452** | **70** | **20,522** |

**Trosglwyddiadau rhwng Hierarchaeth Lefelau Gwerth Teg**
Nid oedd unrhyw drosglwyddiadau rhwng Lefelau 1 a 2 yn ystod 2022/23.

**Technegau Prisio a ddefnyddiwyd er mwyn Pennu Gwerthoedd Teg lefel 2 a 3 ar gyfer Eiddo Buddsoddi**
*Mewnbynnau Sylwadwy Sylweddol – Lefel 2*
Seiliwyd gwerth teg yr asedau hyn ar ddull gweithredu'r farchnad gan ddefnyddio'r amodau presennol yn y farchnad a phrisiau gwerthu a welwyd yn ddiweddar, ynghyd â gwybodaeth berthnasol arall ar gyfer asedau tebyg yn ardal y Cyngor lleol. Mae amodau'r farchnad yn golygu bod eiddo tebyg yn cael eu prynu mewn ffordd weithredol a'u gwerthu, ac mae lefel y mewnbynnau sylwadwy yn sylweddol, gan arwain at gategoreiddio'r eiddo ar Lefel 2 yn yr hierarchaeth gwerth teg.

*Mewnbynnau Ansylwadwy Sylweddol – Lefel 3*
Seiliwyd gwerth teg yr asedau hyn ar yr incwm wedi'i gyfalafu a gafwyd gan ddefnyddio data'r Cyngor, ond hefyd, yn ôl yr angen, gan ddefnyddio dull gweithredu y farchnad sy'n defnyddio'r amodau yn y farchnad ar hyn o bryd trwy werthu/gosod asedau tebyg yn ardal y Cyngor lleol yn ddiweddar.

**Defnydd Uchaf a Gorau o'r Eiddo Buddsoddi**
Wrth amcangyfrif gwerth teg eiddo buddsoddi y Cyngor, y defnydd uchaf a gorau o'r eiddo yw eu defnydd presennol.

**Technegau Prisio**
Ni fu unrhyw newid yn y technegau prisio a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn ar gyfer eiddo buddsoddi.

**Cysoni Mesuriadau Gwerth Teg wedi'u Categoreiddio yn Lefel 3 yr Hierarchaeth Gwerth Teg**

| | 2022/23<br>£'000 | 2021/22<br>£'000 |
|---|---|---|
| Balans Agoriadol | 70 | 70 |
| Trosglwyddiadau allan o Lefel 3 | (50) | 0 |
| Cynnydd/(gostyngiadau) ailbrisio sy'n cael eu cydnabod yn y Gronfa Wrth Gefn Ailbrisio | 0 | 0 |
| Balans Terfynol | **20** | **70** |

**Balans Terfynol**
Caiff enillion neu golledion yn deillio o newidiadau i werth teg yr eiddo buddsoddi eu cydnabod yn y Gwarged neu'r Diffyg ar linell Darparu Gwasanaethau – Ariannu ac Incwm a Gwariant Buddsoddi.

**Gwybodaeth Feintiol am Fesur Gwerthoedd Teg Eiddo Buddsoddi gan ddefnyddio Mewnbynnau Ansylwadwy Sylweddol – Lefel 3**

| Is-Gategori | Ar 31/03/2023 £'000 | Techneg brisio a ddefnyddiwyd i fesur gwerth teg |
|---|---|---|
| Masnachol | 20 | Prisiad wedi'I seilio ar rhent y farchnad sy'n pasio neu amodau y cytunwyd ar gyfer yr eiddo |
| | **20** | |

**Proses Brisio ar gyfer Eiddo Buddsoddi**
Mesurir gwerth teg eiddo buddsoddi'r Cyngor bob blwyddyn ar bob dyddiad adrodd. Cynhelir pob prisiad yn fewnol yn unol â'r fethodoleg a'r sail er mwyn amcangyfrif a nodir yn safonau proffesiynol Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig. Mae priswyr y Cyngor yn cydweithio'n agos gyda swyddogion cyllid sy'n adrodd yn rheolaidd ynghylch yr holl faterion sy'n ymwneud â phrisio.

## 1.17 DYLEDWYR TYMOR HIR

| | 2022/23 | 2021/22 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Gofal Cymdeithasol i Oedolion | 562 | 494 |
| Tai | 3,418 | 3,348 |
| Eraill | 115 | 119 |
| | **4,095** | **3,961** |

## 1.18 OFFERYNNAU ARIANNOL

Nodir y categorïau canlynol o offerynnau ariannol yn y Fantolen:

| | Hir Dymor | | Cyfredol | |
|---|---|---|---|---|
| | 31/03/23 | 31/03/22 | 31/03/23 | 31/03/22 |
| **Buddsoddiadau** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Benthyciadau ac arian derbyniadwy | 0 | 0 | 11,626 | 18,006 |
| **Cyfanswm y Buddsoddiadau** | **0** | **0** | **11,626** | **18,006** |

| | Hir Dymor | | Cyfredol | |
|---|---|---|---|---|
| | 31/03/23 | 31/03/22 | 31/03/23 | 31/03/22 |
| **Dyledwyr** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Benthyciadau ac arian derbyniadwy | 4,095 | 3,961 | 0 | 0 |
| Asedau ariannol ar gost amorteiddiedig | 0 | 0 | 33,027 | 33,016 |
| **Cyfanswm y Dyledwyr** | **4,095** | **3,961** | **33,027** | **33,016** |

| | Hir Dymor | | Cyfredol | |
|---|---|---|---|---|
| | 31/03/23 | 31/03/22 | 31/03/23 | 31/03/22 |
| **Benthyciadau** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Rhwymedigaethau ariannol ar gost amorteiddiedig | 106,903 | 108,054 | 1,151 | 7,818 |
| **Cyfanswm y Benthyciadau** | **106,903** | **108,054** | **1,151** | **7,818** |

| | Hir Dymor | |
|---|---|---|
| | 31/03/23 | 31/03/22 |
| **Rhwymedigaethau Hirdymor Eraill** | £'000 | £'000 |
| Brydlesau cyllid a PFI | 5,272 | 5,450 |
| **Cyfanswm y Rhwymedigaethau Hirdymor Eraill** | **5,272** | **5,450** |

| | Hir Dymor | | Cyfredol | |
|---|---|---|---|---|
| | 31/03/23 | 31/03/22 | 31/03/23 | 31/03/22 |
| **Credydwyr** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Rhwymedigaethau ariannol ar gost amorteiddiedig | 931 | 808 | 34,416 | 31,593 |
| **Cyfanswm y Credydwyr** | **931** | **808** | **34,416** | **31,593** |

**Incwm, Costau, Enillion a Cholledion**

Mae'r enillion a cholledion a gydnabyddir yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr parthed offerynnau ariannol fel a ganlyn:

| | 2022/2023 | | | 2021/2022 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Rhwymedigaethau ariannol ar gost amorteiddiedig | Asedau Ariannol: Benthyciadau ac Arian Derbyniadwy | Cyfanswm | Rhwymedigaethau ariannol ar gost amorteiddiedig | Asedau Ariannol: Benthyciadau ac Arian Derbyniadwy | Cyfanswm |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Treuliau Llog | 5,007 | 0 | 5,007 | 5,270 | 0 | 5,270 |
| Cost ffi | 14 | 0 | 14 | 14 | 0 | 14 |
| **Cyfanswm y gwariant yn Gwarged/Diffyg o ran Darpariaeth Gwasanaethau** | **5,021** | **0** | **5,021** | **5,284** | **0** | **5,284** |
| Incwm Llog | 0 | (1,352) | (1,352) | 0 | (236) | (236) |
| Incwm llog a gronnwyd ar asedau ariannol diffygiol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm yr incwm yn Gwarged/Diffyg o ran Darpariaeth Gwasanaethau** | **0** | **(1,352)** | **(1,352)** | **0** | **(236)** | **(236)** |
| **(Enillion)/colledion net am y flwyddyn** | **5,021** | **(1,352)** | **3,669** | **5,284** | **(236)** | **5,048** |

**Gwerthoedd teg Asedau a rhwymedigaethau ariannol na fesurir yn ôl eu Gwerth Teg**

Cyfrifir y gwerthoedd teg fel a ganlyn:

| Rhwymedigaethau Ariannol | 31 Mawrth 2023 | | 31 Mawrth 2022 | |
|---|---|---|---|---|
| | Swm Cario | Gwerth Teg | Swm Cario | Gwerth Teg |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Rhwymedigaethau Ariannol (Pob un - Cyfraddau Ad-dalu Cyn Pryd) | 108,054 | 117,882 | 115,872 | 166,919 |
| Rhwymedigaethau Ariannol (Pob un - Cyfradd Benthyciadau Newydd) | 108,054 | 105,025 | 115,872 | 145,911 |
| Rhwymedigaethau Ariannol (Benthyciadau PWLB yn unig - Cyfradd Ad-dalu Cyn Pryd) | 101,176 | 111,105 | 108,993 | 156,253 |
| Rhwymedigaethau Ariannol (Benthyciadau PWLB yn unig - Cyfradd Benthyciadau Newydd) | 101,176 | 99,351 | 108,993 | 137,346 |

Prisio benthyciadau PWLB: Ar gyfer benthyciadau gan PWLB, darparwyd amcangyfrifon gwerth teg gan ddefnyddio cyfraddau disgownt adbrynu a benthyca newydd (cyfradd sicrwydd).

Prisio benthyciadau nad ydynt yn fenthyciadau PWLB: Ar gyfer benthyciadau nad ydynt yn rhai PWLB, darparwyd amcangyfrifon gwerth teg gan ddefnyddio cyfraddau adbrynu cynamserol a benthyca newydd. Yn absenoldeb marchnad weithredol sylweddol ar gyfer benthyciadau marchnad tymor hir newydd, mae'r cyfraddau a ddefnyddir ar gyfer benthyca newydd yn seiliedig ar drafodaethau gyda chyfranogwyr posibl y farchnad ar gyfer benthyciadau newydd a awgrymodd gyfradd ddirprwy o Giltiau ynghyd â 90 pwynt sail. Mae'r cyfraddau a ddefnyddir ar gyfer adbrynu cynamserol yn seiliedig ar Giltiau llai 20 pwynt sail. Mae'r cyfraddau hyn yn darparu procsi rhesymol ar gyfer cyfraddau y mae'n ymddangos bod cyfranogwyr marchnad wedi'u defnyddio ar gyfer costau adbrynu cynnar ar gyfer benthyciadau marchnad.

Mae'r amcangyfrifon gwerth teg yn defnyddio'r 'dull incwm', sef techneg brisio sy'n trosi symiau yn y dyfodol (ee llifau arian parod neu incwm a threuliau) i un swm cyfredol (hy wedi'i ddisgowntio). Mae'r sail brisio a fabwysiadwyd yn defnyddio **Mewnbynnau Lefel 2 –** h.y. mewnbynnau yn hytrach na phrisiau a ddyfynnwyd y maent yn sylwadwy ar gyfer yr Atebolrwydd Ariannol.

Benthyciadau PWLB:
Mae'r ymrwymiad i dalu llog sy'n uwch na'r cyfraddau yn y farchnad ar hyn o bryd yn cynyddu'r swm y byddai'n rhaid i'r Cyngor ei dalu os byddai PWLB yn gofyn i'r Cyngor ad-dalu'r benthyciadau'n gynnar (cyfradd Ad-dalu Cyn Pryd), neu os byddai'n cytuno i hynny. Mae gan y Cyngor allu parhaus i fenthyca arian am gyfraddau gostyngol gan PWLB, yn hytrach nag o'r marchnadoedd. Mesur atodol o'r llog ychwanegol y bydd y Cyngor yn ei dalu o ganlyniad i'w ymrwymiadau PWLB ar gyfer benthyciadau cyfradd sefydlog yw cymharu amodau'r benthyciadau hyn gyda'r cyfraddau benthyca newydd sydd ar gael gan PWLB (cyfradd benthyciadau Newydd).

Defnyddiwyd y tybiaethau canlynol yn y cyfrifiadau gwerth teg:
- Mae’r llog cronnus yn gynwysedig yn y cyfrifiad gwerth teg. Caiff y ffigwr yma ei gyfrifo hyd at, ac yn cynnwys y dyddiad prisio.
- Cafwyd y cyfraddau disgownt o’r farchnad ar 31 Mawrth 2023

Tybiaethau eraill a wneir am werthoedd teg asedau ariannol a rhwymedigaethau ariannol:
- Cymrir mai gwerth teg elfennau i'w talu a'u cael (Credydwyr a Dyledwyr Tymor Byr) yw'r swm a anfonebwyd neu a nodwyd mewn bil.
- Cyfrifwyd gwerth teg benthyciadau a symiau i'w derbyn ac nid ydynt yn wahanol iawn i'r gwerth cludo.

## 1.19 YMRWYMIADAU CYFALAF

Ar 31 Mawrth 2023, mae'r awdurdod wedi ymrwymo i nifer o gontractau ar gyfer adeiladu neu wella eiddo, peiriannau ac offer yn 2023/24 ac yn y blynyddoedd i ddod, sydd wedi'u cyllidebu i'r gost £2,139mil (£5,612 mil ar 31 Mawrth 2022).

| **2022/23** | **£'000** |
|---|---:|
| Hafan Deg, Temple Terrace Llanbedr Pont Steffan | 110 |
| Adnewyddu Ysgol Uwchradd Aberteifi | 769 |
| Dyffryn Aeron - Ysgol Ardal Newydd | 84 |
| Newidiadau ac Estyniadau i floc 5 a 7 - Ysgol Gyfun Aberaeron | 287 |
| Ysgol Uwchradd Aberteifi - Ymestyn ac Adnewyddu | 665 |
| Canolfan Hamdden a Llesiant Llanbedr Pont Steffan | 126 |
| Caeau Pob Tywydd Llanbedr Pont Steffan | 98 |
| **Cyfanswm** | **2,139** |

| **2021/22** | **£'000** |
|---|---:|
| B4333 Teras Lloyd, Castell Newydd Emlyn | 305 |
| B4570 Teforgan, Llangoedmor - Cloddweithiau | 4 |
| Arwynebu Ffordd Sirol Cyfnod 4 | 846 |
| Ysgol Gyfun Aberaeron – Estyniad Canolfan y Môr | 1,313 |
| Ysgol Uwchradd Aberteifi – Ymestyn ac Adnewyddu | 3,144 |
| **Cyfanswm** | **5,612** |

## 1.20 CYFEIRIAD CYFALAFU

**DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2003 ADRANNAU 16(2)(b) ac 20: TRIN RHAI COSTAU FEL GWARIANT CYFALAF**

Mae'r Cyngor wedi bod yn hyblyg yn ei ddefnydd o dderbyniadau cyfalaf yn unol â'r canllawiau a'r cyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2022/23. Mae hyn wedi galluogi'r Cyngor i gyfalafu rhai gwariannau refeniw cymwys. Mae'r prosiectau canlynol wedi denfyddio'r canllawiau a'r cyfarwyddyd:

| **Prosiect** | **Gwariant yn ystod y flwyddyn £'000** | **Gwariant a Gyfalafwyd ac a Ariannwyd drwy Dderbyniadau Cyfalaf £'000** |
|---|---:|---:|
| Model Trawsnewid Gydol Oes a Llesiant | 213 | 213 |

Mae buddiannau'r model sy'n gweithredu ar draws gwasanaethau wedi'u hamlinellu yn y Strategaeth Gydol Oes a Llesiant 2021-2027 a gymeradwywyd gan y Cyngor Llawn ar 21/10/21.

## 1.21 DYLEDWYR

| | 31/03/23 £'000 | 31/03/22 £'000 |
|---|---|---|
| Cyrff Llywodraeth Ganol | 19,623 | 20,158 |
| Awdurdodau Lleol Eraill | 2,253 | 3,714 |
| Cyrff GIG | 3,424 | 4,420 |
| Endidau ac Unigolion eraill | 14,550 | 11,814 |
| Lwfans lleihad yn y gwerth | (3,659) | (3,446) |
| **Cyfanswm** | **36,191** | **36,660** |

## 1.22 ARIAN AC EITEMAU CYFWERTH AG ARIAN

Mae balans yr arian ac eitemau cyfwerth ag arian yn cynnwys yr elfennau canlynol:

| | 31/03/23 £'000 | 31/03/22 £'000 |
|---|---|---|
| Arian a gedwir gan y Cyngor | 36 | 36 |
| Cyfrif cyfredol banciau | (2,016) | (5,036) |
| Adneuon tymor byr gyda banciau/cymdeithasau adeiladu/sefydliadau ariannol eraill | 27,224 | 37,498 |
| **Cyfanswm yr arian ac eitemau cyfwerth ag arian** | **25,244** | **32,498** |

## 1.23 CREDYDWYR

| | 31/03/23 £'000 | 31/03/22 £'000 |
|---|---|---|
| Cyrff Llywodraeth Ganol | 5,429 | 7,369 |
| Awdurdodau Lleol Eraill | 3,925 | 2,143 |
| Cyrff GIG | 277 | 552 |
| Endidau ac unigolion eraill | 25,382 | 22,051 |
| **Cyfanswm** | **35,013** | **32,115** |

## 1.24 BENTHYCA

Mae'r rhan fwyaf o fenthyciadau tymor hir y Cyngor yn deillio'n bennaf oddi wrth y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB). Caiff y benthyciadau eu dadansoddi yn ôl aeddfedrwydd ac mae'r cyfraddau llog yn amrywio rhwng 1.73% a 9.875%.

Dadansoddiad o'r benthyciadau yn ôl aeddfedrwydd:

| | 31/03/23 PWLB £'000 | 31/03/23 ARALL £'000 | 31/03/23 CYFANSWM £'000 | 31/03/22 PWLB £'000 | 31/03/22 ARALL £'000 | 31/03/22 CYFANSWM £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Aeddfedu o fewn blwyddyn** | **1,151** | **0** | **1,151** | **7,818** | **0** | **7,818** |
| **Benthyca Hirdymor** | | | | | | |
| Aeddfedu mewn 1 – 2 flynedd | 4,214 | 0 | 4,214 | 1,151 | 0 | 1,151 |
| Aeddfedu mewn 2 – 5 mlynedd | 5,805 | 80 | 5,885 | 8,718 | 80 | 8,798 |
| Aeddfedu mewn 5 – 10 mlynedd | 18,538 | 556 | 19,094 | 13,352 | 556 | 13,908 |
| Aeddfedu mewn 10 – 15 blynedd | 19,381 | 250 | 19,631 | 16,163 | 250 | 16,413 |
| Aeddfedu mewn 15 – 20 mlynedd | 7,623 | 0 | 7,623 | 17,138 | 0 | 17,138 |
| Aeddfedu mewn 20 – 25 blynedd | 11,396 | 0 | 11,396 | 11,586 | 0 | 11,586 |
| Aeddfedu mewn 25 – 30 blynedd | 9,300 | 0 | 9,300 | 3,800 | 0 | 3,800 |
| Aeddfedu mewn 30 – 35 blynedd | 16,000 | 0 | 16,000 | 13,500 | 0 | 13,500 |
| Aeddfedu mewn 35 – 40 blynedd | 8,000 | 0 | 8,000 | 16,000 | 0 | 16,000 |
| Aeddfedu mewn 40 – 45 blynedd | 0 | 5,760 | 5,760 | 0 | 5,760 | 5,760 |
| 45+ blynedd | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm y benthyciadau hirdymor** | **100,257** | **6,646** | **106,903** | **101,408** | **6,646** | **108,054** |

**Ailstrwythuro Benthyciadau**
Ni ailstrwythurwyd benthyciadau yn 2022/23.

**Grantiau Llywodraeth Cymru i'w had-dalu yn y dyfodol**
Ni dderbyniodd y Cyngor unrhyw fenthyciadau pellach oddi wrth Lywodraeth Cymru yn ystod 2022/23. Bellach mae balans o £886mil ar draws dau gynllun a fydd angen ei ad-dalu yn y dyfodol. Er mai grantiau yw'r enw ar y symiau hyn, rydym wedi'u trin fel benthyciadau ar y Fantolen oherwydd y bydd angen eu had-dalu mewn 5-15 blynedd. Mae'r benthyciadau hyn yn cael eu cynnwys yn y colofnau Arall yn y tabl uchod.

## 1.25 RHWYMEDIGAETHAU HIRDYMOR ERAILL

| | 31/03/23 £'000 | 31/03/22 £'000 |
|---|---|---|
| Rhwymedigaethau Ysgol Gyfun Penweddig PFI | 3,010 | 3,517 |
| Rhwymedigaethau Pensiwn | 0 | 139,579 |
| Rhwymedigaethau Prydlesau Cyllid | 482 | 468 |
| Addasiad ddibrisio MRP | 1,780 | 1,465 |
| **Cyfanswm** | **5,272** | **145,029** |

## 1.26 CRONFEYDD WRTH GEFN Y GELLIR EU DEFNYDDIO

Nodir symudiadau yng nghronfeydd wrth gefn y Cyngor y gellir eu defnyddio yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn ar dudalen 17 a Nodyn 1.8.

## 1.27 CRONFEYDD WRTH GEFN NA ELLIR EU DEFNYDDIO

| | 31/03/23 | 31/03/22 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Cronfa Wrth Gefn Ailbrisio | 153,643 | 131,592 |
| Cyfrif Addasu Cyfalaf | 178,938 | 166,159 |
| Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol | 618 | 625 |
| Cronfa Wrth Gefn Bensiynau | 45,020 | (139,579) |
| Cronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf a Ohiriwyd | 3,515 | 3,426 |
| Cyfrif Absenoldebau Cronedig | (4,073) | (4,047) |
| **Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn na ellir eu defnyddio** | **377,661** | **158,176** |

Mae'r canlynol yn ddadansoddiad o'r Cronfeydd Wrth Gefn na ellir eu Defnyddio sydd fwyaf arwyddocaol:

**Cronfa Wrth Gefn Ailbrisio**

Mae'r Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn yn cynnwys enillion a wnaed gan y Cyngor o ganlyniad i gynnydd yng ngwerth ei Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar. Bydd y balans yn lleihau pan fydd asedau ag enillion a gronnwyd yn cael:

- eu hailbrisio'n llai neu'n ddiffygiol ac y mae'r enillion wedi eu colli
- eu defnyddio wrth ddarparu gwasanaethau a chaiff yr enillion eu defnyddio drwy ddibrisiad, neu
- eu gwaredu a chaiff yr enillion eu cyflawni

Bydd y Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn ond yn cynnwys enillion ailbrisio a wireddwyd ers 1 Ebrill 2007, sef y dyddiad y'i rhoddwyd ar waith yn ffurfiol. Cafodd enillion a wnaed cyn y dyddiad hwnnw eu cyfuno â'r Cyfrif Addasu Cyfalaf.

| | 2022/23 | 2021/22 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| **Balans ar 1 Ebrill** | 131,592 | 103,149 |
| Asedau a ail-brisiwyd ar i fyny | 30,783 | 34,296 |
| Asedau a ail-brisiwyd ar i lawr a cholledion diffygiol na chafodd eu hawlio ar y Gwarged/Diffyg o ran Darpariaeth Gwasanaethau | (3,436) | (2,040) |
| Gwarged neu Ddiffyg ar ailbrisio asedau tymor hir na chafodd eu nodi ar y Gwarged/Ddiffyg o ran Darpariaeth Gwasanaethau | 27,347 | 32,256 |
| Gwahaniaeth rhwng dibrisio gwerth teg a dibrisio cost hanesyddol | (5,081) | (3,718) |
| Enillion a gronnwyd ar asedau a werthwyd neu a ddiystyriwyd | (215) | (95) |
| Swm a osodwyd yn erbyn y Cyfrif Addasu Cyfalaf | (5,296) | (3,813) |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **153,643** | **131,592** |

**Cyfrif Addasu Cyfalaf**

Mae'r Cyfrif Addasu Cyfalaf yn cymathu'r gwahaniaethau amseru rhwng y trefniadau gwahanol ar gyfer cyfrif y defnydd a wneir o asedau nad ydynt yn rhai cyfredol a'r trefniadau ar gyfer ariannu'r gwaith o brynu, adeiladu neu wella'r asedau hynny o dan ddarpariaethau statudol. Bydd debyd yn y cyfrif parthed y gost o brynu, adeiladu neu

wella fel dibrisiad a chaiff colledion oherwydd diffygion neu amorteiddio eu nodi yn y Datganiad Cynhwysfawr ar Incwm a Gwariant (gan gysoni trosglwyddiadau o'r Gronfa Ailbrisio wrth gefn er mwyn trosi ffigyrau gwerth teg i sail cost hanesyddol). Rhoddir credyd i'r cyfrif drwy gynnwys y symiau a osodwyd i'r naill ochr gan y Cyngor er mwyn ariannu costau prynu, adeiladu a gwella.

Mae'r cyfrif yn cynnwys enillion a cholledion a gronnwyd ar Eiddo Buddsoddi ac enillion ailbrisio a gronnwyd ar Eiddo, Cyfarpar a Pheiriannau cyn 1 Ebrill 2007, sef y dyddiad y crëwyd y Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn i gadw enillion o'r fath.

Bydd Nodyn 1.7 yn darparu manylion ffynhonnell y trosglwyddiadau i'r Cyfrif oni bai am y rheiny a oedd yn cynnwys y Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn.

| | **2022/23** | **2021/22** |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| **Balans ar 1 Ebrill** | 166,159 | 157,781 |
| **Gwyrdroi eitemau sy'n ymwneud â gwariant cyfalaf ar ddebyd neu gredyd i'r Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant:** | | |
| Ffioedd parthed dibrisio a diffygion asedau nad ydynt yn rhai cyfredol | (13,785) | (11,954) |
| Ailbrisio colledion ar Eiddo, Peiriannau ac Offer | (1,113) | 2,008 |
| Gwariant refeniw a ariannwyd o gyfalaf dan statud | (1,217) | (1,082) |
| Nifer yr asedau nad ydynt yn rhai cyfredol caiff eu diystyru ar ôl gwaredu neu werthu gan eu nodi fel rhan o'r enillion/colledion ar waredu yn y Datganiad Cynhwysfawr ar Incwm a Gwariant | (452) | (347) |
| | (16,567) | (11,375) |
| Cymhwyso symiau a ddiddymwyd o'r Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn | 5,296 | 3,813 |
| Swm net a ddiddymwyd o gost Asedau anghyfredol a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn | (11,271) | (7,562) |
| **Cyllid cyfalaf a ddefnyddiwyd yn y flwyddyn:** | | |
| Defnyddio Derbynion Cyfalaf Wrth Gefn i ariannu gwariant cyfalaf newydd | 673 | 369 |
| Grantiau a chyfraniadau cyfalaf wedi eu credydu i'r Datganiad Cynhwysfawr ar Incwm a Gwariant sy'n briodol i ariannu cyfalaf | 14,677 | 12,723 |
| Cymhwyso grantiau i gyllid cyfalaf o'r Cyfrif Grantiau Cyfalaf heb eu Cymhwyso | 4,518 | 1,185 |
| Darpariaeth statudol ar gyfer ariannu buddsoddiad cyfalaf a hawliwyd yn erbyn y Gronfa Gyffredinol | 1,537 | 1,518 |
| Gwariant Cyfalaf a nodwyd yn erbyn y Gronfa Gyffredinol | 981 | 127 |
| | 22,386 | 15,922 |
| Symudiadau yng ngwerth marchnad Eiddo Buddsoddi a ddebydwyd neu a gredydwyd i'r Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant | 1,664 | 18 |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **178,938** | **166,159** |

**Cronfa Wrth Gefn Bensiynau**

Mae'r Gronfa Bensiynau'n delio â'r gwahaniaethau amseru o ganlyniad i drefniadau gwahanol ar gyfer cyfrifo manteision pensiynau ar ôl gwaith ac ar gyfer ariannu

manteision yn unol â'r darpariaethau statudol. Mae'r Cyngor yn rhoi cyfrif am fanteision ôl gyflogaeth yn y Datganiad Cynhwysfawr ar Incwm a Gwariant fel y manteision y bydd gweithwyr yn eu hennill wrth gasglu blynyddoedd o wasanaeth, gan ddiweddaru'r rhwymedigaethau a nodir er mwyn adlewyrchu chwyddiant, addasiadau sy'n newid a dychweliadau ar fuddsoddi parthed unrhyw adnoddau a osodwyd yn erbyn y costau. Fodd bynnag yn unol â threfniadau statudol bydd angen i'r manteision yma gael eu hariannu gan fod y Cyngor yn sicrhau cyfraniadau cyflogwyr i'r gronfa bensiwn neu mi ddylai yn y diwedd dalu unrhyw bensiynau y mae'n uniongyrchol gyfrifol amdanynt. Mae'r balans debyd ar y Gronfa Bensiwn felly'n dangos diffyg sylweddol yn y manteision a enillwyd gan gyn weithwyr a gweithwyr cyfredol yn ogystal â'r adnoddau y mae'r Cyngor wedi ei roi i'r neilltu ar eu cyfer. Bydd y trefniadau statudol yn sicrhau y caiff arian ei osod i'r neilltu erbyn y bydd yn rhaid talu'r pensiwn.

| | **31/03/23** | **31/03/22** |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| **Balans ar 1 Ebrill** | (139,579) | (160,825) |
| Cildroi eitemau IAS19 | (28,713) | (26,484) |
| Ailfesuriadau | 203,614 | 38,833 |
| Costau Pensiwn taladwy | 9,698 | 8,897 |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **45,020** | **(139,579)** |

**Cronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf a Ohiriwyd**

Yn y Gronfa Derbyniadau Cyfalaf a ohiriwyd ceir yr enillion o'r broses o waredu asedau nad ydynt yn rhai cyfalaf ac nad ydynt wedi eu setlo eto. O dan drefniadau statudol, nid yw'r Cyngor yn ymdrin â'r enillion yma fel rhai y gellir eu defnyddio ar gyfer ariannu gwariant cyfalaf newydd hyd nes y bydd derbyniadau arian wedi eu derbyn. Pan dderbynnir y gwir arian caiff y symiau eu trosglwyddo i'r Gronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf.

| | **31/03/23** | **31/03/22** |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| Cynllun Perchnogaeth Cartrefi Cost Isel | 349 | 362 |
| LIC Benthyciadau Troi Tai'n Gartrefi | 291 | 341 |
| Benthyciadau Cyfalaf Tai Eraill a Ohiriwyd | 300 | 332 |
| Caniatadu Cynllunio a Ohiriwyd | 2,137 | 2,049 |
| Benthyciadau Atgyweirio Brys | 373 | 276 |
| Derbyniadau Cyfalaf a Ohiriwyd Eraill | 65 | 66 |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **3,515** | **3,426** |

**Cyfrif Absenoldebau Cronedig**

Bydd y Cyfrif Absenoldebau Cronedig yn delio â'r gwahaniaethau y byddai'n codi fel arall yn y Balans ar y Gronfa Gyffredinol o ganlyniad i gronni absenoldebau a enillwyd ond na hawliwyd yn y flwyddyn, e.e. gwyliau blynyddol a gariwyd ymlaen ar 31 Mawrth. Bydd yn ofynnol yn ôl y trefniadau statudol i effaith Balans y Gronfa Gyffredinol gael ei niwtraleiddio gan drosglwyddiadau i'r Cyfrif neu oddi yno.

| | 2022/23 £'000 | 2021/22 £'000 |
|---|---|---|
| **Balans ar 1 Ebrill** | (4,047) | (3,500) |
| Setliad neu ganslo croniadau a wnaed ar ddiwedd y flwyddyn flaenorol | 4,047 | 3,500 |
| Symiau a gronnwyd ar ddiwedd y flwyddyn gyfredol | (4,073) | (4,047) |
| Gwahaniaeth rhwng tâl swyddogion a nodir ar y Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant ar sail gronedig a'r tâl a godir yn y flwyddyn yn unol â gofynion statudol | (26) | (547) |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **(4,073)** | **(4,047)** |

## 1.28 DATGANIAD LLIF ARIAN – GWEITHGAREDDAU GWEITHREDU

Mae'r llif arian ar gyfer gweithgareddau gweithredu'n cynnwys yr eitemau canlynol:

| | 2022/23 £'000 | 2021/22 £'000 |
|---|---|---|
| Llog a dalwyd | (2,517) | (5,095) |
| Llog a dderbyniwyd | 1,371 | 213 |

## 1.29 LWFANSAU'R AELODAU

Talodd y Cyngor y symiau a ganlyn i aelodau'r cyngor yn ystod y flwyddyn. Cyhoeddir manylion y taliadau unigol yn y wasg leol, yn unol â gofynion Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol) (Cymru) 2002.

| | 2022/23 £'000 | 2021/22 £'000 |
|---|---|---|
| Cyflogau | 890 | 826 |
| Treuliau | 4 | 0 |
| **Cyfanswm** | **894** | **826** |

## 1.30 TALIADAU SWYDDOGION

- Y lluosrif rhwng yr enillion cyfwerth ag amser llawn canolrifol ac uchafswm cyflog y Prif Weithredwr yw **1:5.4** (2021/22: 1:6.1)
- Enillion cyfwerth ag amser llawn y Prif Weithredwr ar gyfartaledd yw **£133,985** (2021/22: £132,060)
- Yr enillion cyfwerth ag amser llawn canolrifol holl weithwyr y Cyngor yw **£24,948** (2021/22 £21,695)

Mae'r cyflog a delir i uwch gyflogeion y Cyngor fel a ganlyn:

**Enillion Uwch-swyddogion – Cyflog rhwng £60,000 a £150,000**

**2022/23**

| **Gwybodaeth am Ddeiliad y Swydd (Teitl y Swydd)** | **Cyflog (yn cynnwys Ffioedd a Lwfansau)** £ | **Taliadau Swyddog Canlyniadau/Etholiadau** £ | **Iawndal am golli cyflogaeth** £ | **Cyfraniadau Pensiwn Cyflogwyr** £ | **Cyfanswm Taliadau Cydnabyddiaeth gan Gynnwys Cyfraniadau Pensiwn** £ |
|---|---|---|---|---|---|
| Prif Weithredwr | 133,985 | 4,591 | 0 | 21,884 | **160,460** |
| Cyfarwyddwr Corfforaethol | 107,572 | 4,294 | 0 | 16,996 | **128,862** |
| Cyfarwyddwr Corfforaethol | 102,347 | 0 | 0 | 16,171 | **118,518** |
| Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Ysgolion | 87,115 | 612 | 0 | 13,764 | **101,491** |
| Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd | 80,275 | 4,489 | 0 | 12,683 | **97,447** |
| Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyswllt Cwsmeriaid (1) | 82,249 | 0 | 0 | 12,683 | **94,932** |
| Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Cymorth Cynnar | 80,275 | 719 | 0 | 12,683 | **93,677** |
| Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu | 80,275 | 655 | 0 | 12,683 | **93,613** |
| Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol | 80,275 | 502 | 0 | 12,683 | **93,460** |
| Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Polisi a Pherfformiad | 80,275 | 350 | 0 | 12,683 | **93,308** |
| Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Economi ac Adfwyio | 80,275 | 319 | 0 | 12,683 | **93,277** |
| Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Gofal | 80,275 | 0 | 0 | 12,683 | **92,958** |
| Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Pobl a Threfniadaeth | 78,573 | 276 | 0 | 12,415 | **91,264** |
| Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Cynnal (2) | 61,454 | 0 | 0 | 8,281 | **69,735** |
| Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael (A151) (3) | 47,820 | 0 | 0 | 7,480 | **55,300** |
| Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael (A151) (3) | 36,298 | 0 | 0 | 5,735 | **42,033** |

Ni thalwyd unrhyw fuddion mewn nwyddau i uwch swyddogion.

1) Ymddeolodd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyswllt Cwsmeriaid ar 31ain Mawrth 2023.
2) Ymddeolodd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Cynnal ar 11eg Tachwedd 2022. Penodwyd Swyddog Arweiniol Corfforaethol Dros Dro a dechreuodd yn ei swydd ar 1af Tachwedd 2022. Cyflogir y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Dros Dro drwy asiantaeth, a'r gost ar gyfer 2022/23 oedd £71,968.30.
3) Gwnaeth Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael (A151) wedi ymddeol ar 31 Awst 2022, a phenodwyd Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael (A151) newydd ei benodi a dechreuodd y swydd ar 1 Medi 2022.

**Enillion Uwch-swyddogion – Cyflog rhwng £60,000 a £150,000**
**2021/22 (AILDDATGAN)**

| **Gwybodaeth am Ddeiliad y Swydd (Teitl y Swydd)** | **Cyflog (yn cynnwys Ffioedd a Lwfansau) £** | **Taliadau Swyddog Canlyniadau/Etholiadau £** | **Iawndal am golli cyflogaeth £** | **Cyfraniadau Pensiwn Cyflogwyr £** | **Cyfanswm Taliadau Cydnabyddiaeth gan Gynnwys Cyfraniadau Pensiwn £** |
|---|---|---|---|---|---|
| Prif Weithredwr | 132,060 | 9,974 | 0 | 21,658 | **163,692** |
| Cyfarwyddwr Corfforaethol | 105,647 | 5,063 | 0 | 16,692 | **127,402** |
| Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Ysgolion | 85,190 | 722 | 0 | 13,460 | **99,372** |
| Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael (A151) | 85,190 | 322 | 0 | 13,460 | **98,972** |
| Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd | 78,350 | 6,905 | 0 | 12,379 | **97,634** |
| Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Cynnal (1) | 82,489 | 0 | 0 | 13,033 | **95,522** |
| Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu | 78,350 | 1,218 | 0 | 12,379 | **91,947** |
| Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Cymorth Cynnar | 78,350 | 408 | 0 | 12,379 | **91,137** |
| Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Polisi a Pherfformiad | 78,350 | 386 | 0 | 12,379 | **91,115** |
| Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyswllt Cwsmeriaid | 78,350 | 381 | 0 | 12,379 | **91,110** |
| Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol | 78,350 | 367 | 0 | 12,379 | **91,096** |
| Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Economi ac Adfwyio | 78,350 | 318 | 0 | 12,379 | **91,047** |
| Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Gofal (1) | 77,383 | 0 | 0 | 12,226 | **89,609** |
| Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Pobl a Threfniadaeth (2) | 74,519 | 403 | 0 | 11,774 | **86,696** |
| Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro (3) | 70,532 | 1,089 | 0 | 11,128 | **82,749** |
| Cyfarwyddwr Corfforaethol - Ionawr '22 ymlaen (4) | 22,299 | 0 | 0 | 3,523 | **25,822** |

Ailddatganodd 2021/22 i gynnwys Swyddog Canlyniadau/Taliadau yn ymwneud ag Etholiad.

Ni thalwyd unrhyw fuddion mewn nwyddau i uwch swyddogion. Talwyd unrhyw gostau teithio o ran milltiroedd ar gyfradd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi.

1) Mae’r taliad cydnabyddiaeth yn cynnwys y £735, sy’n rhan o Gynllun Cydnabyddiaeth Ariannol Llywodraeth Cymru ar gyfer y GIG a Gofal Cymdeithasol.
2) Mae’r gydnabyddiaeth ariannol yn gysylltiedig â’r Swyddog Arweiniol Corfforaethol Dros Dro: Pobl a Threfniadaeth hyd at 13 Rhagfyr 2021. Cafodd swydd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Pobl a Threfniadaeth ei llenwi ar 14 Rhagfyr 2021 gan y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Dros Dro: Pobl a Threfniadaeth.
3) Ymddeolodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro ar 13eg Rhagfyr 2021.
4) Yn dilyn ymddeoliad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro ar 13 Rhagfyr 2021, penodwyd Cyfarwyddwr Corfforaethol newydd a llanwyd y swydd ar 10 Ionawr 2022.

Isod, dangosir nifer y cyflogeion (ac eithrio'r uwch gyflogeion a ddangoswyd ar wahân uchod) yr oedd eu cyflog yn £60,000 neu'n uwch, a hynny mewn bandiau o £5,000.

**Nid yw'r symiau hyn yn cynnwys unrhyw gyfraniadau pensiwn a wnaed gan y cyflogwr. Fodd bynnag, maent yn cynnwys y symiau a dalwyd i'r cyflogai, neu i'w derbyn ganddo, o ran unrhyw iawndal am golli swydd (0 cyflogai yn 2022/23 a 3 cyflogai yn 2021/22).**

| Band Tâl | **2022/23 Nifer y Cyflogeion** | **2022/23 Nifer sy'n cynnwys Taliadau Terfyniad** | **Aildatganiwyd 2021/22 Nifer y Cyflogeion** | **2021/22 Nifer sy'n cynnwys Taliadau Terfyniad** |
|---|---|---|---|---|
| £60,000 - £64,999 | 32 | 0 | 25 | 0 |
| £65,000 - £69,999 | 10 | 0 | 9 | 1 |
| £70,000 - £74,999 | 3 | 0 | 3 | 1 |
| £75,000 - £79,999 | 2 | 0 | 2 | 1 |
| £80,000 - £84,999 | 2 | 0 | 2 | 0 |
| £85,000 - £89,999 | 1 | 0 | 3 | 0 |
| £90,000 - £94,999 | 2 | 0 | 1 | 0 |
| £95,000 - £99,999 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| £100,000 - £104,999 | 1 | 0 | 1 | 0 |
| £105,000 - £109,999 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| £110,000 - £114,999 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| £115,000 - £119,999 | 1 | 0 | 0 | 0 |
| **CYFANSWM** | **54** | **0** | **46** | **3** |

Ailddatganodd 2021/22 gynnwys gweithwyr a gyflogir dros dro a/neu'n rhan-amser y byddai eu tâl gros fel arall yn fwy na £60,000.

Bu i'r Cyngor derfynu contractau nifer o weithwyr yn 2022/23, a chododd rhwymedigaethau o £94 mil (£250 mil yn 2021/22). Mae'r taliadau canlynol yn cynnwys costau diswyddo statudol a gwirfoddol, cyfraniadau pensiwn mewn perthynas â blynyddoedd a ychwanegwyd, straen pensiwn a thaliadau ex gratia eraill.

| Band cost pecyn gadael | Nifer y diswyddiadau gorfodol | | Nifer ymadawiadau eraill y cytunwyd | | Cyfanswm nifer y pecynnau gadael | | Cyfanswm cost pecynnau gadael ym mhob band | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2022/23 | 2021/22 | 2022/23 | 2021/22 | 2022/23 | 2021/22 | 2022/23 | 2021/22 |
| | nifer | nifer | nifer | nifer | nifer | nifer | £'000 | £'000 |
| **£0 - £20,000** | 0 | 0 | 8 | 7 | 8 | 7 | 94 | 44 |
| **£20,001 - £40,000** | 0 | 0 | 0 | 2 | 0 | 2 | 0 | 66 |
| **£40,001 - £60,000** | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | 1 | 0 | 41 |
| **£60,001 - £80,000** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **£80,001 - £100,000** | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | 1 | 0 | 98 |
| **£100,001 - £150,000** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **£150,001 - £200,000** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **0** | **0** | **8** | **11** | **8** | **11** | **94** | **249** |
| **Adio: Symiau y darparwyd ar eu cyfer yn y Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant heb eu cynnwys mewn bandiau** | | | | | | | 0 | 1 |
| **Cyfanswm cost yn y Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant** | | | | | | | **94** | **250** |

## 1.31 COSTAU ARCHWILIO ALLANOL

Mae'r ffioedd a ganlyn am waith archwilio ac arolygu allanol am y flwyddyn ariannol 2022/23 yn daladwy gan y Cyngor:

| | Ffi Arfaethedig 2022/23 £'000 | Ffi Amcangyfrif 2021/22 £'000 |
|---|---|---|
| Gwaith Archwilio Ariannol | 183 | 159 |
| Gwaith Archwilio Perfformiad | 109 | 104 |
| Gwaith Ardystio Grant | 27 | 25 |
| Gwaith Archwilio Ariannol Arall: | | |
| Awdurdod Harbwr Ceredigion | 2 | 2 |
| Tyfu Canolbarth Cymru | 2 | 2 |
| | **323** | **292** |

## 1.32 TRAFODION PARTÏON PERTHNASOL

Mae'n ofynnol i'r Cyngor ddatgelu trafodion sylweddol â phartïon perthnasol - cyrff neu unigolion a chanddynt botensial i reoli'r Cyngor, neu ddylanwadu arno, neu i gael eu rheoli gan y Cyngor, neu'u dylanwadu ganddo. Mae'r trafodion hyn yn caniatáu i'r darllenwr asesu i ba raddau y gallai'r Cyngor fod wedi'i gyfyngu o ran ei allu i weithredu'n annibynnol neu i ba raddau y mae'n meddu ar y gallu i gyfyngu ar ryddid parti arall i fargeinio â'r Cyngor.

**Llywodraeth Ganol**

Bydd gan y Llywodraeth Ganol reolaeth effeithiol ar weithgareddau cyffredinol y Cyngor – mae'n gyfrifol am ddarparu fframwaith statudol y bydd y Cyngor yn gweithredu oddi mewn iddo, gan ddarparu'r mwyafrif o'i arian drwy grantiau gan nodi hefyd amodau nifer o'r trafodion rhwng y Cyngor a phartïon eraill (e.e. biliau treth y cyngor, budd-daliadau tai).

Mae cyfanswm y grantiau refeniw unigol a dderbyniwyd oddi wrth adrannau'r llywodraeth dangosir yn nodyn 1.12

**Swyddogion ac Aelodau**
Mae gan y Cyngor drefniadau mewn grym sy'n gofyn i swyddogion ac aelodau nodi a datgelu trafodion gyda thrydydd partïon cysylltiedig. Nid oedd unrhyw drafodion perthnasol gyda aelodau neu swyddogion yn ystod y flwyddyn.

Bydd gan aelodau'r Cyngor reolaeth uniongyrchol dros bolisïau gweithredu ac ariannol y Cyngor. Nodir yn Nodyn 1.29 cyfanswm lwfansau aelodau a dalwyd yn 2022/23. Dan y Cod Ymddygiad a ymgorfforwyd yng Nghyfansoddiad y Cyngor, mae gofyn i Aelodau gofnodi yng Nghofrestr Buddiannau'r Aelodau unrhyw fuddiannau ariannol a personol. Mae'r Gofrestr yn agored i'w harchwilio gan y cyhoedd ac mae ar gael ar sail Aelod unigol ar wefan y Cyngor. Nid yw Aelodau sy'n datgan buddiant yn cymryd rhan mewn unrhyw drafodaeth neu benderfyniad sy'n ymwneud â grantiau a roddir neu waith neu wasanaethau a gomisiynir.

Cynhaliwyd y trafodiadau canlynol yr oedd gan aelodau etholedig gysylltiad â nhw yn ystod y flwyddyn 2022/23:

| Grŵpiau Perthnasol | Manylion perthynas a thrafodion | Swm £'000 |
|---|---|---|
| Neuadd Pentref Aberporth Village Hall | Mae un aelod yn ymddiriedolwr. Cyllid a ddarperir ar gyfer amrywiol gynlluniau/prosiectau cymorth gan gynnwys costau byw, tlodi bwyd, prosiect LEADER a grant cymunedol ar gyfer adnewyddu | 19 |
| Neuadd Gwrwgl Llechryd | Mae un aelod yn ymddiriedolwr. Grant wedi'i dalu am brosiect LEADER. | 3 |
| Theatr Mwldan | Mae un aelod yn ymddiriedolwr. Cefnogaeth i'r celfyddydau a phrosiectau partneriaeth digwyddiadau | 79 |
| D C Evans Plant Hire Ltd | Mae un aelod yn ysgrifennydd cwmni. Taliadau ar gyfer gwahanol waith priffyrdd | 90 |
| Cyngor Bopeth Ceredigion Citizens Advice Bureau | Mae un aelod yn gyfarwyddwr. Taliadau a wnaed fel rhan o brosiect y Gronfa Cartrefi Cynnes | 9 |
| Hwb Cymunedol y Borth | Mae un aelod yn ymddiriedolwr ac yn drysorydd. Grantiau a dalwyd am gynlluniau cymorth amrywiol gan gynnwys costau byw, tlodi bwyd a gweithgareddau i ffoaduriaid Wcrain | 11 |
| Cerbydau Cenarth Coaches | Mae un aelod yn gyfarwyddwr. Taliadau ar gyfer cludiant ysgol | 592 |
| Gwasanaeth Angladdau Lewis Funeral Services | Aelod yn berchennog. Taliadau am gostau angladd lle nad yw'r perthynas agosaf/ysgutor yn hysbys | 18 |
| Neuadd Goffa Talgarreg Memorial Hall | Mae un aelod yn ymddiriedolwr. Grant wedi'i dalu am brosiect LEADER | 2 |
| **Cyfanswm** | | **823** |

## 1.33 CYLLID A GWARIANT CYFALAF

Nodir yn y tabl isod y gwariant cyfalaf yn ystod y flwyddyn (gan gynnwys gwerth yr asedau a gafwyd o dan brydlesau cyllid a chontractau PFI), yn ogystal â'r adnoddau a ddefnyddiwyd i'w ariannu. Lle y bydd angen ariannu gwariant cyfalaf yn y blynyddoedd i ddod drwy godi tâl ar refeniw fel y caiff asedau eu defnyddio gan y Cyngor, bydd y gwariant yma'n golygu cynnydd yn y Gofyniad am Arian Cyfalaf (CFR), sef mesur y gwariant cyfalaf yn hanesyddol gan y Cyngor nad yw hyd yma wedi ei ariannu. Caiff y Gofyniad am Arian Cyfalaf ei ddadansoddi yn ail ran y nodyn yma.

| | 2022/23 | 2021/22 |
|---|---|---|
| | £m | £m |
| **Gofyniad Cyllid Cyfalaf Agoriadol** | 137.6 | 138.4 |
| **Buddsoddiad cyfalaf:** | | |
| Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar | 21.5 | 13.6 |
| Eiddo Buddsoddi | 0.4 | 0.4 |
| Arall | 0.0 | 0.0 |
| Gwariant Refeniw a ariannwyd o Gyfalaf Statudol | 1.2 | 1.1 |
| **Ffynonellau cyllid:** | | |
| Derbyniadau Cyfalaf | (0.7) | (0.4) |
| Grantiau'r Llywodraeth a chyfraniadau eraill | (19.2) | (13.9) |
| **Symiau a neilltuwyd o Refeniw:** | | |
| Cyfraniadau Refeniw Uniongyrchol - Cronfa Gyffredinol | (1.0) | (0.1) |
| Darpariaeth Isafswm Refeniw (MRP) | (1.5) | (1.5) |
| **Gofyniad Cyllid Cyfalaf Terfynol** | **138.3** | **137.6** |
| **Egluro'r symudiadau yn ystod y flwyddyn:** | | |
| Cynnydd yn yr angen sylfaenol i fenthyca (â chymorth) | 1.2 | (0.3) |
| Cynnydd yn yr angen sylfaenol i fenthyca (heb gymorth) | (0.4) | (0.3) |
| Asedau a gafwyd o dan PFI | (0.1) | (0.1) |
| Asedau a gafwyd o dan brydlesau cyllid | 0.0 | (0.1) |
| **Cynnydd/(gostyngiad) o ran y Gofyniad Cyllid Cyfalaf** | **0.7** | **(0.8)** |

## 1.34 PRYDLESAU

***Y Cyngor fel Deiliad Prydles:***

**Prydlesau Cyllid**

Mae gan y Cyngor adeiladau amrywiol, llungopiwyr, argraffwyr, cyfrifiaduron a chyfarpar eraill amrywiol o dan amodau prydlesau cyllid. Fe'i nodwyd ar y Fantolen ar y gwerthoedd a nodwyd:

| | 31 Mawrth 2023 | 31 Mawrth 2022 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Cerbydau, peiriannau, celfi a chyfarpar | 132 | 108 |
| Seilwaith | 941 | 968 |

Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i wneud y taliadau canlynol o dan y cytundebau yma:

| | 31 Mawrth 2023 | 31 Mawrth 2022 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Rhwymedigaethau Prydlesau Cyllid (NPV ar leiafswm taliadau): | | |
| - Cyfredol | 76 | 110 |
| - Nid yw'n gyfredol | 482 | 468 |
| Costau Cyllid sy'n daladwy mewn blynyddoedd i ddod | (64) | (77) |
| Lleiafswm taliadau prydles | **494** | **501** |

Bydd y lleiafswm taliadau prydles yn daladwy dros y cyfnodau canlynol:

| | Lleiafswm Taliadau Prydles | | Rhwymedigaethau Prydles Cyllid | |
|---|---|---|---|---|
| | 31 Mawrth 2023 | 31 Mawrth 2022 | 31 Mawrth 2023 | 31 Mawrth 2022 |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Nid yn hwy na blwyddyn | 78 | 100 | 76 | 110 |
| Yn hwy na blwyddyn ond nid yn hwy na phum mlynedd | 100 | 77 | 123 | 96 |
| Hwy na phum mlynedd | 316 | 324 | 359 | 372 |
| Lleiafswm taliadau prydles | **494** | **501** | **558** | **578** |

**Prydlesau Gweithredu**

Mae'r Cyngor wedi prynu loriau sbwriel, faniau, bysiau mini, llungopiwyr, cyfrifiaduron a chyfarpar amrywiol eraill o dan amodau prydlesau gweithredu. Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i'r taliadau canlynol o dan y cytundebau yma:

| | 31 Mawrth 2023 | 31 Mawrth 2022 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Nid yn hwy na blwyddyn | 53 | 141 |
| Yn hwy na blwyddyn ond nid yn hwy na phum mlynedd | 90<br>0 | 67 |
| Hwy na phum mlynedd | | 0 |
| Lleiafswm taliadau prydles | **143** | **208** |

***Y Cyngor fel Prydlesydd:***

**Prydlesau Gweithredu**

Mae'r Cyngor wedi rhoi ar brydles ei eiddo Stad Corfforaethol o dan amodau prydles gweithredu.

Mae'r lleiafswm taliadau prydles yn y dyfodol sy'n dderbyniadwy o dan brydlesau na ellir eu canslo mewn blynyddoedd i ddod fel a ganlyn:

| | 31 Mawrth 2023<br>£'000 | Ailosodwyd<br>31 Mawrth 2022<br>£'000 |
|---|---|---|
| Nid yn hwy na blwyddyn | 715 | 626 |
| Yn hwy na blwyddyn ond nid yn hwy na phum mlynedd | 2,541 | 2,167 |
| Hwy na phum mlynedd | 26,862 | 25,685 |
| Lleiafswm taliadau prydles | **30,118** | **28,478** |

Ailddatganwyd 2021/22 oherwydd gwallau a nodwyd yn 2023.

## 1.35 MENTRAU CYLLID PREIFAT A CHONTRACTAU TEBYG

**Cynllun Menter Cyllid Preifat Ysgol Gyfun Penweddig**
2022/23 oedd yr trydedd ar hugain flwyddyn o'r cytundeb Menter Cyllid Preifat o 30 mlynedd ar gyfer adeiladu, cynnal a chadw a gweithredu Ysgol Gyfun Penweddig yn Aberystwyth. Mae'r cytundeb contract Menter Cyllid Preifat yn cwmpasu'r manylebau gweithredu canlynol:

- Rheoli Cyfleusterau – sicrhau bod y safle a'r adeiladu ar gael yn ystod diwrnodau ysgol, diwrnodau swyddfa ac at ddefnydd cymunedol ar amser a chyfnodau y cytunwyd arnynt;
- Cynnal a chadw adeiladau a gwaith peirianyddol – cynnal adeiladau ysgolion, cyfleusterau a chyfarpar mewn cyflwr gwaith da;
- Cynnal a chadw tir – sicrhau y cedwir tir yr ysgol mewn cyflwr diogel, pleserus, ymarferol a gweithredol;
- Cynnal a Chadw Rhwydwaith TG – cynnal prif seilwaith TGCh yr ysgol a'r system ffôn;
- Glanhau – darparu gwasanaeth glanhau a fydd yn sicrhau bod yr ysgol yn gweithredu mewn amgylchedd glân; a
- Gwasanaeth Arlwyo – darparu prydau o safonau maethlon uchel wedi eu darparu yn unol ag anghenion yr ysgol.

Bydd y cytundeb yn nodi'r safonau minimwm ar gyfer y gwasanaethau i'w darparu gan y contractwr, gyda didyniadau o'r ffi sy'n daladwy os na fydd y cyfleusterau ar gael neu os bydd y perfformiad yn is na'r safonau minimwm. Bu i'r contractwr gytuno i fod yn gyfrifol am adeiladu'r ysgol a'i chynnal a'i chadw i gyflwr minimwm derbyniol gan gaffael a chynnal y peiriannau a'r cyfarpar angenrheidiol sydd ei angen i redeg yr ysgol. Caiff yr adeilad ac unrhyw beiriannau a chyfarpar a osodwyd ynddi ar ddiwedd y contract eu trosglwyddo i'r Cyngor am ddim ar ddiwedd y contract. Mae gan y Cyngor hawl o dan gytundeb Cynllun Menter Cyllid Preifat i derfynu'r cytundeb os bydd y Darparwr yn methu â'u goblygiadau fel y nodwyd yn y cytundeb. Bydd y Cyngor, os terfynir y contract yn y fath fodd yn atebol i dalu iawndal i'r Darparwr yn unol â Rhan II Atodlen 3 Cytundeb Menter Cyllid Preifat.

**Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar**
Nodir yr ased ar Fantolen y Cyngor. Caiff symudiadau yn eu gwerth yn ystod y flwyddyn eu nodi yn y dadansoddiad ar symudiadau Balans Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar yn Nodyn 1.13. Mae'r gwerth caiff ei ddwyn ymlaen ar gyfer Ysgol Gyfun Penweddig yn £23,885 mil.

**Taliadau**

Cytunir gan y Cyngor i wneud taliad bob blwyddyn a gaiff ei gynyddu bob blwyddyn gan chwyddiant a gellir ei leihau os bydd y contractwr yn methu â sicrhau bod deunyddiau ar gael a chyflawni safonau perfformiad mewn unrhyw un flwyddyn sydd fel arall yn sefydlog. Mae'r taliadau sy'n weddill o dan y contract Menter Cyllid Preifat ar 31 Mawrth 2023 (gan eithrio unrhyw amcangyfrif o chwyddiant, sicrhau bod eitemau ar gael/didyniadau perfformiad) fel a ganlyn:

| Taliadau i'w gwneud: | Tâl am Gwasanaethau £'000 | Ad-dalu Gwariant Cyfalaf £'000 | Llog £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|
| o fewn blwyddyn | 656 | 507 | 326 | 1,489 |
| o fewn 2 i 5 mlynedd | 3,025 | 2,097 | 821 | 5,943 |
| o fewn 6 i 10 mlynedd | 2,066 | 913 | 141 | 3,120 |
| | **5,747** | **3,517** | **1,288** | **10,552** |

Er y disgrifir y taliadau a wneir i'r contractwr fel taliadau unedol, maent wedi eu cyfrif er mwyn digolledu'r contractwr am werth teg y gwasanaethau a ddarperir ganddynt, y gwariant cyfalaf a'r llog sy'n daladwy tra bydd y gwariant cyfalaf yn parhau i gael ei ad-dalu. Mae'r rhwymedigaeth sy'n weddill i'r contract am wariant cyfalaf arno fel a ganlyn:

Gwerth y Rhwymedigaethau ar Ddyddiad y Fantolen

| | 2022/23 £'000 | 2021/22 £'000 |
|---|---|---|
| Balans ar 1 Ebrill | 3,959 | 4,263 |
| Ad-dalu'r prif swm | (442) | (304) |
| Balans ar 31 Mawrth | **3,517** | **3,959** |
| Tymor Hir | 3,010 | 3,517 |

## 1.36 CYNLLUNIAU PENSIWN Y RHODDWYD CYFRIF AMDANYNT FEL CYNLLUNIAU CYFRANIADAU DIFFINIEDIG

Mae'r Athrawon a gyflogir gan y Cyngor yn aelodau o Gynllun Pensiwn yr Athrawon, a weinyddir gan Capita. Mae'r Cynllun yn cynnig buddion penodol i athrawon pan fyddant yn ymddeol, ac mae'r Cyngor yn cyfrannu at y costau drwy gyfrannu ar sail canran o gyflog pensiynadwy'r aelodau. Yn dechnegol, Cynllun Buddion Diffiniedig yw hwn. Serch hynny, nid oes cronfa wedi'i sefydlu ar gyfer y Cynllun, a defnyddir cronfa dybiannol fel sail ar gyfer cyfrifo'r gyfradd y bydd yr awdurdodau lleol yn ei gyfrannu fel cyflogwr. Nid yw'r Cyngor yn medru rhoi cyfrif dibynadwy o'i gyfran o'r sefyllfa ariannol waelodol na pherfformiad y Cynllun. At ddibenion y Datganiad Cyfrifon, rhoddir cyfrif am y cynllun hwn fel pe bai'n gynllun cyfraniadau diffiniedig.

Yn 2022/23 talodd y Cyngor £6.5m (£6.1m yn 2021/22) i'r Adran Addysg a Sgiliau mewn perthynas â chostau pensiwn athrawon, sy'n cynrychioli 23.68% o bensiwn taladwy athrawon ar gyfer 2022/23 (23.68% o bensiwn taladwy athrawon am 2021/22). Yn ogystal, mae'r Cyngor yn gyfrifol am yr holl daliadau pensiwn sy'n gysylltiedig â'r blynyddoedd ychwanegol y mae wedi'u dyfarnu, ynghyd ag unrhyw gynnydd perthnasol. Yn 2022/23, talwyd £391,794 (£398,069 yn 2021/22) i'r Gronfa Pensiwn yr Athrawon, naill ai'n uniongyrchol i neu thrwy Gyngor Sir Caerfyrddin (mewn perthynas â chyfran y Cyngor o gostau hen Gyngor Sir Dyfed o ran ymddeoliad cynnar athrawon). Mae'r Cyngor hefyd wedi gwneud taliadau o £392,022 yn 2022/23 (£383,139 yn

2021/22) yn uniongyrchol i athrawon sydd wedi ymddeol yn gynnar ers 1 Ebrill 1996. Gwerth cyfalafol y taliadau uchod yw £7.05 miliwn a £7.06 miliwn, yn y drefn honno.

## 1.37 CYNLLUNIAU BUDDION A CHYFRANIADAU DIFFINIEDIG

**Cyfranogiad yn y Cynllun Pensiwn**

Fel rhan o delerau ac amodau cyflogaeth ei swyddogion, mae'r Cyngor yn gwneud cyfraniadau tuag at gost buddion ôl-gyflogaeth. Er na fydd y buddion hyn yn daladwy tan fod gweithwyr yn ymddeol, mae ymrwymiad gan y Cyngor i wneud y taliadau (ar gyfer y buddion hynny) a'u datgelu pan fydd gweithwyr yn ennill yr hyn y mae ganddynt hawl iddo yn y dyfodol.

Mae'r Cyngor yn cymryd rhan yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, wedi'i weinyddu gan Gyngor Sir Caerfyrddin. Mae'n gynllun cyflog terfynol â buddion diffiniedig a ariennir, sy'n golygu bod y Cyngor a'r gweithwyr yn talu cyfraniadau i'r gronfa, wedi'u cyfrifo ar lefel a ddylai gydbwyso'r rhwymedigaethau pensiwn â'r asedau buddsoddi. Amcangyfrif cyfraniadau cyflogwr o £8,746 mil ar gyfer 2023/24 gan fod yn seiliedig ar y cyfraddau cyfrannu a nodwyd fesul Prisiad Actwaraidd 2022.

**Trafodion sy’n Gysylltiedig â Buddion Ymddeoliad**

Mae’r Cyngor yn cydnabod cost buddion ymddeoliad wrth adrodd cost y Gwasanaethau pan fydd y gweithwyr yn eu hennill, yn hytrach na phan fyddant yn cael eu talu ar ffurf pensiynau. Fodd bynnag, mae’r swm y mae gofyn i’r Cyngor ei godi ar Dreth y Cyngor yn seiliedig ar yr arian sy’n daladwy yn ystod y flwyddyn. Felly caiff gwir gost y buddion ôl-gyflogaeth/ymddeoliad ei wrthdroi yn y Datganiad o Symudiadau ar Falans y Gronfa Gyffredinol. Gwnaed y trafodion a ganlyn yn y Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant a Balans y Gronfa Gyffredinol drwy’r Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn yn ystod y flwyddyn:

| | 2022/23 £'000 | 2021/22 £'000 |
|---|---|---|
| **Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant:** | | |
| Cost y Gwasanaethau: | | |
| – cost gyfredol y gwasanaeth | 24,969 | 23,103 |
| – cost blaenorol y gwasanaeth | 0 | 0 |
| – (elw)/colled o setliadau/cwtogiadau | 97 | 97 |
| Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi: | 0 | 0 |
| – cost llog net | 3,647 | 3,284 |
| **Cyfanswm y Buddion Ôl-gyflogaeth a godir o'r Gwarged neu'r Diffyg yn y Gwasanaethau** | **28,713** | **26,484** |
| **Buddion Ôl-gyflogaeth eraill a godir yn y Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant:** | | |
| Ailfesur y rhwymedigaeth budd diffiniedig net gan gynnwys: | | |
| – Enillion ar asedau'r cynllun (ac eithrio'r swm sydd wedi'i gynnwys yn y costau llog net) | 27,853 | (23,896) |
| – Enillion a cholledion actiwaraidd sy'n codi ar newidiadau mewn rhagdybiaethau demograffig | (18,131) | (4,982) |
| – Enillion a cholledion actiwaraidd sy'n codi ar newidiadau mewn rhagdybiaethau ariannol | (265,664) | (11,629) |
| - Profiad (elw)/colled | 52,328 | 1,674 |
| | (203,614) | (38,833) |
| **Cyfanswm y Buddion Ôl-gyflogaeth a godir yn y Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant** | **(174,901)** | **(12,349)** |
| **Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn:** | | |
| – gwrthdroi'r taliadau net a wnaed i'r Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau ar gyfer buddion ol-gyflogaeth yn unol â'r Cod | (28,713) | (26,484) |
| **Gwir swm a godwyd yn erbyn Balans y Gronfa Gyffredinol ar gyfer pensiynau yn ystod y flwyddyn:** | | |
| – cyfraniadau cyflogwr taladwy at y cynllun | 9,698 | 8,897 |

**Asedau a Rhwymedigaethau Pensiynau a Gofnodwyd ar y Fantolen**

Mae'r swm a gofnodwyd ar y Fantolen yn sgil rhwymedigaeth y Cyngor o ran ei gynlluniau buddion diffiniedig fel a ganlyn:

| | 2022/23 £'000 | 2021/22 £'000 |
|---|---|---|
| Gwerth presennol yr ymrwymiad budd diffiniedig | 447,258 | 646,303 |
| Gwerth teg o asedau'r cynllun | (492,278) | (506,724) |
| **(Ased)/hwymedigaeth net sy'n codi o'r ymrwymiad budd diffiniedig** | **(45,020)** | **139,579** |

Mae swm y Pensiwn wedi symud o fod yn atebol i fod yn ased yn y Fantolen (o ddiffyg i warged), mae hyn yn bennaf oherwydd y ffaith bod gwerth presennol y rhwymedigaeth

buddion wedi'u diffinio wedi gostwng yn sylweddol oherwydd cynnydd yn y gyfradd ddisgownt o 2.8% i 4.8%.

**Cysoni Symudiadau yng Ngwerth Teg Asedau'r Cynllun**

| | **Holl Fuddion Gronfa** | | **Buddion heb Gronfa** | |
|---|---|---|---|---|
| | **2022/23** | **2021/22** | **2022/23** | **2021/22** |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Gwerth teg agoriadol asedau'r cynllun | 506,724 | 474,566 | 0 | 0 |
| Incwm llog | 14,305 | 9,950 | 0 | 0 |
| Ailfesur elw/(colled): | | | | |
| – Enillion ar asedau'r cynllun, ac eithrio'r swm sydd wedi'i gynnwys yn y costau llog net | (27,853) | 23,896 | 0 | 0 |
| Cyfraniadau gan y cyflogwr | 9,698 | 8,897 | 352 | 360 |
| Cyfraniadau gan weithwyr i'r cynllun | 3,749 | 3,379 | 0 | 0 |
| Buddion a dalwyd | (14,113) | (13,751) | (352) | (360) |
| Arall | (232) | (213) | 0 | 0 |
| **Gwerth teg terfynol asedau'r cynllun** | **492,278** | **506,724** | **0** | **0** |

**Cysoni Gwerth Presennol Rhwymedigaethau'r Cynllun (Rhwymedigaeth Buddion Diffiniedig)**

| | **Holl Rhwymedigaethau Gronfa** | | **Rhwymedigaethau heb Gronfa** | |
|---|---|---|---|---|
| | **2022/23** | **2021/22** | **2022/23** | **2021/22** |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Balans agoriadol ar 1 Ebrill | 646,303 | 635,391 | 4,809 | 5,142 |
| Cost gwasanaeth cyfredol | 24,737 | 22,890 | 0 | 0 |
| Cost llog | 17,952 | 13,234 | 129 | 104 |
| Cyfraniadau gan gyfranogwyr y cynllun | 3,749 | 3,379 | 0 | 0 |
| Ailfesur (enillion) a cholledion: | | | | |
| – Profiad (enillion)/colledion | 52,328 | 1,674 | 208 | 14 |
| – (Enillion)/colledion actiwaraidd sy'n codi o newidiadau mewn rhagdybiaethau ariannol | (265,664) | (11,629) | (1,139) | (55) |
| – (Enillion)/colledion actwaraidd sy'n codi o newidadau mewn tybiaethau demograffig | (18,131) | (4,982) | (123) | (36) |
| Cost blaenorol y gwasanaeth | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Colledion/(enillion) ar gwtogiad | 97 | 97 | 0 | 0 |
| Buddion a dalwyd | (14,113) | (13,751) | (352) | (360) |
| **Balans terfynol 31 Mawrth** | **447,258** | **646,303** | **3,532** | **4,809** |

**Roedd asedau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn cynnwys:**

| | Dyfynnwyd (Ie/Na) | Gwerth teg asedau'r cynllun 2022/23 £'000 | 2021/22 £'000 |
|---|---|---|---|
| Ecwitiau: | | | |
| DU | I | 93,928 | 94,859 |
| Byd-eang | I | 201,096 | 157,591 |
| Unol Daleithiau | I | 0 | 33,140 |
| Canada | I | 0 | 2,230 |
| Japan | I | 17,377 | 19,458 |
| Ymylon y Môr Tawel | N | 0 | 811 |
| Marchnadoedd Datblygol | N | 39,678 | 39,930 |
| Ewropeaidd heb DU | I | 14,128 | 18,191 |
| **Is-gyfanswm ecwitiau** | | **366,207** | **366,210** |
| Bondiau: | | | |
| Llywodraeth y DU wedi'u mynegeio | I | 2,658 | 6,739 |
| Dosbarth Arall 1 | I | 34,853 | 40,234 |
| **Is-gyfanswm bondiau** | | **37,511** | **46,973** |
| Eiddo: | | | |
| Cronfeydd Eiddo | N | 66,211 | 66,229 |
| **Is-gyfanswm Eiddo** | | **66,211** | **66,229** |
| Dewisiadau eraill: | | | |
| Dosbarth 1 | I | 18,805 | 18,698 |
| **Is-gyfanswm Dewisiadau eraill** | | **18,805** | **18,698** |
| Arian Parod: | | | |
| Cyfrifon arian parod | I | 3,544 | 8,614 |
| **Is-gyfanswm arain parod** | | **3,544** | **8,614** |
| **Cyfanswm asedau** | | **492,278** | **506,724** |

**Ymraniad yr asedau ar draws y categoriau buddsoddi**

| | **2022/23** | **2021/22** |
|---|---|---|
| Ecwitiau | 74.39% | 72.27% |
| Bondiau | 7.62% | 9.27% |
| Eiddo | 13.45% | 13.07% |
| Dewisiadau eraill | 3.82% | 3.69% |
| Arian Parod | 0.72% | 1.70% |

**Sail ar gyfer Amcangyfrif Asedau a Rhwymedigaethau**
Mae rhwymedigaethau wedi cael eu hasesu ar sail actiwaraidd gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu uned credyd. Mae amcangyfrif o'r pensiynau a fydd yn daladwy yn y dyfodol yn dibynnu ar ragdybiaethau ynghylch cyfraddau marwolaeth, lefelau cyflog, ac ati. Amcangyfrifwyd Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol gan Mercer Limited, cwmni annibynnol o actiwariaid, ac mae'r amcangyfrifon ar gyfer y Gronfa yn seiliedig ar y prisiad actiwaraidd diwethaf o'r cynllun fel ar 31 Mawrth 2022. Y rhagdybiaethau arwyddocaol a ddefnyddiwyd gan yr actiwari oedd:

| | 31 Mawrth 23 | 31 Mawrth 22 |
|---|---|---|
| **Gwybodaeth ynghylch hyd fel ar ddiwedd y cyfnod cyfrifyddu:** | | |
| Rhagamcanu hyd rhwymedigaethau Macaulay | 18 flynyddoedd | 18 flynyddoedd |
| Proffil hyd a ddefnyddir i bennu rhagdybiaethau | Aeddfed Iawn | Aeddfed Iawn |
| **Rhagdybiaethau ariannol:** | | |
| - Cyfradd chwyddiant y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI)/ailbrisiad buddion CARE | 2.70% | 3.30% |
| - Cyfradd y cynnydd mewn cyflogau | 4.20% | 4.80% |
| - Cyfradd y cynnydd mewn pensiynau mewn taliad/gohiriad | 2.80% | 3.40% |
| - Cyfradd disgownt | 4.80% | 2.80% |
| **Rhagdybiaethau marwolaeth ôl-ymddeol (iechyd arferol):** | | |
| - Aelodau sydd heb ymddeol | S3PA CMI_2021_[1.5%] (110% gwryw, 100% benyw) | S3PA CMI_2021_[1.75%] (100% gwryw, 91% benyw) |
| - Aelodau wedi ymddeol | CMI_2021_[1.5%] (107% gwryw, 101% benyw) | CMI_2021_[1.75%] (94% gwryw, 92% benyw) |
| **Hirhoedledd o gwryw (benyw):** | | |
| - pensiynwr yn y dyfodol 65 oed mewn 20 mlynedd | 23.3 (26) mlynedd | 24.7 (27.1) mlynedd |
| - pensiynwr 65 oed ar hyn o bryd | 21.9 (24.1) mlynedd | 23 (24.9) mlynedd |

Mae rhagamcanu rhwymedigaethau budd diffiniedig yn sensitif i'r rhagdybiaethau actiwaraidd a amlinellir yn y tabl isod. Mae'r dadansoddiadau sensitifrwydd isod wedi cael eu pennu yn seiliedig ar newidiadau rhesymol posibl o'r rhagdybiaethau sy'n digwydd ar ddiwedd y cyfnod adrodd ac yn cymryd ar gyfer pob newid bod y rhagdybiaeth wedi dadansoddi newidiadau tra bo'r holl ragdybiaethau eraill yn parhau'n gyson. Mae'r rhagdybiaethau mewn hirhoedledd, er enghraifft, yn cymryd bod disgwyliad oes yn cynyddu neu'n lleihau i ddynion a menywod. Yn ymarferol, nid yw hyn yn debygol o ddigwydd, a gall newidiadau mewn rhai o'r rhagdybiaethau fod yn rhyng-gysylltiedig.

Mae'r amcangyfrifon yn y dadansoddiad o sensitifrwydd wedi dilyn polisïau cyfrifyddu ar gyfer y cynllun, h.y. ar sail actiwaraidd gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu uned credyd. Nid oedd y dulliau a'r mathau o ragdybiaethau a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r dadansoddiad sensitifrwydd isod yn newid o'r rhai a ddefnyddiwyd yn y cyfnod blaenorol.

**Dadansoddiad sensitifrwydd fel ar 31 Mawrth 2023**

| Eitem i'w datgelu | Canolog | Sensitifrwydd 1 + 0.5% y flwyddyn cyfradd disgownt | Sensitifrwydd 2 + 0.25% y flwyddyn chwyddiant | Sensitifrwydd 3 + 0.25% y flwyddyn twf tâl | Sensitifrwydd 4 blwyddyn o gynnydd mewn disgwyliad oes |
|---|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Rhwymedigaethau | 447,258 | 410,828 | 466,990 | 450,173 | 456,335 |
| Asedau | (492,278) | (492,278) | (492,278) | (492,278) | (492,278) |
| Diffyg/(Gwarged) | **(45,020)** | **(81,450)** | **(25,288)** | **(42,105)** | **(35,943)** |
| Cost Gwasanaeth Ddisgwyliedig ar gyfer y flwyddyn nesaf | 10,662 | 9,144 | 11,543 | 10,662 | 10,922 |
| Cost Llog Net Ddisgwyliedig ar gyfer y flwyddyn nesaf | (2,371) | (4,549) | (1,415) | (2,222) | (1,927) |

| | Sensitifrwydd 5 Newid o +/- 1% yn nychweliadau Buddsoddi +1% | -1% |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| Rhwymedigaethau | 447,258 | 447,258 |
| Asedau | (497,242) | (487,314) |
| Diffyg/(Gwarged) | **(49,984)** | **(40,056)** |
| Cost Gwasanaeth Ddisgwyliedig ar gyfer y flwyddyn nesaf | 10,662 | 10,662 |
| Cost Llog Net Ddisgwyliedig ar gyfer y flwyddyn nesaf | (2,609) | (2,133) |

**Risgiau sy'n gysylltiedig â'r Gronfa Bensiwn**

Y prif risgiau i'r Cyngor yn deillio o'r cynllun yw'r rhagdybiaethau hirhoedledd, newidiadau statudol i'r cynllun, newidiadau strwythurol i'r cynllun (h.y. tynnu symiau mawr o'r cynllun), newidiadau i chwyddiant, arenillion bondiau a pherfformiad y buddsoddiadau ecwiti a ddelir gan y cynllun. Mae'r rhain yn cael eu lliniaru i ryw raddau gan y gofynion statudol i godi i'r Gronfa Gyffredinol y symiau sy'n ofynnol gan statud fel y disgrifir yn y nodyn polisïau cyfrifyddu.

## 1.38 DATGELU NATUR A MAINT Y RISGIAU SY'N DEILLIO O OFFERYNNAU ARIANNOL

Mae gweithgarwch Rheoli Trysorlys y Cyngor yn golygu ei fod yn agored i amrywiaeth o risgiau ariannol:

- Risg credyd – y posibilrwydd y gallai partïon eraill fethu â thalu symiau sy'n ddyledus i'r Cyngor.
- Risg Hylifedd ac Ail-gyllido – y posibilrwydd na fydd y Cyngor yn meddu ar gyllid i gyflawni ei rwymedigaethau i wneud taliadau.
- Risg y farchnad – posibilrwydd y gallai colledion ariannol ddod i ran y Cyngor o ganlyniad i newidiadau mewn mesurau megis cyfraddau llog a symudiadau ar y farchnad stoc.

Mae tîm Trysorlys canolog yn cyflawni'r gwaith o Reoli'r Trysorlys gyda chymorth cynghorydd allanol – Link Asset Services Ltd. Diffinnir Rheoli'r Trysorlys fel a ganlyn: *'Rheoli buddsoddiadau a llifau arian yr awdurdod, ei drafodion bancio, marchnadoedd ariannol a marchnadoedd cyfalaf; rheoli'n effeithiol y risgiau sydd ynghlwm wrth y gweithgareddau hynny a cheisio sicrhau'r perfformiad gorau posibl yn unol â'r risgiau hynny'.*

Mae Deddf Llywodraeth Leol 2003 yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Cyngor lunio Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, a gaiff ei gymeradwyo'n flynyddol gan y Cyngor llawn. Mae canllawiau ar gael ar ffurf cod ymarfer Rheoli Trysorlys CIPFA. Mae Strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor yn nodi polisïau'r Cyngor o ran rheoli ei fuddsoddiadau a'i ddyledion ac o ran blaenoriaeth i ddiogelwch a hylifedd y buddsoddiadau hynny.

**Risg Credyd**

Mae risg credyd yn deillio o adneuon gyda banciau a sefydliadau ariannol, ac o fod yn agored i gwsmeriaid y Cyngor. Ni wneir adneuon gyda banciau a sefydliadau ariannol os nad oes ganddynt statws credyd.

Caiff statws credyd ei fonitro gan wasanaeth monitro ar-lein ynghyd â rhestrau graddfeydd credyd wythnosol a ddarperir gan Link Asset Services. Mae hwn yn defnyddio sgoriau credyd o'r 3 asiantaeth sgorio credyd (Fitch, Moody's a Standard & Poor's) ac maent hefyd yn cyfnewid data ynglŷn ag unrhyw ddiffyg lle mae hyn yn bodoli yn y marchnadoedd. Hysbysir y Cyngor yn electronig bob tro y bydd statws credyd un o'r sefydliadau sydd ar y rhestr gymeradwy'n newid. Os caiff un o'r gwrthbartïon neu gynllun buddsoddi ei israddio a bod hynny'n golygu nad yw'n bodloni meini prawf sylfaenol y Cyngor o ran credyd, bydd y Cyngor yn rhoi'r gorau ar unwaith i ddefnyddio'r gwrthbarti hwnnw neu'r cynllun buddsoddi hwnnw.

Isod, nodir y meini prawf credyd o ran asedau ariannol y Cyngor ar 31ain Mawrth 2023:

| Categori'r Asedau Ariannol | Meini Prawf | Buddsoddiad unigol mwyaf ar 31/03/2023 | Cyfanswm y Buddsoddiadau ar 31/03/2023 |
|---|---|---|---|
| Adneuon sydd gyda Swyddfa Rheoli Dyledion Llywodraeth y DU | Dim sgôr gredyd | £4.0m | £22.2m |
| Adneuon mewn Banciau / Cymdeithasau Adeiladu. | Isafswm sgôr: Hirdymor A- Byrdymor F1 | £4.0m | £16.5m |

Mae gan y Cyngor restr fuddsoddi a gymeradwyir gan y Cyngor Llawn fel rhan o'r strategaeth flynyddol i Reoli'r Trysorlys. Mae'r rhestr yn cynnwys:

- y categorïau buddsoddi a ganiateir a phwy sydd wedi ei awdurdodi i fuddsoddi ym mhob categori (e.e. swyddogion mewnol, rheolwyr cronfeydd allanol);
- y meini prawf sylfaenol sy'n ofynnol o ran credyd ar gyfer pob math o fuddsoddiad;
- gwerth uchaf yr arian y gellir ei fuddsoddi gyda phob gwrthbarti unigol;
- gwerth uchaf yr arian y gellir ei fuddsoddi ym mhob categori buddsoddi;
- y cyfnod hiraf a ganiateir ar gyfer pob math o fuddsoddiad;
- y terfyn uchaf ar gyfer buddsoddiadau hirach na 364 o ddiwrnodau.

Caiff y rhestr ei hadolygu a'i diweddaru'n rheolaidd yn unol â'r statws credyd diweddaraf a chyflwr y farchnad.

Mae'r dadansoddiad canlynol yn crynhoi'r risg credyd mwyaf posibl i'r Cyngor, yn seiliedig ar brofiad o ddiffygdalu.

| | **Swm ar 31 Mawrth 2023 £'000** | **Profiad Hanesyddol o ddifyg %** | **Uchafswm amlygiad amcangyfrifedig i ddiffyg £'000** |
|---|---|---|---|
| Adneuon gyda Banciau a Sefydliadau Ariannol | | | |
| Adneuon Cyfnod Penodol gyda DMO y DU | 22,200 | 0.00% | 0 |
| Partïon i gontract sydd â sgôr A | 16,454 | 0.05% | 8 |
| | **38,654** | | **8** |

Yn ystod y flwyddyn ariannol bu'r Cyngor yn gweithredu o fewn cyfyngiadau'r trysorlys a'r Dangosyddion Darbodus a nodwyd yn yr adroddiad blynyddol ar Strategaeth Rheoli'r Trysorlys.

Mae'r sector gwasanaethau ariannol yn wynebu cryn ansicrwydd a llawer o heriau. Mae'r Cyngor yn parhau i fonitro'n ofalus statws credyd y sefydliadau sydd ar ei restr gymeradwy o bartïon gontract. Bydd unrhyw barti i gontract a gaiff ei israddio, gan olygu nad yw mwyach yn bodloni meini prawf gofynnol y Cyngor o ran credyd, yn cael ei dynnu ar unwaith oddi ar y rhestr gymeradwy o bartïon contract.

**Risg Hylifedd ac Ail-gyllido**

Oherwydd bod y Cyngor yn gallu benthyg oddi wrth y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB), nid oes risg sylweddol na fydd yn gallu codi arian i gyflawni'r ymrwymiadau sydd ganddo o dan yr offerynnau ariannol. Yn hytrach, mae risg yn codi oherwydd bod y Cyngor yn gorfod adnewyddu cyfran helaeth o'i fenthyciadau ar adeg pan fo'r cyfraddau llog yn anffafriol. I'r perwyl hwn, mae'n allweddol ystyried proffil aeddfedrwydd dyledion wrth ymgymryd â benthyciadau newydd neu ailstrwythuro'r benthyciadau presennol.

Dyma ddadansoddiad o aeddfedrwydd dyledion allanol y Cyngor ar 31ain Mawrth 2023:

| | £'000 |
|---|---|
| Llai na blwyddyn | 1,151 |
| Rhwng blwyddyn a dwy flynedd | 4,214 |
| Rhwng dwy a phum mlynedd | 5,885 |
| Rhwng pump a deng mlynedd | 19,094 |
| Deng mlynedd a mwy | 77,710 |
| | **108,054** |

Bydd yr holl ddyledion masnachol a dyledion eraill yn daladwy ymhen llai na blwyddyn.

**Risg y Farchnad**

**Risg Cyfradd Llog**

Mae'r Cyngor yn agored i risg o ran ei amlygiad i symudiadau yng nghyfraddau llog ei fenthyciadau a'i fuddsoddiadau. Mae newidiadau i'r gyfradd llog yn cael effaith gymhleth ar y Cyngor. Er enghraifft, byddai cynnydd yn y gyfradd llog yn peri'r effeithiau canlynol:

- Benthyciadau ar gyfraddau newidiol – bydd y treuliau llog a godir ar y Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant yn codi.
- Benthyciadau ar gyfraddau sefydlog – bydd gwerth teg y rhwymedigaethau'n disgyn.
- Buddsoddiadau ar gyfraddau newidiol – bydd yr incwm llog a gredydir i'r Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant yn codi.
- Buddsoddiadau ar gyfraddau sefydlog – bydd gwerth teg yr asedau'n disgyn.

Caiff benthyciadau eu cario ar gost amorteiddiedig, ac felly ni fyddai'r enillion a'r colledion enwol ar fenthyciadau ar gyfradd sefydlog yn effeithio ar y Cyfrif Incwm a Gwariant. Fodd bynnag, caiff newidiadau yn y llog sy'n daladwy ac yn dderbyniadwy ar fenthyciadau ar gyfradd newidiol eu codi ar y Cyfrif Incwm a Gwariant a byddant yn effeithio ar Fantolen y Gronfa Gyffredinol.

Y brif strategaeth yw rheoli'r gofynion o ran llif arian a'r balans craidd, gwneud buddsoddiadau mwy hirdymor pan fo'r cronfeydd dros ben yn caniatáu hynny, a mynd ati ar yr un pryd i gydnabod y gofynion cyllido yn rhaglen gyfalaf tair blynedd y Cyngor a chyflawni benthyciadau newydd hirdymor tra mae'r cyfraddau llog yn dal i fod ar eu hisaf erioed.

Yn 2022/23 roedd portffolio buddsoddi'r Cyngor (ac eithrio'r llog a gronnwyd) yn £55.5 miliwn ar ddechrau'r flwyddyn ac yn £38.7 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn. Dechreuodd portffolio dyled y Cyngor (ac eithrio'r llog a gronnwyd) ar £115.6 miliwn ac roedd yn £108.1 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn.

Mae asesiad o sefyllfa ddiweddaraf y gyfradd llog a rhagolygon y dyfodol yn bwydo i mewn i osod y gyllideb flynyddol. Defnyddir hwn hefyd i fonitro a rhagamcanu sefyllfa alldro cyllideb yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn. Mae hyn yn caniatáu i unrhyw newidiadau andwyol gael eu cymryd i ystyriaeth. Derbynnir rhagolygon cyfradd llog gan ddaroganwyr annibynnol trwy ymgynghorwyr trysorlys allanol y Cyngor. Mae hyn nid yn unig yn dylanwadu ar strategaethau benthyca ond hefyd ar amserlenni buddsoddi a balans cyffredinol y portffolios buddsoddi a benthyca.

Ar 31/03/2023, pe bai'r cyfraddau llog 1% yn uwch a phob newidyn arall yn gyson, byddai'r effaith ariannol fel a ganlyn:

| | £'000 |
|---|---|
| Cynnydd o ran y Llog sy'n dderbyniadwy ar fuddsoddiadau cyfradd newidiol | 9 |
| **Cyfanswm yr effaith ar y Cyfrif Incwm a Gwariant** | **9** |
| **Effaith Gwerth Teg** | **£'000** |
| Gostyngiad yng ngwerth teg y benthyciadau cyfradd sefydlog | 11,303 |

Nid yw Gwerth Teg y buddsoddiadau Cyfradd Sefydlog a'r gwahaniaeth o ran y gwerth caiff ei gwario ymlaen yn berthnasol. Nid oes gan y Cyngor unrhyw rwymedigaethau benthyca ar gyfradd newidiol.

Byddai effaith cwymp o 1% yn y cyfraddau llog fel yr uchod, ond gyda'r symudiadau wedi'u gwrthdroi.

Mae enillion buddsoddiad ar gyfer 2022/23 wedi cynyddu'n sylweddol oherwydd codiadau llog yn ystod y flwyddyn (2022/23: £1,148mil 2021/22: £60mil).

**Risg o ran Prisiau**

Nid yw'r Cyngor yn defnyddio rheolwr cronfa allanol bellach; felly mae'r buddsoddiadau a wneir ar hyn o bryd yn seiliedig ar gyfraddau llog sefydlog. Nid yw'r Cyngor felly yn agored ar hyn o bryd i golledion sy'n codi yn sgil newidiadau ym mhrisiau eitemau a gaiff eu masnachu e.e. cyfranddaliadau, giltiau, tystysgrifau adneuo.

**Risg y Cyfnewidfeydd Tramor**

Nid oes gan y Cyngor ddim asedau na rhwymedigaethau ariannol mewn arian cyfred tramor ac felly nid yw'n agored i golled sy'n deillio o symudiadau mewn cyfraddau cyfnewid.

## 1.39 RHWYMEDIGAETHAU AMODOL

**Municipal Mutual Insurance**

Municipal Mutual Insurance (MMI) oedd yswirwyr y Cyngor cyn 1996 a bu iddynt roi'r gorau i gyflawni busnes yswiriant ar 30 Medi 1992. I sicrhau ei fod yn terfynu'n drefnus, cyflwynwyd Cynllun Trefniant (Cynllun) a ddaeth i rym ar 21 Ionawr 1994. Rhoddodd cyfarwyddwyr MMI y Cynllun ar waith ar 13 Tachwedd 2012, ar ôl iddi ddod i'r amlwg na fyddai modd terfynu'r busnes yn ddiddyled. Penodwyd Ernst & Young yn weinyddwyr ar gyfer y Cynllun a phennodd gyfradd lefi gychwynnol o 15%, swm o £30 mil, a dalwyd gan y Cyngor yn 2013/14. Yn 2015/16, hysbyswyd y Cyngor o'r ffaith bod cyfradd yr ardoll yn cael ei chodi i 25%, felly talwyd swm pellach o £20 mil. O dan y Cynllun, mae'n ofynnol i gredydwyr yswiriant mwyaf MMI (Credydwyr y Cynllun) dderbyn taliadau rhannol o'r hawliadau (yn y gorffennol a'r dyfodol). Yr uchafswm y gellir ei adfachu oherwydd unrhyw lefi yn y dyfodol yw £174 mil, ar yr amod nad yw Ceredigion yn gwneud unrhyw hawliadau eraill yn erbyn y Cynllun. Ni ddisgwylir iddo wneud hynny.

**Achos Cyfreithiol am Drethi Dŵr**

Trosglwyddodd y Cyngor ei stoc tai i Dai Ceredigion yn 2009, a chyn hynny, casglwyd y trethi dŵr ar ran Dŵr Cymru gan denantiaid fel rhan o'u rhent. Yn gyfnewid am y gwasanaeth hwn, roedd y Cyngor yn cael comisiwn. Cwestiynwyd y trefniant hwn yn achos *Kim Jones v Bwrdeistref Southwark Llundain [2016] EWHC 457*. Barnodd y llys bod y diffynnydd yn gweithredu fel cyflenwr dŵr ac nid fel asiant y cyflenwr dŵr wrth

gasglu trethi dŵr fel rhan o'r rhent. Mae gan y dyfarniad hwn oblygiadau ariannol posibl o ran y ffi asiantaeth ac mewn achosion pan gymrwyd camau yn erbyn ôl-ddyledion rhent y byddai modd barnu eu bod yn cynnwys trethi dŵr.

**Deddf Hawliau Dynol (1998)**
Mae gan y Cyngor achosion yn mynd rhagddynt ar hyn o bryd lle honnir bod y Cyngor wedi torri hawliau dynol yr hawlydd o dan y Ddeddf Hawliau Dynol (1998). Mae'r achosion hyn yn y camau cynnar lle nad yw union natur yr honiadau a wneir a'r atebolrwydd posibl i'r Cyngor wedi'u cadarnhau eto.

**Colled Enillion**
Yn dilyn achos llys blaenorol, mae'r Cyngor wedi derbyn llythyr cyn-gweithredu o hawliad am golli enillion yn y swm o £540k. Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn ymgynghori â chynghorydd cyfreithiol ar y mater.

**ASEDAU AMODOL**

**Hawliad grant**
Cyflwynwyd cais grant terfynol ar gyfer rhaglen sy'n cynnwys swm o £763k ar gyfer gwaith a wnaed a ystyriwyd yn flaenorol yn anghymwys. Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud y byddan nhw'n ystyried yr hawliad ond does dim sicrwydd y byddan nhw'n ariannu'r swm yma i gyd neu ran ohono.

## 1.40 CYD-BWYLLGORAU

**Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru**
Mae'r Cyngor a Chyngor Sir Powys yn aelodau o Fwrdd Tyfu Canolbarth Cymru a sefydlwyd yn 2020/21. Mae'r Bwrdd yn rhoi arweinyddiaeth, atebolrwydd ac yn gwneud penderfyniadau strategol ar gyfer Bargen Twf Canolbarth Cymru. Mae datganiad blynyddol ar wahân wedi'i lunio ar gyfer y Bwrdd. Yr unig ffigurau sy'n ymwneud â Thyfu Canolbarth Cymru sydd wedi'u cynnwys yn y Datganiad hwn o Gyfrifon yw cyfraniad y Cyngor i'r Bwrdd, sef £30,590 ar gyfer 2022/23 (£105,647 ar gyfer 2021/22).

## 1.41 CYD-BWYLLGORAU CORFFORAETHOL

**Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Canolbarth (CBC)**
Mae'r Cyngor, Cyngor Sir Powys ac Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn aelodau o'r CBC a sefydlwyd yn 2021/22. Tasg y Pwyllgor yw datblygu trafnidiaeth ranbarthol, cynlluniau datblygu strategol a gwella lles economaidd. Cynhyrchwyd ffurflen flynyddol ar wahân ar gyfer y MWCJC. Yr unig ffigurau sy'n ymwneud â'r MWCJC sydd wedi'u cynnwys yn y Datganiad Cyfrifon hwn yw cyfraniad y Cyngor sef £78,283 ar gyfer 2022/23 (dim ar gyfer 2021/22) ac incwm a dderbynnir o £6,005 mewn perthynas â gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor (dim ar gyfer 2021/22).

## 1.42 DIGWYDDIADAU AR ÔL Y FANTOLEN AC AWDURDODI'R CYFRIFON I'W CYHOEDDI

Does dim digwyddiadau ôl fantolen ar gyfer 2022/23.

Awdurdodir y Datganiad Cyfrifon i'w gyhoeddi gan Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael ar 06 Chwefror 2024.

# DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

## 1 CRYNODEB GWEITHREDOL

Mae Cyngor Sir Ceredigion (‘y Cyngor’) yn gyfrifol am sicrhau bod ei fusnes yn cael ei gyflawni yn unol â’r gyfraith a safonau priodol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu, bod cyfrif priodol amdano a’i fod yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd ddarbodus, effeithlon ac effeithiol.

Mae’r Cyngor hefyd wedi ymrwymo i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol ei ddinasyddion. Caiff yr ymrwymiad hwnnw ei egluro yn Strategaeth Gorfforaethol 2022-2027 y Cyngor ac mae’n disgrifio sut y bydd y Cyngor yn mynd i’r afael â’r heriau sydd o’i flaen ac yn manteisio i’r eithaf ar gyfleoedd. Gweledigaeth y Cyngor ar gyfer y cyfnod hwn yw bod y Cyngor *‘yn darparu gwasanaethau cyhoeddus dwyieithog cynaliadwy sy’n rhoi gwerth am arian er mwyn cynnal economi gref, amgylchedd iach a hyrwyddo lles ein pobl a’n cymunedau’* a bwriedir gwireddu’r weledigaeth trwy gyflawni’r Blaenoriaethau Corfforaethol, sef:

1. Hybu’r Economi; Cefnogi Busnesau a Galluogi Cyflogaeth;
2. Creu cymunedau gofalgar ac iach;
3. Darparu’r dechrau gorau mewn bywyd a galluogi pobl o bob oed i ddysgu;
4. Creu cymunedau cynaliadwy a gwyrdd sydd wedi’u cysylltu’n dda â’i gilydd.

I fod yn llwyddiannus, rhaid bod gan y Cyngor sylfaen gref o drefniadau llywodraethu da a rheolaeth ariannol gadarn. Mae Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol y Cyngor yn sicrhau ein bod yn gwneud y pethau iawn, yn y ffordd iawn, yn unol â’n gwerthoedd. Ategir y Cod Lleol gan Fframwaith Sicrwydd Llywodraethu sy’n egluro’r sicrwydd y bydd y Cyngor yn ceisio ei gael, a’r modd y gwneir hynny.

Mae copi o God Llywodraethu Corfforaethol Lleol a Datganiad Llywodraethu Blynyddol y Cyngor ar gael ar wefan y Cyngor yn
https://www.ceredigion.gov.uk/eich-cyngor/cynghorwyr-a-phwyllgorau/datganiad-llywodraethu-blynyddol/

Dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, mae dyletswydd ar y Cyngor hefyd i drefnu ei fod yn sicrhau gwelliant parhaus yn y modd y caiff ei swyddogaethau eu cyflawni, gan ystyried cyfuniad o ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd. Wrth gyflawni’r cyfrifoldeb cyffredinol hwn, rhaid i’r Cyngor sicrhau bod trefniadau priodol ar waith ar gyfer llywodraethu ei fusnes a hwyluso camau i gyflawni ei swyddogaethau’n effeithiol, sy’n cynnwys trefniadau ar gyfer rheoli risgiau. Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) mewn grym ac mae’r Cyngor wedi cymryd y camau angenrheidiol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth.

Datblygwyd Fframwaith Llywodraethu yn 2010 ac mae wedi'i ddiwygio yn unol â fframwaith CIPFA/SOLACE, *Delivering Good Governance in Local Government 2016.* Defnyddir y fframwaith i adolygu'r trefniadau llywodraethu bob blwyddyn.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 hefyd yn cyflwyno trefniadau llywodraethu newydd ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus ymgymryd â datblygu cynaliadwy. Mae'r Ddeddf yn rhoi dyletswydd llesiant ar gyrff cyhoeddus i bennu a chyhoeddi amcanion llesiant sydd i gyfrannu cymaint ag y modd i'r saith nod llesiant cenedlaethol. Mae disgwyl hefyd iddynt gymryd pob cam rhesymol tuag at gyflawni eu hamcanion.

Yn dilyn yr adolygiad ac yn unol â gofynion y Fframwaith, mae Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol mewn grym ac wedi'i adolygu ar gyfer 2023-24.

Mae'r Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol yn dod â holl drefniadau'r Cyngor ar gyfer llywodraethu ac atebolrwydd ynghyd mewn un ddogfen. Mae'r Cod yn seiliedig ar y canllawiau arfer gorau a nodir yn fframwaith CIPFA/SOLACE, *Delivering Good Governance in Local Government*.

Yn dilyn adolygiad gan Archwilio Cymru o Wasanaeth Cynllunio'r Cyngor a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod Ebrill i Orffennaf 2021 (cyhoeddwyd yr adroddiad yn Hydref 2021), mae'r Cyngor yn gweithio i gefnogi Archwilio Cymru gyda'u Hadolygiad Dilynol o'r Gwasanaeth Cynllunio. Ymatebir i unrhyw argymhellion fel cyfeiriad yn y cynllun gweithredu isod.

Mae Fframwaith Llywodraethu'r Cyngor yn seiliedig ar y fframwaith rhyngwladol *International Framework: Good Governance in the Public Sector* (CIPFA/IFAC, 2014) a'r saith egwyddor a ganlyn:

A: Ymddwyn gydag uniondeb, gan ddangos ymrwymiad cadarn i werthoedd moesegol, a pharchu rheolaeth y gyfraith

B: Sicrhau ei fod yn agored ac yn ymgysylltu'n gynhwysfawr â rhanddeiliaid

C: Diffinio canlyniadau yn nhermau buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy

D: Penderfynu ar yr ymyriadau sy'n angenrheidiol i gyflawni'r canlyniadau arfaethedig gystal ag y bo modd

E: Datblygu capasiti'r sefydliad, gan gynnwys gallu ei arweinwyr a'r unigolion oddi mewn iddo

F: Rheoli risgiau a pherfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn a thrwy reoli arian cyhoeddus yn gadarn

G: Gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd ac archwilio i sicrhau atebolrwydd effeithiol

Bob blwyddyn, mae'n ofynnol i'r Cyngor lunio Datganiad Llywodraethu Blynyddol (y ddogfen hon), sy'n esbonio sut y mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'r saith egwyddor craidd a'r is-egwyddorion sydd yn ei Fframwaith Llywodraethu a'r Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol, a sut y mae'n bodloni gofyniad Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio

(Cymru) 2014. Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol hwn yn rhoi sicrwydd ynghylch cydymffurfio ar gyfer y flwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2023 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r Datganiad o Gyfrifon.

Mae Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr yn cydnabod pwysigrwydd cael sylfaen gref o ran trefniadau llywodraethu da a rheolaeth ariannol gadarn. Maent yn addo ymrwymo i fynd i'r afael â'r materion a gaiff eu hamlygu yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol hwn, a gwella trefniadau llywodraethu'r Cyngor ymhellach.

Mae'r Arweinydd a'r Prif Weithredwr yn cadarnhau eu bod wedi cael eu hysbysu ynghylch goblygiadau'r adolygiad gan yr uwch-reolwyr a'r Pwyllgor Archwilio, ac maent yn fodlon y bydd y camau a amlinellir yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol hwn yn mynd i'r afael â'r meysydd ar gyfer gwella.

Llofnodwyd ar ran **Cyngor Sir Ceredigion**

| | |
|---|---|
| **Arweinydd y Cyngor** | **Prif Weithredwr** |
| Dyddiad: 06/02/2024 | Dyddiad: 06/02/2024 |

## 2 Asesiad o effeithiolrwydd prif elfennau'r Fframwaith Llywodraethu

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddangos bod ganddo'r trefniadau llywodraethu corfforaethol angenrheidiol ar waith i berfformio'n effeithiol.

Mae Arweinydd y Cyngor yn darparu cyfeiriad strategol clir ac mae'r Cyfansoddiad yn diffinio rolau'r Cynghorwyr a'r Swyddogion yn glir. Mae Timau Archwilio Mewnol ac Allanol, y Pwyllgor Moeseg a Safonau a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi ymrwymo i sicrhau bod y trefniadau llywodraethu yn effeithiol ac yn gadarn.

Mae'r Cyngor wedi cynnal adolygiad blynyddol o effeithiolrwydd ei drefniadau llywodraethu yn erbyn fframwaith CIPFA/SOLACE, *Delivering Good Governance in Local Government* (2016). Roedd yr adolygiad yn cynnwys gweithdy ar gyfer Aelodau/Swyddogion, lle y dadansoddwyd ac adolygwyd dogfen Fframwaith Llywodraethu'r Cyngor, a'r newidiadau pellach a wnaed ar ôl y gweithdy wedi'u hadrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Cafwyd cyfraniadau i'r adolygiad gan yr Aelodau a ganlyn: Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ynghyd â chynghorydd ac aelodau lleyg y Pwyllgor. Yn ogystal, roedd y canlynol hefyd wedi cymryd rhan: Swyddog Monitro; Rheolwr Corfforaethol–Archwilio Mewnol; Swyddog Llywodraethu; Swyddog Arweiniol Corfforaethol–Gwasanaethau Democrataidd; Rheolwr Corfforaethol–Gwasanaethau Democrataidd; Swyddog Arweiniol Corfforaethol–Pobl a Threfniadaeth; a Rheolwr Corfforaethol–Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd.

Yn ystod y gweithdy, cyflwynwyd a sgoriwyd pob ymddygiad ar sail system sgorio, fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| 1/2 | Annerbyniol – angen gweithredu'n syth |
| 3/4 | Yn llai na boddhaol – angen gweithredu ar frys (cyn pen 3-6 mis) |
| 5/6 | Boddhaol – angen gweithredu (cyn diwedd y flwyddyn, 9-12 mis) |
| 7/8 | Derbyniol – gallai fod angen mân addasiadau |
| 9/10 | Da – ystyrir bod y Llywodraethu, yn gyffredinol, yn dda a'i fod yn bodloni arfer gorau – nid oes angen unrhyw gamau gweithredu pellach |

Mae pob sgôr yn y Ddogfen Fframwaith Reoleiddio yn sgôr allan o 10 e.e. mae sgôr 7/8 yn golygu sgôr rhwng 7 a 8 allan o gyfanswm o 10 marc.

Dosbarthwyd y Fframwaith Llywodraethu i swyddogion eraill sydd â chyfrifoldebau llywodraethu/rheoli yn y Cyngor hefyd. Cyflwynwyd y fframwaith adolygu i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 17 Ionawr 2023.

Mae effeithiolrwydd y Fframwaith Llywodraethu yn seiliedig ar dystiolaeth a sicrwydd sy'n deillio o:

- Archwiliadau ac Arolygiadau Mewnol ac Allanol;
- Rheolaeth Ariannol;
- Rheoli Risgiau a Pherfformiad;
- Safonau Moesegol a Chyfreithiol;
- Y Cyfarwyddwyr Corfforaethol ac Uwch-Reolwyr Eraill, gan gynnwys Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro;
- Y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio; a'r
- Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu.

Yn ogystal, mae'r Rheolwr Corfforaethol–Archwilio Mewnol yn cynnal adolygiad annibynnol o'r Fframwaith Llywodraethu ac o'r dull sgorio a'r dystiolaeth bob blwyddyn. Cwblhawyd yr adolygiad o Fframwaith 2022/23 ym mis Ionawr 2023, gan gynnig sicrwydd 'uchel' bod system gadarn o ran craffu a chadernid yn ei lle. Adroddwyd hyn i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Mawrth 2023.

Mae'r Cyngor wedi llunio Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol sy'n amlinellu'r systemau a'r prosesau, y diwylliannau a'r gwerthoedd a ddefnyddir i gyfarwyddo a rheoli'r awdurdod, ac sy'n amlinellu'r gweithgareddau a ddefnyddir ganddo i fod yn atebol i'r gymuned, ymgysylltu â hi a'i harwain. Mae'n galluogi'r awdurdod i fonitro'r modd y caiff ei amcanion strategol eu cyflawni, gan ystyried a yw'r amcanion hynny wedi arwain at ddarparu gwasanaethau priodol cost-effeithiol.

Mae'r system rheolaeth fewnol yn rhan bwysig o'r cod hwnnw, a bwriedir iddi reoli risg at lefel resymol. Ni all ddileu pob risg y bydd yr awdurdod yn methu â chyflawni ei bolisïau, ei nodau a'i amcanion, ac felly dim ond sicrwydd rhesymol o effeithiolrwydd y gall ei roi. Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus y bwriedir iddi adnabod a blaenoriaethu'r risgiau sy'n ymwneud â chyflawni polisïau, nodau ac

amcanion y Cyngor; gwerthuso'r tebygolrwydd y bydd y risgiau hynny'n digwydd a'u heffaith os byddant yn digwydd; a rheoli'r risgiau mewn ffordd effeithlon, effeithiol a darbodus.

Mae'r Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol ar gael ar wefan y Cyngor yn https://www.ceredigion.gov.uk/eich-cyngor/cynghorwyr-a-phwyllgorau/datganiad-llywodraethu-blynyddol/

Mae cod Rheolaeth Ariannol CIPFA yn gosod safonau rheolaeth ariannol ar gyfer awdurdodau lleol. Ei nod yw cefnogi arferion effeithiol o ran rheolaeth ariannol a chynorthwyo awdurdodau lleol i ddangos eu cynaliadwyedd cyllidebol. Mae Swyddog Adran 151 wedi cynnal adolygiad hunanasesu ac yn fodlon bod y Cyngor yn cydymffurfio â'r cod.

## 3 Cyflawniadau ym maes Llywodraethu Corfforaethol yn ystod 2022-23

Mae'r Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol yn amlinellu ymrwymiad yr awdurdod lleol i egwyddorion llywodraethu da. Yn y paragraffau canlynol, amlinellir y cyflawniadau ym maes Llywodraethu Corfforaethol yn ystod 2022-23.

**A. Ymddwyn gydag uniondeb, gan ddangos ymrwymiad cadarn i werthoedd moesegol, a pharchu rheolaeth y gyfraith:**

**Ymddwyn gydag uniondeb**

- Cod Ymddygiad i Aelodau (diweddarwyd yn 2016) sydd ar gael ar wefan y Cyngor, ei fewnrwyd (CeriNet) dan Adnoddau Cynghorwyr, ac yn y Cyfansoddiad.
- Siart Llif Cod Ymddygiad yr Aelodau (diweddarwyd yn 2016).
- Cod Ymddygiad i Swyddogion* (adolygiad wedi'i gynnal ac wrthi'n aros i gael ei gymeradwyo), sydd ar gael gyda'r holl bolisïau a strategaethau Corfforaethol trwy wefan y Cyngor/CeriNet.
- Hyfforddiant Ymsefydlu gorfodol a hyfforddiant dilynol am y Cod Ymddygiad a moeseg i'r holl Aelodau.
- Darparwyd hyfforddiant ynghylch Moeseg/Twyll ar y cyd ag yswiriwr y Cyngor yn ystod gweithdy chwarterol 2021 y Rheolwyr Corfforaethol gan fod yn sail i fodiwl e-ddysgu ar gyfer yr holl Staff.
- Mae Archwilio Mewnol a'r Gwasanaethau Llywodraethu, gan gydweithio â Dysgu a Datblygu, wedi paratoi senarios ar gyfer hyfforddiant. Cefnogwyd yr hyfforddiant gan adolygiad a gynhaliwyd yn ddiweddar o Strategaeth Atal Twyll, Llygredd a Llwgrwobrwyo (gan gynnwys Atal Gwyngalchu Arian) y Cyngor.
- Rhoddir cyngor dydd i ddydd gan y Swyddog Monitro a'r Swyddog Cymorth Craffu.
- Polisi Disgyblu (Tachwedd 2017) (i'w adolygu 2024/25)
- Adolygiadau Datblygiad Personol wedi'u cynnal i adolygu perfformiad.
- Cofrestr o fuddiannau Aelodau, sydd ar gael gan Wasanaethau Democrataidd y Cyngor, wedi'i adolygu gan y Swyddog Monitro.
- Mae ffurflenni Datgelu Budd a Lletygarwch i Swyddogion ac Aelodau ar CeriNet.
- Y Swyddog Monitro yn cadw golwg ac yn adolygu ffurflenni Prif Swyddogion yn flynyddol.

- Mae'r Swyddog Monitro yn cynghori Prif Swyddogion ac Aelodau ar yr angen i ddatgelu cysylltiadau personol agos â Swyddogion neu Aelodau eraill.
- Mae'r Swyddog Monitro yn parhau i gynghori Swyddogion ynghylch ffurflenni buddiannau. Ceir nodiadau atgoffa rheolaidd trwy gyfrwng Diweddariadau Newyddion ar system CeriNet ac yn y Grŵp Arweiniol.
- Gweithgarwch cyfateb data'r Fenter Twyll Genedlaethol (NFI) i amlygu staff sy'n gyfarwyddwyr cwmnïau sydd â chysylltiadau â'r Cyngor – bydd Archwilio Mewnol yn ymchwilio i unrhyw ddiffyg datgelu ac yn adrodd i'r Swyddog Monitro.
- Ymestyn y broses datgelu budd i gynnwys gofyniad ynghylch pobl gysylltiedig: Aelodau a Swyddogion i ddatgelu os ydynt yn perthyn yn agos i Swyddogion neu Aelodau eraill neu athrawon. Mae angen datganiad/ffurflen benodol yn nodi a yw hyn yn cynnwys Prif Swyddog (ac i nodi'r berthynas).
- Ymestyn y broses datgelu budd i gynnwys gofyniad bod Aelodau yn nodi swyddi Cyfarwyddwyr – enw a rhif y cwmni, di-dâl/â thâl, budd preifat neu benodiad gan y Cyngor. Y Swyddog Monitro i atgoffa'r Aelodau o'r angen i ddatgelu'n gywir pob swydd Cyfarwyddwr (gan gynnwys cwmnïau segur).
- Ymestyn y broses datgelu budd i gynnwys gofyniad bod Aelodau yn nodi rôl o fewn aelodaeth – arsylwr, aelod, gwirfoddolwr, aelod o'r Pwyllgor, aelod Bwrdd neu Ymddiriedolwr.
- Datgelu buddiannau swyddogion i gynnwys gofyniad i ddatgan a ydynt hwy neu aelod agos o'r teulu, neu unrhyw berson neu sefydliad sy'n gweithredu ar eu rhan, ar Fwrdd, pwyllgor rheoli neu grŵp rheoli arall sefydliad y mae'r Cyngor yn ymwneud yn sylweddol ag ef.
- Mae adolygiad wrthi'n cael ei gynnal o'r cyrff allanol sydd wedi penodi Aelodau, gan gynnwys gwerth ychwanegol, a diweddaru'r Cyfansoddiad.
- Y Swyddog Monitro i wneud ymholiadau gydag ysgrifenyddion cwmnïau yn ôl yr angen i ganfod sail buddiannau Aelodau sy'n ymddiriedolwyr/Cyfarwyddwyr mewn sefydliadau neu gwmnïau elusennol, a'r rhesymeg. Gwneir ymdrech i ddiwygio Erthyglau Cymdeithasu neu ymddiswyddiad cyfarwyddwyr y Cyngor os oes angen.
- Mae gofyn i aelodau ddiweddaru'r Gofrestr Fuddiannau yn unol â'r Cod Ymddygiad, a phob blwyddyn, yn ogystal mae'n gyfle i gyfeirio at unrhyw rolau/cysylltiadau personol agos ac ati. Yn ogystal, rhaid i Aelodau ddatgelu buddiannau mewn cyfarfodydd, mae hyn yn cynnwys aelodau annibynnol/lleyg.
- Cadw Cofrestr Swyddi dan Gyfyngiad Gwleidyddol ar gyfer Swyddogion a Pholisi Cyfyngiadau Gwleidyddol ar Weithwyr Llywodraeth Leol ar gael i weithwyr ar CeriNet. Cyhoeddi Cofrestr o Swyddi o dan Gyfyngiad Gwleidyddol ar wefan y Cyngor.
- Ffurflenni goddefebau (*dispensations*) i aelodau wedi'u diweddaru yn 2022.
- Y Swyddog Monitro yn cwrdd ag arweinwyr grwpiau gwleidyddol bob chwarter i ystyried eu dyletswyddau newydd i gynnal safonau ymddygiad Aelodau yn eu grŵp.
- Arweinwyr grwpiau gwleidyddol i gydweithio â'r Pwyllgor Moeseg a Safonau yn ôl yr angen i gyflawni eu dyletswyddau newydd.
- Arweinwyr grwpiau gwleidyddol i gwblhau templed sy'n nodi'r camau a gymerwyd i ddangos cydymffurfiaeth â'u dyletswyddau newydd.
- Gweithdrefn Penderfyniadau Lleol ar gyfer Aelodau: Aelod heb grŵp/cysylltiad gwleidyddol yn cael cyngor/cefnogaeth Cadeirydd/Is-Gadeirydd y Cyngor.
- Mae'r Pwyllgor Moeseg a Safonau wedi cael hyfforddiant ar ei ddyletswyddau newydd (o fis Mai 2022) dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ('Deddf 2021').
- Diwygiwyd Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Rheoli Datblygu i nodi'n glir ei ddiben, ei rôl a'i gyfrifoldebau, a sut mae'n cysylltu â Blaenoriaethau Corfforaethol.

- Diwygiwyd y ddogfen Gweithdrefnau Gweithredol ar gyfer y Pwyllgor Rheoli Datblygu. Mae proses ‘cyfnod callio’ wedi’i sefydlu er mwyn adolygu ceisiadau cynllunio, a allai, o’u cymeradwyo, fod yn wyro sylweddol oddi wrth bolisi.
- Mae’r Cynllun Dirprwyo yn cynnwys meini prawf ar gyfer ceisiadau y mae’n rhaid eu cyfeirio at y Pwyllgor Rheoli Datblygu, a’r ceisiadau hynny y gellir eu dirprwyo i’r Swyddog Arweiniol Corfforaethol.
- Mae Protocol Arfer Da i Gynghorwyr yn y Pwyllgor Rheoli Datblygu wedi’i lunio a’i gynnwys yn y Cyfansoddiad.
- Mae perthynas waith dda yn bodoli gyda’r holl brif reoleiddwyr.
- Caiff y Cyfansoddiad ei adolygu’n rheolaidd, gyda diweddariadau parhaus yn ôl yr angen, gan gynnwys cyflwyno newidiadau arfaethedig i Weithgor Trawsbleidiol y Cyfansoddiad, i wneud argymhellion i’r Cyngor ar newidiadau i’r Cyfansoddiad. Y Swyddog Monitro/Swyddog Llywodraethu yn adrodd i’r Cyngor i ddiweddaru dirprwyaethau a’r Cyfansoddiad.
- Mae Strategaeth Gorfforaethol 2022-2027 yn cynnwys Amcanion Llesiant Corfforaethol sy’n nodi blaenoriaethau ac amcanion lefel uchel y Cyngor ynghyd â chamau gweithredu ategol yn flynyddol.
- Mae’r Amcanion Llesiant a Gwella yn adeiladu ar y meysydd blaenoriaeth a nodwyd yn Strategaeth Gorfforaethol 2022-2027 ac fe’u hadolygir yn flynyddol. Datblygir y rhain mewn ymgynghoriad â’r cyhoedd ac Aelodau.
- Rhaid i bob aelod o staff gwblhau modiwl hyfforddi E-ddysgu gorfodol ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol 2015.
- Ystyrir materion ynghylch ymddygiad a safonau Aelodau gan Bwyllgor Moeseg a Safonau y Cyngor. Cynhelir cyfarfodydd cyhoeddus yn rheolaidd, ac fe’u cadeirir gan unigolyn annibynnol – pennu goddefebau, ac ystyried materion strategol/polisi a chael diweddariadau gan achosion Panel Dyfarnu Cymru (APW) a chanfyddiadau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Rhoddir cyngor i’r Pwyllgor a’r Aelodau gan y Swyddog Monitro a’r Swyddog Safonau.
- Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol Pwyllgor Moeseg a Safonau i’r Cyngor ym mis Hydref 2022.
- Mae’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cyfarfod yn rheolaidd i ystyried adroddiadau llywodraethu ac adroddiadau gan reolydd allanol. Caiff ei gadeirio gan aelod anweithredol.
- Mae’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cynnal ymarfer meincnodi bob blwyddyn er mwyn cynnig sicrwydd pellach am yr adolygiad ar y broses Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Mae’r Swyddog Monitro yn adolygu ac yn adrodd ar y broses yn flynyddol.
- Mae ‘Strategaeth i Oresgyn Twyll, Llygredd a Llwgrwobrwyo (gan gynnwys Atal Gwyngalchu Arian)’ effeithiol ar waith (diweddarwyd Mehefin 2021).
- Cyflwynir Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol ynghylch Atal Twyll i’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar ddiwedd y flwyddyn.
- Diweddarir aelodau’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio am dwyll gan gynnwys adroddiad atal twyll blynyddol Archwilio Mewnol a gyflwynir i’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar ddiwedd y flwyddyn.
- Cynhaliwyd Archwiliad Moeseg yn ystod 2019. Gwnaed gwaith Archwilio Mewnol dilynol hefyd ar drefniadau’r Cyngor o ran moeseg (wrthi’n cael ei adolygu ar hyn o bryd).
- Mae Polisi Chwythu’r Chwiban ar gael i Gyflogeion a Chontractwyr (mae wedi’i adolygu ac yn aros am gymeradwyaeth ar hyn o bryd).
- Rhaid i bob aelod o Staff gwblhau modiwl hyfforddiant E-ddysgu gorfodol ynghylch Chwythu’r Chwiban. Mae’r Swyddog Monitro yn cadw cofrestr o atgyfeiriadau ac yn adrodd i’r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu bob 6 mis.

- Cyhoeddwyd Polisi Pryderon a Chwynion Corfforaethol diwygiedig ar 1.10.2021.
- Rhoddir sylw i'r holl gŵynion yn unol â'r gweithdrefnau corfforaethol, sy'n cynnwys camau anffurfiol a ffurfiol, a chaiff y rhain eu cyfleu i Staff yn rheolaidd.
- Caiff y system gŵynion ei monitro gan y Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth a Chwynion Corfforaethol.
- Ystyrir Adroddiad Cwynion Blynyddol gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Cabinet cyn iddo gael ei gymeradwyo gan y Cyngor. Mae'n cynnwys y Gwersi a Ddysgwyd o'r cwynion a dderbyniwyd.
- Caiff Agenda/Cofnodion pob pwyllgor eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor, gan gynnwys datgelu buddiannau.
- Caiff Hysbysiadau am Benderfyniadau'r Cabinet eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor.
- Parhau y mae'r paratoi at gyhoeddi cofrestr penderfyniadau dirprwyedig.
- Cofrestr Contractau wedi'u cyhoeddi ar wefan y Cyngor.

**Dangos ymrwymiad cadarn i werthoedd moesegol**

- Mae'r Pwyllgor Moeseg a Safonau yn hyrwyddo cydymffurfiaeth foesegol er mwyn sicrhau bod gan y cyhoedd ymddiriedaeth a hyder bod Aelodau a Swyddogion yn gweithio yn unol â'r safonau moesegol a moesol uchaf.
- Mae'r Pwyllgor Moeseg a Safonau wedi bod yn rhagweithiol, gan arwain ar sesiynau hyfforddiant a rhoi gweithdrefnau yn eu lle ar gyfer trefniadau goddefebau. Adolygwyd y strwythur yn ddiweddar er mwyn gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.
- Mae swyddogion fel Archwilwyr Mewnol yn llofnodi cadarnhad Cod Moeseg yn flynyddol.
- Mae gwaith dilynol hefyd ar y gweill ar drefniadau Archwilio Mewnol yn ymwneud â Moeseg y Cyngor (yn cael ei adolygu ar hyn o bryd).
- Cynhaliodd Cyngor Sir Gâr archwiliad annibynnol o foeseg o fewn y Cyngor yn ystod 2019.
- Caiff Llawlyfr Gweithwyr ei adolygu'n flynyddol, mae ar gael ar CeriNet, mae'n nodi ymddygiad disgwyliedig Gweithwyr ac mae'n cynnwys y Cod Ymddygiad ar gyfer Gweithwyr Llywodraeth Leol.
- Mae hyfforddiant ynghylch cydraddoldeb ac amrywiaeth a recriwtio a dethol, gan gynnwys cyfle cyfartal, yn orfodol i holl Reolwyr Cyngor Sir Ceredigion.
- Mae hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth yn cael ei ddarparu i'r Cynghorwyr i gyd.
- Rhaid i'r holl staff gwblhau modiwl e-ddysgu ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth.
- Mae Amodau a Thelerau safonol ar gyfer yr holl Gyflenwyr Nwyddau a gwasanaethau yn cynnwys amodau sy'n ymwneud â Chydraddoldeb ac Amrywiaeth ac maent ar gael ar wefan y Cyngor.
- Cymeradwywyd Strategaeth Gaffael 2018-2022 gan y Cyngor ar 19 Mehefin 2018. Sefydlwyd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ym mis Rhagfyr 2023 i ystyried Strategaeth Gaffael a Chomisiynu 2024.
- Yn raddol mae hyfforddiant ynghylch caffael yn cael ei gyflwyno i'r Staff hefyd.
- Polisi DBS a Pholisi Recriwtio'r Cyngor.
- Dosbarthwyd yr Holiadur Dadansoddi Anghenion Hyfforddiant ar ffurf cylchlythyr gan y Cyngor i'r Staff, yn holi eu barn am ddiwylliant moesegol y Cyngor ac mae modiwl hyfforddiant wedi'i gynllunio er mwyn ymateb i'r adborth.
- Mae'r holl Arweinwyr Grwpiau wedi arwyddo Datganiad Amrywiaeth mewn Democratiaeth ym mis Medi 2021.

**Parchu rheolaeth y gyfraith**

- Cyfansoddiad y Cyngor.
- Mae cylch gorchwyl wedi'i gynnwys yn y Cyfansoddiad.
- Rhoddir ystyriaeth i Egwyddorion Diogelu Data a phrosesu gwybodaeth bersonol yng nghyd-destun Pwyllgorau'r Cyngor a'r holl Aelodau.
- Mae hyfforddiant wedi'i drefnu ar gyfer pob Aelod (Cyflwyniad i'r Cyngor, gan gynnwys GDPR).
- Caiff pwerau statudol a goblygiadau cyfreithiol eu cynnwys ym mhob adroddiad Cabinet lle gwneir penderfyniad.
- Rhoddir cyngor/goblygiadau Cyfreithiol ac Ariannol am yr holl adroddiadau priodol y mae gofyn gwneud penderfyniad amdanynt.
- Mae'r Swyddog Monitro a'r Gwasanaethau Cyfreithiol ar gael i roi cyngor pan fo hynny'n briodol.
- Mae'r Swyddog Monitro yn mynychu cyfarfodydd y Grŵp Arweiniol/Cabinet/Cyngor ac mae'n mynychu nifer o gyfarfodydd cyhoeddus yn rheolaidd, yn ôl y gofyn, os bydd ar gael ar y pryd. Yn absenoldeb y Swyddog Monitro, bydd y Dirprwy Swyddog Monitro yn mynychu cyfarfodydd y Cabinet a'r Cyngor.
- Mae gan y Swyddog Monitro fynediad uniongyrchol i'r Prif Weithredwr ac mae'n adrodd i'r Cyngor yn gyffredinol ac fel rhan o ddyletswydd statudol.
- Mae'r Swyddog Monitro yn gweithredu polisi drws 'agored' i Aelodau sy'n dymuno cael cyngor ynghylch 'ymddygiad' a 'llywodraethu'.
- Mae disgrifiadau swydd a manylebau person yn diffinio'n glir y rolau a'r cyfrifoldebau sy'n ofynnol ar gyfer swyddi.
- Mae disgrifiadau rôl Aelodau yn nodi eu gwahanol gyfrifoldebau.
- Cydymffurfir â Datganiad CIPFA ynghylch Rôl y Prif Swyddog Ariannol mewn Llywodraeth Leol (CIPFA, cyhoeddwyd 13 Ebrill 2016) (Dim diweddariad pellach)
- Cydymffurfir â Datganiad CIPFA ynghylch Rôl y Pennaeth Archwilio Mewnol mewn Sefydliadau Gwasanaeth Cyhoeddus (CIPFA, cyhoeddwyd 9 Ebrill 2019) a chyhoeddwyd cyfraniad yn nogfen gysylltiedig CIFPA, *Putting Principles into Practice* (2019).
- Rheolau Gweithdrefn Ariannol a Rheoliadau Ariannol (Dogfen F y Cyfansoddiad).
- Rheolau Gweithdrefn Contractau (Dogfen G yng Nghyfansoddiad y Cyngor).
- Cydymffurfiaeth â Chodau Penodol e.e. Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus i Archwilwyr Mewnol ('PSIAS', Mawrth 2017)
- Diweddarir aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar dwyll gan gynnwys adroddiad atal twyll blynyddol yr Archwiliad Mewnol.
- Swyddogion statudol sy'n atebol i'r Prif Weithredwr a'r Cyngor.
- Cyfarfodydd rheolaidd rhwng y Prif Weithredwr, Swyddog Adran151 a'r Swyddog Monitro.
- Mae gan y Rheolwr Corfforaethol–Archwilio Mewnol ('CMIA') fynediad rhydd a dilyffethair i Aelodau a Swyddogion ar bob lefel, yn ogystal â hawl mynediad yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor a'r Siarter Archwilio Mewnol.
- Mae Swyddog yn y tîm Archwilio Mewnol yn Dechnegydd Atal Twyll achrededig, ac mae ail swyddog bellach yn gwneud y cymhwyster hefyd.
- Mae gan Swyddog yn y tîm Archwilio Mewnol dystysgrif CIPFA mewn Arferion Ymchwilio ('CCIP').
- Mae'r Cyngor yn cydymffurfio â gofynion Menter Twyll Genedlaethol flynyddol Archwilio Cymru, sydd wedi'i chydlynu ar hyn o bryd gan yr Archwilwyr Mewnol.
- Mae monitro yn digwydd ac ymatebir i rybuddion ynghylch twyll (NAFN, rhwydweithiau ehangach, cymheiriaid, ac ati).

- Aelodaeth a chyfranogiad weithredol mewn grwpiau a rhwydweithiau proffesiynol (Tisonline, KHub, ac ati).
- Mae Swyddogion enwebedig yn y Cyngor yn gwneud hyfforddiant amrywiol ynghylch twyll er mwyn cynnal eu gwybodaeth a'u harbenigedd.
- Pan fo hynny'n briodol, cyhoeddir erlyniadau llwyddiannus ar wefan y Cyngor (ac yn y wasg leol).

**B. Sicrhau ei fod yn agored a'i fod yn ymgysylltu'n gynhwysfawr â rhanddeiliaid**

**Bod yn agored**

- Mae holl gyfarfodydd y Cyngor, y Cabinet a Phwyllgorau yn agored i'r cyhoedd ac mae agendâu a phapurau wedi'u cyhoeddi ar wefan y Cyngor (ac eithrio adroddiadau eithriedig, gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir gan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972).
- Caiff cyfarfodydd y Cyngor a'r Cabinet eu darlledu.
- Yn unol â gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021, mae trefniadau wedi'u gwneud i alluogi cynnal cyfarfodydd hybrid o fis Mai 2022. Mae offer newydd wedi'u gosod yn y Siambr. Mae cyfarfodydd y Cyngor a'r Cabinet yn cael eu darlledu ar dudalennau Facebook y Cyngor. Gall aelodau'r cyhoedd fynychu cyfarfodydd o bell neu yn bersonol.
- Cyhoeddir yr holl Adroddiadau Blynyddol, Datganiad Cyfrifon ac Adroddiadau Cynnydd Gwelliant Statudol o fewn terfynau amser ac maent ar gael ar wefan y Cyngor.
- Cynllun cyhoeddi'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.
- Mae llu o feysydd gwasanaeth ar gael ar-lein gan gynnwys gwybodaeth a hunanwasanaeth y dreth gyngor.
- Mae amcanion a gwerthoedd y Cyngor wedi'u nodi yn Strategaeth Gorfforaethol 2017-2022.
- Gwefan Cyngor Sir Ceredigion.
- Mae cyfeiriadau e-bost y Swyddog Monitro a Moeseg a Safonau generig wedi'u creu.
- Ymatebion rheolaidd ac amserol i'r wasg ac ymholiadau eraill i Reolwyr ac aelodau, yn ogystal ag ymatebion Rhyddid Gwybodaeth cynhwysfawr.
- Mae'r adolygiad o gynllun Cyhoeddi'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn mynd rhagddo.
- Polisi Rhyddid Gwybodaeth (Mawrth 2018) (Dim diweddariad pellach)
- Mae Rheolwr Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth Corfforaethol yn eu swydd.
- Hysbysiad Preifatrwydd Gwasanaeth Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth.
- Cymeradwywyd Protocol Ymgysylltu â'r Cyhoedd Trosolwg a Chraffu (2018) (Dogfen N y Cyfansoddiad) gan y Cyngor ac fe'i defnyddiwyd sawl gwaith. Dim diweddariad pellach.
- Ceir protocol er mwyn siarad yn y Pwyllgor Rheoli Datblygu (Rhan 4 Dogfen I y Cyfansoddiad).
- Mae Protocol ar fynediad gan Aelodau'r Cabinet i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu wedi'i gymeradwyo gan y Cyngor (Rhan 5 Dogfen M2 y Cyfansoddiad).
- Datblygwyd offeryn a chanllawiau Asesiad Effaith Integredig ('IIA') ar gyfer gwneud penderfyniadau effeithiol, ac mae wrthi'n cael eu rhoi ar waith.
- Mae templed adroddiad y Cyngor / Cabinet wedi'i ddiweddaru i gynnwys cyfeiriad at oblygiadau cyfreithiol, goblygiadau staffio, goblygiadau eiddo / asedau a risgiau ac i adlewyrchu Strategaeth Gorfforaethol newydd 2022-2027.

- Defnyddir canllawiau a thempledi safonol er mwyn adrodd i'r Cyngor, y Cabinet a Phwyllgorau Trosolwg a Chraffu ac mae'r rhain oll yn cynnwys canlyniadau Asesiadau Effaith Integredig.
- Mae Protocol mewn grym ar gyfer perthnasoedd gwaith rhwng Aelodau a Swyddogion (e.e. Protocol Swyddog-Aelod) (Rhan 5 y Cyfansoddiad)
- Cyhoeddir calendr o ddyddiadau cyfarfodydd, gan gynnwys blaenraglenni gwaith y Cyngor, y Cabinet a Phwyllgorau ar wefan y Cyngor.
- Mae hyfforddiant Ymwybyddiaeth Sefydliadol ar gael fel modiwl dewisol yn y Rhaglen Rheolwr Corfforaethol, sy'n cynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud â'r broses o wneud penderfyniadau, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Cydraddoldeb, yr Iaith Gymraeg a defnyddio Asesiadau Effaith Integredig.
- Mae'r Rhestr Gyfeirio Ymgysylltu ac Ymgynghori yn cynorthwyo wrth wneud penderfyniadau ynghylch a ddylid cynnal ymgynghoriad ai peidio am newid arfaethedig ac mae canllawiau ynghylch lledaenu canlyniadau ymgynghori ar gael i Swyddogion.
- Adroddir casgliadau Asesiadau Effaith Integredig i'r Cyngor, y Cabinet ac i Drosolwg a Chraffu. Aeth 8 asesiad o'r fath i'r Cabinet rhwng 01.04.2022 a 07.12.2022 (rhan o flwyddyn 2022-23).
- Mae'r Cyngor, ar y cyd â phartneriaid, wedi cyflawni gwaith ymgysylltu sylweddol er mwyn paratoi Asesiad Llesiant a Chynllun Llesiant Lleol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ('BGC').
- Gosodwyd amcanion Llesiant a Gwella er mwyn cyflawni Strategaeth Gorfforaethol 2022-2027.
- Adolygwyd y Polisi Cwynion Corfforaethol, cyflwynwyd Polisi newydd i Adnoddau Corfforaethol Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar 7.7.21 ac i'r Cyngor ar 23.9.2021, ac mae Polisi a Gweithdrefnau Pryderon a Chwynion 2021 Diwygiedig, ei weithrediad a'i gyhoeddi, wedi cael ei gymeradwyo gan y Cyngor.
- Adolygwyd Polisi a Gweithdrefn Cwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol.
- Datblygwyd offeryn gwneud Penderfyniadau Ymgynghori (siart llif a Choeden Ymgynghori) ar gyfer Staff ac Aelodau ac mae'n cynnwys defnyddio adborth.
- Caiff ymgynghoriadau eu cyhoeddi ar adran Gorfforaethol gwefan y Cyngor.
- Caiff ymgynghoriadau eu hyrwyddo trwy gyfrwng y cyfryngau cymdeithasol.
- Cyhoeddwyd canllawiau ar fewnrwyd Cyngor Ceredigion i'r holl Staff eu dilyn ynghylch lledaenu adborth i'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau. Mae'r arwyddion diweddar yn dynodi bod Swyddogion yn gwneud cynnydd sylweddol yn y maes hwn.

**Ymgysylltu'n gynhwysfawr â rhanddeiliaid**

- Mae Cylch Gorchwyl y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) ar gael ar wefan y Cyngor, mae Cylch Gorchwyl Grwpiau Prosiect BGC ar gael ac mae trefniadau Craffu ar gyfer BGC wedi cael eu gwneud.
- Cynhelir ymarferion ymgysylltu ac ymgynghori ar y cyd. Mae prosiectau cydweithredol yn rhedeg gyda rhanddeiliaid sefydliadol a threfniadau llywodraethu clir ar waith ar eu cyfer.
- Ceir Rhestr Ymgysylltu â Defnyddwyr Gwasanaeth sy'n cynnwys rhanddeiliaid y dylai'r awdurdod ymgysylltu â nhw ynghyd â Pholisi Ymgysylltu a Chyfranogi.
- Mae Templedi a Chanllawiau Safonau Cydweithio ar gyfer Prosiectau Strategol Newydd ar gael.
- Mae partneriaethau yn cynnwys:
    - BGC;
    - Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru;
    - Partneriaeth Diogelwch Cymunedol;

    - Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru; a
    - Thyfu Canolbarth Cymru.
- Sefydlwyd partneriaethau megis Tyfu Canolbarth Cymru gyda threfniadau llywodraethu. Sefydlwyd Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu Tyfu Canolbarth Cymru.
- Adroddir yn rheolaidd am weithgarwch a chyfarfodydd partneriaethau i'r Grŵp Arweiniol a'r Cabinet.
- Mae metrigau partneriaeth yn destun gweithgarwch adolygu mewnol, pan fo hynny'n briodol.
- Mae'r Tîm Cyfreithiol yn ymwneud â'r gwaith o ddrafftio ac adolygu'r Cylch Gorchwyl ar gyfer Cytundebau Rhyng-Awdurdod ('IAAs') a phwyllgorau ffurfiol.
- Datblygwyd cyfres o ddogfennau sy'n ymwneud â phrosiectau cydweithio strategol y mae'r Awdurdod yn ystyried ymrwymo iddynt. Mae'r dogfennau yn cynnwys canllawiau, safonau a thempledi niferus ar gyfer camau amrywiol prosiectau cydweithio.

**Ymgysylltu'n effeithiol â rhanddeiliaid, gan gynnwys dinasyddion unigol a defnyddwyr gwasanaethau**

- Lluniwyd Polisi Ymgysylltu a Chyfranogi newydd ar gyfer Cyngor Sir Ceredigion, sef 'Siarad, Gwrando a Gweithio Gyda'n Gilydd' a chytunwyd arno drwy'r broses ddemocrataidd.
- Mae tudalen Ymgysylltu Cymunedol, Ymgynghoriadau a Phartneriaethau wedi cael ei chreu ar CeriNet, sy'n cynnwys dolenni i'r Polisi Ymgysylltu a Chyfranogi, Rhestr Gyfeirio Ymgysylltu ac Ymgynghori, Ymgysylltu â Defnyddwyr Gwasanaeth ac Offeryn Gwneud Penderfyniadau Ymgynghori.
- Asesir yr holl Asesiadau Effaith Integredig ar gyfer y Cabinet gan y Rheolwr Ymgysylltu a Chydraddoldeb, gan gynnwys a oes gweithgarwch ymgysylltu, cynnwys ac ymgynghori wedi digwydd a phroses wybodus o wneud penderfyniadau.
- Pecyn Cymorth Ymgysylltu â'r Cyhoedd.
- Pecyn Offer Asesiadau Effaith Integredig.
- Rhoddir adroddiadau cryno am weithgareddau ymgynghori ac ymgysylltu i'r Aelodau a defnyddwyr gwasanaeth.
- Rydym wedi gweithio mewn partneriaeth gydag Awdurdodau Lleol a Gwasanaethau Cyhoeddus ar draws Canolbarth a Gorllewin Cymru ar yr adolygiad o'n Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol. Lluniwyd fframwaith ymgynghori ac ymgysylltu a set o gwestiynau ar y cyd ac o ganlyniad, cafwyd adborth gan bobl sy'n meddu ar nodweddion gwarchodedig.
- Ceir cofnodion cyfarfodydd ymgysylltu strwythuredig â phobl y mae ganddynt nodweddion gwarchodedig.
- Gwnaed gwaith Cynnwys Cymunedau'n Effeithiol gyda'r gwaith asesu llesiant.
- Cyflawnwyd gwaith Cynnwys Cymunedau'n Effeithiol gyda defnyddwyr gwasanaeth o wahanol gefndiroedd er mwyn cyfrannu at y Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd.
- Mae Strategaeth Cyfathrebu Corfforaethol 2019-2022 wrthi'n cael ei hadolygu ar hyn o bryd a datblygir Strategaeth newydd yn 2023.
- Mae canlyniadau ymgynghoriadau ac adroddiadau ar ymgynghoriadau a gwblhawyd ac ymarferion ymgysylltu yn cael eu postio ar dudalen we ymgynghoriadau cyhoeddus y Cyngor er mwyn rhoi adborth i'r cyhoedd.
- Cyflwynwyd prosesau i fonitro adborth e.e. cyflwynir unrhyw adroddiadau ymgynghori/ymgysylltu i'r pwyllgor Craffu ac i'r Cabinet er mwyn cyfrannu at eu penderfyniadau.
- Cofnodir adborth o weithgarwch ymgysylltu a sut yr ystyriwyd safbwyntiau pobl yn yr Asesiadau Effaith Integredig.

- Cynhaliwyd Asesiad Llesiant (BGC) sydd wedi cyfrannu at ddatblygiad Cynllun Llesiant Lleol BGC, i'w gyhoeddi ym mis Mai 2023.
- Cyhoeddir adroddiad blynyddol am y cynnydd a sicrhawyd yn erbyn amcanion Llesiant a blaenoriaethau Corfforaethol y Cyngor ar wefan y Cyngor.
- Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu CCUHP – Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.
- Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu Safonau Cyfranogi.

**C. Diffinio canlyniadau yn nhermau manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy:**

**Diffinio canlyniadau**

- Mae Amcanion Llesiant Corfforaethol y Cyngor wedi'u cynnwys yn Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor 2022-2027 ac yn cael eu hadolygu bob blwyddyn a'u hadrodd yn yr Adroddiad Blynyddol ar yr Hunanasesiad a'r Adolygiad Blynyddol o Berfformiad a Llesiant a gyhoeddir ar wefan Cyngor Sir Ceredigion.
- Mae pwrpas a gweledigaeth y Cyngor wedi'u pennu gan y Cyngor ac wedi'u cynnwys yn Strategaeth Gorfforaethol 2022-2027. Mae'r strategaeth hon yn dangos sut y bydd yr awdurdod yn cefnogi ac yn hyrwyddo lles dinasyddion Ceredigion.
- Mae'r holl drefniadau Cynllunio yn adlewyrchu'r Edau Aur ac yn ffurfio'r cysylltiadau gyda chynlluniau Corfforaethol, gan gynnwys:
    - Cynlluniau Busnes;
    - Cynllun Strategol;
    - Adrodd am Reoli Perfformiad Corfforaethol; ac
    - Amcanion Gwella Llesiant.
- Amlinellir gwybodaeth am berfformiad yn yr Adroddiad Blynyddol y Cyngor ar yr Hunanasesiad a'r Adolygiad Blynyddol o Berfformiad a Llesiant.
- Caiff Cynlluniau Busnes eu paratoi bob blwyddyn a'u monitro bob chwarter gan Fwrdd Perfformiad, sy'n cynnwys aelodau'r Cabinet a Chadeiryddion ac Is-Gadeiryddion y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu a Chadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.
- Mae'r broses o bennu cyllidebau yn destun gweithgarwch craffu manwl gan y pum Pwyllgor Trosolwg a Chraffu
- Mae Cynllun Ariannol Tymor Canolig mewn grym.
- Mae trefniadau perfformiad chwarterol yn darparu protocol herio er mwyn sicrhau y cyflawnir canlyniadau.
- Mae'r broses cynllunio busnes yn cynnwys dyrannu adnoddau.
- Mae'r Grŵp Trawsbleidiol Trawsnewid ac Effeithlonrwydd yn monitro arbedion cyllidebol a bod gwasanaethau yn cael eu darparu o fewn cyllidebau.
- Mae trefniadau rheoli perfformiad corfforaethol yn cynnwys asesiad chwarterol o'r risgiau wrth geisio cyflawni canlyniadau neu ddarparu gwasanaethau.
- Mae gweithgarwch rheoli risg yn cynnwys cofnodion risg ar gyfer:
    - Cynlluniau Busnes (Lefel 1); a
    - Chynlluniau Gwasanaeth (Lefel 2).
- Caiff mesurau perfformiad lleol eu cynnwys mewn cynlluniau busnes a darparu gwasanaethau.
- Mae Cynlluniau Cyfalaf yn cynnwys:
    - Hawliau Tramwy;
    - Priffyrdd;
    - Cynllun Cyllideb Blynyddol; a
    - Thrawsnewid.

- Cymeradwyodd y Cabinet y Strategaeth a'r Polisi Rheoli Risg a'r Fframwaith Rheoli Risg ar 24 Medi 2019.
- Cyflwynir hyfforddiant Rheoli Risg i Aelodau ac Uwch Reolwyr.
- Datblygwyd pecyn e-ddysgu rheoli risg i'r holl Staff eraill a chynhaliwyd hyfforddiant yn 2019, a threfnwyd gweithdy gydag yswirwyr ar gyfer Uwch Reolwyr.
- Caiff cyhoeddi perfformiad gwasanaeth, gan gynnwys data ynghylch costau a gwerth am arian, ei ystyried yn rheolaidd mewn adroddiadau gwasanaeth.

**Buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy**

- Mae'r Archwilydd a benodwyd yn ystyried trefniadau'r Cyngor er mwyn sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd. Yn ei lythyr, mae wedi datgan bod y Cyngor wedi cydymffurfio â'i gyfrifoldebau ynghylch ei ddefnydd o adnoddau.
- Cyhoeddwyd yr Archwiliad mwyaf diweddar o Gynllun Gwella'r Cyngor (2020-2021) ym mis Tachwedd 2020. Daeth yr adroddiad i'r canlyniad cadarnhaol bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau a'i fod wedi gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru mewn ffordd ddigonol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau.
- Caiff ffurflen arfarnu cyfalaf ei llenwi ar gyfer prosiectau cyfalaf newydd, sy'n cynnwys y gofyniad ar gyfer y prosiect, ac fe'i defnyddir i asesu gwerth am arian a goblygiadau refeniw prosiectau mawr.
- Mae Strategaeth Buddsoddi Cyfalaf wedi'i chynnwys yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig.
- Mae'r Awdurdod wedi cymryd y camau canlynol tuag at weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015:
  - Paratoi datganiad ac amcanion llesiant;
  - Ymgorffori'r Nodau Llesiant a'r egwyddor datblygiad Cynaliadwy yn y broses cynllunio busnes;
  - Datblygu canllawiau ac offeryn Asesiadau Effaith Integredig newydd;
  - Sefydlu grŵp a chynllun gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol;
  - Monitro ac adolygu'r Cyfansoddiad yn barhaus;
  - Cyhoeddi asesiad Llesiant Lleol BGC ym mis Mawrth 2017;
  - Cytuno ar drefniadau craffu ar gyfer BGC;
  - Adroddiadau Cabinet, gan gynnwys yr asesiad effaith cymdeithasol / economaidd / amgylcheddol;
  - Datblygu modiwl e-ddysgu gorfodol am y Ddeddf a'i hyrwyddo ymhlith holl Staff y Cyngor;
  - Rhaid cynnal Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb, Cymunedau a'r iaith Gymraeg ar gyfer yr holl gynigion i ailstrwythuro ysgolion fel sy'n ofynnol dan God Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru; ac
  - Mae aelodau wedi cyfrannu at Fframwaith Craffu Swyddog Cenedlaethau'r Dyfodol mewn perthynas â'r Ddeddf.
- Mae datganiad polisi caffael Cymru yn cyd-fynd â Strategaeth Caffael 2018-2022 y Cyngor.
- Cynllun Gweithredu Grŵp DLICD ledled y Cyngor cyfan.
- Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024.
- Safonau'r Gymraeg.
- Adroddiad blynyddol monitro Safonau'r Gymraeg.
- Rhaid i bob aelod o staff gwblhau modiwl hyfforddiant E-ddysgu gorfodol ar Ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg.
- Rhoddir Hyfforddiant Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a Chydraddoldeb i Aelodau fel rhan o'u Rhaglen Ymsefydlu.

**D. Penderfynu ar yr ymyriadau sy'n angenrheidiol i gyflawni'r canlyniadau arfaethedig gystal ag y bo modd:**

**Penderfynu ar ymyriadau**

- Mae arweiniad ac offeryn Asesiadau Effaith Integredig ar gael a rhoddwyd hyfforddiant i Swyddogion ac Aelodau.
- Mae grŵp rheoli prosiect corfforaethol wedi'i sefydlu i ffurfioli datblygiad a rheolaeth prosiectau.
- Defnyddir templedi adrodd safonol yn y broses o wneud penderfyniadau.
- Mae hyfforddiant Ymwybyddiaeth Sefydliadol ar gael fel modiwl dewisol yn y Rhaglen i Reolwyr Corfforaethol, sy'n cynnwys gwybodaeth ynghylch y broses o wneud penderfyniadau, Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Cydraddoldeb, yr Iaith Gymraeg a defnyddio'r Asesiadau Effaith Integredig, ac mae Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd a'r Swyddog Monitro (Swyddog Arweiniol Corfforaethol-Cyfreithiol a Llywodraethu) yn rhoi cyngor yn ôl yr angen.
- Cyhoeddir Polisi, Strategaeth a Fframwaith Rheoli Risg gyda rhaglen hyfforddiant ar gyfer Aelodau, Uwch-Reolwyr a Rheolwyr ar CeriNet ac maent ar gael i bob Aelod o Staff. Diwygiwyd dogfennau i adlewyrchu risgiau ychwanegol a gwybodaeth gefndirol er mwyn gwneud penderfyniadau gwybodus. Adroddir am y Gofrestr Risg Corfforaethol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn rheolaidd.
- Mae'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig wedi cael ei diweddaru'n rheolaidd.
- Mae offeryn coeden penderfyniadau ymgynghori yn cynnwys adran sy'n cynnig arweiniad ynghylch lledaenu canlyniadau ymgynghori.
- Ceir her gyllid ynghylch arbedion ar wefan y Cyngor.

**Cynllunio ymyriadau**

- Mae trefniadau Rheoli Perfformiad Corfforaethol yn cynnwys yr elfennau chwarterol canlynol:
    - cyfarfodydd wythnosol y Grŵp Arweiniol;
    - adroddiad chwarterol am y cynnydd yn erbyn Cynlluniau Busnes lefel 1;
    - cyfarfodydd chwarterol y Bwrdd Perfformiad; a
    - chyfarfodydd chwarterol y Panel Gweithredol.
- Defnyddir calendr i hysbysu am derfynau amser a chyhoeddir dyddiadau Bwrdd/Panel Gweithredol gydag adroddiadau.
- Mae gan yr holl brosiectau cydweithio mawr drefniadau llywodraethu a rheoli sefydledig gan gynnwys rheoli risg.
- Ystyrir pob prosiect gan Banel Rheoli Prosiectau Corfforaethol, a fynychir hefyd gan yr Archwiliwr Mewnol ac mae'n fforwm effeithiol ar gyfer cynghori/herio ac amlygu risgiau wrth i feysydd Gwasanaeth ddatblygu prosiectau, gan gynnwys prosiectau cydweithio.
- Mae'r Panel Rheoli Prosiectau Corfforaethol yn helpu i sicrhau bod prosiectau yn ystyried yr elfennau canlynol yn gynnar: Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol; arweiniad arall; cyllid, caffael, llywodraethu a threfniadau cyfreithiol; goblygiadau AD; Iechyd a Diogelwch; ac Archwilio. Gwella trefniadau prosiect cyn adrodd i'r Grŵp Datblygu a phrosesau awdurdodi eraill. Mae hyn hefyd yn helpu i nodi gofynion cyfalaf i'w cynnwys mewn rhaglenni cyfalaf yn y dyfodol.
- Sicrhau bod Staff sy'n meddu ar sgiliau rheoli prosiect ar gael.
- Rhoddir ystyriaeth i newidiadau deddfwriaethol e.e. mae gwaith yn mynd rhagddo mewn perthynas â gweithredu newidiadau deddfwriaethol megis newidiadau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021 ac ystyried/monitro risgiau y mae pob partner yn eu hwynebu wrth gydweithio, gan gynnwys risgiau a rennir. Cynhelir cyfarfodydd ac mae gwaith paratoi yn cael ei wneud, er enghraifft, ynghylch gofyniad Deddf

2021 am Gyd-bwyllgorau Corfforedig, gan gynnwys risgiau posibl a risgiau a rennir (sefydlwyd grŵp Cyd-bwyllgorau Corfforedig, a chynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ar 19 Ebrill 2021, i ystyried y gofyniad i sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig Canolbarth Cymru yn unol â Deddf 2021).

- Mae trefniadau Craffu ar y Cyd priodol ar waith mewn perthynas â Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru. Yn yr un modd, bydd gan Gyd-bwyllgor Corfforedig Canolbarth Cymru drefniadau priodol (Craffu ar y Cyd, Safonau a Phwyllgor Llywodraethu ac Archwilio) – trefniadau sy'n cydymffurfio â deddfwriaeth a'i Reolau Sefydlog.
- Pennwyd a chymeradwywyd dangosyddion perfformiad lleol ar gyfer pob elfen gwasanaeth ac maent wedi cael eu cynnwys yn y cynllun gwasanaeth, ac adroddir amdanynt yn rheolaidd.
- Mae'r broses Cynllunio Busnes ar gyfer 2022-23 wrthi'n cael ei rhoi ar waith a rhennir Cynlluniau Busnes Lefel 1 gyda'r Tîm Perfformiad ac Ymchwil.
- Nodwyd mesurau perfformiad ym mhob Cynllun Busnes Lefel 1 ac mae'r rhain yn eu tro yn cael eu trosi i'r Dangosfwrdd adrodd ar gyfer pob gwasanaeth. Craffwyd ar y mesurau hyn yn ofalus ac fe'u cymeradwywyd yn derfynol gan yr uwch arweinwyr. Mae gwasanaethau yn adrodd yn erbyn y mesurau hyn fel rhan o'r broses rheoli perfformiad ar gyfer y flwyddyn.
- Mae Cynlluniau Busnes yn cynnwys gwybodaeth ynghylch y gyllideb a chyllid ac maent yn rhan o'r trefniadau Rheoli Perfformiad Corfforaethol chwarterol.
- Fframwaith Cyllideb mewn grym.
- Cyfrifyddu Gwasanaeth – Monitro cyllideb.
- Mae Rheoliadau Ariannol a Rheolau am y Weithdrefn Ariannol (Dogfen F y Cyfansoddiad), ynghyd â Chanllawiau Rheoli Cyllidebol, wedi cael eu diweddaru. Ceir datganiadau Sicrwydd Prif Swyddog. Mae'r trefniadau rheoli mewnol sydd mewn grym yn destun gweithgarwch adolygu rheolaidd gan Archwilwyr Mewnol, yn unol â'r cynllun archwilio blynyddol sy'n seiliedig ar risg.
- Mae newidiadau drwy'r cynllun arbedion corfforaethol wedi bod trwy broses lywodraethu gadarn er mwyn sicrhau bod yr holl arbedion yn cysylltu â'r canlyniad a ddymunir.
- Caiff Buddion Cymunedol eu hymwreiddio yn ein Prosesau a'n Polisïau ac maent wedi cael eu gweithredu a'u monitro ac adrodd amdanynt yn rheolaidd. Caiff Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) ei hintegreiddio yn ein prosesau.

**E. Datblygu capasiti'r sefydliad, gan gynnwys gallu ei arweinwyr a'r unigolion oddi mewn iddo:**

**Datblygu capasiti'r sefydliad**

- Mae trefniadau ymsefydlu corfforaethol ac ar gyfer rheolwyr llinell bellach mewn grym. Cyflwynwyd cynlluniau Datblygu Rheolwyr Corfforaethol ac ymsefydlu Corfforaethol ym mis Ebrill 2018 a'u hadolygu ym mis Hydref 2022. Mae sesiynau ymsefydlu corfforaethol yn rhan o'r gofynion hyn, rhaid i bob aelod o Staff newydd fynychu sesiwn ymsefydlu. Mae Uwch Reolwyr yn cyflwyno yn y sesiynau hyn sydd wyneb-yn-wyneb neu'n rhithiol.
- Caiff CeriNet (yr adnodd a'r mewnrwyd AD i Staff a rheolwyr) ei adolygu'n barhaus a'i wella er mwyn sicrhau ei effeithiolrwydd.
- Bellach, rheolir Dysgu a Datblygu trwy system Ceri a chynigir cyfleoedd i bob aelod o Staff.
- Cynllun Perfformiad Personol blynyddol parhaus – mae Adolygiadau Perfformiad yn cysylltu ag amcanion Corfforaethol a strategol.
- Mae'r trefniadau Rheoli Perfformiad Corfforaethol yn darparu'r fforwm ar gyfer anghenion rheoli perfformiad ac wedyn yn paratoi'r cynlluniau gweithredu er mwyn

sicrhau gwelliannau corfforaethol wrth adolygu perfformiad Staff. Cryfhawyd y rhain ymhellach wrth gyflwyno arfarniadau blynyddol ar gyfer yr holl Staff trwy gyfrwng system AD Ceri.

- Darparir rhaglen ymsefydlu ar gyfer Aelodau newydd. Trefnir hyfforddiant parhaus ar gyfer materion penodol e.e. rheoli Trysorlys
- Mae aelodau yn mynychu digwyddiadau, seminarau a chynadleddau amrywiol (gweler uchod).
- Mae proses Adolygu Datblygiad Personol yn ei lle ar gyfer Aelodau.
- Defnyddir ymarferion meincnodi ac ymchwil.
- Mae system gyflogres AD Ceri wedi sicrhau bod data ystyrlon am Staff bellach ar gael i Reolwyr bob mis er mwyn monitro costau, trosiant ac absenoldeb.
- Gweithredir partneriaethau yn effeithiol i gyflawni canlyniadau y cytunwyd arnynt.
- Datblygwyd Partneriaethau effeithiol mewn sawl maes a gwasanaeth gan gynnwys:
    - Gwella Ysgolion;
    - Iechyd a Gofal cymdeithasol; a
    - Gwastraff.
- Caiff partneriaethau ychwanegol eu cynnwys yn y Rhestr Prosiectau Cydweithio strategol.
- Gwneir gwaith cynllunio gweithlu gan ddefnyddio'r pecyn offer cynllunio gweithlu Strategol a chaiff hwn ei gwblhau gan bob maes gwasanaeth. Mae Cynllun y Gweithlu 2022-2027 wrthi'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd ac fe'i cyhoeddir ar ôl ei gymeradwyo gan y Cabinet yn gynnar yn 2023. Unwaith y bydd yn ei le, caiff diweddariadau blynyddol ar gynnydd cynllun y gweithlu eu hadrodd i'r pwyllgor craffu.

**Datblygu gallu arweinwyr y sefydliad ac unigolion eraill**

- Mae strwythur Arweinwyr ac Uwch Reolwyr yn diffinio'r rolau hyn, gan gynnwys sut y maent yn integreiddio â'i gilydd.
- Mae cyfarfod ar y cyd rhwng yr Uwch Reolwyr yn sicrhau bod rolau, cyfrifoldebau ac atebolrwydd yn glir.
- Mae disgrifiadau swydd yn diffinio'n glir y rolau a'r cyfrifoldebau gofynnol i swyddi.
- Mae'r Cyfansoddiad yn nodi rolau a chyfrifoldebau Aelodau (Rhan 3.4 Tabl 4) ac Uwch Swyddogion (rhan 2 Erthygl 2).
- Mae'r Pecyn Cymorth Cynllunio Strategol yn cynnwys elfen o gynllunio ar gyfer olyniaeth a rheoli talent.
- Cynigir cyfleoedd Dysgu a Datblygu i'r rheiny sydd mewn rôl Arwain neu sy'n ddarpar arweinwyr.
- Mae Cynllun Dirprwyo (Rhan 3.5 y Cyfansoddiad) yn bodoli ac yn nodi'n glir gyfrifoldebau Aelodau a Swyddogion.
- Mae protocolau yn eu lle ar gyfer perthnasoedd gwaith rhwng Aelodau a Swyddogion (e.e. Protocol Swyddog-Aelod).
- Mae Codau Ymddygiad i Swyddogion ac Aelodau mewn grym.
- Mae gweithgorau Swyddogion ac Aelodau mewn grym ac yn gweithio'n effeithiol.
- Adolygir yn rheolaidd Reolau Gweithdrefn Contractau ('CPR') (Rhan 4 Dogfen G y Cyfansoddiad) a Rheoliadau Ariannol a gweithdrefnau ariannol cysylltiedig (Rhan 4 Dogfen F y Cyfansoddiad) e.e. diweddarwyd y Rheolau Gweithdrefnau Contractau ym mis Mawrth 2019.
- Mae Cyfansoddiad y Cyngor yn nodi swyddogaethau a chyfrifoldebau'r Arweinydd a'r Prif Weithredwr.
- Sefydlwyd strwythur Corfforaethol y Cyngor er mwyn sicrhau y gall y Swyddogion Statudol gyflawni eu rolau mewn ffordd effeithiol.

- Mae'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am adolygu'r strwythur hwn, yn ôl yr angen.
- Cytunodd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar y set ddiwygiedig o Ddisgrifiadau Rôl Aelodau, a gynlluniwyd i gael eu defnyddio law yn llaw â Fframwaith Datblygu Aelodau (Cymhwysedd) Cymru, Manylebau Person a Disgrifiadau Rôl Aelodau Fframwaith Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ('CLILC').
- Cyflwynwyd Disgrifiadau Rôl Aelodau a Manylebau Person i'r Cyngor.
- Rhaglen Gynefino/Ymsefydlu Gynhwysfawr ar gyfer Aelodau (hen a newydd) wedi'u cynnal yn dilyn Etholiadau Lleol 2022.
- Mynediad i sesiynau briffio gwybodaeth/cyrsiau am ddeddfwriaeth newydd.
- Cyfleoedd wedi'u darparu i Swyddogion gael hyfforddiant diweddaru a sgiliau yn barhaus.
- Gweithdai i Aelodau wedi'u trefnu yn ôl yr angen.
- Adolygiadau personol ar gyfer Swyddogion
- Darparu cyfleoedd, ac adolygu parhaus ar y cyfleoedd hynny, ar gyfer hyfforddiant sgiliau a diweddaru i Aelodau (gweler uchod), gan gynnwys y Cynllun Adolygu Datblygiad Personol.
- Datblygiad/Hyfforddiant wedi'u gwneud fel rhan o fanyleb y person ar gyfer prif swyddi cyllid a chyfreithiol (cymhwyster gorfodol, gofynion y swydd).
- Nod y Cyngor yw sicrhau'r lefel safonol ar gyfer Siarter Cymru o ran Cymorth a Datblygiad Aelodau.
- Datblygwyd proses ar gyfer Adolygu Datblygiad Personol Aelodau a defnyddir y wybodaeth i ddatblygu Cynllun Hyfforddiant Aelodau.
- Mae cynlluniau Ymsefydlu a Datblygu Rheolwyr Corfforaethol ar waith.
- Caiff pecynnau e-ddysgu eu datblygu a'u cyflwyno'n rheolaidd ar gyfer hyfforddiant gorfodol ac anorfodol.
- Cynhelir rhaglen ymsefydlu ar gyfer Aelodau newydd a chynhaliwyd rhaglen ymsefydlu gynhwysfawr newydd ar ôl yr etholiad (o fis Mai 2022) gyda modiwlau e-ddysgu ychwanegol ar gael. Trefnir hyfforddiant parhaus ar gyfer materion penodol. Mae aelodau yn mynychu digwyddiadau, seminarau a chynadleddau amrywiol (gweler uchod).
- Gwneir gweithgarwch hunanasesu craffu bob blwyddyn gan gynnwys arolwg.
- Mae Rhaglen Rheolwyr Ceredigion yn cynnig datblygiad personol gan gynnwys trefniadau llywodraethu a gwybodaeth sefydliadol.
- Anogir a chynorthwyir aelodau i gwblhau Adroddiadau Blynyddol, a gyhoeddir ar wefan y Cyngor.
- Mae Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn mynychu'r Rhwydwaith Cenedlaethol, wedi'i gynnal gan CLILC.
- Mae Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn mynychu Cyfarfodydd Rhwydweithio Cadeiryddion Pwyllgorau Archwilio a Llywodraethu Cymru Gyfan er mwyn datblygu a chymharu'r rôl o fewn Awdurdodau Lleol.
- Mae cynlluniau datblygu staff sy'n gysylltiedig ag arfarniadau wedi'u cryfhau drwy gyflwyno'r modiwl Rheoli Perfformiad yn Ceri.
- Gweithredir polisïau Adnoddau Dynol priodol a sicrhau eu bod yn gweithio'n effeithiol.
- Polisi Gweithle Di-Fwg.
- Polisi Camddefnyddio Alcohol a Chyffuriau.
- Mae'r Cyngor wedi cyflwyno amrediad o adnoddau a dewisiadau er mwyn gwella iechyd a lles Staff.
- Cyflwynwyd Strategaeth Iechyd a Llesiant 2021-2026 er mwyn cynorthwyo'r gwelliant yn iechyd a lles y gweithlu.

- Mae'r Cyngor wedi penodi Swyddog Iechyd a Lles Cyflogeion er mwyn cydlynu a hyrwyddo iechyd a lles yn y gweithlu.
- Cyflwynwyd pecyn cymorth Gofal yn Gyntaf i gyflogeion, sy'n cynnig:
  - Gwasanaeth cwnsela;
  - Cyngor ynghylch materion ariannol, cyfreithiol, defnyddwyr, gofal i'r henoed, gofal plant a chyflogaeth.
- Mae'r cymorth arall sydd ar gael i Staff yn cynnwys:
  - Rhaglen iechyd a lles Rhyngweithiol Therapi Ymddygiad Gwybyddol;
  - Cynllun gofal llygaid;
  - Cynllun talebau gofal plant;
  - Iechyd Da; a
  - Hyfforddiant ymwybyddiaeth ofalgar ar gyfer Staff a Rheolwyr.
- Mae gwasanaeth cwnsela hefyd ar gael i Aelodau.

**F. Rheoli risgiau a pherfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn a thrwy reoli arian cyhoeddus yn gadarn:**

**Rheoli risgiau**

- Cymeradwywyd y Strategaeth a'r Polisi Rheoli Risg a'r Fframwaith Rheoli Risg gan y Cabinet ar 24 Medi 2019, a'r diweddaru yn parhau arnynt.
- Ystyrir y Gofrestr Risg Corfforaethol yn ystod holl gyfarfodydd y Grŵp Arweiniol, cyfarfodydd y Swyddogion Arweiniol Corfforaethol ac fel eitem sefydlog yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Mae'r Pwyllgor yn cyfeirio materion i Bwyllgorau Craffu pan fo hynny'n briodol. Mae hyn yn rhoi gwybodaeth barhaus a sicrwydd bod risgiau'n parhau i gael eu rheoli.
- Caiff pob risg eu neilltuo i Swyddog Arweiniol Corfforaethol (Perchennog y Risg).
- Gwneir gwaith Monitro Risgiau prosiectau penodol.
- Mae'r Grŵp Trawsbleidiol ar Drawsnewid ac Effeithlonrwydd yn monitro Risgiau Trawsnewid yn rheolaidd.
- Mae Rheoli Risg yn rhan annatod o weithgarwch cynllunio busnes gweithredol a phennu Strategaethau a Pholisïau.
- Cofnodir holl Risgiau trawsnewid a phrosiectau.
- Mae pob Cynllun yn cynnwys cofnodion Risgiau, gan gynnwys:
  - Y Cynllun Ariannol Tymor Canolig;
  - Cynlluniau Busnes (lefel 1);
  - Cynlluniau Gwasanaeth (lefel 2).
- Caiff trefniadau Rheoli Risg Corfforaethol eu harchwilio'n rheolaidd.
- Mae gweithgarwch rheoli risg wedi'i gynnwys mewn rhaglenni archwilio sefydliad/gwasanaethau unigol.
- Mae 'risgiau' yn sail i raglenni gwaith archwilio'r Archwilwyr Mewnol, fel sy'n ofynnol gan system meddalwedd rheoli archwilio Pentana. Estynnwyd templed adroddiadau'r Cabinet i gynnwys risgiau ac oblygiadau sy'n codi.

**Rheoli perfformiad**

- Mae rheoli perfformiad corfforaethol yn gysylltiedig â'r Amcanion Llesiant a Gwella, Strategaeth Gorfforaethol 2022-2027 a chynlluniau'r BGC. Mae gan y Cyngor hefyd lawer o ddangosyddion lleol sy'n ei helpu i benderfynu a yw wedi cyflawni'r blaenoriaethau yn ei Strategaeth Gorfforaethol 2022-2027 ai peidio.
- Cymeradwyodd y Cyngor Adroddiad Blynyddol ar yr Hunanasesiad ac Adolygiad Blynyddol o Amcanion Perfformiad a Llesiant 2021-22.
- Casglwyd gwybodaeth feincnodi fel rhan o weithgarwch ailfodelu gwasanaethau.
- Asesiadau mewnol ac allanol gan:

  - Archwilio Cymru;
  - Estyn;
  - Arolygiaeth Gofal Cymru (‘AGGC’);
  - Swyddfa’r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio (‘ICPO’); a
  - Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth (‘ICO’).
- Hunanasesiad (Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio) –ymarfer hunanasesu wedi’i drafod ar 28.11.22 ac i’w gynnal yn 2023.
- Mae gwasanaethau unigol yn cynnal gweithgarwch hunanasesu trwy gyfrwng matrics perfformio.
- Mae Archwilio Mewnol yn cynnal hunanasesiad blynyddol ac maent yn cael adolygiad cymheiriaid / asesiad allanol annibynnol bob 5 mlynedd gan PSIAS. Asesu ansawdd yn allanol (EQA) wedi’i gwblhau fis Mai 2022, adroddiad a chynllun gweithredu yn deillio o hwnnw wedi’i gyflwyno i’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 27.9.22 ynghyd â Hunanasesiad Archwiliad Mewnol Rheolwr Corfforaethol– Archwilio Mewnol. Daeth yr asesydd allanol i'r casgliad bod swyddogaeth Archwilio Mewnol Cyngor Sir Ceredigion yn cydymffurfio'n gyffredinol â'r PSIAS. Fel canlyniad o’r asesiad allanol mae'r adran yn cydymffurfio â 50 o'r meysydd arfer gorau, cydymffurfio rannol mewn 6 maes, a gyda dim ardaloedd o ddiffyg cydymffurfio.
- Perfformiad costau (gan ddefnyddio mewnbynnau ac allbynnau).
- Mae Panel Rheoli Perfformiad Corfforaethol yn cyfarfod bob chwarter. Mae pob Swyddog Arweiniol Corfforaethol yn adrodd i’r Panel hwn a chyhoeddir y dyddiadau ar gyfer adrodd yn yr adroddiad. Mae Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu yn mynychu ar sail yr egwyddor y gallant nodi meysydd y mae gofyn eu cynnwys yn eu Blaenraglenni Gwaith priodol nhw.
- Mae Prif Swyddogion yn darparu cymorth a chyngor i Aelodau. Rhoddir cyngor gan y Prif Swyddog Ariannol a’r Swyddog Monitro hefyd.
- Mae trefniadau craffu mewn grym ac sy’n cynnig cyfleoedd i herio gweithgarwch gwneud penderfyniadau ac adolygu darpariaeth gwasanaethau. Nod y swyddogaeth graffu yw cynnig gwerth ychwanegol i’r agenda gwelliant parhaus yn eu rôl fel “cyfaill beirniadol”. Yn ogystal, mae Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu yn cynnig cyfleoedd i wneud gwaith datblygu polisi a gwaith cyn gwneud penderfyniadau, sy’n swyddogaeth craffu, a hyn wedi’i ddatblygu dros y blynyddoedd diwethaf. Nod y Cyngor yw craffu, pan fo modd, cyn y caiff penderfyniadau eu gwneud.
- Rhoddir hyfforddiant i Aelodau ar rôl Craffu a hyfforddiant i Gadeirydd ac Is-Gadeirydd Craffu.
- Bydd Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu’r Cyngor yn gyfrifol am gymryd trosolwg o effeithiolrwydd cyffredinol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC).
- Gwneir gwaith gyda Swyddfa Cenedlaethau’r Dyfodol er mwyn datblygu Fframwaith Craffu mewn perthynas â DLlCD.
- Mae Bwrdd Rheoli Perfformiad Corfforaethol yn cyfarfod bob chwarter, ac estynnir gwahoddiad i Gadeiryddion Pwyllgorau Craffu fynychu.
- Pennir dyddiadau adrodd ar ddechrau pob blwyddyn.
- Atgyfeirir Trawsnewid a Risgiau i gyd-gyfarfodydd a Phaneli Llywodraeth Leol.
- Cyflawnir gwaith monitro ariannol yn rheolaidd ar draws y Cyngor dan drefniant cyfrifyddu datganoledig a chaiff gwaith adrodd ffurfiol ei gyflwyno i’r Cabinet. Caiff gwaith monitro ei gynnwys yn yr adroddiadau rheoli perfformiad chwarterol hefyd.
- Arferion cyfrifyddu – cydymffurfir â Chodau Ymarfer. Caiff Dangosyddion Darbodus eu paratoi ac fe’u hadroddir i’r Cyngor a’u monitro trwy gydol y flwyddyn. Cyflawnir gweithgarwch rheolaidd i fonitro’r gyllideb trwy gydol y flwyddyn. Mae Archwiliwr Mewnol yn adolygu trefniadau rheoli o ran monitro a chasglu incwm hefyd.
- Caiff cynlluniau Busnes/Gwasanaethau eu monitro er mwyn sicrhau y cyflawnir canlyniadau cyflawni.

**Rheolaeth fewnol gadarn**

- Cymeradwyodd y Cabinet y Strategaeth a'r Polisi Rheoli Risg a'r Fframwaith Rheoli Risg ar 24 Medi 2019.
- Cyflwynir diweddariadau mewn perthynas â Pharhad Busnes ac Argyfyngau Sifil Posibl yn rheolaidd yn unol â'r Gofrestr Risg Corfforaethol, Risg CORP04.
- Mae'r Grŵp Parhad Busnes ac Argyfyngau Sifil Posibl yn cyfarfod bob mis.
- Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd o'r Grŵp Rheoli Parhad Busnes a Materion Brys i adolygu Cynlluniau a Threfniadau Parhad Busnes a Materion Brys Meysydd Gwasanaeth a Chorfforaethol, yn ogystal ag argymhellion sy'n codi o ddigwyddiadau yn y gorffennol ac ymarferion i ddangos tystiolaeth o risg, nodi tueddiadau sy'n dod i'r amlwg, a chofnodi unrhyw wersi a ddysgwyd er mwyn ymateb iddynt.
- Asesir risg y Cynllun Archwilio Mewnol blynyddol ac mae'n ystyried nodau ac amcanion y Cyngor, a'i bolisïau a'i weithdrefnau corfforaethol; i gynnwys adolygiad o'r trefniadau corfforaethol Rheoli Risg, a phrofi'r trefniadau rheoli lliniarol sydd mewn grym ar gyfer sampl o risgiau a nodir yn y Gofrestr Risg Corfforaethol.
- Cymeradwywyd y Strategaeth Archwilio Mewnol a Chynllun Blynyddol 2022-2023 gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 10 Mawrth 2022, ac mae'n parhau i ystyried risgiau ychwanegol a gyflwynir gan y pandemig. Cyflwynwyd y Cynllun Archwilio Mewnol ar gyfer 2023-24 wedi'i gyflwyno a'i gymeradwyo gan y GAC ar 9 Mawrth 2023.
- Gall cynllun archwilio blynyddol yr Archwilydd Mewnol roi sylw i unrhyw weithgarwch angenrheidiol i ail-flaenoriaethu gwaith, gan ganiatáu i'r Archwilydd Mewnol fod yn ymatebol i unrhyw newidiadau o ran risg yn y Cyngor.
- Cyflwynir adroddiadau Cynnydd Archwilio Mewnol Chwarterol rheolaidd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio at ddibenion monitro (e.e. cyflwynwyd Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol ar gyfer y cyfnod cyntaf rhwng 1 Gorffennaf 2022 hyd at 30 Medi 2022 i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 17 Ionawr 2023).
- Mae adroddiadau archwilio mewnol a gyflwynir i Reolwyr yn amlygu'r risgiau o beidio gweithredu unrhyw gamau Archwilio Mewnol a argymhellir. Cynhelir archwiliad dilynol o'r cynlluniau gweithredu a gyflwynir. Os bydd y Rheolwr Corfforaethol–Archwilio Mewnol o'r farn nad yw Rheolwr wedi rhoi sylw i unrhyw risgiau sylfaenol, adroddir am hyn i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, ac mae gan y Pwyllgor hwn y disgresiwn i ofyn i'r Rheolwr hwnnw fynychu ac esbonio'r rheswm dros beidio sicrhau cydymffurfiaeth.
- Llunnir crynodeb yn flynyddol o'r gwaith a barn yr archwilwyr ynghylch y sicrwydd a roddir yn yr Adroddiad Archwilio Mewnol Blynyddol ar ddiwedd y flwyddyn. Cymeradwywyd Adroddiad Blynyddol yr Archwilwyr Mewnol ar gyfer 2021/22 gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 6 Mehefin 2022.
- Mae adolygiadau dilynol yr Archwilwyr Mewnol yn monitro rhoi'r camau gweithredu gofynnol ar waith.
- Caiff trefniadau rheoli mewnol, risg a phrosesau llywodraethu eu monitro yn unol â'r Siarter Archwilio Mewnol (cymeradwywyd y fersiwn diwethaf gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 19/1/22) a'r Cynllun a'r Strategaeth Archwilio Mewnol Blynyddol.
- Bydd yr Archwilydd a benodir yn ystyried trefniadau'r Cyngor er mwyn sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei lythyr lle y mae'n nodi bod y Cyngor wedi cydymffurfio â'i gyfrifoldebau ynghylch defnyddio ei adnoddau.
- Mae gwerthuso risg wastad yn ymddangos ar agendâu.
- Cydymffurfir â'r Cod Ymarfer ynghylch Rheoli Risg Twyll a Llygredd ('CIPFA', 2014). (Dim diweddariad pellach)

- Mae gan Archwilwyr Mewnol weithdrefnau yn eu lle os darganfyddir twyll.
- Mae Swyddog yn nhîm yr Archwilydd Mewnol yn Dechnegydd Atal Twyll achrededig, ac mae ail swyddog wrthi hefyd yn astudio at y cymhwyster.
- Mae Swyddog yn nhîm yr Archwilydd Mewnol yn meddu ar Dystysgrif CIPFA mewn Arferion Ymchwilio (‘CCIP’).
- Diweddarwyd a chymeradwywyd ‘Strategaeth i Atal Twyll, Llygredd a Llwgrwobrwyo (gan gynnwys Atal Gwyngalchu Arian)’ gan y Cyngor ar 17 Mehefin 2021 (cadarnhawyd y cofnodion ar 23 Medi 2021) ac fe’i hysgrifennwyd mewn perthynas â’r Cod Ymarfer a’i diweddaru i sicrhau y caiff yr holl ofynion eu cynnwys.
- Mae’r Archwilydd Mewnol yn gwneud gwaith atal twyll yn ôl y gofyn (yn ogystal â delio gyda gweithgarwch darganfod twyll fel yr ystyriwyd yn gynharach).
- Mae’r Cyngor yn cydymffurfio â gofynion Menter Twyll Genedlaethol flynyddol Archwilio Cymru, a gydlynir gan yr Archwilydd Mewnol ar hyn o bryd.
- Mae’r Archwilydd Mewnol yn cyflwyno Adroddiad Atal Twyll i’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio bob blwyddyn (cyflwynwyd Adroddiad Atal Twyll 2021/22 i’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 6 Mehefin 2022). Adroddiad Archwilio Mewnol – Atal Twyll 2022/23 a gyflwynwyd i’r GAC ar 21 Mehefin 2023
- Gwneir gwaith monitro ac ymateb i rybuddion o dwyll (NAFN, rhwydweithiau ehangach, cymheiriaid, ac ati);
- Ceir aelodaeth o rwydweithiau a grwpiau proffesiynol (Tisonline, KHub, ac ati), a chyfranogir yn weithredol atynt;
- Mae’r Archwilydd Mewnol yn cynnig cyngor i wasanaethau ynghylch gweithredu systemau a phrosesau newydd er mwyn sicrhau y caiff trefniadau rheoli mewnol effeithiol eu cynnal;
- Mae Swyddogion enwebedig o’r Cyngor yn gwneud hyfforddiant twyll amrywiol er mwyn cynnal eu gwybodaeth a’u harbenigedd;
- Pan fo hynny’n briodol, cyhoeddir erlyniadau llwyddiannus ar wefan y Cyngor (ac yn y wasg leol).
- Gall cynllun archwilio blynyddol yr Archwilydd Mewnol roi sylw i unrhyw weithgarwch angenrheidiol i ail-flaenoriaethu gwaith, gan ganiatáu i’r Archwilydd Mewnol fod yn ymatebol i unrhyw newidiadau o ran risg yn y Cyngor.
- Mae’r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cynnwys barn flynyddol y Rheolwr Corfforaethol–Archwilio Mewnol ar sicrwydd.
- Pennaeth y swyddogaeth Archwilio Mewnol yw Rheolwr Corfforaethol–Archwilio Mewnol sy’n astudio ar hyn o bryd tuag at gymhwyster Archwilio Mewnol, mae ganddynt brofiad helaeth ym maes llywodraeth leol, ac maent yn cael eu cynorthwyo gan dîm sy’n meddu ar sgiliau a gwybodaeth briodol. Cynhelir gwaith adrodd rheolaidd i’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ynghylch gweithgarwch Archwilio Mewnol. Ceir gweithgarwch cynllunio busnes a blaenraglen waith gadarn sy’n seiliedig ar risg.
- Mae’r Archwilwyr Mewnol yn gwerthuso ac yn gwella effeithiolrwydd prosesau rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu yn unol â PSIAS, a gaiff ei hunanasesu a’i adrodd i’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio bob blwyddyn, ynghyd ag unrhyw welliannau sy’n ofynnol. Cynhelir adolygiad cymheiriaid bob 5 mlynedd, a’r diweddaraf wedi’i gwblhau ym mis Mai 2022. Cyflwynwyd yr adroddiad a’r cynllun gweithredu dilynol i’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 27 Medi 2022. Daeth yr asesydd allanol i'r casgliad bod swyddogaeth Archwilio Mewnol Cyngor Sir Ceredigion yn cydymffurfio'n gyffredinol â'r PSIAS. Fel canlyniad o’r asesiad allanol mae'r adran yn cydymffurfio â 50 o'r meysydd arfer gorau, cydymffurfio rannol mewn 6 maes, a gyda dim ardaloedd o ddiffyg cydymffurfio.

- Mae'r Archwilwyr Mewnol yn cynnig sicrwydd unigol i Reolwyr ar ôl pob adolygiad archwilio – yna, defnyddir y rhain i gynnig lefel gorfforaethol gyffredinol o sicrwydd bob blwyddyn, sy'n cyfrannu i'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.
- Gweithredwyd proses i ailstrwythuro Archwilio Mewnol ym mis Mai 2019, a chynhaliwyd un arall ym mis Tachwedd 2020. Mae'r gwasanaeth wedi bod yn manteisio ar adnoddau llawn er 1 Mehefin 2022.
- Mae dau aelod o'r tîm yn astudio am gymhwyster hyfforddiant proffesiynol Sefydliad yr Archwilwyr Mewnol ar hyn o bryd.
- Hunanasesiad y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio – ymarfer hunanasesu ar y gweill.
- Ceir cyfarfodydd rheolaidd rhwng y Rheolwr Corfforaethol–Archwilio Mewnol a Chadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.
- Cynhelir cyfarfodydd yn ôl yr angen rhwng y Swyddog Monitro a Chadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.
- Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd rhwng y Swyddog Monitro a'r Rheolwr Corfforaethol–Archwilio Mewnol.
- Ceir cyfarfodydd rheolaidd rhwng y Swyddog Monitro, y Rheolwr Corfforaethol–Archwilio Mewnol ac Archwilio Cymru pan fo angen.
- Trefnir cyfarfodydd rheolaidd rhwng Aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r rheolydd allanol Archwilio Cymru (gyda Swyddogion a hebddynt).

**Rheoli data**

- Cymeradwywyd y Strategaeth TGCh a Digidol ar gyfer 2018-2022.
- Mae'r holl bolisïau wedi cael eu diweddaru (cymeradwywyd pob un ym mis Chwefror 2019) gan gynnwys:
    - Polisi Diogelu Data a GDPR (diweddarwyd 2023);
    - Polisi Diogelwch Gwybodaeth (i'w ddiweddaru yn 2024); a
    - Pholisi Rheoli Cofnodion (i'w ddiweddaru yn 2024).
- Rhaid i'r holl Staff gwblhau modiwl hyfforddiant e-ddysgu gorfodol ynghylch Diogelwch Gwybodaeth.
- Rhaid i'r holl Staff gwblhau modiwl hyfforddiant e-ddysgu gorfodol ynghylch Diogelu Data.
- Mae Swyddog Diogelu Data dynodedig.
- Y Swyddog Arweiniol Corfforaethol–Cyswllt Cwsmeriaid yw'r Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth ('SIRO') ac mae wedi mynychu hyfforddiant priodol ar gyfer y rôl honno.
- Nodir y Swyddogion cyfrifol canlynol:
    - Swyddog Diogelwch TG ('ITSO'); a
    - Swyddog Rheoli Cofnodion a Gwybodaeth ('IRMO')
- Yn ogystal, mae'r grwpiau/pwyllgorau canlynol yn ystyried diogelwch gwybodaeth:
    - Cyfarfod Parhad Busnes ac Argyfyngau.
    - Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth a Seiber Gydnerth.
- Asesiadau allanol i gynnwys cydymffurfio â'r Cod Ymddygiad.
- Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth a Seiber Gydnerth
- Archwiliadau Mewnol rheolaidd ar ofynion cofrestru diogelu data.
- Cefnogi'r gwaith o gyflwyno a mabwysiadu'r Fframwaith Asesu Seiber ar draws pob Awdurdod Lleol a'r Gwasanaeth Tân ac Achub.
- Mae gweithdrefnau yn dilyn archwiliad Archwilio Cymru wedi'u rhoi ar waith.
- Mae swyddogion yn ystyried cyflwyno hysbysiadau preifatrwydd mewn perthynas â cheisiadau i'r holl Aelodau, gan gynnwys y Pwyllgor Rheoli Datblygu.

- Mae hyfforddiant wedi'i drefnu ar gyfer Aelodau ar eu rhwymedigaethau o dan y GDPR fel rhan o'r hyfforddiant newydd i Aelodau ac mae adran ar y ddeddfwriaeth honno bellach wedi'i chynnwys yn y protocol ar gyfer Aelodau wrth gynllunio.
- Llofnododd Cyngor Sir Ceredigion Gytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru ('WASPI'), felly mae'n defnyddio fframwaith WASPI ar gyfer Cytundebau Rhannu Gwybodaeth.
  ***Mae'r cytundeb yn gasgliad cyffredin o egwyddorion a safonau y bydd sefydliadau partner yn rhannu gwybodaeth bersonol drwyddynt. Bydd sefydliadau sy'n mabwysiadu'r Cytundeb yn dangos eu hymrwymiad wrth fodloni'r amodau, y rhwymedigaethau a'r gofynion cytunedig o fewn y fframwaith.
- Yn rhan fwyaf yr achosion, anfonir cytundebau ymlaen i'r Swyddog Diogelu Data.
- Ceir cofrestr gyhoeddus ar wefan WASPI hefyd.
- Asesiadau allanol rheolaidd e.e. cydymffurfio â'r Cod Ymddygiad.
- Tystiolaeth a monitro perfformiad mewnol.
- Caiff data ei groes-gyfateb ar draws y gwahanol wasanaethau.
- Caiff gwerthoedd Dangosyddion Perfformiad eu dilysu gyda chymorth tystiolaeth.
- Amserlen Gadw – bellach wedi'i chyhoeddi ar y fewnrwyd.
- Arwyddodd yr holl Gynghorwyr Gytundeb Data Personol / Cyfrinachol.

**Rheolaeth ariannol gyhoeddus gref**

- Cymeradwywyd fersiwn ddiweddaraf y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig ('SATC') gan Y Cyngor Llawn ar 21/09/23. Adlewyrchir hyn Setliad Terfynol 2023/24 Llywodraeth Cymru a Setliad Cymru Gyfan 2024/25 ddangosol Llywodraeth Cymru sy'n cwmpasu'r cyfnod o 2023/24 hyd at 2026/27. Cafodd hyn hefyd ei ystyried gan Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol ar 19/07/23 a gan y Cabinet ar 05/09/23.
- Mae bellach yn cynnwys fframwaith polisi er mwyn pennu cyllidebau bob blwyddyn, yn ogystal â chynllun tair blynedd. Mae'r SATC yn cynnwys risg corfforaethol a gaiff ei ddiweddaru o leiaf dair gwaith y flwyddyn. Yn ogystal, mae'r gweithgarwch blynyddol er mwyn pennu'r gyllideb yn cynnwys asesiad risg. Mae'r Cyngor yn ymateb i'r cynnig yn Adroddiad Gwella Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru (Archwilio Cymru bellach) 2016, gan ystyried yr adroddiad yng ngoleuni SATC trwy sicrhau bod trefniadau rheolaeth ariannol y Cyngor yn ddigon cadarn i fodloni'r sialensiau sylweddol a fydd yn codi yn y dyfodol.
- Datblygwyd Cynllun Strategol ac mae wedi gwella'r rhaglen waith sy'n angenrheidiol er mwyn ystyried blaenoriaethau gwasanaeth wrth roi sylw i gyfyngiadau ariannol.
- Pennir amserlen/cynllun prosiect cyllideb flynyddol er mwyn sicrhau y caiff cyllideb gytbwys ei chymeradwyo o fewn y cyfnod statudol yn unol â fframwaith cyllideb y Cyngor.
- Cyflwynir adroddiadau cyllideb rheolaidd i'r Cabinet a'r Grŵp Arweiniol trwy gydol y flwyddyn a chaiff cyllidebau gweithredol eu monitro bob mis.
- Mae gweithgarwch monitro'r gyllideb yn digwydd yn gyson trwy gydol y flwyddyn, o fewn gwasanaethau, i'r Cabinet ac i weithgorau Swyddogion sy'n Aelodau e.e. Grŵp Datblygu a CMG ac arbedion y rhaglen drawsnewid i'r Grŵp Trawsbleidiol Ymgynghorol am Drawsnewid ac Effeithlonrwydd.
- Cynhelir cyfarfodydd chwarterol o'r Panel Gweithredol yn ôl y gofyn gyda Swyddogion Arweiniol Corfforaethol, ynghyd ag Arweinydd y Cyngor, y Prif Weithredwr, y Swyddog Arweiniol Corfforaethol dros Gyllid a'r Aelod Cabinet sydd â chyfrifoldeb dros Gyllid.

**G. Gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd ac archwilio i sicrhau atebolrwydd effeithiol:**

**Gweithredu arferion da o ran tryloywder**

- Gwefan y Cyngor.
- Darlledir cyfarfodydd y Cyngor a'r Cabinet.
- Templedi safonol ar gyfer y Cabinet, Craffu a'r Cyngor.
- Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.
- Defnyddio Modern.Gov er mwyn cyhoeddi agendâu a Gwybodaeth am Gynghorwyr.
- Mae manylion cyswllt Cynghorwyr, eu cofnodion presenoldeb, eu haelodaeth o Bwyllgorau a'r Datganiadau Datgelu Buddiannau ar gael ar wefan y Cyngor.
- Mae adroddiadau blynyddol Cynghorwyr ar gael ar wefan y Cyngor.
- Mae Adroddiad Blynyddol Trosolwg a Chraffu ar gael ar wefan y Cyngor.
- Mae Adroddiad Blynyddol y Gwasanaethau Democrataidd ar gael ar wefan y Cyngor.
- Yn unol â gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021, mae offer wedi'i osod yn Siambr y Cyngor i alluogi cynnal cyfarfodydd hybrid. Mae'r Cyngor yn cynnig ffyrdd amgen i ddinasyddion droi at wybodaeth os nad ydynt yn gallu manteisio ar wasanaethau digidol. Gallant ffonio Canolfan Gyswllt y Cyngor neu ymweld â'i Lyfrgelloedd lle gall y cyhoedd droi at gyfrifiaduron sydd ar gael neu wasanaeth Wi-Fi 4G am ddim, sy'n caniatáu i unrhyw un ddefnyddio eu dyfais eu hunain.

**Gweithredu arferion da o ran tryloywder**

- Cyhoeddir Adroddiad Blynyddol ar yr Hunanasesiad ac Amcanion Gwella a Llesiant y Cyngor Sir ar wefan Cyngor Sir Ceredigion er mwyn hysbysu dinasyddion Ceredigion o'r gweithgareddau a'r camau y mae'r Cyngor yn eu cymryd er mwyn cefnogi ei Amcanion Gwella a Llesiant. Mae hyn yn rhan o hunanasesiad y Cyngor hefyd. Mae cynllun cryno ar gael hefyd mewn swyddfeydd cyhoeddus ar gyfer ein dinasyddion.
- Cyhoeddir datganiadau ariannol blynyddol ar wefan y Cyngor.
- Mae Datganiad Llywodraethu Blynyddol y Cyngor yn dangos tystiolaeth o'r ffordd y mae'n cydymffurfio â saith Egwyddor graidd y Fframwaith Llywodraethu a'r is-egwyddorion sydd yn y Fframwaith ac yn y Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol, gan gynnwys sut y mae'n gweithredu trefniadau cywir er mwyn llywodraethu ei faterion, yn hwyluso gweithrediad effeithiol ei swyddogaethau ac yn gwneud trefniadau ar gyfer rheoli risg (datblygwyd y Fframwaith Llywodraethu yn 2010 ac fe'i diwygiwyd yn unol â Fframwaith *Delivering Good Governance in Local Government* CIFA/SOLACE 2016). Mae'n cydymffurfio hefyd â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
- Cynhaliwyd asesiad o'r fframwaith ar gyfer llywodraethu corfforaethol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth. Penderfyniad i'w wneud gan y Cyngor ynghylch cymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ai peidio, ynghyd â'r Datganiad Cyfrifon.
- Rhannwyd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol gyda chyfrifon, gan ei adolygu a'i ddiweddaru gydag Aelodau a Swyddogion gan gynnig proses ymgysylltu ehangach.
- Mae Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol y Cyngor yn dangos bod y trefniadau llywodraethu corfforaethol angenrheidiol mewn grym ganddo er mwyn sicrhau perfformiad effeithiol. Mae'r Cod Llywodraethu Lleol yn ddatganiad cyhoeddus sy'n nodi'r ffordd y bydd y Cyngor yn cyflawni'r ymrwymiad hwnnw.
- Mae goblygiadau ariannol yn ofyniad er mwyn eu cynnwys yn holl adroddiadau Cyfarfodydd y Cabinet. Diweddarwyd Rheoliadau Ariannol a'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol (Dogfen F y Cyfansoddiad), a'r Rheolau Gweithdrefn Contract (Dogfen G y Cyfansoddiad).

- Arferion cyfrifyddu – cydymffurfir â Chodau Ymarfer, caiff Dangosyddion Darbodus eu paratoi a'u hadrodd i'r Cyngor a'u monitro trwy gydol y flwyddyn. Cynhelir gweithgarwch rheolaidd er mwyn monitro'r gyllideb trwy gydol y flwyddyn. Yn ogystal, mae'r Archwilydd Mewnol yn adolygu trefniadau rheoli ynghylch casglu a monitro incwm.

**Sicrwydd ac atebolrwydd effeithiol**

- Mae perthynas waith dda yn bodoli gyda Llywodraeth Cymru a rheolyddion allanol, gan gynnwys Archwilio Cymru, Estyn, Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol ('FSA') a'r Asiantaeth Safonau Bwyd fel rheolyddion allweddol.
- Cofnodir Protocol Archwilio Cymru ac mae gweithdrefnau mewn grym er mwyn sicrhau y rhoddir sylw i'r holl 'Ffurflenni Ymateb Rheolwyr' o bob adroddiad Archwilio Cymru, a bod ymatebion Gwasanaeth yn cael eu cyflwyno i'r Grŵp Arweiniol, y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac Archwilio Cymru.
- O ran monitro cynnydd camau gweithredu/argymhellion, y Swyddog Llywodraethu yw pwynt cyswllt Archwilio Cymru ar gyfer Ffurflenni Ymateb Rheolwyr ('MRFs') a materion llywodraethu/MRFs sy'n ymwneud â llywodraethu parhaus. Disgrifir y system hon mewn Protocol, a gymeradwywyd gan y Grŵp Arweiniol ac a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, a chyflwynwyd fersiwn wedi'i ddiweddaru (er mwyn adlewyrchu'r ffaith bod y Swyddog Gwella a Pherfformiad Corfforaethol yn eu swydd) i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ystod ei gyfarfod ar 9.9.2021.
- Cynhelir cyfarfodydd misol hefyd rhwng Swyddogion Perfformio ac Archwilio Cymru a gellir eu trefnu â swyddogion eraill os oes angen. Ceir deialog reolaidd gyda chynrychiolwyr o Archwilio Cymru.
- Rhoddir sylw i argymhellion gan Archwilio Cymru yn y trefniadau Rheoli Perfformiad Corfforaethol.
- Cyflwynir holl adroddiadau Archwilio Cymru i'r grŵp Arweiniol a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, sy'n monitro rhoi'r camau gweithredu cywiro gofynnol ar waith.
- Mae proses er mwyn monitro cynnydd Camau Gweithredu wedi'i datblygu.
- Mae'r Prif Archwilydd Mewnol (CMIA) wrthi ar hyn o bryd yn astudio er mwyn sicrhau cymhwyster Sefydliad Archwilwyr Mewnol (IIA) ac mae ganddynt brofiad helaeth ym maes llywodraeth leol, ac wedi'u cefnogi gan dîm sy'n meddu ar sgiliau a gwybodaeth briodol.
- Mae'r Rheolwr Archwilio wrthi'n gwneud cymhwyster Sefydliad Archwilwyr Mewnol (IIA).
- Mae dau archwilydd yn datblygu sgiliau archwilio TGCh.
- Mae Swyddogion Archwilio Mewnol yn astudio am gymwysterau archwilio er mwyn gwella eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u cymhwysedd.
- Gweithredwyd proses i ailstrwythuro Archwilio Mewnol ym mis Mai 2019, a chynhaliwyd rhai eraill ym mis Tachwedd 2020 ac ym mis Ebrill 2022. Mae'r gwasanaeth wedi bod yn manteisio ar adnoddau llawn er 1 Mehefin 2022.
- Mae CMIA newydd wedi bod yn y swydd o 1 Ionawr 2022, ac mae ganddynt brofiad sylweddol ym maes Archwilio Mewnol, ac fe'u cefnogir gan Reolwr Archwilio gwybodus a medrus.
- Mae gan rôl CMIA fynediad rhydd a dilyffethair i Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac mae'r ddau yn cyfarfod yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn.
- Mae gweithgarwch cynllunio busnes a blaenraglen waith gadarn sy'n seiliedig ar risg yn eu lle.

- Adroddir yn rheolaidd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ynghylch gweithgarwch Archwilio Mewnol, h.y. Adroddiadau Cynnydd Archwilio Mewnol chwarterol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio er mwyn monitro perfformiad cynnydd a gwella, a rhoddir crynodeb o'r gwaith a'r farn archwilio ynghylch sicrwydd mewn Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol bob blwyddyn ar ddiwedd y flwyddyn. Cynhelir adolygiadau dilynol er mwyn monitro camau gweithredu cywirol.
- Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn adolygu ac yn cymeradwyo'r Siarter Archwilio Mewnol yn rheolaidd (cymeradwywyd y fersiwn diwethaf gan y Pwyllgor Archwilio ar 19/01/2022).
- Mae CMIA yn cynnig barn wrthrychol flynyddol am sicrwydd ynghylch prosesau rheoli risg, rheoli a llywodraethu y Cyngor, ar sail y sicrwydd unigol a roddir i Reolwyr ar ôl pob adolygiad archwilio, ac mae hyn yn cyfrannu i'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.
- Adroddir am y cydymffurfio â PSIAS bob blwyddyn i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a chynllun gwella yn dilyn hyn. Cynhelir gweithgarwch adolygu asesu gan gymheiriaid bob pum mlynedd (cynhaliwyd yr adolygiad diweddaraf ym mis Mai 2022 gan Gyngor Sir Ynys Môn, cyflwynwyd yr adroddiad a'r cynllun gwella dilynol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 27 Medi 2022). Daeth yr asesydd allanol i'r casgliad bod swyddogaeth Archwilio Mewnol Cyngor Sir Ceredigion yn cydymffurfio'n gyffredinol â'r PSIAS. Fel canlyniad o'r asesiad allanol mae'r adran yn cydymffurfio â 50 o'r meysydd arfer gorau, cydymffurfio rannol mewn 6 maes, a gyda dim ardaloedd o ddiffyg cydymffurfio.
- Cenhadaeth Archwilio Mewnol yw gwella a diogelu gwerth sefydliadol trwy gynnig sicrwydd, cyngor a barn wrthrychol ac sy'n seiliedig ar risg. Nodir manylion hyn yn y Siarter Archwilio fewnol, sy'n nodi hawl mynediad Archwilio Mewnol hefyd (yn unol â Rheoliadau Ariannol/Cyfansoddiad y Cyngor).
- Pennir cytundebau Atebolrwydd a Phartneriaeth mewn prosiectau ar y cyd.

# 4 Barn am lefel y sicrwydd y gall y trefniadau llywodraethu ei rhoi

Mae'r Rheolwr Corfforaethol–Archwilio Mewnol (CMIA) yn paratoi Adroddiad Archwilio Mewnol Blynyddol ar ddiwedd y flwyddyn, a gyflwynir fel rheol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ei gyfarfod ym mis Mehefin. Mae'r adroddiad yn amlinellu canlyniadau unigol a chyfunol yr adolygiadau archwilio a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn, ac mae'n rhoi'r farn archwilio gyffredinol am sicrwydd yn seiliedig ar y gwaith archwilio hwnnw. Mae'r sicrwydd a roddir hefyd yn rhoi sylw i gynnydd o ran gweithredu gwelliannau, ystyriaeth o'r gofrestr risgiau, a'r sicrwydd a roddir mewn adroddiadau a gyhoeddwyd gan reoleiddwyr allanol. Yn yr adroddiad ceir manylion ynghylch cwmpas y gwaith archwilio, a'r angen i ailflaenoriaethu'n gyson er mwyn sicrhau bod gwaith digonol yn cael ei gyflawni ar gyfer rhoi sicrwydd.

Mae'r Adroddiad Blynyddol ar ddiwedd y flwyddyn yn cynnwys canlyniadau hunanasesiad blynyddol y gwasanaeth archwilio mewnol, sy'n seiliedig ar dempled Nodyn Cymhwyso CIPFA i Lywodraeth Leol. Roedd y templed yn destun adolygiad allanol gan gymheiriaid ym mis Mai 2022, a'r bwriad yw ailadrodd asesiad allanol bob pum mlynedd fel sy'n ofynnol gan Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS). Mae'r cynlluniau gwella sy'n deillio o'r asesiadau hyn yn cael eu cynnwys yn

yr Adroddiadau Cynnydd chwarterol a gyflwynir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, a chânt eu hadolygu'n flynyddol yn yr Adroddiad Archwilio Mewnol Blynyddol.

Mae'r Cynlluniau Gwella yn nodi'r gwelliannau a wnaed ac y bwriedir eu gwneud yn sgil yr argymhellion sy'n codi o'r asesiadau, ynghyd â chanlyniadau Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwella'r gwasanaeth yn unol â gofynion PSIAS, er mwyn sicrhau bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn medru monitro cynnydd y gwasanaeth.

Lluniwyd Adroddiad am gynnydd Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2022-2023 a Chynllun Gweithredu'r Flwyddyn Gyfredol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 27 Medi 2023

Mae Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol 1/4/2022-30/6/2022 (a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 27 Medi 2022, a'r cyfnodau dilynol i'w disgwyl ar 17 Ionawr 2023, 9 Mawrth 2023 a 21 Mehefin 2023) yn cynnwys y camau gweithredu a gymerwyd hyd yma er mwyn cyflawni'r gwelliannau arfaethedig a nodwyd.

Mae strwythur staffio'r gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi bod yn gyflawn yn ystod y flwyddyn 2022-2023.

Ar 10 Mawrth 2022 hefyd, cyflwynodd y CMIA y Strategaeth a'r Cynllun Archwilio Mewnol ar gyfer 2022/23 i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Diben hwn yw sicrhau bod gwaith yn cael ei gyflawni ar lefel ddigon eang i ategu'r farn flynyddol am effeithiolrwydd y systemau llywodraethu, gwaith rheoli risgiau, a rheolaeth fewnol ar draws y Cyngor. Roedd y Strategaeth a'r Cynllun Archwilio Mewnol ar gyfer 2022/23 yn crynhoi'r meysydd gwaith yr oedd yr Adran Archwilio Mewnol yn bwriadu canolbwyntio arnynt yn ystod y flwyddyn, gan ystyried y sefyllfa oherwydd y pandemig.

Mae'r gwasanaeth wedi cael ei ddarparu ar sail fwy adweithiol eleni, yn yr un modd â'r flwyddyn flaenorol, oherwydd yr amryw risgiau a gyflwynwyd yn sgil newidiadau angenrheidiol i arferion gweithio'r Cyngor, er enghraifft grantiau untro'n cael eu rhoi, grwpiau'n cael eu sefydlu i dargedu meysydd penodol lle'r oedd newid yn digwydd, mwy o staff yn gweithio gartref, ac ati. Mae gwaith archwilio mewnol wedi'i asesu yn barhaus ac mae anghenion a blaenoriaethau cyfnewidiol y Cyngor wedi cael eu hystyried yn rheolaidd. Yn ychwanegol i'r gwaith adweithiol hwn, rhoddir sicrwydd ar gyfer 2022/23 ar adolygiadau a gynllunnir ac sy'n cael eu cario ymlaen neu'n cael eu cynnal yn ystod y flwyddyn er mwyn asesu lefel flynyddol y sicrwydd ar gyfer y Cyngor. Mae'r holl gamau gweithredu a gymerwyd wedi bod yn gyson â'r nodyn cyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Cynghori ar Safonau Archwilio Mewnol. At hynny, mae rhagor o adnoddau wedi'u neilltuo i ddatblygu'r system mapio sicrwydd er mwyn ategu ymhellach y sicrwydd a roddir ar ddiwedd y flwyddyn.

Mae gan y Cyngor, er enghraifft, rwymedigaeth daer i ddyfarnu grantiau amrywiol i fusnesau cymwys yn y Sir, ac oherwydd hawliadau twyllodrus posibl, mae Archwilio Mewnol wedi parhau i adolygu sampl o geisiadau cyn talu (mae'n haws stopio taliadau nag adfer yr arian wedi hynny), gan ychwanegu gwerth i weithrediadau'r Cyngor o ganlyniad i amgylchiadau sy'n newid, fel y'i cefnogir gan nodiadau arweiniad y Bwrdd Cynghori Safonau Archwilio Mewnol.

Daeth y CMIA i’r casgliad yn ei Hadroddiad Blynyddol 2021/22 a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 06/06/2022 bod gan y Cyngor fframwaith boddhaol o lywodraethu, rheoli risg a rheolaethau mewnol ar waith i reoli cyflawni amcanion y sefydliad yn ystod y flwyddyn, yn seiliedig ar:

- nifer, cwmpas a’r sicrwydd a gafwyd o’r adolygiadau mewnol ac allanol a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2022,
- a’r ffaith bod y rheolwyr wedi derbyn y camau a gymerwyd (pan fo modd).

Fodd bynnag, oherwydd effaith barhaus y pandemig, dylid nodi na chafodd unrhyw ysgolion eu hadolygu yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, cynhaliwyd archwiliadau penodol wrth archwilio’r Grant Gwella Addysg a’r grant Datblygu Disgyblion (PDG).

Bydd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn destun adolygiad gan Archwilio Cymru er mwyn sicrhau ei fod yn gyson â’r wybodaeth sydd ganddo ac â deddfwriaeth. Yn ogystal, mae’r Adran Archwilio Mewnol yn cynnal adolygiad annibynnol blynyddol o’r Fframwaith Llywodraethu Blynyddol ac o’r dull sgorio a’r dystiolaeth, fel y nodir ym Mhwynt 2 uchod.

Swyddog Arweiniol Corfforaethol–Cyswllt Cwsmeriaid y Cyngor yw Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth yr awdurdod, ac mae’n gyfrifol hefyd am Ddiogelu Data a Diogelwch TGCh.

Yn draddodiadol, roedd Fforwm SIRO yn cynnwys arbenigwyr am faterion: e.e. Cyfleusterau, Diogelu Data, Diogelwch TG, Pennaeth TG, Cyfreithiol, AD a rhywfaint o gynrychiolaeth adrannol. Mae hwn yn cyfarfod bob chwarter i drafod materion sy’n ymwneud â risg gwybodaeth a rheoli gwybodaeth.

Mae rolau allweddol a threfniadau craffu presennol y Tîm Asedau Gwybodaeth fel a ganlyn:

- Swyddog Diogelwch TG (‘ITSO’) sy’n cynghori ynghylch diogelwch data, a chynghorwyr ac ymgynghorwyr allanol yn cael eu defnyddio o bryd i’w gilydd i roi prawf ar drefniadau diogelwch yr Awdurdod a chynghori yn eu cylch;
- Swyddog Rheoli Gwybodaeth a Chofnodion (‘IRMO’) sy’n cynghori ynghylch cydymffurfio â’r gyfraith ac sy’n sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau ar waith ac y glynir wrthynt;
- Mae’r Grŵp Corfforaethol Diogelu Data (a elwir yn fewnol yn gyfarfod Grŵp Corfforaethol Diogelu Data / Rhyddid Gwybodaeth / Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol) yn cwrdd bob chwarter, a chaiff ei gadeirio gan y Pennaeth Polisi Gwasanaeth (Dirprwy Pennaeth TGCh a Gwasanaethau Cwsmeriaid);
- Cyflwynir Adroddiadau Blynyddol yn ôl yr angen i Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio’r Cyngor.

Yn ogystal:

- Y Swyddog Diogelwch TG (‘ITSO’) yw Is-gadeirydd Fforwm Diogelwch Sector Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru (WARP Cymru) sy’n cwrdd bob chwarter.
- Y Swyddog Rheoli Gwybodaeth a Chofnodion (‘IRMO’) yw Cadeirydd Cymdeithas Rheoli Gwybodaeth a Chofnodion Cymru ac mae’n trefnu digwyddiadau ar draws Cymru.

- Mae'r IRMO yn aelod o Banel Sicrhau Ansawdd Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru ar gyfer Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Yn dilyn yr adolygiad o'r Fframwaith Llywodraethu, bernir bod y trefniadau llywodraethu cyffredinol yn dda ar y sail bod mwyafrif y sgorau a roddwyd yn 9/10.

Mae cyflwyno'r Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol sy'n amlinellu'r ffordd y mae'r Cyngor wedi ymrwymo i egwyddorion craidd Fframwaith *Delivering Good Governance in Local Government* CIPFA/SOLACE yn cynnig arweiniad i'r holl Aelodau a Swyddogion am yr agenda lywodraethu.

Bydd adolygu'r Cod Llywodraethu Lleol yn rheolaidd yn rhoi lefel uchel o sicrwydd bod y trefniadau llywodraethu'n addas i'w diben.

# 5 Y materion a nodwyd ar gyfer y llynedd (2022-2023)

Mae'r tabl canlynol yn cofnodi'r camau gweithredu a gymerwyd yn ystod 2022-23 i ddatrys y materion a nodwyd yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2021-2022:

Sylwer: bydd unrhyw gamau gweithredu nad ydynt wedi'u cwblhau'n llawn erbyn y dyddiad cwblhau yn cael eu cario ymlaen i Gynllun Gweithredu 2023-2024.

| Mater | Cam gweithredu | Canlyniad / Cynnydd hyd yma | Swyddog Arweiniol | Dyddiad cwblhau |
|---|---|---|---|---|
| A1.1 Sicrhau bod yr Aelodau a'r Swyddogion yn ymddwyn gydag uniondeb ac yn arwain diwylliant lle maent yn gweithredu'n amlwg ac yn gyson er budd y cyhoedd, gan warchod enw da'r sefydliad drwy wneud hynny | Y Swyddog Monitro (SM) i barhau i gynghori Aelodau ymhellach am yr angen i ddatgelu lletygarwch/rhoddion.<br><br>Y Swyddog Monitro i roi cyngor i Brif Swyddogion ymhellach am yr angen i ddatgelu:<br>• cysylltiadau personol agos gyda Swyddogion neu Aelodau eraill,<br>Adolygiad parhaus o ddatganiadau busnes Prif Swyddogion<br><br>Y SM a Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd i barhau i gynnal adolygiad o Aelodau sydd â swyddi cyfarwyddwyr, ymddiriedolaethau neu aelodaeth pan gânt eu penodi i bwyllgorau a chyrff allanol, a'r Swyddog Monitro i ystyried adborth aelodau a gwerth ychwanegol, gan barhau i ddiweddaru'r Cod Ymddygiad ar gyfer Swyddogion ac Aelodau. | Y SM yn parhau i gynghori'r Aelodau bod angen datgelu rhoddion / lletygarwch.<br><br>Y SM yn cynghori aelodau ar yr angen i ddatgelu cysylltiadau personol agos â Swyddogion neu Aelodau eraill, a pharhau i'w hatgoffa o hynny.<br><br>Mae adolygiad parhaus o ddatganiadau busnes Prif Swyddogion yn dal i fynd rhagddo.<br><br>Mae adolygiad o'r Aelodau sydd â swyddi cyfarwyddwyr, ymddiriedolwyr neu aelodaeth yn parhau.<br><br>Gweithio ynghylch adborth gan aelodau a gwerth ychwanegol rhagorol. Mae'r Cod Ymddygiad ar gyfer Swyddogion wedi'i ddiweddaru. | EP/LE | Mawrth 2023- wedi cwblhau |

| Mater | Cam gweithredu | Canlyniad / Cynnydd hyd yma | Swyddog Arweiniol | Dyddiad cwblhau |
|---|---|---|---|---|
| | Diweddaru'r ffurflen Goddefebau i Aelodau<br><br>Ni chynhaliwyd arfarniadau oherwydd pandemig Covid-19 ond maent bellach wedi ailddechrau (wedi'u cynnal ym mis Mai 2021 ac yn parhau i gael eu cynnal yn rhithwir).<br><br>Cod Ymddygiad diwygiedig ar gyfer Swyddogion i'w gyhoeddi ar ôl ei ddiweddaru a'i gymeradwyo.<br><br>Swyddogion i gwblhau modiwl e-hyfforddiant gorfodol ar Foeseg/Twyll ar ôl ei gwblhau a'i gymeradwyo.<br><br>Sefydlwyd camau gweithredu / dogfennau llywodraethu'r Pwyllgor Cynllunio/Rheoli Datblygu, hyfforddiant i'w ddarparu a chynnydd i'w adolygu yn ystod 2022-2023.<br>. | Mae'r ffurflen Goddefebau i aelodau wedi'i diweddaru.<br><br>Arfarniadau wedi'u hailddechrau.<br><br>Adolygiad o God Ymddygiad ar gyfer Swyddogion a gwblhawyd ac a gyhoeddwyd Ebrill 2023, a'r diweddariad Newyddion Staff ar gyfer CeriNet a gyhoeddwyd i hysbysu Staff am newidiadau.<br><br>Cynnwys hyfforddiant cwrs e-ddysgu Moeseg / Twyll wedi'i gwblhau,- Lansiwyd modiwl hyfforddi e-ddysgu Tachwedd 2023.<br><br>Bydd trefniadau llywodraethu yn parhau i gael eu hadolygu mewn perthynas â'r Gwasanaeth Cynllunio, gan gynnwys fel rhan o'r ymateb i argymhellion Adolygiad Dilynol Gwasanaeth Cynllunio Cymru (derbyniwyd 18.7.2023). Grŵp Gorchwyl a Gorffen Aelodau a benodwyd gan y Cyngor 26/10/23. | | |
| A1.2 Sicrhau bod Aelodau'n cymryd yr awenau wrth sefydlu egwyddorion neu werthoedd gweithredu safonol penodol ar gyfer y Sefydliad a'i Staff a'u bod yn cael eu cyfathrebu a'u deall. Dylai'r | Camau gweithredu/dogfennau llywodraethu'r Pwyllgor Cynllunio/Rheoli Datblygu wedi'u sefydlu, hyfforddiant i'w roi a chynnydd i'w adolygu yn ystod 2022-2023. | Bydd trefniadau llywodraethu yn parhau i gael eu hadolygu mewn perthynas â'r Gwasanaeth Cynllunio, gan gynnwys fel rhan o'r ymateb i argymhellion Adolygiad Dilynol y Gwasanaeth Cynllunio (derbyniwyd 18.7.2023). Grŵp Gorchwyl a Gorffen Aelodau wedi'u penodi gan y Cyngor 26/10/23 | EP/LE | Mawrth 2023-yn parhau |

| Mater | Cam gweithredu | Canlyniad / Cynnydd hyd yma | Swyddog Arweiniol | Dyddiad cwblhau |
|---|---|---|---|---|
| rhain adeiladu ar Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus (Egwyddorion Nolan) | | | | |
| A1.3 Arwain trwy esiampl a defnyddio'r gwerthoedd neu'r egwyddorion gweithredol safonol hyn fel fframwaith er mwyn gwneud penderfyniadau a chymryd camau eraill. | Y Grŵp Arweiniol i gael diweddariad am e-Ddysgu gydag AD yn adrodd i'r Grŵp Arweiniol. | Wedi'i gwblhau<br><br>Hyfforddiant Cod Ymddygiad a ddarperir i'r holl Aelodau yn dilyn Etholiadau Lleol 2022 fel rhan o raglen sefydlu gynhwysfawr ar gyfer yr holl Aelodau. Darperir hyfforddiant gloywi ar 18.5.2023. | GE | Mawrth 2023 – wedi'i gyflawni |
| A1.4 Arddangos, mynegi ac ymgorffori'r egwyddorion neu'r gwerthoedd gweithredu safonol drwy bolisïau a phrosesau priodol a adolygir yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn gweithredu'n effeithiol | Cofrestr Penderfyniadau Dirprwyedig i'w chyhoeddi.<br><br>Parhau i fonitro'r nifer sy'n gwneud modiwl e-ddysgu gorfodol Chwythu'r Chwiban. Ar hyn o bryd mae'n is na'r hyn sy'n ofynnol.<br><br>Adolygu polisi Chwythu'r Chwiban. | Mae gwaith ar gyhoeddi Cofrestr Penderfyniadau Dirprwyedig yn dal i fynd rhagddo.<br><br>Parhau i fonitro cwblhau'r modiwl e-ddysgu gorfodol Chwythu'r Chwiban.<br><br>Mae polisi chwythu'r chwiban wedi cael ei adolygu, ei ddiweddaru, a'i gyflwyno i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu (argymhellir cymeradwyo) a'r Cabinet (cymeradwywyd). Diweddarwyd y Polisi a chyhoeddwyd ar CeriNet 17.4.2023. | EP/HR | Mawrth 2023- wedi'i gwblhau |

| Mater | Cam gweithredu | Canlyniad / Cynnydd hyd yma | Swyddog Arweiniol | Dyddiad cwblhau |
|---|---|---|---|---|
| A3.1 Sicrhau bod aelodau a Staff yn dangos ymrwymiad cadarn i'r gyfraith, yn ogystal â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau perthnasol | Hyfforddiant pellach i'w ddarparu i'r holl Aelodau ynghylch eu cyfrifoldebau mewn perthynas ag Egwyddorion Diogelu Data a hysbysiadau preifatrwydd. Hysbysiadau preifatrwydd i Gynghorwyr yn cael eu datblygu ac i'w darparu. | Hyfforddiant wedi'i roi i'r holl Aelodau ynghylch eu cyfrifoldebau mewn perthynas ag Egwyddorion Diogelu Data.<br><br>Hysbysiadau preifatrwydd i Gynghorwyr yn cael eu datblygu ac i'w darparu gan y Swyddog Diogelu Data. | EP/LE | Mawrth 2023 |
| B1.1 Sicrhau bod diwylliant agored ar waith, drwy ddangos, cofnodi a mynegi ymrwymiad y sefydliad i fod yn agored | Cwblhau adolygiad o Gynllun Cyhoeddi'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, sydd ar y gweill. | Diweddarwyd y Polisi Rhyddid Gwybodaeth a'r Polisi Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol (EIR). Mae adolygiad o Gynllun Cyhoeddi'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn mynd rhagddo. | LE/AW/<br>MNH | Mawrth 2023 |
| B3.1 Sefydlu polisi clir ar y math o faterion y bydd y sefydliad yn ymgynghori'n ystyrlon â dinasyddion unigol, defnyddwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid eraill yn eu cylch, neu'n eu cynnwys ynddynt, i sicrhau bod gwasanaeth (neu ddarpariaeth arall) yn cyfrannu at gyflawni'r canlyniadau arfaethedig | O ganlyniad i bandemig Covid-19, bu angen i benderfyniadau gael eu gwneud gan y Grŵp Rheoli Aur am resymau brys (o dan swyddogaeth weithredol dros dro trosglwyddo pŵer sydd ar waith tan 31.8.2021 ac ar gyfer gweithdrefnau gweithredol o dan Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 ar ôl y dyddiad hwnnw), felly mae wedi bod yn amhosibl i nifer o wasanaethau ymgynghori wyneb yn wyneb yn y gymuned ar hyn o bryd, felly diwygiwyd y sgorio i adlewyrchu hyn.<br><br>Parhau i fwrw ymlaen â'r adolygiad o'r Polisi Ymgysylltu â'r Gymuned a fydd yn cynnwys darpariaethau ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid yn y dyfodol. | Nid yw'r Grŵp Rheoli Aur yn cwrdd bellach.<br><br>Mae Polisi Ymgysylltu a Chyfranogi newydd, 'Siarad, Gwrando a Gweithio Gyda'n Gilydd' wedi'i gyhoeddi. Angen adolygu rhoi'r polisi hwn ar waith cyn bod y cam gweithredu wedi'i gwblhau. | AW | Mawrth 2023 |
| D2.3 Ystyried a monitro risgiau | Parhau i roi ystyriaeth i newidiadau deddfwriaethol e.e. | Mae gwaith yn mynd rhagddo i roi cyfrif am | AW/EP | Mawrth |

| Mater | Cam gweithredu | Canlyniad / Cynnydd hyd yma | Swyddog Arweiniol | Dyddiad cwblhau |
|---|---|---|---|---|
| y mae pob partner yn eu hwynebu wrth gydweithio, gan gynnwys risgiau a rennir | Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.<br><br>Gweithredu newidiadau deddfwriaethol, megis ynghylch Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ac ystyried/monitro'r risgiau sy'n wynebu pob partner wrth gydweithio, gan gynnwys risgiau a rennir. | newidiadau deddfwriaethol.<br><br>Bydd risgiau sy'n wynebu pob partner wrth weithio ar y cyd yn parhau i gael eu hystyried/monitro. | | 2023 |
| G3.1 Sicrhau y gweithredir ynghylch argymhellion sy'n ymwneud â chamau cywiro gan archwilwyr allanol | Monitro cynnydd camau gweithredu/argymhellion | Mae'r monitro cynnydd camau gweithredu/argymhellion yn parhau. | EP/AW | Mawrth 2023 |

## 6 Cynllun gweithredu y cytunwyd arno ar gyfer materion i'w hystyried yn ystod 2023-2024

Yn sgil gweithredu ac adolygu fframwaith CIPFA/SOLACE, *Delivering Good Governance in Local Government (2016),* nodwyd y materion a ganlyn i'w datrys yn ystod 2023-24:

| Mater | Cam gweithredu | Canlyniad | Swyddog Arweiniol | Dyddiad cwblhau |
|---|---|---|---|---|
| A1.1 Sicrhau bod yr Aelodau a'r Swyddogion yn ymddwyn gydag uniondeb ac yn arwain diwylliant lle maent yn gweithredu'n amlwg ac yn gyson er budd y cyhoedd, gan | Y Swyddog Monitro i barhau i gynghori Aelodau ar y Cod Ymddygiad.<br><br>MO i barhau i gynghori'r Prif Swyddogion ymhellach am yr angen i ddatgelu:<br><br>• cysylltiadau personol agos gyda Swyddogion neu Aelodau eraill, Adolygiad parhaus o ddatganiadau busnes Prif | Ymgorffori ymddwyn gydag uniondeb ymhellach. | EP/LE | Mawrth 2024 |

| Mater | Cam gweithredu | Canlyniad | Swyddog Arweiniol | Dyddiad cwblhau |
|---|---|---|---|---|
| warchod enw da'r sefydliad drwy wneud hynny | Swyddogion<br><br>Adolygu – Aelodau sydd â swyddi cyfarwyddwr, ymddiriedolaethau, neu aelodaeth, y Swyddog Monitro i ystyried adborth gan aelodau a gwerth ychwanegol. Mae'r Cod Ymddygiad ar gyfer Swyddogion wedi'i ddiweddaru.<br><br>Swyddogion i gwblhau modiwl e-hyfforddiant Gorfodol ynghylch Moeseg/Twyll ar ôl iddo gael ei gwblhau a'i gymeradwyo. (Cynnwys hyfforddiant e-ddysgu wedi'i gwblhau, i'w greu yn fodiwl hyfforddi e-ddysgu yn fuan)<br><br>Camau gweithredu/dogfennau llywodraethu'r Pwyllgor Cynllunio/Rheoli Datblygu wedi'u sefydlu, hyfforddiant i'w roi a chynnydd i'w adolygu yn ystod 2022-2023.<br><br>Bydd trefniadau llywodraethu yn parhau i gael eu hadolygu mewn perthynas â'r Gwasanaeth Cynllunio, gan gynnwys fel rhan o'r ymateb i argymhellion Adolygiad Dilynol Gwasanaeth Cynllunio Cymru (derbyniwyd 18.7.2023). | Cwblhawyd y modiwl e-ddysgu ym mis Tachwedd 2023<br><br>Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi'i sefydlu ym mis Hydref 2023 | | |
| A1.2 Sicrhau bod Aelodau'n cymryd yr awenau wrth sefydlu egwyddorion neu werthoedd gweithredu safonol penodol ar gyfer y Sefydliad a'i Staff a'u bod yn cael eu cyfathrebu a'u | Camau gweithredu/dogfennau llywodraethu'r Pwyllgor Cynllunio/Rheoli Datblygu wedi'u sefydlu, hyfforddiant i'w roi a chynnydd i'w adolygu yn ystod 2022-2023.<br><br>Bydd trefniadau llywodraethu yn parhau i gael eu hadolygu mewn perthynas â'r Gwasanaeth Cynllunio, gan gynnwys fel rhan o'r ymateb i argymhellion Adolygiad Dilynol Gwasanaeth Cynllunio Cymru (derbyniwyd 18.7.2023). | Ymgorffori ymhellach Egwyddorion a gwerthoedd Gweithredu Safonol, gan gynnwys eu cyfathrebu.<br><br>Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi'i sefydlu ym mis Hydref 2023 | EP/LE | Mawrth 2024 |

| Mater | Cam gweithredu | Canlyniad | Swyddog Arweiniol | Dyddiad cwblhau |
|---|---|---|---|---|
| deall.<br><br>Dylai'r rhain adeiladu ar Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus (Egwyddorion Nolan) | Archwilio Cymru – derbyniwyd gosod amcanion archwilio llesiant ym mis Mehefin 2023. Bydd yr argymhellion yn cael eu hateb. | | | |
| A1.4 Arddangos, mynegi ac ymgorffori'r egwyddorion neu'r gwerthoedd gweithredu safonol drwy bolisïau a phrosesau priodol a adolygir yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn gweithredu'n effeithiol | Cyhoeddi Cofrestr Penderfyniadau Dirprwyedig – ar y gweill.<br><br>Adroddiad ar weithgarwch generig chwythu'r chwiban i'w gyflwyno i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu. | Ymgorffori'r egwyddorion Gweithredu Safonol ymhellach a chyfathrebu drwy gyhoeddi dogfennau.<br><br>Penderfyniad dirprwyedig Cofrestr Penderfyniadau i'w chyhoeddi - ar y gweill.<br><br>Cofrestr TPO wedi'i pharatoi ac i'w chyhoeddi Ionawr 2024<br><br>Cofrestr Prif Swyddogion o Fuddiannau Busnes Personol i'w diweddaru a'i chyhoeddi | EP/ HR | Mawrth 2024 |
| A3.1 Sicrhau bod aelodau a staff yn dangos ymrwymiad cryf i reolaeth y gyfraith yn ogystal â chadw at gyfreithiau a rheoliadau perthnasol | Hysbysiadau preifatrwydd i Gynghorwyr yn cael eu datblygu ac i'w darparu gan y Swyddog Diogelu Data. | Dangos ymrwymiad cryf i reolaeth y gyfraith a chadw at gyfreithiau a rheoliadau perthnasol<br>Cymhwyster CIA wedi'i gwblhau - 2023 | EP/LE/<br>AM | Mawrth 2024 |

| Mater | Cam gweithredu | Canlyniad | Swyddog Arweiniol | Dyddiad cwblhau |
|---|---|---|---|---|
| A3.2 Creu amodau i sicrhau bod y Swyddogion statudol, deiliaid swyddi allweddol eraill ac Aelodau yn gallu cyflawni eu cyfrifoldebau yn unol â gofynion deddfwriaethol a rheoliadol. | Mae CMIA wedi cwblhau a chyflawni cymhwyster Archwilydd Mewnol Ardystiedig y Sefydliad Archwilwyr Mewnol. Y CMIA i gwblhau cymhwyster CMIIA yr IIA. | Sicrhau bod deiliaid swyddi allweddol yn gallu cyflawni eu cyfrifoldebau yn unol â gofynion deddfwriaethol a rheoliadol.<br>Cymhwyster CIA wedi'i gwblhau - 2023 | EP/AJ | Mawrth 2024- wedi'i gwblhau<br>CMIIA Mawrth 2026 |
| B1.1 Sicrhau bod diwylliant agored ar waith, drwy ddangos, cofnodi a mynegi ymrwymiad y sefydliad i fod yn agored | Polisi Rhyddid Gwybodaeth a Pholisi Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol i'w diweddaru ymhellach o dan y cynllun busnes cyfredol. Adolygiad o'r Cynllun Cyhoeddi Rhyddid Gwybodaeth i'w gynnal. | Dangos ymrwymiad i fod yn agored. | LE/AW/<br>MNH | Mawrth 2024 |
| B3.1 Sefydlu polisi clir ar y math o faterion y bydd y sefydliad yn ymgynghori'n ystyrlon â dinasyddion unigol, defnyddwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid eraill yn eu cylch, neu'n eu cynnwys ynddynt, i sicrhau bod gwasanaeth (neu ddarpariaeth arall) yn cyfrannu at | Mae Polisi Ymgysylltu a Chyfranogi newydd, 'Siarad, Gwrando a Gweithio Gyda'n Gilydd' wedi'i gyhoeddi. Angen ystyriaeth i roi'r polisi hwn ar waith cyn bod y cam gweithredu wedi'i gwblhau. | Gwella Ymgysylltu â'r Gymuned. | AW | Mawrth 2024 |

| Mater | Cam gweithredu | Canlyniad | Swyddog Arweiniol | Dyddiad cwblhau |
|---|---|---|---|---|
| gyflawni'r canlyniadau arfaethedig. | | | | |
| D2.3 Ystyried a monitro'r risgiau sy'n wynebu pob partner wrth gydweithio gan gynnwys risgiau a rennir | Parhau i ystyried newidiadau deddfwriaethol e.e. Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.<br><br>Gweithredu newidiadau deddfwriaethol, megis ynghylch Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ac ystyried/monitro risgiau y mae pob partner yn eu hwynebu wrth gydweithio, gan gynnwys risgiau a rennir. | Rheoli risg a chydymffurfio â deddfwriaeth er mwyn dangos ymrwymiad i'r gyfraith.<br><br>Gweithredu newidiadau deddfwriaethol – wedi'i gyflawni | AW/EP | Mawrth 2024 |
| E2.2 Cyhoeddi datganiad sy'n nodi'r mathau o benderfyniadau sy'n cael eu dirprwyo a'r penderfyniadau sydd wedi'u neilltuo i'r corff llywodraethu eu gwneud ar y cyd | Cofrestr Penderfyniadau Dirprwyedig i'w chyhoeddi. | Mwy o eglurder ynghylch pa benderfyniadau sy'n cael eu dirprwyo drwy gyfathrebu drwy gyhoeddiadau.<br><br>Cofrestr TPO wedi'i pharatoi ac i'w chyhoeddi Ionawr 2024<br><br>Cofrestr Prif Swyddogion o Fuddiannau Busnes Personol i'w diweddaru a'i chyhoeddi | EP | Mawrth 2024 |
| G3.1 Sicrhau y gweithredir ar sail argymhellion ynghylch camau cywiro, a wneir gan archwilwyr allanol | Monitro cynnydd camau gweithredu/argymhellion – yn parhau. | Sicrwydd a rheoli risg<br><br>Cwblheir Ffurflenni Ymateb Trefniadaeth ar gyfer pob adroddiad Archwilio Allanol ac fe'u cyflwynir i GAC fel eitem sefydlog ar yr agenda. | EP/AW | Mawrth 2024 |

## 7 Casgliad

Mesurodd yr adolygiad blynyddol o’r fframwaith llywodraethu gynnydd yn erbyn Fframwaith newydd *Delivering Good Governance* (2016) CIPFA/SOLACE a chanfuwyd bod y trefniadau llywodraethu cyffredinol yn dderbyniol neu’n dda. Cadarnhaodd yr adolygiad fod trefniadau llywodraethu’r Cyngor yn effeithiol ac yn addas i’r diben.

Mae’r Cyngor wedi gwneud cynnydd da yn ystod y flwyddyn, gan gofnodi llwyddiant yn erbyn pob un o’r saith egwyddor graidd.

Mae datblygu Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol sy’n dod â’r holl godau a’r holl ddogfennau lleol ynghyd mewn un ddogfen yn rhoi sicrwydd bod trefniadau llywodraethu clir ar waith.

Mae’r Cyngor wedi nodi nifer o fân faterion i’w datrys yn ystod 2023/24 ac mae wedi’u nodi mewn cynllun gweithredu er mwyn eu cwblhau (gweler uchod). Caiff y camau gweithredu a gymerwyd o ganlyniad uniongyrchol i’r pandemig eu cofnodi, fel y bo’n briodol.

## 8 Ardystio’r Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Yn ystod y flwyddyn i ddod, y bwriad yw cymryd camau i fynd i’r afael â’r materion uchod er mwyn gwella ein trefniadau llywodraethu ymhellach. Rydym yn fodlon y bydd y camau hyn yn mynd i’r afael â’r angen am welliannau a nodwyd yn ein hadolygiad o effeithiolrwydd, trwy gydol 2023/24, a byddwn yn monitro’r modd y caiff y camau eu rhoi ar waith a’r modd y maent yn gweithredu, fel rhan o’n hadolygiad blynyddol nesaf. Cydnabyddir y gallai’r pandemig atal rhai o’r camau hyn, a rhoddir sylw i hynny ac adroddir yn briodol wrth y Cyngor yn ei gylch yn Natganiad Llywodraethu Blynyddol 2023/24.

# Ffurflen Flynyddol Cydbwyllgorau Llai yng Nghymru ar gyfer y Flwyddyn a Ddaeth i Ben 31 Mawrth 2023

## Datganiadau cyfrifyddu 2022-23 ar gyfer:

**Enw'r corff:** Awdurdod Harbwr Ceredigion (AHC)

| | Y flwyddyn a ddaeth i ben | | Nodiadau a chanllawiau i'r sawl sy'n llunio'r cyfrifon |
|---|---|---|---|
| | 31 Mawrth 2022 (£) | 31 Mawrth 2023 (£) | Dylech dalgrynnu'r holl ffigyrau i'r £ agosaf. Peidiwch â gadael unrhyw flychau yn wag gan gofnodi balansau o £0 neu ddim. Rhaid i bob ffigwr fod yn gyson â'r cofnodion ariannol sylfaenol ar gyfer y flwyddyn berthnasol. |
| **Datganiad o incwm a gwariant/derbyniadau a thaliadau** | | | |
| **1.** Balansau a ddygwyd ymlaen | 0 | 0 | Cyfanswm y balansau a'r cronfeydd wrth gefn ar ddechrau'r flwyddyn fel y'u cofnodwyd yn y cofnodion ariannol. Rhaid iddo fod yn gyson â llinell 7 y flwyddyn flaenorol. |
| **2.** (+) Incwm o drethiant lleol/ardoll | 58,593 | 50,708 | Cyfanswm yr incwm a dderbyniwyd/derbyniadwy yn ystod y flwyddyn o drethiant lleol (praesept) neu ardoll/cyfraniad gan brif gyrff. |
| **3.** (+) Cyfanswm derbyniadau eraill | 213,345 | 195,070 | Cyfanswm incwm neu dderbyniadau a gofnodwyd yn y llyfr arian parod namyn y symiau a gynhwysir yn llinell 2. Mae'n cynnwys grantiau cymorth, dewisol a refeniw. |
| **4.** (-) Costau staff | 0 | 0 | Cyfanswm gwariant neu daliadau a wnaed i bob gweithiwr cyflogedig ac ar ei ran. Dylech gynnwys cyflogau, TWE ac Yswiriant Gwladol (cyflogeion a chyflogwyr), cyfraniadau pensiwn a threuliau cysylltiedig, e.e. costau terfynu. |
| **5.** (-) Llog ar fenthyciadau/ ad-daliadau cyfalaf | 0 | 0 | Cyfanswm gwariant neu daliadau cyfalaf a llog a wnaed yn ystod y flwyddyn ar fenthyciadau allanol (os o gwbl). |
| **6.** (-)Cyfanswm taliadau eraill | 271,938 | 245,778 | Cyfanswm gwariant neu daliadau fel y'u cofnodwyd yn y llyfr arian parod namyn costau staff (llinell 4) a llog ar fenthyciadau/ad-daliadau cyfalaf (llinell 5). |
| **7.** (=) Balansau a gariwyd ymlaen | 0 | 0 | Cyfanswm y balansau a'r cronfeydd wrth gefn ar ddiwedd y flwyddyn. Rhaid iddo fod yn hafal i (1+2+3) – (4+5+6). |
| **Datganiad o falansau** | | | |
| **8.** (+) Dyledwyr | 30,706 | 12,821 | **Cyfrifon incwm a gwariant yn unig:** Nodwch werth dyledion sy'n ddyledus i'r corff. |
| **9.** (+) Cyfanswm arian parod a buddsoddiadau | -22,359 | 2,139 | **Pob cyfrif:** Swm yr holl gyfrifon banc cyfredol a chadw, daliadau ariannol a buddsoddiadau a ddelir ar 31 Mawrth. Rhaid i hyn fod yn gyson â balans cysoni'r llyfr arian parod yn unol â'r cysoniad banc. |
| **10.** (-) Credydwyr | 8,347 | 14,960 | **Cyfrifon incwm a gwariant yn unig:** Nodwch werth yr arian sy'n ddyledus gan y corff (heblaw costau benthyg) ar ddiwedd y flwyddyn. |
| **11.** (=) Balansau a gariwyd ymlaen | 0 | 0 | **Dylai cyfanswm y balansau fod yn hafal i linell 7 uchod:** Nodwch gyfanswm (8+9-10). |
| **12.** Cyfanswm asedau sefydlog ac asedau hirdymor | 1,206,637 | 1,282,840 | Gwerth cofrestr asedau a buddsoddiadau pob ased sefydlog, ynghyd ag unrhyw asedau hirdymor eraill a ddelir ar 31 Mawrth. |
| **13.** Cyfanswm benthyciadau | 0 | 0 | Balans cyfalaf dyledus pob benthyciad gan drydydd partïon ar 31 Mawrth (gan gynnwys PWLB). |

# Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Rydym yn cydnabod, fel aelodau o'r Corff, ein cyfrifoldeb am sicrhau bod system rheolaeth fewnol gadarn ar waith, gan gynnwys paratoi'r datganiadau cyfrifyddu. Rydym yn cadarnhau, hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred, o ran y datganiadau cyfrifyddu ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023, ein bod wedi gwneud y canlynol:

| | **Cytunwyd?** | | **Mae 'DO' yn golygu bod y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor wedi gwneud y canlynol:** | **Cyf y Canllaw i Ymarferwyr** |
|---|---|---|---|---|
| | **Do** | **Naddo*** | | |
| **1.** Rhoi trefniadau ar waith ar gyfer:<br>• rheolaeth ariannol effeithiol yn ystod y flwyddyn; a<br>• pharatoi a chymeradwyo'r datganiadau cyfrifyddu. | ◉ | ○ | Pennu ei gyllideb a rheoli ei arian yn briodol a pharatoi a chymeradwyo ei ddatganiadau cyfrifyddu fel a ragnodir gan y gyfraith. | 6, 12 |
| **2.** Cynnal system rheolaeth fewnol ddigonol, gan gynnwys mesurau a gynlluniwyd i atal a chanfod twyll a llygredigaeth, ac adolygu ei heffeithiolrwydd. | ◉ | ○ | Gwneud trefniadau priodol a derbyn cyfrifoldeb am warchod yr arian cyhoeddus a'r adnoddau dan ei reolaeth. | 6, 7 |
| **3.** Cymryd yr holl gamau rhesymol i roi sicrwydd i ni'n hunain nad oes unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio gwirioneddol na phosibl â chyfreithiau, rheoliadau na chodau ymarfer a allai gael effaith ariannol sylweddol ar allu'r Corff i gynnal ei fusnes neu ar ei sefyllfa ariannol. | ◉ | ○ | Ond wedi gwneud pethau y mae ganddo'r pŵer cyfreithiol i'w gwneud ac wedi cydymffurfio â chodau ymarfer a safonau wrth wneud hynny. | 6 |
| **4.** Darparu cyfle priodol i etholwyr arfer eu hawliau yn unol â gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014. | ◉ | ○ | Rhoi'r cyfle i bob unigolyn â buddiant archwilio cyfrifon y corff yn unol â'r hyn a nodir yn yr hysbysiad o'r archwiliad. | 6, 23 |
| **5.** Cynnal asesiad o'r risgiau sy'n wynebu'r Corff ac wedi cymryd camau priodol i reoli'r risgiau hynny, gan gynnwys cyflwyno rheolaethau mewnol a/neu yswiriant allanol lle y bo angen. | ◉ | ○ | Ystyried y risgiau ariannol a'r risgiau eraill a wynebir ganddo wrth weithredu'r corff ac ymdrin â hwy'n briodol. | 6, 9 |
| **6.** Cynnal system archwilio mewnol ddigonol ac effeithiol ar gyfer y cofnodion cyfrifyddu a'r systemau rheoli drwy gydol y flwyddyn ac wedi cael adroddiad gan yr archwilydd mewnol. | ◉ | ○ | Trefnu i unigolyn cymwys, yn annibynnol ar y rheolaethau a'r gweithdrefnau ariannol, roi barn wrthrychol ar ba un a yw'r rhain yn diwallu anghenion y corff. | 6, 8 |
| **7.** Ystyried a oes unrhyw ymgyfreithiad, rhwymedigaethau neu ymrwymiadau, digwyddiadau neu drafodion, a ddigwyddodd naill ai yn ystod y flwyddyn neu ar ôl i'r flwyddyn ddod i ben, yn cael effaith ariannol ar y Corff a, lle y bo'n briodol, wedi eu cynnwys yn y datganiadau cyfrifyddu. | ◉ | ○ | Datgelu popeth y dylai fod wedi ei ddatgelu am ei fusnes yn ystod y flwyddyn gan gynnwys digwyddiadau a ddigwyddodd ar ôl i'r flwyddyn ddod i ben os ydynt yn berthnasol. | 6 |
| **8.** Cymryd camau priodol i fynd i'r afael â phob mater a godwyd mewn adroddiadau blaenorol gan archwilwyr mewnol ac allanol. | ◉ | ○ | Ystyried a chymryd camau priodol i fynd i'r afael â phroblemau/gwendidau a ddygwyd i'w sylw gan archwilwyr mewnol ac allanol. | 6, 8, 23 |

* Ar ddalen ar wahân, rhowch esboniadau i'r archwilydd allanol ar gyfer pob ymateb 'naddo' a roddwyd; a disgrifiwch pa gamau gweithredu sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r gwendidau a nodwyd.

## Nodiadau datgelu ychwanegol*

| Darperir yr wybodaeth ganlynol i gynorthwyo'r darllenydd i ddeall y datganiadau cyfrifyddu a/neu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol |
|---|
| **1.** |
| **2.** |
| **3.** |

* Dylid cynnwys yma unrhyw ddatgeliadau ychwanegol sy'n angenrheidiol yn nhyb y Cyngor i gynorthwyo'r darllenydd i ddeall y datganiadau cyfrifyddu a/neu'r datganiad llywodraethu blynyddol.

## Cymeradwyaeth ac ardystiad y Corff

Y Corff sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau cyfrifyddu a'r datganiad llywodraethu blynyddol yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (y Ddeddf) a Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014.

| **Ardystiad gan y Swyddog Cyllid Cyfrifol**<br>Ardystiaf fod y datganiadau cyfrifyddu yn y Ffurflen Flynyddol hon yn rhoi darlun teg o sefyllfa ariannol y Corff, a'i incwm a'i wariant, neu'n cyflwyno'r derbyniadau a'r taliadau'n briodol, yn ôl y digwydd, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023. | **Cymeradwyaeth gan y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor**<br>Cadarnhaf fod y datganiadau cyfrifyddu hyn a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi eu cymeradwyo gan y Corff o dan gyfeirnod cofnod:<br>**Cyfeirnod cofnod:** |
|---|---|
| **Llofnod y Swyddog Cyllid Cyfrifol:** | **Llofnod Cadeirydd y cyfarfod:** |
| **Enw:** | **Enw:** |
| **Dyddiad:** | **Dyddiad:** |

# Tystysgrif Archwilio ac adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru

Adroddaf mewn perthynas a'm harchwiliad o'r cyfrifon o dan adran 13 o'r Ddeddf, a yw unrhyw faterion sy'n dad i'm sylw yn peri pryder nad yw deddfwriaeth a gofynion rheoliadol perthnasol wedi'u bodloni. Cynhaliwyd fy archwiliad ynunol a chanllawiau a gyhoeddwyd gan Ar chwilydd Cyffredinol Cymru.

Ardystiaf fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o'r Datganiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023 ar gyfer:

| **Awdurdod Harbwr Ceredigion** |
|---|

## Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol

**Barn archwilio - Diamod**

Ar sail fy adolygiad, yn fy rnam i, nid oes unrhyw faterion wedi dod i'm sylw gan beri pryder bod y wybodaeth a adroddir yn y Datganiad Blynyddol hwn mewn unrhyw ffordd berthnasol:

- nad yw wedi'i baratoi yn unol ag arferion priodol;
- nad yw deddfwriaeth berthnasol a gofynion rheoliadol wedi'u bodloni; ac
- nad ydynt yn gyson a threfniadau llywodraethu'r harbwr.

**Materion eraill sy'n codi ac argymhellion**

Nid oes unrhyw faterion pellach nac argymhellion yr wyf yn dymuno'u dwyn i sylw'r Harbwr.

| **Enw'r archwillwr allanol:** | |
|---|---|
| **Llofnod yr archwiliwr allanol:**<br><br>**Ar gyfer ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru** | **Dyddiad:** |

## Adroddiad archwilio mewnol Blynyddol ar gyfer:

**Enw'r corff:** Awdurdod Harbwr Ceredigion (AHC)

Mae archwiliad mewnol y Corff, gan weithredu'n annibynnol ac ar sail asesiad o risg, wedi cynnwys cynnal asesiad dewisol o gydymffurfiaeth â'r gweithdrefnau a'r rheolaethau perthnasol y disgwylir iddynt fod ar waith yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben 31 Mawrth 2023.

Cynhaliwyd yr archwiliad mewnol yn unol ag anghenion y Corff a'r gwaith a drefnwyd. Ar sail y canfyddiadau yn y meysydd a archwiliwyd, ceir crynodeb o gasgliadau'r archwiliad mewnol yn y tabl hwn. Nodir isod amcanion rheolaeth fewnol a chasgliadau'r archwiliad mewnol ar ôl ystyried a oedd yr amcanion canlynol o ran rheolaeth, ym mhob ffordd bwysig, yn cael eu bodloni drwy gydol y flwyddyn ariannol i safon sy'n ddigonol i ddiwallu anghenion y Corff.

| | Cytunwyd? | | | | Amlinelliad o'r gwaith a wnaed fel rhan o'r archwiliad mewnol (DS nid oes angen hyn os cyflwynwyd adroddiad archwilio mewnol manwl i'r corff) |
|---|---|---|---|---|---|
| | Do | Naddo* | Amh. | Heb ei gynnwys ** | |
| **1.** Mae'r llyfrau cyfrifon priodol wedi'u cadw'n briodol drwy gydol y flwyddyn. | ● | ○ | ○ | ○ | Rheolir y cyfrif drwy ledjer ariannol cyfrifiadurol Cyngor Sir Ceredigion, ac fe'i gefnogir gan bapurau gwaith manwl (taenlenni). |
| **2.** Bodlonwyd rheoliadau ariannol, ategwyd taliadau gan anfonebau, cymeradwywyd gwariant a rhoddwyd cyfrif priodol am TAW. | ● | ○ | ○ | ○ | Gweinyddir taliadau yn unol â Rheoliadau Ariannol a chanllawiau caffael Cyngor Sir Ceredigion. |
| **3.** Asesodd y corff y risgiau sylweddol i gyflawni ei amcanion ac adolygodd ddigonolrwydd y trefniadau ar gyfer eu rheoli. | ● | ○ | ○ | ○ | Mae'r corff yn glwm wrth drefniadau rheoli risg corfforaethol y Cyngor. |
| **4.** Deilliodd y gofyniad blynyddol am braesept/ardoll/adnoddau o broses gyllidebu ddigonol, cafodd cynnydd yn erbyn y gyllideb ei fonitro'n rheolaidd, ac roedd y cronfeydd wrth gefn yn briodol. | ● | ○ | ○ | ○ | Mae'r gyllideb wedi ei gosod a chaiff ei monitro yn unol â gweithdrefnau cyllidebol blynyddol Cyngor Sir Ceredigion. |
| **5.** Cafodd yr incwm disgwyliedig ei dderbyn yn llawn, ar sail prisiau cywir, ei gofnodi'n briodol a'i fancio'n brydlon, a rhoddwyd cyfrif priodol am TAW. | ● | ○ | ○ | ○ | Mae'r ffioedd a gesglir yn unol â'r hyn a ddyfynnir yn ffioedd a thaliadau Cyngor Sir Ceredigion / cytundebau ac fe'u gweithredir yn unol â gweithdrefnau incwm Cyngor Sir Ceredigion. |
| **6.** Ategwyd taliadau arian mân yn briodol gan dderbynebau, cymeradwywyd gwariant a rhoddwyd cyfrif priodol am TAW. | ○ | ○ | ● | ○ | Ni chyflwynir cyfrifon imprest ar arian mân i'r Harbwrfestri. |
| **7.** Talwyd cyflogau i gyflogeion a lwfansau i aelodau yn unol â chymeradwyaethau a gofnodwyd, a chymhwyswyd gofynion TWE ac Yswiriant Gwladol yn briodol. | ● | ○ | ○ | ○ | Gweinyddir cyflogau a'u talu yn unol â threfniadau Adnoddau Dynol a Rheoliadau Ariannol Cyngor Sir Ceredigion. |
| **8.** Roedd y cofrestrau asedau a buddsoddiadau yn gyflawn, yn gywir, ac yn cael eu cynnal yn briodol. | ● | ○ | ○ | ○ | Caiff y ddwy gofrestr eu cynnal yn unol â chanllawiau Cyngor Sir Ceredigion. |

| | Cytunwyd? | | | | Amlinelliad o'r gwaith a wnaed fel rhan o'r archwiliad mewnol (DS nid oes angen hyn os cyflwynwyd adroddiad archwilio mewnol manwl i'r corff) |
|---|---|---|---|---|---|
| | Do | Naddo* | Amh. | Heb ei gynnwys ** | |
| **9.** Cafodd cysoniadau cyfrifon banc cyfnodol ac ar ddiwedd y flwyddyn eu cynnal yn briodol. | ◉ | ○ | ○ | ○ | Yn unol â phwynt 4 – caiff y gyllideb ei gosod a'i monitro yn unol â gweithdrefnau ariannol blynyddol Cyngor Sir Ceredigion. |
| **10.** Cafodd datganiadau cyfrifyddu a baratowyd yn ystod y flwyddyn eu paratoi ar y sail cyfrifyddu gywir (derbyniadau a thaliadau/incwm a gwariant), roeddent yn gyson â'r llyfr arian parod, wedi'u hategu gan drywydd archwilio digonol o gofnodion sylfaenol, a, lle y bo'n briodol, cafodd dyledwyr a chredydwyr eu cofnodi'n briodol. | ◉ | ○ | ○ | ○ | Yn unol â phwynt 4 – caiff y gyllideb ei gosod a'i monitro yn unol â gweithdrefnau ariannol blynyddol Cyngor Sir Ceredigion. |

**Roedd rheolaethau digonol yn bodoli ar gyfer unrhyw feysydd risg a nodwyd gan y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor (rhestrwch unrhyw feysydd risg eraill isod neu ar dudalennau ar wahân os oes angen):**


| | Cytunwyd? | | | | Amlinelliad o'r gwaith a wnaed fel rhan o'r archwiliad mewnol (DS nid oes angen hyn os cyflwynwyd adroddiad archwilio mewnol manwl i'r corff) |
|---|---|---|---|---|---|
| | Do | Naddo* | Amh. | Heb ei gynnwys** | |
| **11.** Pontynau harbwr wedi'u cynnwys yn rhestr yswiriant eiddo Cyngor Sir Ceredigion. | ◉ | ○ | ○ | ○ | Dogfennau yswiriant – Amserlen Polisi, Modiwl Eiddo a Hysbysiad Modiwl Eiddo i Ddeiliaid Polisi. |
| **12.** Cofrestr Risgiau Corfforaethol – R019: Newid Hinsawdd ac Erydu Arfordirol/Llifogydd. | ◉ | ○ | ○ | ○ | Risg wedi'i chynnwys i fonitro gwaith a wnaed i liniaru'r risg a nodwyd. Y Gofrestr Risgiau yn eitem safonol a Llywodraethu a'r agenda'r Pwyllgor Archwilio. |
| **13.** Nodwch y maes risg | ○ | ○ | ○ | ○ | Mewnosodwch destun |

* Os atebwyd 'naddo', nodwch y goblygiadau a'r camau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael ag unrhyw wendid rheoli a nodwyd (ychwanegwch dudalennau ar wahân os oes angen).

** Os atebwyd 'heb ei gynnwys', nodwch pryd y gwnaethpwyd y gwaith archwilio mewnol mwyaf diweddar yn y maes hwn a phryd y bwriedir ei wneud nesaf, neu os nad oes angen ei gynnwys, rhaid i'r archwilydd mewnol esbonio pam nad oes angen hynny.

## Cadarnhau archwiliad mewnol

Yr wyf fi/Yr ydym ni yn cadarnhau nad wyf i/ydym ni, fel archwilydd mewnol y Corff, wedi ymgymryd â swyddogaeth reoli na gweinyddol o fewn y corff (gan gynnwys paratoi'r cyfrifon) nac fel aelod o'r corff yn ystod y blynyddoedd ariannol 2021-22 a 2022-23. Cadarnhaf hefyd na fu unrhyw achos o wrthdaro buddiannau ynghylch fy mhenodiad.

| |
|---|
| **Enw'r unigolyn a gynhaliodd yr archwiliad mewnol: Alex Jenkins, Rheolwr Corfforaethol – Archwilio Mewnol** |
| **Llofnod yr unigolyn a gynhaliodd yr archwiliad mewnol:**  |
| **Dyddiad: 10fed Awst 2023** |